

Cydgwyfeirio – ESF

Ewrop a Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
Cydgwyfeirio

Rhaglen Weithredol ar gyfer
Cronfa Gymdeithasol Ewrop

2007-2013



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

**Rhaglen Gydyfeirio Gorllewin Cymru
a'r Cymoedd**

**Rhaglen Weithredol ar gyfer Cronfa
Gymdeithasol Ewrop**

2007-2013

Rhif CCI: 2007UK051PO002

12 Mehefin 2009

Cynnwys y Rhaglen Weithredol

<i>Pennod</i>	<i>Tudalen</i>
Crynodeb Gweithredol	(I)
1 Cyflwyniad	1
2 Dadansoddiad	3
3 Y Strategaeth	65
4 Blaenoriaethau	111
5 Themâu Trawsbynciol	167
6 Darpariaethau Gweithredu	177
7 Dyraniadau Ariannol	209

Atodiadau¹

Atodiad A	– Ymatebion i'r Ymgynghoriad
Atodiad B	– Adroddiad ar Wersi a Ddysgwyd
Atodiad C	– Adroddiad Gwerthuso Ex Ante
Atodiad CH	– Dadansoddiad a Matrics Cyfle Cyfartal
Atodiad D	– Matrics Cynaliadwyedd Amgylcheddol
Atodiad DD	– Organogram Llywodraeth Cynulliad Cymru
Atodiad E	– Rhestr Ddangosol o Fframweithiau Strategol
Atodiad F	– Cyfrifoldebau'r Cydlynnydd Fframweithiau Strategol
Atodiad FF	– Llifau a Rheolaethau Ariannol
Atodiad G	– Crynodeb o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso
Atodiad NG	– Dangosyddion
Atodiad H	– Crynodeb o'r Themâu Trawsbynciol a Ddysgwyd

¹ Mae'r Atodiadau ar gael mewn fformat electronig ar safle we WEFO:
<http://www.wefo.cymru.gov.uk>

Rhestr o Ffigurau a Thablau'r Rhaglen Weithredol

Ffigur 1.	Map o ardal Rhaglen Gydyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	5
Ffigur 2.	Dadansoddiad o wahaniaethau mewn GYC y pen ledled Cymru o gymharu â chyfartaledd y DU, cyfartaledd 2001-2003	8
Ffigur 3.	Proffil oedran y boblogaeth y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran yng nghyfrannau grwpiau oedran, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru o gymharu â chyfartaledd Cymru, 2004	10
Ffigur 4.	Proffil oedran y boblogaeth y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran yng nghyfrannau grwpiau oedran, Cymru a'r DU o gymharu â chyfartaledd 25 Aelod-wladwriaeth yr UE, 2004	11
Ffigur 5.	Dadansoddiadau oedran o newid yn y boblogaeth, 1991 2004	12
Ffigur 6.	Dadansoddiadau o newid yn y boblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol, 2001-2004	14
Ffigur 7.	Cynnydd yn erbyn targedau Lisboa 2005 a 2010	18
Ffigur 8.	Cyfraddau cyflogaeth yn ôl Awdurdod Lleol	21
Ffigur 9.	Cyfraddau Anweithgarwch Economaidd yn ôl Awdurdod Lleol	22
Ffigur 10.	Cyfradd anweithgarwch economaidd yn ôl y rheswm a roddwyd, 2004	23
Ffigur 11.	Nifer y bobl economaidd anweithgar yng Nghymru yn uwch na chyfraddau anweithgarwch cyfartalog y DU, yn ôl grŵp oedran, rhyw a rheswm, 2003	25
Ffigur 12.	Mynediad i ganolfannau cyflogaeth allweddol ar fws ac ar droed (a)	27
Ffigur 13.	Cyfradd Cyflogaeth Gweithwyr Hŷn	32
Ffigur 14.	Enillion wythnosol gros cyfartalog (a)(b)	33
Ffigur 15.	Set gymwysterau/sgiliau (y DU=1)	38
Ffigur 16.	Cyfraddau anweithgarwch economaidd yn ôl y cymhwyster uchaf, 2004 (canran o'r boblogaeth oedran gweithio)	41
Ffigur 17.	Swyddi'r gweithlu sifil (y DU=1)	47
Ffigur 18.	Mynegai Gyffredinol Amddifadedd Lluosog	51
Ffigur 19.	Mynediad i wasanaethau	53

Ffigur 20.	Amddifadedd yr Amgylchedd Ffisegol	55
Ffigur 21.	Cysylltiadau rhwng Rhaglenni Gweithredol, canllawiau strategol y Gymuned (CSG) a Chanllawiau Integredig.....	70
Ffigur 22.	Cysylltiadau rhwng amcanion CSG a Blaenoriaethau Cydgyfeirio ESF ac ERDF	71
Ffigur 23.	Ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru	79
Ffigur 24.	Map Polisi Cymru	81
Ffigur 25.	Map o Strategaethau Allweddol.....	82
Ffigur 26.	Strwythurau Cydweithredu a Gweithredu Cynllun Gofodol Cymru	184
Ffigur 27.	Strwythur Arfaethedig y Pwyllgorau	186
Ffigur 28.	Pennu meini prawf dethol a blaenoriaethau	190
Ffigur 29.	Cymhwyso meini prawf dethol a blaenoriaeth	191
Ffigur 30.	Cyfeirio at gymhwyster ac addasrwydd ar gyfer y Fframwaith.....	192
Tabl 1.	Cyfraniad y ffactorau sy'n esbonio gwahaniaethau mewn GYC y pen, canran o'r bwlch cyfan	9
Tabl 2	Poblogaeth yn ôl grŵp oedran, 2004	9
Tabl 3.	Newid yn y boblogaeth ers 1981	11
Tabl 4.	Elfennau'r newid yn y boblogaeth, 2001 – 2004.....	13
Tabl 5.	Tueddiadau o ran ymfudo net blynyddol cyfartalog dadansoddiad o ardaloedd, 2002 – 2004.....	15
Tabl 6.	Crynodeb o'r farchnad lafur, cymhariaeth â 25 Aelod-wladwriaeth yr UE (canran).....	17
Tabl 7.	Crynodeb o'r farchnad lafur – cyflogaeth, diweithdra anweithgarwch economaidd	20
Tabl 8.	Canran yr oedolion sy'n cofnodi afiechydon/cyflyrau dethol	24
Tabl 9.	Crynodeb o'r farchnad lafur, wedi'i ddadgyfuno yn ôl ethnigrwydd ac anabledd.....	29
Tabl 10.	Cyfraddau cyflogaeth yn ôl rhyw ac oedran.....	31
Tabl 11.	Cyfraddau cyflogaeth yn ôl y cymhwyster uchaf, Cymru	37

Tabl 12.	Lefelau'r cymwysterau uchaf a ddelir gan bobl o oedran gweithio ...	39
Tabl 13.	Lefelau'r cymwysterau uchaf a ddelir gan bobl o oedran gweithio, yn ôl rhyw, % o'r boblogaeth oedran gweithio, 2004	40
Tabl 14.	Cyrhaeddiad disgyblion ym mlwyddyn olaf addysg orfodol canlyniadau dros dro 2005/06	42
Tabl 15.	Cyrhaeddiad disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, canlyniadau dros dro 2005/06	43
Tabl 16.	Cyfranogiad mewn dysgu gydol oes, 2004	45
Tabl 17.	Swyddi yn y sector gweithgynhyrchu technoleg uchel a chanolig a gwasanaethau technoleg uchel gwybodaeth ddwys.....	48
Tabl 18.	Risg o fod mewn grwpiau incwm isel ar ôl costau tai Canran (Cyfartaledd treigledig 3 blynedd 2002/03 – 2004/05)	49
Tabl 19.	Nifer a chanran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym mhob pob awdurdod lleol sydd ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig (10%, 20% 30% neu 50%) yng Nghymru	52
Tabl 20.	Dadansoddiad SWOT o Orllewin Cymru a'r Cymoedd.....	58
Tabl 21.	Cyfraniad blaenoriaeth 1 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU.....	85
Tabl 22.	Cyfraniad blaenoriaeth 2 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU.....	86
Tabl 23.	Cyfraniad blaenoriaeth 3 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU.....	87
Tabl 24.	Cyfraniad blaenoriaeth 4 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU.....	88
Tabl 25.	Dangosyddion Olrhain Lefel Rhaglen	99
Tabl 26.	Dangosyddion lefel rhaglen	100
Tabl 27.	Ymatebwyr i'r Ymgynghoriad.....	107
Tabl 28.	Dangosyddion a Thargedau Blaenoriaeth 1	117
Tabl 29.	Dangosyddion a Thargedau Blaenoriaeth 2	130
Tabl 30.	Dangosyddion a Thargedau Blaenoriaeth 3	145
Tabl 31	Dangosyddion a Thargedau Blaenoriaeth 4	157
Tabl 32.	Aelodaeth Gynrychioliadol o'r PMRh yn ôl Sefydliad Sector	186

Tabl 33.	Rhaglen Gydgyfeirio ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Echelau blaenoriaeth yn ôl y ffynhonnell gyllido (mewn miliynau o ewros).....	213
Tabl 34.	Rhaglen Gydgyfeirio ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Blwyddyn yn ôl y ffynhonnell ar gyfer y rhaglen (mewn miliynau o ewros).....	214
Tabl 35.	Dyraniadau dangosol yn ôl y categori o ymyrraeth.....	215

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Mae cytundeb y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop ar gyllideb yr UE ar gyfer 2007-2013 yn golygu y bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn derbyn arian "Cyddyfeirio" – y lefel uchaf o gymorth sydd ar gael o dan y cylch nesaf o raglenni Cronfeydd Strwythurol. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys i dderbyn y cymorth hwn oherwydd pan gytunwyd ar gyllideb yr Under Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 2005, roedd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP) cyfartalog y pen y rhanbarth ychydig o dan 75% o GDP cyfartalog Ewrop – sef y terfyn cymhwys.

Mae hyn yn rhoi cyfle pwysig i Orllewin Cymru a'r Cymoedd adeiladu ar y cynnydd sylweddol iawn a wnaed o dan raglen Amcan 1 2000 - 2006 a chwblhau'r broses o drawsnewid o fod yn rhanbarth yn dioddef problemau economaidd hirfaith i fod yn economi gref a chynaliadwy.

Bydd y rhanbarth yn derbyn cyfanswm o €2.08 biliwn o arian Ewropeaidd i hyrwyddo raglenni Cyddyfeirio sy'n werth dros €4 biliwn. Bydd y rhaglen Gyddyfeirio ESF hon yn derbyn €833 miliwn o arian Ewropeaidd (40% o'r cyfanswm). Pan gyfunir yr arian hwn ag arian cyhoeddus cenedlaethol ac arian preifat, bydd y rhaglen yn darparu €1.50 biliwn i hybu twf a swyddi dros y cyfnod 2007-2013.

Gweledigaeth

Ein gweledigaeth ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yw rhanbarth bywiog, entrepreneuriaidd sydd ar flaen y gad o ran datblygu economaidd cynaliadwy, lle y mae ei bobl yn byw mewn cymunedau ffyniannus, cryf, iach, diogel a lle y bo hynny'n berthnasol, ddwyieithog o fewn amgylchedd naturiol sy'n gwella'n gyson.

Ein huchelgais yw i Orllewin Cymru a'r Cymoedd fod ar flaen y gad yn ymgais yr UE i fod yn batrwm o gynnydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i weddill y byd. Bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn enghraifft o safon fyd-eang o ranbarth o 1.9 miliwn o bobl, ar gyrion daearyddol Ewrop, ond sy'n ffynnu mewn marchnadoedd rhyngwladol cystadleuol ac yn darparu amgylchedd o safon fyd-eang lle y mae pobl am fyw, gweithio a chwarae.

Dadansoddiad

Dengys y dadansoddiad fod economi rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gwella gryn dipyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan barhau ei weddnewidiad o gyfnod hir o newid economaidd pan ddiflannodd llawer o ddiwydiannau traddodiadol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelodd y rhanbarth welliannau sylweddol yn amgylchiadau'r farchnad lafur; bu cynnydd mewn cyflogaeth, gostyngiad mewn diweithdra a chynnydd mewn enillion ledled y rhanbarth.

Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd i leihau gwahaniaethau economaidd rhwng y rhanbarth a gweddill Cymru a'r DU i sicrhau cyddyfeirio llawn â rhannau eraill o'r UE. Mae GYC (Gwerth Ychwanegol Crynswth) y pen cymharol isel yr

ardal i'w briodoli yn bennaf i ddau brif ffactor - cyfran fwy o'r boblogaeth oedran gweithio nad yw mewn gwaith a gwerth ychwanegol is fesul gweithiwr, sy'n rhannol adlewyrchu cyfansoddiad diwydiannol y rhanbarth. Ffactor arall yw'r anallu i fanteisio ar effeithiau crynhoi cryf, am fod trefi a dinasoedd Cymru yn gymharol fach ac mae rhan helaeth o'r rhanbarth yn denau ei phoblogaeth ac yn bell o ganolfannau mawr.

Er gwaethaf gwelliannau yn y farchnad lafur, mae'r gyfradd cyflogaeth yn y rhanbarth yn dal i fod o dan gyfartaleddau Cymru a'r DU, yn bennaf oherwydd lefelau uwch o anweithgarwch economaidd. Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn uwch ymhlith rhai grwpiau dan anfantais ac ymhlith rhai cymunedau ar draws y rhanbarth, yn arbennig Cymoedd De Cymru. Mae'n fwyfwy amlwg mai'r galw sy'n lleihau am lafur di-grefft sydd wrth wraidd y lefelau cymharol uchel o anweithgarwch economaidd yn y rhanbarth.

Gellir esbonio gwerth ychwanegol is fesul gweithiwr (neu allbwn fesul swydd) ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn rhannol gan gyfansoddiad diwydiannol y rhanbarth, yn hytrach na'r ffaith bod gweithwyr y rhanbarth yn llai cynhyrchiol na'u cyfatebwyr yn y DU a'r UE. Ffactor arall yw'r lefelau sgil isel ledled y rhanbarth y mae gan gyfran fwy o'i boblogaeth oedran gweithio sgiliau sylfaenol isel a lle y mae bylchau a phrinderau sgiliau, yn arbennig ar lefelau canolraddol, wedi'u nodi.

Mae cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus effeithiol hefyd yn bwysig i dwf economaidd cynaliadwy. Mae'r perfformiad cyfredol yn dameidiog ac mae natur y galw yn newid. Mae angen gwell gwasanaethau ar fusnesau a chymunedau i hyrwyddo adfywio economaidd.

Dengys meincnodau cystadleurwydd eraill fod angen cynyddu ymhellach lefelau entrepreneuriaeth, gwaith ymchwil a datblygu a'r defnydd a wneir o TGCh er mwyn parhau i drawsnewid y rhanbarth tuag at yr economi gwybodaeth; a bod angen mynd i'r afael â rhai o'r diffygion mewn seilwaith a chreu amgylchedd deniadol a chynaliadwy. Ymdrinnir â'r materion hyn yn y rhaglen Cydgyfeirio ERDF gydategol ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Cyd-destun Polisi

Bydd rhaglenni newydd y Gronfa Strwythurol ar gyfer 2007-2013 yn canolbwyntio'n fwy ar agenda Lisboa a Göteborg ar gyfer twf, swyddi a datblygu cynaliadwy fel y nodir yng *Nghanllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant* a gymeradwywyd gan yr Aelod-wladwriaethau. Mae amcanion a blaenoriaethau rhaglenni Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gyson â strategaethau Lisboa a Göteborg ac fe'u datblygwyd yng nghyd-destun *Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU (NSRF)* sy'n esbonio sut y bydd y Cronfeydd Strwythurol yn cyfrannu at *Raglen Ddiwygio Genedlaethol y DU (NRP)* ar gyfer twf a swyddi yn gyffredinol.

Er mwyn cynyddu hyd yr eithaf ar effaith y Cronfeydd Strwythurol, bydd y rhaglenni Cydgyfeirio wedi'u halinio â pholisïau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer sicrhau twf a swyddi cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Cymru: Gwlad Well* – agenda polisi strategol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- *Cymru: Economi yn Ffynnu* – strategaeth datblygu economaidd Cymru;
- *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith* - strategaeth addysg a dysgu gydol oes Cymru;
- *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*;
- *Creu'r Cysylltiadau – Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus i Gymru* – y strategaeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru;
- *Cynllun Gofodol Cymru*;
- *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru – Dechrau Byw'n Wahanol*;
- *Y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru; ac*
- *Phrif Ffrydio Cydraddoldeb.*

Strategaeth

Nod cyffredinol rhaglen Gydyfeirio ESF yw:

Creu economi sgil uchel sy'n seiliedig ar wybodaeth, lle y ceir cyflogaeth lawn, gweithlu hyfedr, hyblyg a busnesau ymatebol, sydd ar flaen y gad o ran datblygu cynaliadwy.

Y dulliau ysgogi allweddol ar gyfer cyflawni hyn trwy raglen ESF yw trwy:

- (a) Rhoi i bobl ifanc y sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol;
- (b) Cynyddu cyflogaeth, yn arbennig trwy fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd;
- (c) Gwella sgiliau i helpu busnesau i symud yn barhaol i fyny'r gadwyn werth a chynyddu'r gwerth ychwanegol fesul swydd, gan gynyddu cynhyrchiant ac enillion; ac
- (ch) Moderneiddio a gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus.

Asesir llwyddiant y Rhaglen trwy olrhain y cynnydd a wnaed yn erbyn ystod o ddangosyddion economaidd a dangosyddion sgiliau a nodir yn *Cymru: Economi sy'n Ffynnu a'r Gwlad sy'n Dysgu 2*, yn arbennig cyflogaeth, lefelau cymwysterau a GYC, mewn termau absoliwt ac mewn perthynas â rhannau eraill o'r DU a'r UE. Caiff dangosyddion a thargedau eu monitro'n ofalus hefyd a chânt eu grosio i ddarparu targedau ar lefel y rhaglen. Caiff y Rhaglen Weithredol ei gwerthuso hefyd.

Blaenoriaethau

Gweithredir y rhaglen hon trwy strwythur wedi'i symleiddio sy'n cynnwys pedair prif flaenoriaeth ynghyd â blaenoriaeth ar gyfer Cymorth Technegol.

Blaenoriaeth 1: Rhoi i bobl ifanc y sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol

Amcan – paratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol trwy godi dyheadau a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu.

Blaenoriaeth 2: Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd

Amcan – codi lefelau cyflogaeth a gweithgarwch economaidd, a sicrhau mwy o gyfranogiad yn y farchnad lafur.

Blaenoriaeth 3: Gwellu lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu.

Amcan – gwella lefelau sgiliau ymhlith y gweithlu, mynd i'r afael â bylchau a phrinderau sgiliau, hyrwyddo datblygiad gweithwyr trwy gaffael sgiliau lefelau isel, canolraddol ac uwch, a hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth.

Blaenoriaeth 4: Moderneiddio a gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus - Creu'r Cysylltiadau

Amcan - cefnogi buddsoddiadau wedi'u targedu mewn gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer a'u bod yn hyblyg, yn integredig, yn effeithlon ac yn uchelgeisiol.

Bydd Blaenoriaeth ar wahân ar gyfer Cymorth Technegol (Blaenoriaeth 5) yn sicrhau y rheolir y Rhaglen yn effeithlon ac yn effeithiol.

Themâu Trawsbynciol

Caiff themâu trawsbynciol Cyfle Cyfartal a Chynaliadwyedd Amgylcheddol eu hintegreiddio'n llawn yn y blaenoriaethau hyn. Bydd y Rhaglen hefyd yn hyrwyddo Camau Gweithredu Arloesol a Chydweithredu Rhyngwladol/Rhynggranbarthol.

Dyraniad Ariannol

Caiff 94% o adnoddau Cydgyfeirio ESF eu targedu at y categorïau buddsoddi hynny a fydd yn cyfrannu fwyaf at gyflawni amcanion Lisboa ar gyfer twf a swyddi fel y'u nodir yn Rheoliad Cyffredinol yr UE [1083/2006], Erthygl 8.

Nodir dyraniadau ariannol manwl yn ôl y Flaenoriaeth a dyraniadau dangosol yn ôl y thema ym Mhennod 7 – Dyraniadau Ariannol, o fewn prif ddogfen y Rhaglen.

Gweithredu

Datblygwyd y rhaglen mewn partneriaeth a chaiff ei gweithredu mewn partneriaeth hefyd. Bydd un Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMRh) yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd Rhanbarthol yng Nghymru. Bydd Fframweithiau Strategol yn atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni'r rhaglen ac yn sicrhau bod prosiectau yn canolbwyntio ar brif amcanion a thargedau allweddol. Bydd mwy o bwyslais hefyd ar gydweithredu rhanbarthol wrth ddatblygu strategaethau a phrosiect, yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru.

Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Mae'r Rhaglen Weithredol Gydgyfeirio hon yn nodi strategaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer adfywio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol dros y cyfnod 2007–2013, gyda chymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Fe'i hategir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (ERDF) ar wahân. Gyda'i gilydd, bydd y rhaglenni hyn yn gweithredu fel catalydd i ymestyn a chryfhau ymrwymïadau cryf Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun i agenda diwygio Lisboa (Lisbon) a Göteborg (Gothenburg).

1.2 Datblygwyd y Rhaglenni Gweithredol Cydgyfeirio yng nghyd-destun y *Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi (2005 - 2008)*, a *Chanllawiau Strategol y Gymuned (2007 -2013)* sy'n nodi amcanion polisi ar gyfer cydlyniant ar lefel yr UE. Mae'r rhaglenni yn ategu'r blaenoriaethau a'r amcanion strategol a nodir yn *Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU* a byddant yn cyfrannu'n uniongyrchol at fynd i'r afael â'r heriau a nodir yn *Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU ar gyfer Swyddi a Thwf*, gyda'r nod o sicrhau twf cynaliadwy hirdymor, lefelau cyflogaeth uchel a chymdeithas deg a chynhwysol.

1.3 Bydd Rhaglen Gydgyfeirio ESF yn hyrwyddo aliniad agos rhwng polisiâu'r UE a pholisiâu cenedlaethol ar gyfer swyddi a thwf. Mae strategaeth datblygu economaidd Cymru, *Cymru: Gwlad sy'n Ffynnu* yn darparu cyfeiriad strategol tuag at economi sy'n ffynnu sy'n sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer pawb. Mae'n canolbwyntio'n glir ar amcanion Lisboa, sef gwella twf economaidd a darparu swyddi ychwanegol ar gyfer pobl Cymru, gan ddatblygu'r blaenoriaethau yn *Cymru: Gwlad Well*.

1.4 Nodir y prif fframwaith polisi ar gyflogaeth a sgiliau yn *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith*, ochr yn ochr â *Chynllun Sgiliau a Chyflogaeth 2005*, ac *Ymgeisio'n Uwch*. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am i Gymru fod yn wlad lle y mae dysgu gydol oes o safon uchel yn rhyddhau talent, yn ymestyn cyfleoedd, yn grymuso cymunedau, yn darparu gwell swyddi a sgiliau i alluogi pobl i ffynnu yn yr economi newydd, ac yn creu dyfodol cynaliadwy ar gyfer pob rhan o Gymru. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'r strategaethau hyn yn cydnabod yr angen i gynyddu lefelau cyflogaeth, yn arbennig trwy fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, a gwella lefelau sgiliau'r gweithlu i gefnogi swyddi â gwerth ychwanegol uwch, a chyfrannu at ddatblygu'r economi wybodaeth.

1.5 Mae'r ystyriaethau hyn yn arwain at bwyslais o fewn Rhaglen Weithredol ESF ar:

- rhoi i bobl ifanc y sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol;
- annog pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar i ymuno â'r farchnad lafur;
- gwella lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu; ac
- moderneiddio a gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus.

1.6 Mae Rhaglen Weithredol Gydyfeirio ESF yn adeiladu ar yr ymgynghori helaeth a fu ag amrywiaeth eang o bartneriaid a rhanddeiliaid yn ystod y misoedd diwethaf i lywio cyfeiriad rhaglenni newydd y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

Pennod 2: Dadansoddiad

Crynodeb Gweithredol

2.1 Nod Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yw atgyfnerthu cydlyniant economaidd a chymdeithasol trwy wella cyfleoedd cyflogaeth. Yn benodol bwriedir i arian ESF gynyddu twf economaidd, trwy hyrwyddo cyflogaeth a hyblygrwydd, a chynyddu cyfalaf dynol.

2.2 O fewn ystod blaenoriaethau ESF mae'r dadansoddiad hwn yn tynnu sylw at heriau penodol sy'n wynebu Cymru a'i rhanbarthau. O gofio hyn, ac yn unol ag amcanion y Gymuned o ran cynhwysiant cymdeithasol, peidio â gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb, addysg a hyfforddiant ac er mwyn cyfrannu'n fwy effeithiol at weithredu amcanion a thargedau Cyngorau Lisboa a Göteborg cyflwynir y dadansoddiad yn yr isadrannau canlynol:

- Tueddiadau Demograffig – mae'n nodi sut y mae'r boblogaeth ledled Cymru wedi newid a goblygiadau'r newidiadau hyn ar gyfer y farchnad lafur a rhagolygon economaidd ehangach.
- Mynediad i gyflogaeth a chynnwys pobl yn y farchnad lafur – darparu prif orolwg o sefyllfa'r farchnad lafur gan gynnwys materion yn ymwneud â chyfyngiadau penodol a hygyrchedd.
- Cynnwys pobl dan anfantais yn y gymdeithas – disgrifio materion penodol ar gyfer y bobl hynny sydd dan anfantais yn y farchnad lafur. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi, pan fyddant ar gael, dueddiadau yn y farchnad lafur yn ôl rhyw, oedran, ethnigrwydd ac ar gyfer y bobl hynny ag anabledd. Mae'r dadansoddiad hwn sydd wedi'i ddadgyfuno yn darparu gorolwg o b'un a yw grwpiau penodol yn y gymdeithas dan anfantais yn y farchnad lafur a chrynodeb o rai o'r rhesymau sydd wrth wraidd unrhyw anfantais gan ddefnyddio tystiolaeth empiraidd lle y mae ar gael, a chanolbwyntio yn arbennig ar bobl iau.
- Cyfalaf dynol – mae'n darparu dadansoddiad o sgiliau poblogaeth Cymru a asesir ynghyd ag adolygiad o bwysigrwydd sgiliau wrth benderfynu ar ganlyniadau marchnad lafur. Mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar rôl addysg mewn canlyniadau marchnad lafur yn arbennig ar gyfer unigolion o gefndiroedd difreintiedig.
- Amddifadedd – Adolygiad o amddifadedd gofodol yng Nghymru a'r potensial sydd i allu gweinyddol wella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ar ben hynny, asesir agweddau ar yr amgylchedd sy'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion hefyd.

2.3 Mae'r dadansoddiad yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer ein strategaeth a'n hymyriadau arfaethedig trwy ESF. Bydd y rhain yn datblygu'r canllawiau a'r argymhellion a wnaed o dan *Strategaeth Cyflogaeth Ewrop (EES)* sy'n adlewyrchu agenda Lisboa trwy geisio sicrhau cyflogaeth lawn, gwella ansawdd a chynhyrchiant yn y gwaith a gwella cydlyniant cymdeithasol a thiriogaethol. Mae'r dadansoddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed gan Gymru a'i hisranbarthau o ran nifer o brif dargedau a nodir yn EES gan gynnwys targedau i gynyddu cyfranogiad mewn dysgu gydol oes.

2.4 Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn edrych ar gryfderau a gwendidau sylfaenol marchnad lafur Gymreig Gorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n nodi'r cefndir ar gyfer rhaglennu yng nghyd-destun agenda Lisboa a *Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU*.

2.5 Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cwmpasu arwynebedd o 1.24 miliwn o hectarau (tua 12,400 km²), sy'n cynnwys poblogaeth o tua 2.9 miliwn. Mynyddoedd Cymru, sy'n ymestyn dros hanner y wlad, yw nodwedd amlycaf y dirwedd. Mae tua 80% o gyfanswm arwynebedd Cymru wedi'i ddynodi fel Ardaloedd Llai Ffafirol, sy'n cyfateb yn agos i'r ardaloedd mynyddig ac ucheldirol yng Nghymru. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn rhan amrywiol o Gymru lle y mae tua 65% o holl boblogaeth Cymru yn byw. Mae rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cynnwys yr awdurdodau lleol canlynol:

- Ynys Môn;
- Gwynedd;
- Conwy;
- Sir Ddinbych;
- Ceredigion;
- Sir Benfro;
- Sir Gaerfyrddin;
- Abertawe;
- Castell-nedd / Port Talbot;
- Pen-y-bont ar Ogwr;
- Rhondda, Cynon, Taf;
- Merthyr Tudful;
- Caerffili;
- Blaenau Gwent; ac
- Thor-faen.

2.6 Dangosir yr ardaloedd cymwys perthnasol ym map rhanbarth Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Ffigur 1 isod.

Ffigur 1.
Cymoedd

Map o ardal Rhaglenni Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r



Y Deyrnas Unedig – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Amcan Cydgyfeirio 2007-2013

Amcan

- Rhanbarthau Cydgyfeirio
- Rhanbarthau lle caiff y rhaglen ei diddymu'n raddol



2.7 Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn y bennod hon yn darparu gorolwg o'r farchnad lafur Gymreig yn unol â Chanllawiau Strategol y Gymuned ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar y flaenoriaeth i greu mwy o swyddi a gwell swyddi ar draws yr Aelod-wladwriaethau. Yn ogystal â'r prif orolwg o Gymru gyfan mae'r dadansoddiad yn nodi materion penodol ar y lefel ranbarthol gan bwysleisio'n benodol themâu cyffredin a gwahaniaethau rhwng ardaloedd Rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Cymru a cheir rhywfaint o ddadansoddi ychwanegol ar lefel leol y tu mewn iddynt.

2.8 Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data. Ar lefel yr UE defnyddiwyd cronfa ddata Eurostat Regio i nodi data ar lefel Cymru gyfan ac is-Gymru yng nghyd-destun data a thueddiadau ar lefel Ewropeaidd. Defnyddiwyd data gan Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU er mwyn darparu data sy'n benodol i'r DU, Cymru ac is-Gymru. Ychwanegwyd at hyn trwy gyfeirio at ymchwil academiaidd ym maes llafur ac economeg gymdeithasol i ddarparu tystiolaeth o'r rhesymau sylfaenol dros dueddiadau ystadegol.

Cyflwyniad

2.9 Mae'r dadansoddiad hwn yn darparu arfarniad manylach o'r strwythur demograffig ac o sefyllfa'r farchnad lafur sy'n darparu sylfaen ar gyfer datblygu rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth ESF. Mae'n darparu dadansoddiad o'r gwendidau a'r cryfderau ar gyfer Cymru gyfan, a cheir rhagor o ddadansoddi ar lefel isranbarthol ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

2.10 Fel arfer mesurir prif berfformiad economaidd gan Gynnyrch Mewnwladol Crynswth fesul pen y boblogaeth². Ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd mae CMC y pen tua 77% o'r cyfartaledd ar gyfer 25 Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd gyda'i gilydd a 84% o gyfartaledd Cymru. Roedd CMC y pen ar gyfer Dwyrain Cymru yn 18% uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer 25 Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd.

2.11 Dangosir pa mor bwysig yw strwythur demograffig a sefyllfa'r farchnad lafur yn y dadansoddiad o'r bwlch ffyniant rhwng Cymru a'r DU yn gyffredinol³. Rhwng 2001 a 2003 roedd GYC⁴ y pen ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn £10,100 o gymharu â £12,100 ledled Cymru, £15,400 ledled y DU yn gyffredinol a £15,600 ledled Dwyrain Cymru. Dengys dadansoddiad o'r elfennau sy'n cyfrannu at berfformiad economaidd cyffredinol fod tua 35% o'r bwlch cyffredinol mewn GYC y pen yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd y DU i'w briodoli i sefyllfa anffafriol y farchnad lafur (cymhareb cyflogaeth i oedran gweithio a

² Cydnabyddir yn eang efallai nad yw CMC y pen yn llawn adlewyrchu ffactorau lles neu ansawdd bywyd ehangach. Fodd bynnag, mae'n darparu mesur defnyddiol o berfformiad economaidd o fewn pob cyfnod amser.

³ Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cymru: Economi yn Ffynnu, Strategaeth ar gyfer Datblygu

Economaidd, 2005: <http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/wave?lang=cy>

⁴ Cyfrifir GYC fel CMC namyn trethi anuniongyrchol a chymorthdaliadau. Nid yw data yn cymharu Cymru â chyfartaledd yr UE ond ar gael fel CMC y pen.

chymhareb swyddi i gyflogaeth), ac mae 10% arall o'r bwlch cyffredinol i'w briodoli i'r ffaith bod gan Gymru gyfran ychydig yn fwy o bobl ddibynnol⁵.

2.12 Dengys Ffigur 2 isod ganlyniadau'r dadansoddiad hwn. Gellir dadansoddi amrywiadau cyffredinol mewn GYC y pen yn bennaf i wahaniaethau mewn:

- cyfran y boblogaeth sydd o oedran gweithio;
- cyfran y boblogaeth oedran gweithio sydd mewn gwaith;
- cyfran y boblogaeth oedran gweithio sy'n gweithio mewn ardal benodol (gan adlewyrchu patrymau cymudo); ac
- allbwn cyfartalog neu werth ychwanegol fesul swydd⁶.


2.13 Mae'r gymhareb cyflogaeth i oedran gweithio (y gyfradd cyflogaeth) is yn rhoi cyfrif am tua 25% o'r bwlch cyffredinol mewn GYC y pen yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd y DU. Mae tua 10% i'w briodoli i'r ffaith bod gan Gymru gymhareb swyddi i gyflogaeth is. Mae hyn yn deillio'n rhannol o batrymau cymudo yng Nghymru gan fod trigolion sy'n byw yng Nghymru yn gweithio y tu allan i'r rhanbarth. Dengys rhan lliw oren Ffigur 2 fod GYC y pen yng Nghymru yn llai na chyfartaledd y DU am fod gan Gymru gyfran lai o unigolion oedran gweithio na'r DU yn gyffredinol. Hynny yw, mae gan Gymru gyfan fwy o bobl ddibynnol yn y boblogaeth na chyfartaledd y DU.

2.14 Dengys Ffigur 2 rai gwahaniaethau diddorol rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Mae GYC y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd tua £5,300 yn is ar draws y DU yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o'r bwlch hwn i'w phriodoli i werth ychwanegol is fesul swydd. Mae sefyllfa'r farchnad lafur (cymhareb cyflogaeth i oedran gweithio is yn arbennig) yn esbonio'r rhan fwyaf o'r bwlch sy'n weddill. Mae GYC y pen yn Dwyrain Cymru tua £250 yn uwch nag ar draws y DU yn gyffredinol. Er bod gan Dwyrain Cymru werth ychwanegol is fesul gweithiwr a chymhareb cyflogaeth is, mae cymhareb swyddi i gyflogaeth uwch yn gwrthbwysu'r rhain yn hawdd.

⁵ Cyfrifir dibyniaeth gymharol y boblogaeth yn ôl cymhareb yr unigolion o oedran gweithio o gymharu â'r boblogaeth gyfan.

⁶ Cyfeirir at hyn yn aml fel cynhyrchiant, er fel y dangosir yn ddiweddarach yn y ddogfen, gall cyfeirio at wahaniaethau mewn cynhyrchiant fod yn gamarweiniol, am nad yw mesurau cynhyrchiant yn rhoi cyfrif am strwythur diwydiannol yr economi.

Ffigur 2. Dadansoddiad o wahaniaethau mewn GYC y pen ledled Cymru o gymharu â chyfartaledd y DU, cyfartaledd 2001–2003



Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru yn seiliedig ar ddata'r ONS

2.15 Dengys Ffigur 2 fod gwella'r cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer unigolion yng Nghymru a chynyddu hyd yr eithaf ar botensial poblogaeth Cymru yn ystyriaethau allweddol o ran cau'r bwch mewn GYC y pen yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd y DU. O fewn y dadansoddiad hwn mae'n bwysig deall perfformiad gwahanol isranbarthau yng Nghymru a gwahanol anghenion unigolion, yn arbennig, y rhai sydd o dan anfantais ar hyn o bryd a'r rhai sy'n dioddef o dlodi ac amddifadedd.

2.16 Mae Tabl 1 yn darparu crynodeb o'r data sy'n ategu Ffigur 2. Dengys y data y cyfraniad cyffredinol a wna pob ffactor at esbonio'r GYC is/uwch y pen o'r boblogaeth o gymharu â chyfartaledd y DU. Talgrynnwyd y data yn Nhabl 1 i'r 5% agosaf am y darperir y dadansoddiad hwn i nodi amcangyfrifon bras yn hytrach na phenodol o'r graddau y mae'r ffactorau yn esbonio gwahaniaethau mewn GYC y pen.⁷

⁷ Ceir rhagor o fanylion am yr ymagwedd fethodolegol yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cymru: Economi yn Ffynnu*, Strategaeth ar gyfer Datblygu Economaidd, 2005

Tabl 1: Cyfraniad y ffactorau sy'n esbonio gwahaniaethau mewn GYC y pen, Canran o'r bwch cyfan

	GYC fesul swydd gweithlu	Swyddi i gyflogaeth	Cyflogaeth i oedran gweithio	Oedran gweithio i boblogaeth
Cymru	-55%	-10%	-25%	-10%
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	-55%	-15%	-20%	-10%
Dwyrain Cymru	-0.5%	+250%	-60%	-70%

Tueddiadau demograffig

2.17 Dengys Tabl 2 dueddiadau demograffig allweddol yng Nghymru a phroffil oedran cyffredinol poblogaeth Cymru. Yn gyffredinol, mae ychydig o dan dair miliwn o bobl yn byw yng Nghymru yn ôl amcangyfrifon poblogaeth Canol 2004.

2.18 Mae tua 65% o boblogaeth Cymru yn byw yn yr ardal NUTSII⁸ yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac mae'r 35% sy'n weddill yn byw yn Dwyrain Cymru. Fel y dengys Tabl 2, mae gan Gymru (yn arbennig Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) gyfran uwch o unigolion yn y dosbarthiadau oedran uchaf, yn arbennig yn y dosbarthiadau oedran 60-69 a 70+ o gymharu â'r DU yn gyffredinol.

2.19 Mae tua 60% o boblogaeth gyfan Cymru yn bobl o oedran gweithio, ac mae tua 20% o dan 16 oed ac 20% dros oedran ymddeol. Mae gwahaniaeth bach o fewn isranbarthau Cymru, ac mae gan Dwyrain Cymru gyfran ychydig yn uwch o'r boblogaeth gyfan yn y dosbarth oedran gweithio na Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (61% yn erbyn 59%) a chyfran ychydig yn is o unigolion yn y dosbarth dros oedran ymddeol (19% yn erbyn 21%).

Tabl 2: Poblogaeth yn ôl grŵp oedran, 2004

	<i>Grŵp oedran</i>							Cyfanswm
	0-14	15-24	25-34	35-44	45-59	60-69	70+	
Miloedd								
Dwyrain Cymru	197	147	133	159	209	105	126	1,077
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	336	238	208	263	378	206	247	1,896
Cymru	533	385	342	422	587	311	373	2,953
Y DU	10,866	7,720	7,937	9,192	11,518	5,716	6,885	59,834
Canran o'r cyfanswm								
Dwyrain Cymru	18.3	13.7	12.4	14.8	19.4	9.8	11.7	100.0
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	17.9	12.7	11.1	14.0	20.2	11.0	13.2	100.0


⁸ Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth. Ceir rhagor o fanylion yn: http://europa.eu.int/comm/eurostat/ramon/nuts/introduction_regions_en.html

Cymru	18.0	13.0	11.6	14.3	19.9	10.5	12.6	100.0
Y DU	18.2	12.9	13.3	15.4	19.2	9.6	11.5	100.0

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth Canol 2004 ONS

2.20 Dengys gwaith dadansoddi ar lefel isranbarthol fod gan Ddwyrain Cymru broffil oedran sy'n debyg i un y DU, ac mae ganddi gyfran ychydig yn fwy o unigolion yn y dosbarth oedran 15-44. Fodd bynnag, mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd gyfran is o unigolion yn y dosbarthiadau oedran 44 ac iau, a chyfran uwch o unigolion yn y dosbarth oedran 45 a throsodd. Dengys Ffigur 3 y gwahaniaethau yng nghyfansoddiad oedran Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o gymharu â Chymru gyfan.

Ffigur 3. Proffil oedran y boblogaeth y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran yng nghyfrannau grwpiau oedran, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru o gymharu â chyfartaledd Cymru, 2004




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

2.21 Mae Ffigur 4 isod yn cymharu proffil oedran Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a'r Cymoedd, Dwyrain Cymru, Cymru a'r DU mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd ar gyfer 25 Aelod-wladwriaeth yr UE. Fel y dengys Ffigur 4, mae gan Gymru a'r DU grynhoed cymharol fach o unigolion yn y prif ddsbarth oedran gweithio, sef 25-44. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. O gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer 25 Aelod-wladwriaeth yr UE, mae gan Gymru grynhoed cymharol fawr o unigolion yn y dosbarthiadau oedran uchaf, sef dros oedran ymddeol. Mae gan isranbarthau Cymru, Cymru a'r DU grynhoed cymharol fawr o blant o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer 25 Aelod-wladwriaeth yr UE.

Ffigur 4. Proffil oedran y boblogaeth y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran yng nghyfrannau grwpiau oedran, Cymru a'r DU o gymharu â chyfartaledd 25 Aelod-wladwriaeth yr UE, 2004

Error!



Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac Eurostat

2.22 Gall patrymau demograffig ac yn arbennig patrymau ymfudo roi rhyw syniad o ba mor ddeniadol yw ardal i unigolion o'i chymharu ag ardaloedd eraill⁹. Dengys Tabl 3 fod poblogaeth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi cynyddu ers 1981 o 2.3%, ond ar gyfer y cyfnod 1991-2001, ni wnaeth y boblogaeth dyfu tra parhaodd i dyfu yn Nwyrain Cymru yn ôl cyfradd twf 1981-1991 (3.8%). Ar draws pob un o'r cyfnodau a ddangosir, roedd twf y boblogaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ar ôl twf y boblogaeth yn Nwyrain Cymru ac felly Cymru yn gyffredinol.

Tabl 3: Newid yn y boblogaeth ers 1981

	Lefel (000oedd)				Newid (Canran)			
	1981	1991	2001	2004	1981-1991	1991-2001	1981-2004	1991-2004
Dwyrain Cymru	980	1,017	1,056	1,077	3.8	3.8	9.9	5.9
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1,834	1,856	1,855	1,876	1.2	-0.1	2.3	1.1
Cymru	2,814	2,873	2,910	2,953	2.1	1.3	4.9	2.8

Ffynhonnell: Cyfrifiad, Amcangyfrifon Poblogaeth Canol y Flwyddyn


⁹ Rhaid nodi bod ffactorau ymfudo yn ffactor o wahanol ryngweithiadau ac nid dim ond atyniad cymharol.

2.23 Dengys Ffigur 5 isod, y newid yn y boblogaeth rhwng 1991 a 2004¹⁰ yn ôl dadansoddiadau oedran bras. Ystyriaeth allweddol yn y dadansoddiad yw'r cynnydd cymesur yn y boblogaeth oedran gweithio am fod cydberthynas gref rhyngddo â chymhareb dibyniaeth gyffredinol¹¹ y boblogaeth.

2.24 Yn debyg i Gymru yn gyffredinol, gostyngodd y boblogaeth plant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, ar gyfartaledd roedd y gostyngiad hwn yn fwy yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag ar draws Cymru yn gyffredinol. Yn wahanol i Ddwyrain Cymru a Chymru yn gyffredinol, roedd y cynnydd cymesur yn y boblogaeth dros oedran ymddeol ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd bron cymaint â'r cynnydd yn y boblogaeth oedran gweithio. Mae'r duedd hon i'w phriodoli i'r cynnydd cymharol fach yn y boblogaeth oedran gweithio ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn hytrach na'r newid cymharol yn y boblogaeth dros oedran ymddeol.

2.25 Er i'r boblogaeth plant gynyddu ychydig yn Nwyrain Cymru, cafwyd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth oedran gweithio a roddodd gyfrif am bron 80% o'r twf yn ystod y cyfnod.

Ffigur 5. Dadansoddiadau oedran o newid yn y boblogaeth, 1991–2004



Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

¹⁰ Nid oedd unrhyw ddata am grwpiau oedran penodol ar gael ar gyfer y daearyddiaethau a ddewiswyd, felly dewiswyd 1991-2004 ar gyfer y dadansoddiad.

¹¹ Cyfrifir dibyniaeth gymharol y boblogaeth yn ôl cymhareb yr unigolion o oedran gweithio o gymharu â'r boblogaeth gyfan.

2.26 Dengys Tabl 4 isod elfennau'r newid yn y boblogaeth ar draws Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Mae'n nodi bod poblogaeth naturiol Cymru yn gostwng, hynny yw mae mwy o farwolaethau na genedigaethau. Mae'r duedd hon yn ffenomenon cyffredin ar draws y rhan fwyaf o'r byd datblygedig ac mae'n arwain at gyfraddau geni islaw'r gyfradd amnewid sydd ei hangen er mwyn i'r boblogaeth aros fwy neu lai yn gyson¹². Yn erbyn y duedd gyffredinol hon, roedd nifer y genedigaethau yn fwy na nifer y marwolaethau yn Nwyrain Cymru. Roedd y cynnydd hwn wedi'i ganoli'n bennaf yn rhanbarthau dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd.

Tabl 4: Elfennau'r newid yn y boblogaeth, 2001–2004

	Poblogaeth Canol 2001	Genedigaethau byw	Marwolaethau	Newid Naturiol	Ymfudo net a newidiadau eraill	Cyfanswm y newid	Poblogaeth Canol 2004
Dwyrain Cymru	1,056	35	33	2	20	22	1,077
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1,855	58	67	-9	29	21	1,876
Cymru	2,910	93	99	-7	49	42	2,953

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (Efallai na fydd y cyfansymiau yn adio oherwydd talgrynnu)

2.27 Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth yn llunio amcanestyniadau poblogaeth. Dengys yr amcanestyniad diweddaraf ar gyfer Cymru y disgwylir i ymfudo net barhau yn brif ffactor sbarduno twf yn y boblogaeth ledled Cymru. Rhwng 2004 a 2024 rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu o tua 239,000 o bobl, y rhagwelir y bydd 234,000 ohonynt i'w priodoli i fewnfudo net a'r 5,000 sy'n weddill i'r ffaith y bydd nifer y genedigaethau yn fwy na nifer y marwolaethau, sy'n groes i'r duedd gyffredol a ddangosir yn Nhabl 4. Rhagwelir y bydd nifer y plant 16 oed ac iau, a nifer y plant dibynnol, yn gostwng ac y bydd nifer y pensiynewyr dibynnol yn codi.

2.28 Mewnfudo net yw prif ffactor sy'n sbarduno newid yn y boblogaeth ledled Cymru ac mae newidiadau eraill yn gwrthbwysu'r gostyngiad naturiol yn y boblogaeth yn hawdd. Fodd bynnag, yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd mae allfudo net yn nodweddiadol ar y cymoedd uchaf (lle y ceir lefelau isel o fewnfudo a rhywfaint o allfudo),¹³ tra ceir mewnfudo net yn y mwyafrif o'r ardaloedd eraill.


2.29 Cyflwynir y dadansoddiad ar lefel is-Gymru yn Ffigur 6. Dengys mai Torfaen, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, sydd i gyd wedi'u lleoli yng nghymoedd uchaf De Cymru, oedd yr unig Awdurdodau Lleol lle y cafwyd allfudo net. Gall patrymau ymfudo fod yn bwysig am y gallant roi rhyw syniad o ba mor ddeniadol yw ardal i unigolion o'i chymharu ag ardaloedd eraill¹⁴.

¹² Os oes gan y ferch gyffredin lai na 2 blentyn bydd nifer yr ail genhedlaeth yn llai na'r genhedlaeth gyffredol, felly nid yw'r ail genhedlaeth yn 'adnewyddu'r' genhedlaeth flaenorol.

¹³ Fe'i diffinnir fel Awdurdodau Lleol: Blaenau Gwent; Merthyr Tudful a Thor-faen.

¹⁴ Rhaid nodi bod ffactorau ymfudo yn ffactor o wahanol ryngweithiadau ac nid dim ond atyniad cymharol.

Ffigur 6. Dadansoddiad o newid yn y boblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol, 2001–2004



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol

2.30 Dengys Tabl 5 ymfudo net yn ôl bandiau oedran. Dengys y Tabl hwn fod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gweld cynnydd net yn ei phoblogaeth ym mhob band oedran ac eithrio 16-24, sydd i'w briodoli'n bennaf i fyfyrwyr yn symud i brifysgolion. Mae Dwyrain Cymru wedi gweld cynnydd net yn ei phoblogaeth o ganlyniad i ymfudo ar draws pob band oedran gan gynnwys y dosbarth oedran 16-24 ac mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r boblogaeth fawr o fyfyrwyr sydd wedi'i chanoli o amgylch Prifysgol Caerdydd. Mae'r patrwm ar gyfer Cymru yn ddigon tebyg i'r hyn a welir mewn rhanbarthau eraill yn y DU ac eithrio Llundain a'r Ddwyrain. Yn gysylltiedig â'r allfudo net uchod gostyngodd y boblogaeth gyffredinol o unigolion 11-25 oed ledled Cymru gyfan (nid yw data ar lefel is-Gymru ar gael ar gyfer y cyfnod hwn) rhwng 1981 a 2004 o 11.2%. Rhwng 1991 a 2004 gostyngodd y boblogaeth o unigolion 11-25 oed ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o 2.1% o gymharu â chynnydd o 4.7% ar draws Dwyrain Cymru.

2.31 Mae mewnfudo net o Loegr yn llywio'r duedd ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Tuedd ddiddorol yw'r allfudo net o Ddwyrain Cymru i Orllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae hyn yn seiliedig ar lifau ymfudo mawr o bobl o Gaerdydd i ardaloedd yng Nghaerffili, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae'r mewnfudo net gan unigolion o oedran gweithio yn haeddu sylw arbennig. Mae tystiolaeth¹⁵ yn awgrymu bod unigolion â sgiliau uwch sy'n gweithio yn fwy cymdeithasol symudol¹⁶. Gallai hyn awgrymu bod Cymru yn

¹⁵ Gibbons, S ac eraill, 2005, Is Britain Pulling Apart? Area Disparities in Employment, Education and Crime, Centre for Market and Public Organisation Working Paper 05/120, a gyhoeddwyd yn N. Pearce and W. Paxton (golygyddion) *Social Justice, Building a Fairer Britain*, Institute of Public Policy Research: <http://www.bris.ac.uk/Depts/CMPO/workingpapers/wp120.pdf>

¹⁶ Mae symudedd cymdeithasol yn mesur i ba raddau y mae statws cymdeithasol pobl yn newid rhwng cenedlaethau.

debygol o fanteisio'n economaidd ar fewnfudo gan unigolion o oedran gweithio. Dengys tystiolaeth ddiweddar o gronfa ddata Mosäig Experian¹⁷ fod gan Gymru gynrychiolaeth fawr o fewnfudo gan weithwyr proffesiynol sy'n dilyn gyrfa sy'n byw mewn lleoliadau y mae galw mawr amdanynt y mae cysylltiad cryf rhyngddo ac atyniad lleoliad ar gyfer rhagolygon gwaith ond hefyd ffactorau ansawdd bywyd.

Tabl 5: Tueddiadau o ran ymfudo net blynyddol cyfartalog dadansoddiad o ardaloedd, 2002–2004

Band oedran	Dwyrain Cymru i Orllewin Cymru a'r Cymoedd	Lloegr i Orllewin Cymru a'r Cymoedd	Ymfudo net i Orllewin Cymru a'r Cymoedd	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i Ddwyrain Cymru	Lloegr i Ddwyrain Cymru	Ymfudo net i Ddwyrain Cymru	Ymfud o net Cymru
0-15	360	2,240	2,590	-360	1,030	672	3,262
16-24	-670	-820	-1,490	670	430	1,099	-391
25-44	530	2,350	2,880	-530	1,450	920	3,800
45-64	490	4,020	4,520	-490	1,380	887	5,407
65+	170	1,010	1,170	-170	360	194	1,364
Pob oedran	880	8,800	9,670	-880	4,650	3,772	13,442

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

2.32 Yng Nghymru mae'r symudiadau net mwyaf yn digwydd rhwng De-ddwyrain Cymru a'r Cymoedd a 680 yw'r llif net blynyddol cyfartalog. Ceir y ail lif mwyaf rhwng y Cymoedd a De-orllewin Cymru¹⁸ ac mae symudiad net blynyddol cyfartalog o 600 o bobl o'r Cymoedd yn symud i Dde-orllewin Cymru. Mae patrymau ymfudo yng Nghymru fel arfer o'r Gogledd i'r De a cheir llifau net blynyddol cyfartalog o Ogledd Cymru i Ganolbarth Cymru (40), De-orllewin Cymru (20) a De-ddwyrain Cymru (160) a llifau net o Ganolbarth Cymru i Dde-orllewin Cymru (170) a De-ddwyrain Cymru (180). Ceir all-lif net blynyddol cyfartalog o bobl o'r Cymoedd i Ganolbarth Cymru (70) a Gogledd Cymru (20) ond mewnllif net blynyddol o bobl o Dde-ddwyrain Cymru (680).

2.33 Mae tystiolaeth¹⁹ bod cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl sgil isel wedi cynyddu mewn ardaloedd sydd hefyd wedi gweld cynnydd yn y cyfleoedd ar gyfer swyddi â chyflog uchel. Y rhesymeg dros hyn yw bod unigolion sgil is yn cael cyfleoedd cyflogaeth mewn swyddi yn y sector gwasanaethu yn darparu ar gyfer y defnyddwyr mwy cefnog. Felly gall newidiadau yn strwythur cymdeithasol ardal

¹⁷ Ceir rhagor o fanylion yn:

<http://www.businessstrategies.co.uk/Products%20and%20services/Micromarketing%20data/Consumer%20segmentation/Mosaic.aspx>

¹⁸ Ni chyhoeddwyd unrhyw ddata ar lefel awdurdodau lleol oherwydd y nifer fach o symudiadau net ar y lefel hon.

¹⁹ Gibbons, S ac eraill, 2005, *Is Britain Pulling Apart? Area Disparities in Employment, Education and Crime*, Centre for Market and Public Organisation Working Paper 05/120, a gyhoeddwyd yn N. Pearce a W. Paxton (golygyddion) *Social Justice, Building a Fairer Britain*, Institute of Public Policy Research

chwarae rôl o ran adfywio economaidd ehangach, a gall patrymau ymfudo fod yn ffwythiant pwysig gan gynnwys ymfudo o'r tu allan i'r DU. Gwnaeth cyfanswm o 392,000 o unigolion gais i'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr rhwng 1 Mai 2004 a 31 Mawrth 2006. Mae gan Gymru y ganran isaf o gyfanswm cofrestrïadau'r DU a dim ond 2% a gofrestrwyd sy'n cynrychioli ychydig dros 7,200 o geisiadau. Mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod gweithwyr o wledydd a dderbyniwyd i'r UE yn parhau i deithio i wledydd lle y mae gwaith ar gael, gan helpu i lenwi'r bylchau yn ein marchnad lafur, yn arbennig ym meysydd gweinyddiaeth, busnes a rheoli, lletygarwch ac arlwyo, amaethyddiaeth, gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd, pysgod a chig. Dengys data o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol, yn ystod y cyfnod 2002 - 2004, fod mewnfudo net wedi bod o weddill y byd i Gymru, sy'n dod i gyfanswm o ychydig dros 5,500 o unigolion²⁰.

Mynediad i gyflogaeth a chynnwys pobl yn y farchnad lafur

2.34 Fel y dengys Ffigur 2, mae sefyllfa anffafriol y farchnad lafur yn rhoi cyfrif am tua 35% o'r bwch cyffredinol yn GYC y pen yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd y DU. Mae deall y farchnad lafur Gymreig ac, yn benodol, y rhwystrau i gyfranogiad ac anghenion pobl dan anfantais yn hanfodol bwysig.

2.35 Mae Tabl 6 yn crynhoi sefyllfa ddiweddaraf y farchnad lafur (h.y. y flwyddyn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer), gan gymharu Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Dwyrain Cymru, Cymru, y DU a'r Undeb Ewropeaidd (25 yr UE). Fel y dengys Tabl 6, mae Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chymru yn gyffredinol yn perfformio'n dda ar brif ddangosyddion y farchnad lafur o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer 25 Aelod-wladwriaeth yr UE ac maent wedi gwella gryn dipyn ers 2001. Er gwaethaf y cynnydd sylweddol a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae tua 16% o blant Cymru yn byw mewn cartrefi lle nad oes unrhyw un yn gweithio, o gymharu â 15% ar gyfer y DU yn gyffredinol a 10% ar gyfer 25 Aelod-wladwriaeth yr UE.

2.36 Yn ddiddorol, er bod y gyfradd cyflogaeth ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn is nag ar gyfer 25 Aelod-wladwriaeth yr UE, ni cheir gwahaniaeth cyfatebol mewn cyfraddau cyflogaeth. Yr esboniad am hyn yw'r lefel gymharol is o weithgarwch economaidd (neu'r lefel uwch o anweithgarwch economaidd) ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o gymharu â 25 Aelod-wladwriaeth yr UE. Mae hyn hefyd yn wir yn achos cymariaethau rhwng Dwyrain Cymru a'r DU. Mae gan Dwyrain Cymru gyfradd diweithdra sylweddol is na chyfartaledd y DU ond mae'r gyfradd cyflogaeth yn dal i fod islaw cyfartaledd y DU. Unwaith eto, lefel uwch o anweithgarwch economaidd sy'n esbonio'r gwahaniaeth yn y brif gyfradd cyflogaeth. Esbonnir hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

2.37 Nodwyd bod diweithdra hirdymor yn destun pryder arbennig yn EES. Mae'r gostyngiad mewn diweithdra hirdymor ledled Cymru a'i hisranbarthau i'w groesawu. Cyflwynodd Llywodraeth y DU fesurau yn ddiweddar gan gynnwys cyfweiliadau yn canolbwyntio ar waith i gynorthwyo unigolion nad ydynt yn gweithio ar hyd o bryd i gyfranogi yn y farchnad lafur unwaith eto²¹. Disgwylir i'r

²⁰ Nid oes unrhyw ddata ar gael am darddiad mewnfudwyr yng Nghymru oherwydd maint bach y sampl.

²¹ ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU, 2006, A New Deal for Welfare: Empowering People to Work. Ar gael yn: http://www.dwp.gov.uk/welfare-reform/empowering_people_to_work.asp

mesurau hyn helpu'r DU a'i hisranbarthau i gyrraedd y targedau a'r meincnodau yn EES o ran rhoi dechrau newydd i unigolion a fu'n ddi-waith ers amser hir a chynyddu cyfranogiad mewn mesurau marchnad lafur gweithredol.

Tabl 6: Crynodeb o'r farchnad lafur, cymhariaeth â 25 Aelod-wladwriaeth yr UE (canran)

	2001	2005	Newid o gymharu â 2001	Newid absoliwt o gymharu â 2001
Cyfradd cyflogaeth (a)				
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	63.1	66.4	3.3	44
Dwyrain Cymru	69.5	71.4	1.9	32
Cymru	65.4	68.3	2.9	76
Y DU	71.4	71.7	0.3	627
15 yr UE	63.9	65.1	1.2	5,838
25 yr UE	62.7	63.7	1.0	6,278
Cyfradd gweithgarwch economaidd (b)				
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	67.4	70.0	2.6	34
Dwyrain Cymru	73.7	74.0	0.3	26
Cymru	69.5	71.5	2.0	60
Y DU	75.2	75.3	0.1	580
15 yr UE	69.1	71.0	1.9	7,860
25 yr UE	68.7	70.1	1.4	7,852
Cyfradd diweithdra (c)				
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	6.3	5.1	-1.2	-8
Dwyrain Cymru	5.0	3.5	-1.5	-6
Cymru	5.8	4.5	-1.3	-14
Y DU	5.0	4.7	-0.3	-45
15 yr UE	7.5	8.2	0.7	1,997
25 yr UE	8.6	9.0	0.4	1,648
Cyfradd diweithdra hirdymor (ch)				
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	27.2	21.8	-5.4	-4
Dwyrain Cymru	30.7	22.4	-8.0	-4
Cymru	28.4	22.0	-6.4	-8
Y DU	25.3	21.1	-4.2	-70
15 yr UE
25 yr UE	..	45.5

(a) Mae pobl gyflogedig yn cynnwys pob person rhwng 15 a 64 oed a weithiodd o leiaf un awr am gyflog neu elw, yn ystod yr wythnos gyfeirio (yr wythnos pan gasglwyd y data), neu a oedd yn absennol dros dro o'r cyfryw waith. Cynhwysir gweithwyr teulu. Y gyfradd ar gyfer y rhai rhwng 15 a 64 oed;

(b) Mae poblogaeth economaidd weithgar yn cynnwys pobl gyflogedig a di-waith. Y gyfradd ar gyfer y rhai rhwng 15 a 64 oed;

(c) Mae'r gyfradd diweithdra yn cynrychioli pobl ddi-waith fel canran o'r boblogaeth sy'n economaidd weithgar. Y gyfradd ar gyfer y rhai 15 oed a throsodd.


(ch) Y rhai a fu'n ddi-waith am o leiaf 12 mis

.. Nid oes unrhyw ddata ar gael.

Ffynhonnell: Eurostat

2.38 Dengys Ffigur 7 y cynnydd a wnaed gan Gymru tuag at brif dargedau cyflogaeth Lisboa. Fel y dengys Ffigur 7, gan ddefnyddio data Eurostat ar gyfer 2004, mae Cymru ychydig islaw prif dargedau cyflogaeth Lisboa ar gyfer 2010 ac eithrio'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer merched. Mae'r data yn defnyddio diffiniadau Ewropeaidd ar gyfer cyflogaeth ar gyfer ystodau oedran 15-64. Y gwahaniaeth allweddol rhwng y diffiniad hwn a'r data a gyflwynir yng ngweddill y dadansoddiad hwn yw bod diffiniad y DU ar gyfer cyflogaeth yn defnyddio gwrywod 16-64 oed a benywod 16-59 oed. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu data o Eurostat a data o ffynonellau o'r DU²². Trafodir materion yn ymwneud â'r farchnad lafur ymhellach yn yr adran nesaf.

Ffigur 7. Cynnydd yn erbyn targedau Lisboa 2005 a 2010



2.39 Dengys Tabl 7 sefyllfa ddiweddaraf y farchnad lafur ar draws Cymru a'i hisranbarthau gan ddefnyddio Arolwg Marchnad Lafur y DU (dylid bod yn ofalus wrth gymharu Tabl 6 a Thabl 7 oherwydd gwahaniaethau mewn methodoleg a chyfnodau amser²³). Er gwaethaf gwelliannau diweddar, mae'r gyfradd cyflogaeth yng Nghymru yn dal i fod islaw cyfradd y DU, sy'n adlewyrchu cyfraddau anweithgarwch economaidd sy'n parhau i fod yn uchel yn hytrach na chyfraddau diweithdra uchel.

²² Ceir gorolwg o'r fethodoleg ar gyfer Arolwg Gweithlu Ewrop yn: http://circa.europa.eu/irc/dsis/employment/info/data/eu_lfs/index.htm ac Ceir gorolwg o ffynonellau data am farchnad lafur y DU yn:

<http://www.statistics.gov.uk/about/data/guides/LabourMarket/default.asp>

²³ Ceir manylion cryno am y fethodoleg ar gyfer Arolwg Gweithlu Ewrop yn:

http://circa.europa.eu/irc/dsis/employment/info/data/eu_lfs/index.htm ac

Ceir manylion cryno am y fethodoleg ar gyfer Arolwg Gweithlu'r DU yn:

<http://www.statistics.gov.uk/statbase/Product.asp?vlnk=1537>

2.40 Cododd lefelau cyflogaeth gryn dipyn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, a chododd y gyfradd cyflogaeth o dros ddwywaith y gyfradd twf yn Nwyrain Cymru. Ers 2001, cynyddodd cyflogaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o tua 40,000²⁴ a chododd y gyfradd cyflogaeth o 2.4 pwynt canran i 69.5%. Fodd bynnag, mae'r gyfradd cyflogaeth nominal yn dal i fod islaw cyfartaledd Cymru. Er bod gan Ddwyrain Cymru gyfradd cyflogaeth uwch nag ar gyfer Cymru yn gyffredinol, mae'r gyfradd cyflogaeth gryn dipyn islaw'r targed o sicrhau bod y gyfradd cyflogaeth ar gyfer y DU yn cyrraedd 80%²⁵.

2.41 Gostyngodd diweithdra yng Nghymru i'r lefelau isaf a gofnodwyd erioed. Ers 2001, gostyngodd y gyfradd diweithdra yng Nghymru o 0.3 pwynt canran i'w lefel bresennol, sef 5.1%. Ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gostyngodd diweithdra o 0.6 pwynt canran i'w lefel bresennol, sef 5.3%. Yn groes i'r duedd ledled Cymru yn gyffredinol, cododd y gyfradd diweithdra ar draws Dwyrain Cymru ac mae'r gyfradd gyfredol ychydig islaw cyfartaleddau'r DU a Chymru. Er gwaethaf lefelau diweithdra uwch yn hanesyddol, nid y sefyllfa diweithdra sy'n esbonio cyfradd cyflogaeth gymharol isel Cymru; lefelau uwch o anweithgarwch economaidd sy'n esbonio'r cyfraddau cyflogaeth is.

2.42 Er gwaethaf gostyngiadau sylweddol mewn anweithgarwch economaidd ledled Cymru, gan gynnwys Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd yn dal i fod yn fwy na thri phwynt canran yn uwch yng Nghymru a bron pum pwynt canran yn uwch yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nac yn y DU yn gyffredinol. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd y gwelwyd y cynnydd mwyaf o ran lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru ac mae hynny'n galonogol.

2.43 Gostyngodd anweithgarwch economaidd yn Nwyrain Cymru o 1.4 pwynt canran ers 2001 i'w lefel bresennol, sef 22.5%, sydd ymhell islaw cyfartaledd Cymru. Er gwaethaf sefyllfa'r farchnad lafur ar draws Dwyrain Cymru sy'n ffafriol ar y cyfan, mae anweithgarwch economaidd yn dal i fod uwchlaw cyfartaledd y DU.

²⁴ Data yn cymharu 12 mis hyd at fis Mawrth 2005 i 2001 o'r Arolwg Gweithlu Lleol

²⁵ ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU, 2006, A New Deal for Welfare: Empowering People to Work.

Tabl 7: Crynodeb o'r farchnad lafur

		2001	Blwyddyn hyd Fawrth 2006	Newid ers 2001
Cyflogaeth (a)				
Dwyrain Cymru	Lefel (000)	478	495	16
	Cyfradd (%)	(72.6)	(73.7)	(1.1)
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Lefel (000)	756	796	40
	Cyfradd (%)	(67.0)	(69.5)	(2.4)
Cymru	Lefel (000)	1,234	1,291	56
	Cyfradd (%)	(69.1)	(71.0)	(2.0)
Y DU	Lefel (000)	27,433	28,117	684
	Cyfradd (%)	(74.1)	(74.1)	(0.0)
Diweithdra ILO (b)				
Dwyrain Cymru	Lefel (000)	23	25	2
	Cyfradd (%)	(4.5)	(4.8)	(0.3)
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Lefel (000)	48	45	-3
	Cyfradd (%)	(6.0)	(5.3)	(-0.6)
Cymru	Lefel (000)	71	70	-1
	Cyfradd (%)	(5.4)	(5.1)	(-0.3)
Y DU	Lefel (000)	1,450	1,483	32
	Cyfradd (%)	(5.0)	(5.0)	(-0.0)
Anweithgarwch economaidd (c)				
Dwyrain Cymru	Lefel (000)	152	146	-6
	Cyfradd (%)	(23.9)	(22.5)	(-1.4)
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Lefel (000)	312	293	-20
	Cyfradd (%)	(28.6)	(26.5)	(-2.1)
Cymru	Lefel (000)	464	438	-26
	Cyfradd (%)	(26.9)	(25.0)	(-1.9)
Y DU	Lefel (000)	7,856	7,986	130
	Cyfradd (%)	(21.9)	(21.9)	(-0.0)

(a) Mae'r lefelau ar gyfer y rhai 16 oed a throsodd, mae'r cyfraddau ar gyfer y rhai o oedran gweithio (gwrywod 16-64 oed, benywod 16-59 oed);


(b) Mae'r lefelau a'r cyfraddau ar gyfer y rhai 16 oed a throsodd. Mynegir y gyfradd fel cyfran o'r bobl economaidd weithgar (cyflogaeth a phobl ddi-waith yn ôl diffiniad yr ILO). Mae diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) yn cynnwys y rhai sy'n ddi-waith ac y mae eisiau swydd arnynt, a fu'n chwilio am waith yn ystod y pedair wythnos diwethaf ac sydd ar gael i ddechrau gweithio yn ystod y ddwy wythnos nesaf; ynghyd â'r rhai sy'n ddi-waith, a ddaeth o hyd i swydd ac sy'n aros i ddechrau yn ystod y ddwy wythnos nesaf;

(c) Mae'r lefelau a'r cyfraddau ar gyfer y rhai o oedran gweithio (gwrywod 16-64 oed, benywod 16-59 oed).

Ffynhonnell: Arolwg Marchnad Lafur

2.44 Yng Nghymru ceir cryn amrywio o ran perfformiad y farchnad lafur. Dengys Ffigur 8 y gyfradd cyflogaeth ledled Cymru, a dengys y rhannau mwy tywyll lle y mae'r gyfradd cyflogaeth yn isel a dengys y rhannau mwy golau gyfraddau cyflogaeth uwch. Ceir yr ardaloedd hynny â'r cyfraddau cyflogaeth isaf yn Ne Cymru, yn arbennig Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Chastell-nedd Port Talbot. O fewn Dwyrain Cymru mae gan Gaerdydd y gyfradd cyflogaeth isaf, ac fel y dangosir mewn adrannau diweddarach, bocedi o amddifadedd.


Ffigur 8. Cyfraddau Cyflogaeth yn ôl Awdurdod Lleol



Ffynhonnell: Arolwg Marchnad Lafur

2.45 Dengys Ffigur 9 isod ymhellach, o ran dangosyddion marchnad lafur, mai yng nghymoedd De Cymru y mae tanberfformiad cymharol Cymru wedi'i ganoli. Dengys Ffigur 9 y cyfraddau anweithgarwch economaidd yn ôl awdurdod lleol. Po dywyllaf yr arlliw po uchaf y cyfraddau anweithgarwch economaidd o fewn yr awdurdod lleol. Mae gan bob un o'r awdurdodau lleol yng nghymoedd De Cymru gyfradd anweithgarwch economaidd sydd uwchlaw 26% o gymharu â dim ond Sir Gaerfyrddin y tu allan i gymoedd De Cymru. O fewn Dwyrain Cymru, mae gan Wrecsam y cyfraddau anweithgarwch economaidd uchaf ac mae gan Sir y Fflint, Powys a Sir Fynwy i gyd gyfraddau anweithgarwch economaidd sydd islaw 20% o'r boblogaeth oedran gweithio.

Ffigur 9. Cyfraddau Anweithgarwch Economaidd yn ôl Awdurdod Lleol




Ffynhonnell: Arolwg Marchnad Lafur

2.46 Her allweddol sy'n wynebu economi Cymru o ran gwella mynediad i gyflogaeth yw cynnwys unigolion anweithgar yn gynaliadwy yn y farchnad lafur. Fel y nodwyd yn y dadansoddiad uchod, er gwaethaf y gwelliannau yn sefyllfa'r farchnad lafur, fod y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru yn dal i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer y DU yn gyffredinol. Gan fod cyfraddau diweithdra yng Nghymru bellach yn cyd-fynd â chyfartaledd y DU, nid yw lefelau uwch o ddiweithdra yn esbonio'r gwahaniaeth hwn, yn wir y cyfraddau anweithgarwch economaidd uwch sy'n esbonio'r rhan fwyaf o'r gwahaniaeth mewn cyfraddau cyflogaeth.

2.47 Gwnaed cynnydd o ran lleihau cyfraddau anweithgarwch economaidd ledled Cymru yn gyffredinol. Er mwyn gwneud cynnydd pellach yn y maes hwn mae'n bwysig deall achosion sylfaenol anweithgarwch gormodol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Y ffactor a nodwyd amlaf gan ymatebwyr, yn arbennig

dynion, oedd cyflwr iechyd hirsefydlog hunan-gofnodedig sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Fel y dengys Ffigur 10, mae hyn yn rhoi cyfrif am gryn dipyn o'r gwahaniaeth cyffredinol mewn anweithgarwch economaidd rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chymru a'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Roedd ymatebwyr ar gyfer Dwyrain Cymru yn debyg i'r DU yn gyffredinol. Mae lefelau anweithgarwch yn gyson uwch ymhlith y rhai â sgiliau isel fel y trafodir isod.

Ffigur 10. Cyfradd Anweithgarwch Economaidd yn ôl y rheswm a roddwyd, 2004



Ffynhonnell: Arolwg Marchnad Lafur

2.48 Yn ddiau mae afiechyd cofnodedig yn fwy o broblem mewn rhai rhannau o Gymru nag yn y DU yn gyffredinol. Mae Tabl 8 yn crynhoi rhai canlyniadau o Arolwg Iechyd Cymru ar asesiadau iechyd hunan-gofnodedig²⁶ ar gyfer unigolion o oedran gweithio. Dengys Tabl 9 fod nifer yr achosion o bron pob afiechyd a chyflwr ymhlith unigolion o oedran gweithio yn fwy yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yn Dwyrain Cymru a Chymru yn gyffredinol.

²⁶ Maent yn adlewyrchu dealltwriaeth pobl eu hunain o'u hiechyd yn hytrach nag asesiad clinigol o'u cyflwr.

Tabl 8: Canran yr oedolion yn cofnodi afiechydon/cyflyrau dethol (a)

Sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd ar gyfer	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Dwyrain Cymru	Cymru
Pwysedd gwaed uchel	10	8	10
Unrhyw gyflwr sy'n effeithio ar y galon (ac eithrio pwysedd gwaed uchel)	4	4	4
Asthma	10	8	9
Unrhyw afiechyd anadlol (gan gynnwys asthma)	11	10	11
Unrhyw salwch meddwl	10	8	9
Arthritis	8	6	7
Poen cefn	10	8	10
Diabetes	3	3	3
Salwch hirdymor cyfyngol	21	17	20
Llai na 21 o ddannedd	17	13	16

Ffynhonnell: Arolwg Iechyd Cymru 2003/04

(a) Diffinnir oedolion o oedran gweithio fel 16-64 ar gyfer dynion a 16-59 ar gyfer merched. Gweler Adroddiad Arolwg Iechyd Cymru a gwefannau'r arolwg ar gyfer disgrifiad o'r arolwg a diffiniadau llawn.

<http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/publication-archive/health-survey2003-04/?lang=cy>

2.49 Tra nodir afiechyd hunan-gofnodedig fel rheswm allweddol sy'n esbonio anweithgarwch economaidd uwch, cododd cyfraddau anweithgarwch economaidd ymhlith dynion yn ystod y 1980au a'r 1990au pan wellodd mesurau gwrthrychol (mesurau megis y rhai a nodir yn Nhabl 8) ar gyfer iechyd. Arweiniodd ymchwil helaeth²⁷ yn y maes hwn at gonsensws newydd y gallai cyfran sylweddol o'r bobl hynny yr ymddengys fod ganddynt gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, gan gynnwys pobl sy'n derbyn budd-daliadau analluogrwydd, gyda'r cymorth a'r gefnogaeth iawn, chwarae rôl fwy gweithgar yn y farchnad lafur.


2.50 Dengys Ffigur 11 rai canlyniadau diddorol yr anweithgarwch economaidd gormodol yng Nghymru o gymharu â'r DU yn ôl rhyw, oedran a'r rheswm a roddwyd. Dengys Ffigur 11 yn achos gwrywod a benywod yn y dosbarthiadau oedran uchaf mai pobl â salwch hirdymor sy'n esbonio'r rhan fwyaf o'r gormodedd mewn anweithgarwch economaidd yng Nghymru o gymharu â'r DU yn gyffredinol. Mae hyn hefyd yn wir yn achos gwrywod a benywod yn y dosbarth oedran 35-49, fodd bynnag, yn achos benywod yn y dosbarth oedran hwn mae gan Gymru lai o fenywod sy'n economaidd anweithgar am eu bod yn gofalu am y cartref a'r teulu o gymharu â chyfartaledd y DU. Yn achos benywod yn y

²⁷ Grŵp Strategaeth a Chyfathrebu Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004. Adolygiad o Anweithgarwch Economaidd. Ar gael yn: Welsh Assembly Government Strategy and Communications Group, 2004. Review of Economic Inactivity: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-second/bus-committees-second-edt-home/bus-committees-second-edt-agendas.htm?act=dis&id=20929&ds=9/2004>

Adran Gwaith a Phensiynau, 2006, Impacts of the Job Retention and Rehabilitation Pilot. Adroddiad ymchwil a luniwyd gan y Ganolfan Ymchwil Gymdeithasol a'r Sefydliad Trefol ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau: <http://www.dwp.gov.uk/asd/asd5/rports2005-2006/rrep342.pdf>

dosbarthiadau oedran 16-24 a 25-34 gofalu am y cartref a'r teulu sy'n esbonio'r rhan fwyaf o'r anweithgarwch economaidd gormodol yng Nghymru o gymharu â'r DU yn gyffredinol.

Ffigur 11. Nifer y bobl economaidd anweithgar yng Nghymru yn uwch na chyfraddau anweithgarwch cyfartalog y DU, yn ôl grŵp oedran, rhyw a rheswm, 2003



Ffynhonnell: Arolwg Marchnad Lafur

2.51 Mae'r cynnydd mewn cyflogaeth benywod yn gyffredinol ar draws Cymru wedi tynnu sylw at fater gofal plant fel rhwystr posibl i gyfranogiad yn y farchnad lafur²⁸. Fel y dengys Ffigurau 10 ac 11 mae 'gofalu am y cartref a'r teulu' yn rhoi cyfrif am gyfran fawr o'r rhesymau dros fod yn economaidd anweithgar. Dadleuwyd bod y DU wedi dioddef oherwydd diffyg gofal plant hygyrch a fforddiadwy a bod hynny yn helpu i esbonio yn rhannol anweithgarwch economaidd ledled y DU²⁹. Mae *Strategaeth Gofal Plant Cymru* yn tynnu sylw at nifer o ardaloedd lle y mae gan Gymru ddiffygion o ran darparu gofal plant yn arbennig tanddarpariaeth mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru³⁰. Dengys ymchwil³¹ fod sybsideiddio gofal plant a chynyddu argaeledd yn arwain at gyflogaeth ar gyfer benywod ac, yn arbennig, rhieni unigol; fodd bynnag, ceir yr effaith fwyaf pan gaiff polisïau eu targedu a rhoddir prawf modd arnynt. Yn ogystal â gofal plant mae corff o dystiolaeth³² sy'n dangos bod presenoldeb aelodau teulu oedranus yn lleihau cyfranogiad yn y farchnad lafur.

²⁸ Blackaby, D ac eraill 2003. Identifying Barriers to Economic Activity in Wales. Adroddiad ar gyfer Uned Ymchwil Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru: <http://new.wales.gov.uk/about/aboutresearch/econoresearch/economicresearch/ercompletedresearch/barrierseconomicactivity?force=cy>

²⁹ Duncan, A a Giles, C. 1996. Should we Subsidise Childcare and if so how? *Fiscal Studies*, Cyf 17 tudalennau 39-61.

³⁰ Ceir rhagor o fanylion yn Strategaeth Gofal Plant Cymru – Ar gyfer Plant y mae Gofal, sydd ar gael yn: <http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypublications/935820/?lang=cy>

³¹ Duncan, A ac eraill, 2001. Mothers' Employment and the use of Childcare in the UK, Y Sefydliad Astudiaethau Ariannol WP01/23. Duncan, A a Giles, C. 1996. Should we Subsidise Childcare and if so how? *Fiscal Studies*, Cyf 17 tudalennau 39-61.

³² Greenhalgh, C. 1980. Participation and hours worked of married women in Great Britain. *Oxford Economics Papers* Cyf 32, tudalennau 296-318

2.52 Yn ogystal â gofal plant, nodwyd nifer o rwystrau eraill i gyflogaeth ar gyfer y rhai sy'n economaidd anweithgar ar hyn o bryd. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd rhwydweithiau, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, ar ffurf mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus fel rhwystrau posibl yn arbennig ar gyfer unigolion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig³³. Mae'n amlwg bod hyn yn dwyn goblygiadau i Gymru o gofio bod rhan helaeth o'r tîrfas yn wledig ei natur.

2.53 Dengys Ffigur 12 isod fynediad i ganolfannau cyflogaeth allweddol yng Nghymru³⁴ ar fws ac ar droed. Dengys y rhannau coch lle y mae'n cymryd mwy nag awr i gyrchu canolfan gyflogaeth allweddol. Ceir yr ardaloedd sydd â'r mynediad gwaethaf i ganolfannau cyflogaeth allweddol ar fws/troed yng Nghymru yng Ngorllewin Cymru. Fodd bynnag, mae pocedi mawr o fynediad gwael i ganolfannau cyflogaeth yng nghymoedd De Cymru. Mae hyn yn destun pryder yn arbennig o gofio'r cyfraddau anweithgarwch economaidd cymharol ar draws Cymoedd De Cymru a'r cysylltiadau rhwng mynediad trafndiaeth fel rhwystr i gyflogaeth ar gyfer unigolion sy'n economaidd anweithgar³⁵.

³³ Cartmel, F a Furlong, A, 2000. Youth Unemployment in Rural Areas. Adroddiad ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree.

³⁴ Cymerwyd y canolfannau cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn y plot hwn o *Gynllun Gofodol Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r canolfannau a gynhwyswyd i gyd yn ganolau trefi/dinasoedd â mwy na 2,000 o swyddi (data ar gyfer 2000), ynghyd â lleoliadau yn Lloegr sef, Caer, yr Amwythig, Henffordd a Bryste. *Cynllun Gofodol Cymru*, Rhagfyr 2004: <http://new.wales.gov.uk/about/strategy/spatial/?lang=cy>

³⁵ Blackaby, D ac eraill 2003. Identifying Barriers to Economic Activity in Wales. Adroddiad ar gyfer Uned Ymchwil Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ffigur 12. Mynediad i ganolfannau cyflogaeth allweddol ar fws ac ar droed (a)



(a) Cymerwyd y canolfannau cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn y plot hwn o Gynllun Gofodol Cymru. Mae'r canolfannau a gynhwyswyd i gyd yn ganolau trefi/dinasoedd â mwy na 2,000 o swyddi (data 2000), ynghyd â lleoliadau dros y ffin yn Lloegr, sef Caer, yr Amwythig, Henffordd a Bryste. Ffynhonnell: Halcrow Group Limited

2.54 Er bod rhwystrau unigol i weithgarwch wedi'u nodi, mae unigolion yn wynebu nifer o anfantaision, felly, mae angen ymagwedd gydgyssylltiedig at leihau anweithgarwch economaidd ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru³⁶.

Cynnwys pobl dan anfantais yn gymdeithasol

2.55 Tra dangosodd y prif ddangosyddion marchnad lafur gynnydd calonogol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru yn dal i fod yn is nag yn y DU ac mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn dal i fod

³⁶ Berthouard, R. 2003. Multiple Disadvantages in Employment: A Quantitative Analysis. Adroddiad ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree.

yn uwch. Fel y dengys y dadansoddiad canlynol, nid yw rhai grwpiau yn y gymdeithas yn cael cystal hwyl arni o ran cyfranogiad cyffredinol yn y farchnad lafur.

2.56 Dengys Tabl 9 y newidiadau mewn cyfraddau cyflogaeth wedi'u dadgyfuno yn ôl anabledd ac ethnigrwydd. Dengys Tabl 9 fod cyfraddau cyflogaeth a chyfraddau anweithgarwch economaidd ar gyfer y bobl hynny ag anabledd³⁷ ar draws Dwyrain Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chymru yn gyffredinol gryn dipyn yn is nag ar gyfer y rhai heb unrhyw anabledd. Nid yw hyn yn syndod o gofio bod anabledd yn yr Arolwg Marchnad Lafur wedi'i rannol ddiffinio fel pobl ag anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio³⁸. Fodd bynnag, mae cyfraddau diweithdra (sy'n mesur y rhai sy'n gallu chwilio am waith, sy'n fodlon chwilio am waith ac sydd wrthi'n chwilio am waith) ar gyfer pobl ag anabledd, gryn dipyn yn uwch nag ar gyfer pobl heb anabledd. Ledled Cymru yn gyffredinol mae cyfanswm o 221,000 o unigolion anabl yn economaidd anweithgar ac mae ychydig o dan 13,000 o unigolion anabl wedi'u cofrestru'n ddi-waith. Dangosodd ymchwili ddiweddar³⁹ fod y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl anabl nad yw'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, yn cyfateb fwy neu lai i'r rhai ar gyfer unigolion heb anabledd. Felly yr elfen sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio sydd wrth wraidd gwahaniaethau mewn cyfraddau cyflogaeth rhwng unigolion ag anabledd ac unigolion heb anabledd.

2.57 Dengys Tabl 9 hefyd nad yw pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) yn cael cystal hwyl arni o ran canlyniadau marchnad lafur o gymharu â phobl nad ydynt o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru yn gyffredinol ac isranbarthau Cymru. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth dehongli ffigurau ar gyfer y boblogaeth dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru oherwydd meintiau sampl bach. Er enghraifft, ar gyfer Cymru yn gyffredinol dengys y gyfradd diweithdra dros y cyfnod 2001–04 newidiadau blynyddol mawr a 7.5% oedd y gyfradd diweithdra yn 2001 a gododd wedyn i 14.8% yn 2002. Ar ben hynny, mae newidiadau mewn cyfraddau diweithdra, er eu bod yn fawr yn nhermau canrannol, yn fach yn nhermau absoliwt. Cynrychiolodd y codiad yn y gyfradd cyflogaeth rhwng 2001 a 2004 1,600 ychwanegol o unigolion wedi'u cofrestru'n ddi-waith ledled Cymru yn gyffredinol. Ledled Cymru yn gyffredinol, mae cyfanswm o 3,000 o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi'u cofrestru'n ddi-waith a 14,000 sydd wedi'u cofrestru'n economaidd anweithgar.

2.58 Ymchwiliodd tystiolaeth ddiweddar⁴⁰ i'r gwahaniaethau yng nghanlyniadau marchnad lafur pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru a Lloegr a'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn. Ymddengys tri phrif gasgliad o'r gwaith hwn. Yn gyntaf mae pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn tueddu i fyw

³⁷ Diffinnir anabledd fel pobl ag anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio neu bobl anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd neu'r ddau.

³⁸ Mae canlyniadau yn y farchnad lafur ar gyfer unigolion ag anabledd nad yw'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn debyg i ganlyniadau unigolion nad ydynt yn anabl.

³⁹ JONES, M K (2005) disability and the labour market: A review of the empirical evidence <http://www.swan.ac.uk/welmerc/pdf%20and%20cv/Disability%20and%20the%20Labour%20Market%20A%20review%20of%20the%20empirical%20evidence-%20DP.pdf>

⁴⁰ Clark. K a Drinkwater S. 2005. Dynamics and Diversity: Ethnic Employment Differences in England and Wales, 1991-2001. IZA Papur Trafod Rhif 1698 <http://www.econ.surrey.ac.uk/staff/sdrinkwater/dp1698.pdf>

mewn ardaloedd difreintiedig ac felly maent yn wynebu cosb farchnad lafur (er nad yw achosiaeth hyn yn glir). Yn ail, mae cyrhaeddiad addysgol pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn is na chyrhaeddiad addysgol pobl nad ydynt o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig. Yn olaf, mae tystiolaeth yn awgrymu bod crefydd yn ffynhonnell amrywio ychwanegol o ran ymddygiad yn y farchnad lafur am fod unigolion â rhai credoau crefyddol, ar ôl rheoli ar gyfer nodweddion unigol, yn cael canlyniadau marchnad lafur andwyol.

Tabl 9: Crynodeb o'r farchnad lafur, wedi'i ddadgyfuno yn ôl anabledd (a) ac ethnigrwydd (canran)

	Cyflogaeth		Anweithgarwch economaidd		Diweithdra (b)	
	2001	2004	2001	2004	2001	2004
Anabledd						
<i>Dwyrain Cymru</i>						
Pob Person	72.6	73.9	23.9	22.9	4.7	4.2
Pobl Anabl	44.1	48.0	52.4	49.1	7.2	5.7
Heb fod yn anabl	79.3	80.2	17.1	16.5	4.3	3.9
<i>Gorllewin Cymru a'r Cymoedd</i>						
Pob Person	67.0	69.6	28.6	26.5	6.1	5.4
Pobl Anabl	33.9	38.2	62.4	58.4	9.9	8.1
Heb fod yn anabl	77.8	79.9	17.6	16.0	5.5	4.9
<i>Cymru</i>						
Pob Person	69.1	71.2	26.9	25.1	5.1	4.9
Pobl Anabl	37.1	41.3	59.3	55.5	8.9	7.2
Heb fod yn anabl	78.4	80.8	17.4	16.2	5.1	4.5
Ethnigrwydd						
<i>Dwyrain Cymru</i>						
Pob Person	72.6	73.9	23.9	22.9	4.5	4.1
Y boblogaeth BME (c)	52.8	58.4	43.0	34.7	7.1	10.5
Y boblogaeth nad yw'n dod o grwpiau BME	73.3	74.6	23.1	22.4	4.5	3.8
<i>Gorllewin Cymru a'r Cymoedd</i>						
Pob Person	67.0	69.6	28.6	26.5	6.0	5.2
Y boblogaeth BME (c)	62.6	59.0	31.7	32.9	8.2	12.1
Y boblogaeth nad yw'n dod o grwpiau BME	67.1	68.7	28.6	26.4	5.9	5.1
<i>Cymru</i>						
Pob Person	69.1	71.2	26.9	25.1	5.4	4.8
Y boblogaeth BME (c)	55.7	58.6	39.7	34.1	7.5	11.1
Y boblogaeth nad yw'n dod o grwpiau BME	69.3	71.5	26.6	24.9	5.4	4.6

(a) Diffinnir anabledd fel anabledd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio neu anabledd fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd neu'r ddau;

(b) Mae cyfraddau diweithdra wedi'u dosbarthu yn ôl anabledd yn seiliedig ar bobl o oedran gweithio yn unig am na ofynnwyd y cwestiwn ynghylch anabledd i bobl mewn gwaith, ond i bobl dros oedran gweithio. Felly bydd y gyfradd ar gyfer pob person yn wahanol i gyfraddau diweithdra ar gyfer pobl o oedran gweithio;

(c) Pawb mewn grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig.

Ffynhonnell: Arolwg Marchnad Lafur Blynyddol / Arolwg Poblogaeth Blynyddol

2.59 Mae'r bwlch rhwng cyfraddau cyflogaeth gwrywod a benywod yng Nghymru tua hanner y bwlch ar gyfer y DU yn gyffredinol ac yn ddiweddar bu cyflogaeth benywod yn cynyddu'n gyflymach na chyflogaeth gwrywod ledled Cymru yn gyffredinol. Rhwng 2001 a 2004, cynyddodd cyfradd cyflogaeth benywod ledled Cymru o 2.9% o gymharu â 1.7% ar gyfer gwrywod, ac erbyn hyn 67.8% yw cyfradd cyflogaeth benywod. Cynyddodd cyfradd cyflogaeth benywod ym mhob dosbarth oedran, ond bu'r cynnydd yn arbennig o amlwg ar gyfer y rhai 35–59 oed. Mewn cyferbyniad gostyngodd cyfraddau cyflogaeth gwrywod o brif oedran gweithio⁴¹ ledled Cymru o tua 0.4 pwynt canran rhwng 2001 a 2004 o gymharu â chynnydd o 1.7 pwynt canran ar gyfer benywod. Ledled Cymru yn gyffredinol mae 250,000 o fenywod a 188,000 o wrywod yn economaidd anweithgar, a thrafodir y rhesymau dros hyn mewn adrannau diweddarach.

2.60 Mae'r gostyngiad yng nghyflogaeth gwrywod ifanc (16-24 oed) yn Nwyrain Cymru hefyd yn destun pryder. Dengys data diweddar⁴² (2003–2004), ledled Cymru yn gyffredinol (nid oes unrhyw ddata ar gael ar lefel is-Gymru), i nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant (NEET) godi i 13% o 11% yn 2002–2003. Cydnabyddir yn eang yn y llenyddiaeth economaidd⁴³, fod addysg, sgiliau a'u profiadau o'r farchnad lafur yn hanfodol bwysig i gyfleoedd bywyd oedolion ifanc yn y dyfodol. Felly, gall amser a dreulir i ffwrdd o gyfranogiad gweithredol yn y farchnad lafur achosi problemau yn ddiweddarach yn eu bywyd i'r unigolion hyn. Nododd tystiolaeth ddiweddar pa mor bwysig yw gwella cyrhaeddiad addysgol, ac atal cyfnodau sylweddol o ddiweithdra rhag crynhoi pan fydd pobl yn ifanc ac y gall hyn leihau'r graddau y mae lleiafrif o unigolion (yn arbennig dynion) yn treulio rhan helaeth o'u bywydau gweithio yn ddi-waith.

⁴¹ Fe'i diffinnir fel y rhai 25-34 oed.

⁴² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2005 SB/80/2005. Participation of Young People in Education and the Labour Market 2003/04:

⁴³ Er enghraifft gweler Greeg, P a Tominey, E, 2001 The Impact of Youth Unemployment on Adult Unemployment in the NCDS Economic Journal cyf 11, rhifyn 475, F626-653.

Tabl 10: Cyfraddau cyflogaeth yn ôl rhyw ac oedran


	<i>Dwyrain Cymru</i>		Gorllewin Cymru a'r Cymoedd		<i>Cymru</i>	
	2001	2004	2001	2004	2001	2004
Gwrywod						
16-24	60.4	58.5	56.6	60.5	58.0	59.7
25-34	87.2	87.8	84.6	83.6	85.6	85.2
35-49	88.1	89.9	82.1	85.8	84.3	87.3
50-64	68.9	71.3	57.8	60.9	61.6	64.5
65+	9.6	8.3	5.8	6.5	7.1	7.1
Oedran gweithio	77.3	78.0	70.6	72.9	73.1	74.8
Benywod						
16-24	55.1	59.6	51.3	54.8	52.7	56.7
25-34	69.8	72.0	68.8	70.2	69.2	70.9
35-49	75.9	76.7	70.7	74.4	72.7	75.3
50-59	62.8	69.0	56.1	59.6	58.5	62.9
60+	8.9	8.9	6.9	7.8	7.6	8.2
Oedran gweithio	67.6	70.5	63.2	66.2	64.9	67.8
Pobl						
16-24	57.7	59.7	53.9	57.7	55.3	58.2
25-34	78.2	79.5	76.5	76.7	77.1	77.8
35-49	81.8	83.1	76.3	80.0	78.4	81.1
50-64	66.3	70.4	57.1	60.4	60.3	63.9
65+	9.1	8.7	6.5	7.3	7.4	7.8
Oedran gweithio	72.6	74.3	67.0	69.6	69.1	71.4

Ffynhonnell: Arolwg Marchnad Lafur Leol

2.61 Un o brif dargedau cyflogaeth Lisboa yw cynyddu cyfradd cyflogaeth gweithwyr hŷn (y rhai rhwng 55 a 64 oed) i 50% erbyn 2010. Mae Ffigur 13 yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer Cymru, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn erbyn y targed hwn. Mae'r gyfradd cyflogaeth gyffredinol ar gyfer gweithwyr hŷn ledled Cymru ychydig o dan darged Lisboa, sef 50%. Ar draws Dwyrain Cymru mae'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer gweithwyr hŷn uwchlaw targed Lisboa a bu felly ers 2002. Mae'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer gweithwyr hŷn ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ychydig o dan darged Lisboa, sef 45.2%. Bydd cynyddu'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer gweithwyr hŷn yn helpu tuag at gyrraedd y targed o godi'r oedran cyfartalog effeithiol ar gyfer gadael y farchnad lafur a nodir yn EES⁴⁴.

⁴⁴ Y Comisiwn Ewropeaidd (2005/600/EC) Penderfyniad y Cyngor dyddiedig 12 Gorffennaf 2005 ar ganllawiau ar gyfer polisiau cyflogaeth yr Aelod-wladwriaethau.
http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/oj/2005/l_205/l_20520050806en00210027.pdf

Ffigur 13. Cyfradd Cyflogaeth Gweithwyr Hŷn
Error!



Ffynhonnell: Eurostat


2.62 Ar draws Cymru yn gyffredinol bu tua 50% o'r cynnydd mewn cyflogaeth rhwng 2001 a 2004 mewn cyflogaeth ran amser. Yn achos gwrywod, roedd 56% o'r cynnydd mewn cyflogaeth yn rhan amser tra mai 44% oedd y ffigur cyfatebol ar gyfer benywod. Mae'r darlun ar draws Dwyrain Cymru rywfaint yn wahanol i'r un ar gyfer Cymru yn gyffredinol am fod tua thraean o'r holl gynnydd mewn cyflogaeth yn rhan amser ar gyfer gwrywod a benywod dros y cyfnod 2001 i 2003. Mae 26% o'r holl gyflogeion yn gweithio'n rhan-amser ledled Cymru, sef cyfanswm o 334,000 o unigolion. Yn achos benywod 44% yw'r ffigur hwn (264,000 o unigolion) o gymharu ag 11% (70,000 o unigolion) yn achos gwrywod. Mae'r cyfrannau ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn cyd-fynd fwy neu lai â chyfartaledd Cymru gyfan.

2.63 Yn ogystal â'r cynnydd mewn lefelau cyflogaeth ledled Cymru, cynyddodd enillion cyfartalog hefyd. Ers 1999, cynyddodd enillion cyfartalog yng Nghymru o 28% mewn termau nominal (13% mewn termau real). Gwelwyd yr un cynnydd, fwy neu lai, ar draws isranbarthau Cymru ac yn y DU yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd gan Gymru y trydydd enillion wythnosol cyfartalog isaf ymhlith rhanbarthau'r DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn 2005. Roedd enillion wythnosol gros cyfartalog ar gyfer oedolion llawn amser yng Nghymru yn £455 ym mis Ebrill 2005, 88.0% o'r cyfartaledd ar gyfer y DU yn gyffredinol⁴⁵. O fewn Cymru a'i hisranbarthau mae gwahaniaethau clir fel y dangosir yn Ffigur 14 ac mae enillion cyfartalog ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn is nag ar draws Dwyrain Cymru. Fodd bynnag, o fewn Dwyrain Cymru, mae gan Bowys a

⁴⁵ Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2005, y Swyddfa Ystadegau Gwladol:
<http://www.statistics.gov.uk/STATBASE/Product.asp?vlnk=13101>

Sir Fynwy enillion cyfartalog is nag ar gyfer Cymru yn gyffredinol a'r ail isaf ar gyfer pob ardal leol yng Nghymru. Mae gan Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yr enillion cyfartalog isaf ac maent tua 93% o gyfartaledd Cymru. Esbonnir y gwahaniaethau hyn yn rhannol gan strwythurau diwydiannol cymharol yr isranbarthau a drafodir yn fyr isod.

Ffigur 14. Enillion wythnosol gros cyfartalog (a)(b)



(a) Yn seiliedig ar enillion wythnosol gros cyfartalog (gan gynnwys goramser) ar gyfer oedolion llawn-amser nad effeithiwyd ar eu cyflog gan absenoldeb;

(b) Ers arolwg 2004, casglwyd gwybodaeth atodol er mwyn cynyddu cwmpas yr arolwg ac felly ei wneud yn fwy cynrychioliadol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am fusnesau nad ydynt wedi'u cofrestru am TAW ac ar gyfer pobl a newidiodd swydd neu a ddechreuodd swydd newydd rhwng yr adeg y dewiswyd y sampl a chyfnod cyfeirio'r arolwg. Felly mae rhywfaint o ddiffyg parhad wrth gymharu data ar gyfer 2005 â data ar gyfer blynyddoedd cynharach.

Ffynhonnell: Arolwg Oriau ac Enillion Blynyddol.

2.64 Ynghyd â chynnydd yng nghyflogaeth benywod yng Nghymru, mae'r bwch enillion rhwng gwrywod a benywod yng Nghymru yn llai yng Nghymru na chyfartaledd y DU, ac mae merched Cymru yn gwneud yn well o gymharu â'u cyfatebwyr yn y DU nag y mae dynion Cymru yn ei wneud o ran enillion cyfartalog yn ôl yr awr⁴⁶. Roedd enillion llawn-amser benywod yn ôl yr awr (ac eithrio goramser) yng Nghymru (ac ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru) ym mis Ebrill 2005 yn 88% o'r ffigur cyfatebol ar gyfer gwrywod. Roedd hyn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU yn gyffredinol (82.7%).

⁴⁶ Ffactor sy'n esbonio'r bwch cyflog cymharol fach rhwng y rhywiau yng Nghymru yw'r cyflog cymharol fach ar gyfer dynion yn hytrach na chyflog sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer merched.

2.65 Mae'r gwahaniaeth cyfartalog rhwng enillion gwrywod a benywod ledled y DU yn fwy nag ar draws 25 Aelod-wladwriaeth yr UE⁴⁷. Yn 2004, roedd enillion gros cyfartalog benywod yn ôl yr awr tua 78% o'r gyfradd gyfartalog ar gyfer gwrywod, o gymharu ag 85% ar draws 25 Aelod-wladwriaeth yr UE.

2.66 Nododd astudiaeth ddiweddar⁴⁸ a ymchwiliodd i'r gwahaniaeth mewn cyflog ar gyfer gwrywod a benywod ledled y DU fod gwahanu yn y farchnad lafur yn ffactor a esboniodd enillion cymharol gwrywod a benywod am fod merched at ei gilydd yn gweithio mewn grŵp cul o swyddi, sy'n cynnig yn bennaf waith rhan-amser â chyflog sydd islaw cyfartaledd y DU.

2.67 Ar ben hynny, ni fanteisir yn llawn ar gyfraniad economaidd merched. Yn achos merched mewn swyddi rhan-amser mae hyn yn fwy amlwg byth ac nid yw hyd at 45% o'r merched sy'n gweithio'n rhan-amser yn defnyddio eu sgiliau a'u cymwysterau yn eu swydd. Yn ail, mae tystiolaeth gref na wobrwyr merched ddigon am eu cyfraniad economaidd a bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, er ei fod wedi bod yn graddol leihau yn ystod y degawdau diweddar, yn parhau.

2.68 Yng Nghymru yn 2004, daliai merched 83% o'r swyddi mewn galwedigaethau gwasanaethau personol a 78% o'r swyddi mewn galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol. Mewn cyferbyniad, daliai dynion 93% o'r swyddi crefftus ac 84% o swyddi gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau. Mae'n dal i fod yn wir bod y mwyafrif o uwch swyddi ym mhob sector bron yn cael eu dal gan ddynion; er enghraifft, yn y proffesiwn dysgu mae'r mwyafrif o athrawon uwchradd yn ferched, ac eto mae'r mwyafrif o benaethiaid ysgolion uwchradd yn ddynion.

2.69 Dengys ymchwil⁴⁹ fod: 36% o'r bwlch cyflog i'w briodoli i wahaniaethau mewn patrymau gweithio gydol oes (er enghraifft, cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i ofalu am blant gan ddychwelyd yn aml i swyddi sy'n talu llai o gyflog, neu ferched yn newid swyddi yn llai aml na dynion, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at godiadau cyflog ar gyfer dynion); mae gwahanu galwedigaethol yn rhoi cyfrif am 18%; mae 38% i'w briodoli i wahaniaethau mewn cymhellion marchnad lafur a hoffterau merched o gymharu â dynion ac i wahaniaethu uniongyrchol; ac mae 8% i'w briodoli i wahaniaethau mewn cyfalaf dynol megis cymysgedd cymwysterau is merched a llai o flynyddoedd o brofiad os ydynt wedi cymryd amser i ffwrdd i ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu. Efallai y bydd cyflogwyr, gan ddisgwyl y bydd merched yn cymryd seibiant gyrfa, yn trin merched yn llai ffafriol hefyd fel y bydd hyd yn oed y merched hynny nad ydynt yn cymryd seibiant gyrfa, na seibiant byr iawn, yn dioddef cosb. Mae'r diffyg cyflog cyfartal yn dal i fod yn

⁴⁷ Nodir y bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel y gwahaniaeth rhwng enillion gros cyfartalog yn ôl yr awr cyflogion cyflogedig gwryw a chyflogion cyflogedig benyw fel canran o enillion gros cyfartalog yn ôl yr awr cyflogion cyflogedig gwryw. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn seiliedig ar nifer o ffynonellau data, gan gynnwys Panel Cartrefi Cymunedol Ewrop (ECHP), Arolwg Incwm ac Amodau Byw'r UE (EU-SILC) a ffynonellau cenedlaethol. Mae'r boblogaeth darged yn cynnwys pob cyflogai cyflogedig 16-64 oed sy'n 'gweithio am 15+ awr yr wythnos'. Mae data ar lefel y DU yn seiliedig ar ddata ar gyfer cyflogion 16-59/64 oed, felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r data yn seiliedig ar gymariaethau â'r UE â data yn seiliedig ar ddiffiniadau'r DU.

⁴⁸ Y Comisiwn Merched a Gwaith, 2005, Shaping a Fairer Future:

http://www.womenandequalityunit.gov.uk/publications/wwc_shaping_fairer_future06.pdf

⁴⁹ Ymchwil y Comisiwn Cyfle Cyfartal, 'Modelling Gender Pay Gaps':

http://www.eoc.org.uk/PDF/modelling_gender_pay_gaps_wp_17.pdf

ffactor ac mae rhai ymchwilwyr o'r farn, hyd yn oed ar ôl i'r holl ffactorau esboniadol gael eu hystyried, y gall fod bwlch heb ei esbonio o tua 10%. O ganlyniad, er bod 47% o weithlu Cymru bellach yn fenywod, mae'r bwlch cyflog yn parhau.

Cyfalaf dynol

2.70 Mae twf economaidd hirdymor a chodiadau mewn enillion yn dibynnu uwchlaw pob dim ar gynyddu gwerth ychwanegol fesul swydd yn yr economi. Mae dadansoddi'r⁵⁰ amrywiadau ledled Prydain Fawr yn awgrymu bod sgiliau yn ffactor pwysig o ran y lefel o gynhyrchiant. Fel a drafodir yn fanylach isod mae gan Gymru yn gyffredinol (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn benodol) broffil sgiliau anffafriol a chyfran fwy o unigolion heb unrhyw gymwysterau ffurfiol o gymharu â'r DU yn gyffredinol. Yn achos Cymru (nid oes unrhyw ddata ar gael ar lefel is-Gymru) mae'r proffil sgiliau anffafriol yn esbonio tua 20% o gynhyrchiant is Cymru o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol. Mae tystiolaeth⁵¹ yn awgrymu bod cynnydd o 10% yng nghyfran yr unigolion â chymwysterau lefel gradd neu uwch yn cynyddu cynhyrchiant o bron 1%, tra bod yr un gostyngiad cymesur yng nghyfran yr unigolion heb unrhyw gymwysterau ffurfiol yn cynyddu cynhyrchiant o tua 0.7%. Felly gallai parhau i fuddsoddi mewn gwella sgiliau'r boblogaeth helpu i gynyddu cynhyrchiant, yn ogystal â helpu i leihau gwahaniaethau mewn cyfraddau cyflogaeth trwy leihau anweithgarwch economaidd.

2.71 Mae cynyddu lefelau sgiliau yn y gweithlu hefyd yn gysylltiedig â chyfraddau gweithgarwch economaidd uwch a chynnydd mewn cynhyrchiant, y bydd y ddau ohonynt yn cynyddu cyfraddau gwerth ychwanegol crynswth y pen, a fydd yn ei dro yn effeithio ar lefelau o ffyniant unigol a chymunedol. Dywed Cyd-adroddiad Interim yr UE 2004 fod 'codi cyrhaeddiad addysgol y boblogaeth o un flwyddyn yn cynrychioli cynnydd o 5% mewn twf yn y byrdymor, a 2.5% pellach yn yr hirdymor⁵².

2.72 Mae consensws eang bod newid yng nghyfansoddiad y galw am lafur yn ganolog i'r dadansoddiad o dueddiadau yn y farchnad lafur yn ystod y ddau ddegawd diwethaf. Mae sefyllfa gymharol pobl sgil isel yn y farchnad lafur wedi gwaethygu ledled y byd datblygedig, ac amlygir hyn gan gyflogau cymharol is a/neu gyfraddau cyflogaeth is⁵³.

2.73 Cododd lefelau sgiliau yng ngweithlu Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er i gyfran yr oedolion o oedran gweithio yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd heb unrhyw gymwysterau leihau, mae lefelau sgiliau yn dal i fod islaw rhanbarthau eraill yn y DU a'r UE yn gyffredinol.

⁵⁰ Rice, P a Venables, A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', *Papur Trafod y Ganolfan Perfformiad Economaidd (CEP)* Rhif 642.

⁵¹ Rice, P a Venables, A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', *Papur Trafod y Ganolfan Perfformiad Economaidd (CEP)* Rhif 642.

⁵² Cydadroddiad Interim y Cyngor a'r Comisiwn ar weithredu'r rhaglen waith fanwl ar y gwaith dilynol a wnaed ar amcanion systemau addysg a hyfforddiant yn Ewrop, 3 Mawrth 2004.

⁵³ Faggio, G a Nickell, S, 2005. Inactivity Among Prime Age Men in the UK. *Papur Trafod gan y Ganolfan Perfformiad Economaidd (CEP)* 673: <http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp0673.pdf>

2.74 Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl sgil isel yn tueddu i fod yn uwch lle y ceir crynadau isel o'r cyfryw bobl. (De-ddwyrain Lloegr y tu allan i Lundain yw'r enghraifft gliriaf o'r cyfryw batrwm). Felly mae cyfansoddiad y galw am lafur sy'n newid wedi cael ei effeithiau negyddol mwyaf lle y ceir y cyflenwad mwyaf o'r cyfryw lafur, gan gynnwys rhannau o Gymru. Ar ben hynny, am ei bod yn llawer anos i bobl heb sgiliau o gymharu â phobl â sgiliau ymfudo i fannau lle y mae'r galw am eu llafur yn gymharol fawr, mae'r cyfryw wahaniaethau gofodol wedi hen ymsefydlu⁵⁴.

2.75 Mae sgiliau yn dod yn fwyfwy pwysig wrth benderfynu canlyniadau yn y farchnad lafur. Dengys Tabl 11 y gyfradd cyflogaeth wedi'i dadgyfuno yn ôl y cymwysterau uchaf a ddelir gan gyflogeion. Dengys Tabl 11 er bod y gyfradd cyflogaeth gyffredinol wedi cynyddu, fod y gyfradd cyflogaeth ar gyfer y rhai heb unrhyw gymwysterau ffurfiol wedi gostwng. Gwelwyd yr un patrwm ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Wrth ddadansoddi'r gyfradd cyflogaeth wedi'i dadgyfuno yn ôl oedran gwelir mai dim ond 30% o'r unigolion 16-24 oed heb unrhyw gymwysterau sydd mewn gwaith o gymharu â 70% yn achos y rhai â chymwysterau Lefel 4 ac uwch. Mae'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc heb unrhyw gymwysterau dros 10 pwynt canran yn is nag ar gyfer unrhyw ddosbarth oedran arall.

2.76 Mae'r duedd hon o gyfraddau cyflogaeth sy'n gostwng ar gyfer y rhai â sgiliau lefel isel yn ffenomenon cyffredin ar draws yr Undeb Ewropeaidd. Gan ddefnyddio data o Eurostat gostyngodd cyflogaeth ar gyfer unigolion 15 oed a throsgodd a dderbyniodd addysg gyn-gynradd, addysg gynradd ac addysg uwchradd is (lefel 0-2 ar ISCED 1997) o bron 4,000. Mae hyn yn cymharu â chodiadau o 7,300 a 7,700 ar gyfer y rhai â lefel 3-4⁵⁵ ar ISCED 1997 a 5-6⁵⁶ ar ISCED 1997 yn y drefn honno ar draws yr UE. Fodd bynnag, cynrychiolai unigolion â chymwysterau lefel 0-2 27% o'r holl gyflogaeth ar draws yr UE o gymharu â 10% ar gyfer y DU, 13% ar gyfer Cymru, 14% ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac 11% ar gyfer Dwyrain Cymru.

Tabl 11: Cyfraddau cyflogaeth yn ôl y cymhwyster uchaf, Cymru

Lefel y Cymhwyster Uchaf	2001	2004	Newid 2001-04
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd			
Lefel 4 ac uwch	84.1	84.7	0.6
Lefel 1-3	69.7	72.2	2.5
Dim cymwysterau	45.9	44.5	-1.4
Cyfanswm	67.0	69.7	2.7
Dwyrain Cymru			
Lefel 4 ac uwch	85.5	86.6	1.1
Lefel 1-3	74.5	74.7	0.2
Dim cymwysterau	51.4	50.2	-1.2

⁵⁴ Faggio, G a Nickell, S, 2005. Inactivity Among Prime Age Men in the UK. *Papur Trafod gan y Ganolfan Perfformiad Economaidd (CEP)* 673: <http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp0673.pdf>

⁵⁵ Addysg uwchradd uwch ac ôl-uwchradd nad yw'n addysg drydyddol

⁵⁶ Addysg drydyddol

Cyfanswm	72.6	74.4	1.8
Cymru			
Lefel 4 ac uwch	84.7	85.5	0.8
Lefel 1-3	71.5	73.1	1.6
Dim cymwysterau	47.7	46.3	-1.4
Cyfanswm	69.1	71.4	2.3


Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu

2.77 Mae problem anweithgarwch yn deillio i gryn raddau o broffil sgiliau poblogaeth Cymru. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y sefyllfa o ran sgiliau yng Nghymru yn waeth nag yn y DU yn gyffredinol, a bod y sefyllfa yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn waeth nag yng ngweddill Cymru. Dengys Ffigur 15 y set sgiliau gymharol ar gyfer unigolion yng Nghymru o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y DU yn gyffredinol. Dangosir y siart fel cyniferydd lleoliad. Mae cyniferydd lleoliad yn mesur crynhoad cymharol newidyn o gymharu ag ardal feincnod. Yn Nhabl 12 dengys sgôr o 1 lle y mae'r crynhoad cymharol o unigolion â lefel sgil/cymhwyster benodol yr un peth â chyfartaledd y DU. Dengys sgôr o lai nag 1 lle y mae gan ardal grynhoad cymharol fach a dengys sgôr sy'n fwy nag 1 lle y mae gan ardal grynhoad cymharol fawr o gymharu â chyfartaledd y DU.

2.78 Fel y dengys Ffigur 15, mae gan Gymru ac i raddau helaethach Gorllewin Cymru a'r Cymoedd grynoadau cymharol fawr o unigolion heb gymwysterau a chrynhoad cymharol fach o unigolion ym mhen uchaf y sbectrwm cymwysterau, sef Lefel 4 ac uwch. Mae gan Ddwyrain Cymru, ar y llaw arall, broffil tebyg i gyfartaledd y DU, ond mae ganddi grynhoad ychydig yn fwy o unigolion â chymwysterau Lefel 4 ac uwch. Felly mae'r dosbarthiad o sgiliau isel yn cyd-fynd yn agos â'r dosbarthiad o anweithgarwch ledled Cymru, sy'n cyd-fynd â'r gred bod cysylltiad agos rhwng diffyg sgiliau ac anweithgarwch. Ledled Cymru yn gyffredinol nid oes gan tua 304,000 o unigolion o oedran gweithio unrhyw gymwysterau ffurfiol. 208,000 a 96,000 yw'r ffigurau ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

2.79 Os defnyddiwn ddata Eurostat ar gyfer 2005 gwelwn fod gan gyfran lawer llai o boblogaethau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Dwyrain Cymru, Cymru a'r DU yn gyffredinol gymwysterau lefel gyn-gynradd, lefel gynradd a lefel uwchradd is a bod gan 43% o boblogaeth yr UE (15 oed a throsodd) eu cymhwyster uchaf ar y lefel hon o gymharu â 13% ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, 12% ar gyfer Dwyrain Cymru, 14% ar gyfer Wales ac 11% ar gyfer y DU yn gyffredinol.

Ffigur 15. Set gymwysterau/sgiliau (y DU=1)



Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu

2.80 Dengys Tabl 12 y cymwysterau uchaf a ddelir gan unigolion ledled Cymru wedi'u dosbarthu yn ôl unigolion ag anabledd ac unigolion heb anabledd ac unigolion o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) a'r rhai nad ydynt yn dod o grwpiau lleiafrif ethnig. Fel y dengys Tabl 12, mae gan unigolion ag anabledd lefelau is o gyrhaeddiad mewn sgiliau nag unigolion nad ydynt yn anabl. Mae hyn yn wir ar draws isranbarthau Cymru yn ogystal ag ar gyfer Cymru yn gyffredinol. Yn ddiddorol ddigon, mae cyfran yr unigolion o grwpiau BME heb unrhyw gymwysterau ffurfiol yn is yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd na'r rhai nad ydynt yn dod o grwpiau lleiafrif ethnig. Mae hyn yn groes i'r hyn a welwyd ar draws Dwyrain Cymru a Chymru yn gyffredinol. Mae cyfran yr unigolion o grwpiau BME sydd â chymwysterau lefel 4 ac uwch hefyd yn fwy yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag ar gyfer unigolion o grwpiau BME nad ydynt yn lleiafrifoedd. Unwaith eto mae hyn yn groes i'r hyn a welwyd ar draws Dwyrain Cymru a Chymru yn gyffredinol.

Tabl 12: Lefelau'r cymwysterau uchaf a ddelir gan bobl o oedran gweithio, canran o'r boblogaeth oedran gweithio, 2004

		Dim Cymwysterau	Lefel 2 ac uwch	Lefel 3 ac uwch	Lefel 4 ac uwch
Heb fod yn anabl	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	14.3	68.8	43.8	24.0
	Dwyrain Cymru	12.0	71.5	50.2	30.3
	Cymru	13.4	69.8	46.3	26.4
Anabl (a)	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	33.0	49.1	28.7	14.1
	Dwyrain Cymru	26.6	55.5	34.4	20.1
	Cymru	31.0	51.2	30.5	16.0
Poblogaeth BME (b)	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	18.1	61.3	38.8	25.7
	Dwyrain Cymru	24.2	54.6	39.3	28.2
	Cymru	22.1	56.9	39.1	27.4
Poblogaeth heb fod o grwpiau BME	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	18.9	63.9	40.1	21.6
	Dwyrain Cymru	14.5	69.0	47.4	28.3
	Cymru	17.3	65.8	42.8	24.0

(a) Diffinnir anabledd fel pobl anabl y cyfyngir ar eu gallu i weithio neu bobl anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd neu'r ddau.

(b) Pob lleiafrif ethnig.

Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu

2.81 Mae lefel cyrhaeddiad mewn sgiliau ar gyfer benywod yng Nghymru yn debyg i'r lefel cyrhaeddiad ar gyfer gwrywod. Fodd bynnag, mae dau brif wahaniaeth. Yn gyntaf, mae gan fenywod ledled Cymru yn gyffredinol gyfraddau cyrhaeddiad uwch ar lefel 4 ac uwch. Yn ail, mae cyfran fwy o fenywod yng Nghymru yn gyffredinol nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau ffurfiol. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaethau yn fach ac nid ydynt ond yn cynrychioli rhwng 0.5 ac 1 pwynt canran. Ceir patrwm tebyg ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru lle y ceir cyfran fwy o fenywod a chanddynt gymwysterau ar lefel 4 ac uwch a chyfran fwy o fenywod heb unrhyw gymwysterau ffurfiol. Mae'r gwahaniaeth yn y lefel gyffredinol o gyrhaeddiad cymwysterau rhwng gwrywod a benywod ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o gymharu â Dwyrain Cymru at ei gilydd yn adlewyrchu'r boblogaeth yn gyffredinol fel y dangosir yn Nhabl 13.

Tabl 13: Lefelau'r cymwysterau uchaf a ddelir gan bobl o oedran gweithio yn ôl rhyw, canran o'r boblogaeth oedran gweithio, 2004

		Dim Cymwysterau	Lefel 2 ac uwch	Lefel 3 ac uwch	Lefel 4 ac uwch
Dwyrain Cymru	Gwrywod	14.1	70.6	50.4	27.7
	Benywod	15.7	66.1	43.6	28.8
	Cyfanswm	14.9	68.4	47.1	28.3
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Gwrywod	18.2	66.1	43.2	20.9
	Benywod	19.7	61.5	36.8	22.4
	Cyfanswm	18.9	63.9	40.1	21.6
Cymru	Gwrywod	16.7	67.8	45.9	23.4
	Benywod	18.2	63.2	39.3	24.8
	Cyfanswm	17.4	65.6	42.7	24.1

Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Lleol Cymru

2.82 Yn ôl yr arolwg diweddaraf o sgiliau sylfaenol oedolion yng Nghymru⁵⁷, amcangyfrifir bod gan 25% o'r oedolion yng Nghymru sgiliau llythrennedd lefel mynediad ac amcangyfrifir bod gan 53% o'r oedolion yng Nghymru sgiliau rhifedd lefel mynediad. O gymharu â Lloegr, mae gan Gymru ganran fwy o oedolion â sgiliau rhifedd a llythrennedd lefel mynediad, ond mae'r bwlch yn arbennig o amlwg mewn llythrennedd (gweler yr adroddiad llawn am fanylion). Nid yw'n syndod bod cydberthynas gref rhwng cyrhaeddiad mewn addysg a pherfformiad mewn asesiadau llythrennedd a rhifedd. Yn gyffredinol cafodd gwrywod a benywod sgorau tebyg yn yr asesiadau llythrennedd; fodd bynnag, perfformiodd gwrywod yn well na benywod yn yr asesiadau llythrennedd. Nododd Arolwg Sgiliau diweddar Leitch⁵⁸ pa mor bwysig yw gwella sgiliau sylfaenol y boblogaeth i wella cyflogadwyedd a chynhyrchiant. Pwysleisiodd astudiaeth ddiweddar a wnaed ar gyfer Cymru⁵⁹ hefyd rôl gwella sgiliau sylfaenol poblogaeth Cymru fel un o'r prif feysydd ffocws i leihau'r bwlch sgiliau rhwng Cymru â'r DU a llawer o wledydd datblygedig blaenllaw.

2.83 Pwysleisiodd Astudiaeth Maastricht 'Cyflawni nod Lisboa: cyfraniad Addysg Alwedigaethol a Hyfforddiant' pa mor bwysig yw mynd i'r afael â diffygion mewn sgiliau sylfaenol gan amcangyfrif mai dim ond 15% o swyddi fydd ar gyfer y rhai ag addysg sylfaenol erbyn 2010, a bod yr effaith a gaiff hyfforddi pobl sgil isel ar unigolion a busnesau cymaint â'r effaith a gaiff ar bobl dra addysgedig, er

⁵⁷ ASIANTAETH SGILIAU SYLFAENOL CYMRU, 2004, Yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol Oedolion yng Nghymru. Ar gael yn: http://www.basic-skills-wales.org/bsastrategy/cy/resources/post_16/the_national_survey_of_adult_basic_skills_in_wales.cfm?frm_searchtext=&lcl_sections=&lcl_lngcode=cy

⁵⁸ Prosperity for all in the global economy – World class skills. Adolygiad Leitch o sgiliau ar gyfer Trysorlys EM (2005) http://www.hm-treasury.gov.uk/independent_reviews/leitch_review/review_leitch_index.cfm


⁵⁹ Sloane ac eraill (2007) The long tail of low skills in Wales and the UK – A review of the Evidence

nad yw llawer o bobl dan anfantais a chyflogwyr yn ymwybodol o hynny'⁶⁰. Felly bydd mynd i'r afael â sgiliau sylfaenol yn gynnwys mewn bywyd yn hanfodol bwysig wrth i economïau modern ddatblygu.

2.84 Adlewyrchir y gostyngiad yn y galw am lafur llai crefftus ar draws y byd datblygedig mewn cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd ymhlith grwpiau â gwahanol gymwysterau a setiau sgiliau. Mae Ffigur 16 yn nodi'r cyfraddau anweithgarwch economaidd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU yn ôl y lefel uchaf o gymwysterau a ddelir gan unigolyn.

2.85 Dengys hyn fod cyfraddau anweithgarwch economaidd gryn dipyn yn uwch mewn grwpiau heb unrhyw gymwysterau ffurfiol. Po uchaf y lefelau o gymwysterau/sgiliau (gan symud o'r dde i'r chwith ar Ffigur 16), po isaf y gyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer unigolion ymhob carfan. Fodd bynnag, ceir y bwlch mwyaf rhwng dim cymwysterau a sgiliau sylfaenol / Lefel 1, a lle y ceir crynhoad cymharol uchel o unigolion heb unrhyw gymwysterau ffurfiol ceir canran fwy o unigolion sy'n economaidd anweithgar, fel sy'n wir yn achos Gorrlewin Cymru a'r Cymoedd.

Ffigur 16. Cyfraddau anweithgarwch economaidd yn ôl y cymhwyster uchaf, 2004 (canran o'r boblogaeth oedran gweithio)



Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu

2.86 Dengys data am y cymwysterau a ddelir gan ddisgyblion ym mlwyddyn olaf addysg ffurfiol fod perfformiad disgyblion yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd

⁵⁹ Astudiaeth Maastricht 'Achieving the Lisboa goal: the contribution of VET' (adroddiad terfynol i'r Comisiwn Ewropeaidd) http://ec.europa.eu/education/policies/2010/studies/maastricht_en.pdf

islaw'r cyfartaledd ar gyfer Dwyrain Cymru a Chymru yn gyffredinol. Ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd mae canran y disgyblion sy'n ennill pump neu ragor o TGAUau graddau A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol islaw'r cyfartaledd ar gyfer Dwyrain Cymru a Chymru yn gyffredinol. Mae perfformiad disgyblion yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd hefyd yn tanberfformio yn y pynciau craidd (Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth). Ar ben hynny, mae'r sgôr pwyntiau TGAU/GNVQ gyfartalog yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd hefyd islaw'r cyfartaledd ar gyfer Dwyrain Cymru a Chymru yn gyffredinol ac mae cyfran fwy o ddisgyblion yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau ffurfiol.

Tabl 14: Cyrhaeddiad disgyblion ym mlwyddyn olaf addysg orfodol (canran) canlyniadau dros dro 2005/06

	Canran y disgyblion ym mlwyddyn olaf addysg orfodol a					
Ysgolion a gynhelir yn	Enillodd bump neu ragor o TGAUau gradd A*-C neu gymhwyster galwedigaeth hol cyfatebol	Enillodd bump neu ragor o TGAUau gradd A*-G neu gymhwyster galwedigaeth hol cyfatebol	Enillodd un neu ragor o TGAUau gradd A*-G neu gymhwyster galwedigaeth hol cyfatebol	Sgôr pwyntiau TGAU/GNVQ gyfartalog	Heb ennill unrhyw TGAU, GNVQ nac ELQ (a)	Enillodd TGAU gradd A*-C ym mhob un o'r pynciau craidd (b)
Dwyrain Cymru	54.7	87.1	93.5	42.4	3.6	40.8
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	52.0	85.5	93.2	40.1	3.9	37.6
Cymru (c)	53.4	85.9	93.1	41.0	4.1	39.4

(a) Cymhwyster Lefel Mynediad: Tystysgrif Cyrhaeddiad Addysgol neu Dystysgrif Cyrhaeddiad

(b) Dangosydd Pwnc Craidd: Enillodd TGAU gradd A*-C yn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth.

(c) Mae'n cynnwys ysgolion annibynnol.

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

2.87 Yn gysylltiedig â'r dadansoddiad uchod, mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd gyfran ychydig yn is o ddisgyblion sy'n parhau mewn addysg bellach ar ôl 16 oed o gymharu â Dwyrain Cymru a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn gyffredinol. Mae 73% o ddisgyblion yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn parhau mewn ysgolion neu sefydliadau addysg bellach ar ôl blwyddyn olaf addysg orfodol, o gymharu â 74% ledled Cymru yn gyffredinol a 76% ar draws Dwyrain Cymru.

2.88 Mae lefelau cymwysterau pobl ifanc 16-18 oed ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (a Chymru a Dwyrain Cymru) yn cyd-fynd fwy neu lai â chyfartaledd y DU. Yn y dosbarth oedran 19-21 oed mae dau wahaniaeth amlwg. Yn gyntaf, mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd gyfran uwch o bobl ifanc 19-21 oed heb unrhyw gymwysterau ffurfiol o gymharu â chyfartaleddau Cymru a'r DU (10% ar

gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac 8% ar gyfer Cymru a'r DU). Yn gysylltiedig â hyn, mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd gyfran is o bobl ifanc 19-21 oed sydd â sgiliau lefel uwch (lefel 3 ac uwch) na Chymru a'r DU (50% ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a 52% ar gyfer Cymru a'r DU).

2.89 Dengys Tabl 15 gyrhaeddiad disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf 2 Lefel U/UA ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Dwyrain Cymru a Chymru yn gyffredinol. Fel y dengys Tabl 15 mae cyrhaeddiad ar lefel U/UA ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd islaw cyfartaledd Cymru.

Tabl 15: Cyrhaeddiad disgyblion 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, canlyniadau dros dro 2005/06

	Canran y disgyblion a gofrestrodd ar gyfer 2 Lefel U/UA neu ragor neu a enillodd gymhwyster galwedigaethol cyfatebol a ...		
Ysgolion a gynhelir yn	Enillodd 2 Lefel U/UA gradd A-C neu ragor neu a enillodd gymhwyster galwedigaethol cyfatebol	Enillodd 2 Lefel U/UA gradd A-E neu ragor neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol	Sgôr pwyntiau cyfartalog fesul disgybl
Dwyrain Cymru	69.0	94.1	20.7
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	66.2	93.3	19.3
Cymru	68.2	93.8	20.2

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

2.90 Cafodd amrywiaeth o astudiaethau⁶¹ ei bod yn bosibl gwella cyfleoedd bywyd plant dan anfantais yn ddramatig trwy ymyriadau a gyllidir yn dda ac a gynhelir yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni dwys sy'n canolbwyntio ar y plant mwyaf difreintiedig. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos y gall darparu cymorth parhaol ar gyfer y plant mwyaf difreintiedig drwy gydol eu hamser yn yr ysgol helpu i wella rhagolygon cyflogaeth. Dengys dystiolaeth⁶² o'r Lwfans Cynnal Addysg (EMA) (cymorth ariannol sydd ar gael i blant dan anfantais i'w galluogi i aros yn yr ysgol ar ôl 16 oed) fod pobl ifanc a oedd wedi treulio dwy flynedd mewn addysg ôl-16 at ei gilydd mewn gwell sefyllfa na'r rhai a ymunodd â'r farchnad lafur yn syth ar ôl addysg orfodol. Yn arbennig, roedd y bobl ifanc hynny a dreuliodd ddwy flynedd mewn addysg ôl-16 cyn ymuno â'r farchnad lafur yn 18 oed, yn llawer mwy tebygol o fod mewn swyddi rheoli, swyddi proffesiynol a swyddi proffesiynol a thechnegol cysylltiedig.

⁶¹ Am adolygiad o'r dystiolaeth sy'n ategu'r datganiadau yn y paragraff hwn, gweler Cunha, F., Heckman, J., L. a Masterov, D. (2005) *Interpreting the evidence on life cycle skill formation*

⁶² Yr Adran Addysg a Sgiliau (2005) young people and the labour market: Evidence from the EMA pilots database. <http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RW59.pdf>

2.91 Dengys tystiolaeth ychwanegol⁶³ i'r EMA gynyddu cyfran y bobl ifanc 16-18 mlwydd oed a oedd mewn addysg lawn amser pan oeddent yn 16 oed ac yn 17 oed o 6.1 pwynt canran; roedd yr effaith yn arbennig o gryf yn achos dynion ifanc (8.6 pwynt canran). Cafodd yr effaith fwyaf ar bobl ifanc o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn arbennig y rhai o weithwyr lled-grefftus a di-grefft a'r rhai nad oeddent mewn gwaith. Cafodd EMA gryn effaith ar bobl ifanc a oedd wedi bod yn gyflawnwyr 'isel' neu 'ganolig' ar ddiwedd Blwyddyn 11 hefyd. Ar ben hynny roedd pobl ifanc a dderbyniodd yr EMA yn llai tebygol o fod yn bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) am gyfnod hir (14.2 y cant) na'r rhai na dderbyniodd unrhyw gymorth (23.2 y cant).

2.92 Dengys tystiolaeth bellach⁶⁴ fod unigolion yn dal i dderbyn gwobr gadarnhaol am bob blwyddyn yn yr ysgol er gwaethaf y cynnydd yn y cyflenwad o addysg. Yn y DU cynyddwyd y cyflenwad o weithwyr cymwys gryn dipyn. Nid arweiniodd y cynnydd hwn at ostyngiad yn nifer gyfartalog y bobl ifanc sy'n dychwelyd i flwyddyn o addysg ysgol yn y DU, sy'n awgrymu bod y galw am gymwysterau yn y DU yn dal i fod yn ddigon uchel i gyfiawnhau cynnydd pellach.

2.93 Oherwydd cyfansoddiad newidiol y galw am lafur a arweiniodd at lai o alw am unigolion â lefelau sgiliau isel⁶⁵ mae hyfforddiant trwy gydol bywyd gwaith unigolion wedi dod yn fwyfwy pwysig. Dysgu gydol oes yw'r cysyniad 'Nid yw byth yn rhy gynnar nac yn rhy hwyr i ddysgu' ac mae'n cwmpasu'r holl addysg a hyfforddiant ar gyfer unigolion o oedran gweithio, er bod dangosyddion fel arfer yn cynnwys y rhai 25-64 oed.

2.94 Dengys Tabl 16 ganran yr oedolion 25-64 oed sy'n cymryd rhan mewn dysgu gydol oes. Fel y dengys Tabl 16 mae gan Gymru a'r DU yn gyffredinol ganran uwch o oedolion 25-64 oed sy'n cymryd rhan mewn dysgu gydol oes nag Ewrop. Mae canran yr oedolion 25-64 oed sy'n cymryd rhan mewn dysgu gydol oes ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fymryn islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn gyffredinol. Ledled Cymru yn gyffredinol ac ar draws yr isranbarthau, mae cyfranogiad mewn dysgu gydol oes uwchlaw'r targed o 12.5% fel y'i pennwyd yn Strategaeth Cyflogaeth Ewrop⁶⁶.

⁶³ Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2005, Evaluation of the Education Maintenance Allowance pilots: Young people aged 16 to 19 years final report of the quantitative evaluation <http://www.dfes.gov.uk/research/data/uploadfiles/RR678.pdf>

⁶⁴ Powdhavee, N a Vignols, A 2005. Using rate of return analysis to understand sector skill needs. Y Ganolfan Economeg Addysg <http://cee.lse.ac.uk/cee%20dps/ceedp70.pdf>

⁶⁵ Faggio, G a Nickell, S, 2005. Inactivity Among Prime Age Men in the UK. *Papur Trafod gan y Ganolfan Perfformiad Economaidd (CEP)* 673 ar gael o: <http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp0673.pdf>

⁶⁶ Y Comisiwn Ewropeaidd (2005/600/EC) Penderfyniad y Cyngor dyddiedig 12 Gorffennaf 2005 ar ganllawiau ar gyfer polisïau cyflogaeth yr Aelod-wladwriaethau.

Tabl 16: Cyfranogiad mewn dysgu gydol oes, 2004 (a)

	Canran yr oedolion 25-64 oed mewn addysg a hyfforddiant
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	14.3
Dwyrain Cymru	15.5
Cymru	14.8
Y DU	15.5
UE(15)	9.3
UE(25)	8.6

(a) Mae dangosydd dysgu gydol oes yn cyfeirio at bobl 25 i 64 oed a atebodd iddynt dderbyn addysg neu hyfforddiant yn ystod y pedair wythnos cyn yr arolwg (rhifiadur). Mae'r enwadur yn cynnwys holl boblogaeth yr un grŵp oedran, ac eithrio dim atebion i'r cwestiwn 'cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant'.

Ffynhonnell: Eurostat

2.95 Fel y nodwyd uchod, mae sgiliau yn bwysig iawn wrth benderfynu canlyniadau yn y farchnad lafur, yn arbennig anweithgarwch economaidd. Fodd bynnag, gall sgiliau'r gweithlu hefyd ddwyn goblygiadau i gyflogwyr. Mae arolwg Sgiliau Dyfodol Cymru⁶⁷ yn ceisio darparu gwybodaeth am fylchau mewn sgiliau rhwng cyflogwyr yng Nghymru. Dengys canlyniadau o'r arolwg diweddaraf i 18% o'r cyflogwyr yng Nghymru gofnodi bwlch sgiliau yn 2005. Mae'r ffigur yn cyd-fynd fwy neu lai ag arolygon a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Cafwyd mai sgiliau generig, megis sgiliau datrys problemau, sgiliau trafod cwsmeriaid, sgiliau cyfathrebu a gweithio mewn tîm oedd y sgiliau yr oedd cyflogeion yn brin ohonynt gan amlaf.

2.96 Mae dadansoddiad⁶⁸ o brinderau sgiliau ar sail sectoraidd yng Nghymru yn nodi mai'r galwedigaethau â'r gyfran fwyaf o swyddi gwag anodd eu llenwi y rhoddwyd gwybod amdanynt oedd Crefftiau Medrus, galwedigaethau Proffesiynol Cysylltiedig a galwedigaethau Elfennol. Ymhlith y swyddi anodd eu llenwi hyn roedd ychydig dros hanner ohonynt i'w priodoli i brinderau sgiliau mewn sgiliau technegol ac ymarferol.

2.97 Ar ben hynny dangosodd tystiolaeth ddiweddar⁶⁹ pa mor bwysig yw sgiliau generig wrth benderfynu canlyniadau unigolion yn y farchnad lafur ac i statws cymdeithasol ehangach unigolion. Cafwyd bod sgiliau generig megis sgiliau cyfathrebu, y gallu i dalu sylw a datrys problemau yn bwysig wrth benderfynu canlyniadau yn y farchnad lafur, er i raddau llai na chymwysterau ffurfiol.

⁶⁷ Cyd-nod Partneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru yw darparu gwybodaeth ddibynadwy am y diffygion sgiliau y mae cyflogwyr yng Nghymru yn eu hwynebu y gellir ei defnyddio i lywio polisi a gwaith cynllunio datblygu sgiliau. Mae'r arolwg yn bellgyrhaeddol ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd o nid llai na 6,710 o sefydliadau ledled Cymru rhwng mis Mawrth a mis Mai 2005. Ceir rhagor o fanylion yn: <http://www.futureskillswales.com/cym/>

⁶⁸ Sgiliau Dyfodol Cymru 2005, Sgiliau Dyfodol Cymru: Arolwg Sgiliau Sector <http://www.futureskillswales.com/cym/content.php?cID=5&pID=1&zID=100&nhID=136>

⁶⁹ Blanden, J ac eraill 2005. Educational Inequality and Intergenerational Mobility yn S Machin ac A Vignoles (golygyddion) *What Can Education Do?* Y Ganolfan Economeg Addysg.

2.98 Mae medrusrwydd mewn TGCh hefyd yn bwysig ar gyfer nifer fawr iawn o swyddi yn y DU, ac yn ôl e-Sgiliau'r DU, mae 90% o swyddi newydd bellach yn gofyn am ryw lefel o sgiliau TGCh ac mae angen i dros 400,000 o gyflogaion gynyddu eu sgiliau TG i ateb y galw cynyddol. Mae angen datblygu sgiliau TGCh ar draws y gweithlu er mwyn datblygu, gweithredu a chynnal a chadw systemau TGCh, gan wneud defnydd effeithiol o offer a ddefnyddir mewn amgylcheddau swyddfa modern, gan fanteisio ar ffyrdd newydd o gynnal prosesau busnes a phrosesau sefydliadol, ac er mwyn sefydlu mentrau newydd.

Strwythur diwydiannol, arloesi ac Ymchwil a Datblygu (YaD)


2.99 Yn ogystal â chyfalaf dynol, dangosodd tystiolaeth ddiweddar⁷⁰ pa mor bwysig yw strwythurau diwydiannol i esbonio gwahaniaethau rhanbarthol mewn cynhyrchiant a pherfformiad economaidd cyffredinol. Ledled Cymru yn gyffredinol a'i hisranbarthau mae cynrychiolaeth gymharol fawr o swyddi'r gweithlu sifil mewn diwydiannau sy'n dirywio y mae ganddynt werth ychwanegol isel fel arfer. Er bod gan Ddwyrain Cymru gynrychiolaeth fwy o swyddi mewn gweithgareddau sector gwasanaethu o gymharu â chyfartaledd Cymru ceir cynrychiolaeth fwy o swyddi mewn amaethyddiaeth a gweithgareddau cynhyrchu o hyd y mae'r ddau ohonynt wedi gweld gostyngiad mewn cyflogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gynrychiolaeth fawr o swyddi mewn amaethyddiaeth yn arbennig o amlwg ym Mhowys lle y mae tua 12% o'r holl gyflogaeth yn y sector hwn. Mae'r crynhoad cymharol uchel o gyflogaeth mewn amaethyddiaeth et al a sectorau cynhyrchu a'r crynhoad cymharol isel o gyflogaeth mewn gwasanaethau cyllid a busnes yn fwy amlwg byth yn achos Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae Ffigur 17 yn crynhoi'r dosbarthiad o swyddi'r gweithlu sifil ledled Cymru a'i hisranbarthau yn ôl grwpiau diwydiannol bras⁷¹. Mae'r dystiolaeth⁷² yn awgrymu ei bod yn bwysig nid yn unig i wella cyfleoedd cyflogaeth ond i wella'r cyfleoedd hyn mewn sectorau gwerth ychwanegol uwch. Bydd y cyfryw welliannau yn helpu i wella cynhyrchiant Cymru a'i ffyniant economaidd cyffredinol.

⁷⁰ Rice, P a Venables, A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', *Papur Trafod y Ganolfan Perfformiad Economaidd (CEP)* Rhif 642.

⁷¹ Dangosir y siart fel cyniferydd lleoliad. Mae cyniferydd lleoliad yn mesur crynhoad cymharol newidyn o gymharu ag ardal feincnod.

⁷² Rice, P a Venables, A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', *Papur Trafod y Ganolfan Perfformiad Economaidd (CEP)* Rhif 642.

Ffigur 17. Swyddi'r gweithlu sifil (y DU=1)



Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Gwladol

2.100 Mae strwythur diwydiannol Cymru yn helpu i esbonio sefyllfa gymharol Cymru ar nifer o brif ddangosyddion arloesi ac YaD. Er enghraifft, mae cyfanswm y gwariant ar YaD fel canran o GYC ledled Cymru (nid oes unrhyw ddata ar gael ar lefel is-Gymru) islaw'r cyfartaledd ar gyfer y DU yn gyffredinol ac mae'n 1.3% o gyfanswm GYC. Y prif ffactor sylfaenol sy'n esbonio'r ffigur isel hwn yw'r gwariant cymharol is ar YaD a geir o fewn y sector busnes yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu'n bennaf strwythur diwydiannol economi Cymru, y mae ganddi, er enghraifft, gynrychiolaeth gymharol fach o gwmnïau fferyllol sy'n gwario llawer ar YaD.

2.101 Mae strwythur diwydiannol Cymru yn dwyn goblygiadau i ddangosyddion y farchnad lafur sy'n gysylltiedig ag arloesi ac YaD. Mae nifer yr ymchwilyr yn darparu procsi defnyddiol ar gyfer nifer y bobl a gyflogir i ddarparu gwasanaethau gwerth ychwanegol uchel ac mewn swyddogaethau ymchwil a datblygu. Mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd nifer lai o ymchwilyr mewn sefydliadau addysg uwch fesul 10,000 o'r boblogaeth nag ar draws Cymru a'r DU yn gyffredinol. Gan ddefnyddio data o Arolwg Poblogaeth Blyneddol y DU; roedd gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd gyfran lai o'r holl gyflogaeth mewn gweithgareddau yn ymwneud ag YaD o gymharu â Chymru a'r DU yn gyffredinol. Roedd cyfanswm o 2% o'r holl gyflogaeth mewn gweithgareddau yn ymwneud ag YaD ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o gymharu â 2.3% ar gyfer Cymru a'r DU yn y drefn honno. Fodd bynnag, ar draws Dwyrain Cymru roedd 2.6% o'r holl gyflogaeth mewn gweithgareddau yn ymwneud ag YaD.

2.102 Cesglir gwybodaeth mewn sectorau technoleg uchel⁷³ gan Eurostat a dengys y gyfran o'r holl gyflogaeth sydd mewn sectorau technoleg uchel a

⁷³ Mae ystadegau am ddiwydiannau technoleg uchel a diwydiannau gwybodaeth ddwys yn cynnwys data economaidd a data yn ymwneud â gwyddoniaeth, technoleg, arloesi a chyflogaeth

chanolig a gwasanaethau technoleg uchel gwybodaeth ddwys. Mae'r set ddata yn ddefnyddiol, am fodd modd gwneud cymariaethau ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd â'r cyfartaledd ar gyfer 25 Aelod-wladwriaeth yr UE. Dengys Tabl 17 y data diweddaraf.

2.103 Fel y dengys Tabl 17, mae'r cyfrannau o gyflogaeth yn y sector gweithgynhyrchu technoleg uchel a chanolig ac mewn gwasanaethau technoleg uchel gwybodaeth ddwys yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru islaw cyfartaleddau'r DU ac Ewrop, ac maent yn cynrychioli ychydig o dan 10% o'r holl gyflogaeth yn yr isranbarth. Fodd bynnag, mae'r ffigur ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn uwch nag ar gyfer Cymru yn gyffredinol. Esbonnir hyn yn rhannol gan y gynrychiolaeth fwy o gyflogaeth gweithgynhyrchu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, y mae rhywfaint ohoni mewn is-sectorau technoleg uchel. Fodd bynnag, rhwng 2001 a 2004 gostyngodd cyflogaeth yn y sector gweithgynhyrchu technoleg uchel a chanolig ac mewn gwasanaethau technoleg uchel gwybodaeth ddwys yn Dwyrain Cymru fel canran o'r holl gyflogaeth yn yr isranbarth.

Tabl 17: Swyddi yn y sector gweithgynhyrchu technoleg uchel a chanolig a gwasanaethau technoleg uchel gwybodaeth ddwys, canran o'r holl gyflogaeth

	2001	2004	Newid ers 2001
25 yr UE	10.26	10.18	-0.08
15 yr UE	11.17	10.46	-0.71
Y DU	11.93	10.00	-1.93
Cymru	9.64	9.69	0.05
Dwyrain Cymru	10.04	9.41	-0.63
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	9.38	9.88	0.50

Ffynhonnell: Eurostat

Amddifadedd

2.104 Mae Tabl 18 yn darparu gwybodaeth am dlodi incwm cymharol⁷⁴ yng Nghymru o gymharu â'r rhanbarthau a gweinyddiaethau datganoledig Prydain Fawr. Yng Nghymru, roedd 21% o'r holl boblogaeth mewn cartrefi â thlodi incwm cymharol, ychydig yn uwch nag ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol (20%). Roedd cyfanswm o 19% o oedolion o oedran gweithio a 18% o bensiynwyr yng Nghymru mewn cartrefi â thlodi incwm cymharol, y mae'r ddwy ganran ychydig yn uwch nag ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol. Roedd cyfran y plant a oedd yn byw mewn cartrefi â thlodi incwm cymharol uwchlaw'r gyfran ar gyfer Prydain Fawr yn gyffredinol, er bod y gwahaniaeth yn fach iawn.

sy'n disgrifio diwydiannau gweithgynhyrchu a diwydiannau gwasanaethau wedi'u dosbarthu yn ôl dwysedd technolegol. Ceir rhagor o fanylion yn:

http://epp.eurostat.ec.europa.eu/cache/ITY_OFFPUB/KS-SF-07-102/EN/KS-SF-07-102-EN.PDF

⁷⁴ Diffinnir tlodi incwm fel islaw 60 y cant o incwm cartrefi canolrifol. Mae'r canlyniadau uchod yn seiliedig ar y mesur 'ar ôl costau tai' ond mae data ar gael yn yr adroddiad llawn ar sail 'cyn costau tai' ac 'ar ôl costau'.

Tabl 18: Risg o fod mewn grwpiau incwm isel ar ôl costau tai, canran (cyfartaledd treigledig 3 blynedd 2002/03 – 2004/05)

	Pawb	Oedolion o oedran gweithio	Plant	Pensiynwyr
Gogledd-ddwyrain Lloegr	23	21	32	18
Gogledd-orllewin Lloegr a Glannau Mersi	21	19	29	20
Swydd Efrog ac Afon Humber	21	19	29	19
Dwyrain Canolbarth Lloegr	21	19	26	22
Gorllewin Canolbarth Lloegr	23	20	30	22
Dwyrain Lloegr	18	15	22	21
Llundain	27	24	39	21
De-ddwyrain Lloegr	17	15	21	18
De-orllewin Lloegr	19	17	25	18
Yr Alban	20	19	25	18
Cymru	21	19	28	18
Lloegr	21	19	28	20
Prydain Fawr (a)	20	18	27	17

(a) Mae'r cyfansymiau ar gyfer Prydain Fawr ac fe'u dangosir ar gyfer y flwyddyn 2004/05 yn unig ac nid ydynt yn gyfartaleddau treigledig 3 blynedd.
Ffynhonnell: DWP, Cartrefi Islaw Incwm Cyfartalog 2004/05

2.105 Dangosodd tystiolaeth ddiweddar⁷⁵ rai o'r digwyddiadau sbardun sy'n arwain at newidiadau mewn lefelau incwm unigol ac at bobl yn mynd i mewn i dlodi. Un o'r prif ddigwyddiadau yw tor-priodas sy'n rhoi cyfrif am tua 40% o'r bobl sy'n mynd i mewn i dlodi. Mae i hyn oblygiadau penodol ar gyfer rhieni unigol. Fodd bynnag, mae'n bwysig edrych ar gyfnodau o dlodi sy'n digwydd dro ar ôl tro. Ar gyfartaledd mae'r unigolyn yn treulio 3.6 blynedd mewn tlodi ac mae cysylltiad rhwng bod â mwy o blant, bod yn rhiant unigol, yn oedrannus ac yn ddi-waith a threulio mwy o amser mewn tlodi. Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw'r farchnad lafur fel ffordd allan o dlodi ar gyfer y rhai o oedran gweithio ac mae cadw swyddi yn hanfodol bwysig i atal pobl rhag mynd i mewn i dlodi. Mae angen cymorth penodol ar gyfer rhai grwpiau y mae mwy o risg y byddant yn mynd i mewn i dlodi sy'n cynnwys teuluoedd â phlant ac yn arbennig rieni unigol.

2.106 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 (MALIC)⁷⁶ yw mesur swyddogol amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae amddifadedd yn gysyniad ehangach na thlodi. Mae tlodi yn golygu nad oes gan

⁷⁵ JENKINS, S (2006) Poverty dynamics, family background and attainment: BHPS evidence. Seminar i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

⁷⁶ Am ragor o fanylion gweler: <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd2005/?lang=cy>

yr unigolion ddigon o arian (neu hanfodion eraill) i fyw. Mae amddifadedd yn cyfeirio at broblemau a achosir gan ddiffyg cyffredinol adnoddau a chyfleoedd (nid dim ond arian). Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 yn cynnwys saith math gwahanol o amddifadedd⁷⁷. Mae Ffigur 18 yn crynhoi'r darlun cyffredinol, gan ddangos bod gan ardaloedd yn y cymoedd uchaf y crynhoad cymharol uchaf o amddifadedd ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chymru yn gyffredinol⁷⁸. O fewn Dwyrain Cymru ceir pocedi difrifol o amddifadedd yn arbennig o amgylch rhanbarthau dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd. Yn wir, lleolir yr ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru yng Nghaerdydd.

2.107 Mae Ffigur 18 hefyd yn dangos rhai canfyddiadau diddorol o ran amddifadedd gwledig a threfol. Er y cydnabyddir bod amddifadedd gwledig yn broblem yng Nghymru, yn arbennig o ran mynediad (gweler Ffigur 19), mae llawer o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o fewn awdurdodau lleol sydd at ei gilydd yn wledig eu natur (Sir Benfro, Gwynedd a Cheredigion er enghraifft) o amgylch canolfannau trefol. Mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir Benfro o amgylch ardaloedd trefol Doc Penfro ac Aberdaugleddau. Yng Ngwynedd, Caernarfon yw un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, a Chaergybi ar Ynys Môn yw'r ardal fwyaf difreintiedig o fewn yr Awdurdod Lleol⁷⁹.


⁷⁷ Incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, tai, mynediad i wasanaethau a'r amgylchedd.

⁷⁸ Er efallai bod wardiau dinas Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe hefyd yn dioddef o amddifadedd cymharol uchel.

⁷⁹ Ceir dadansoddiadau pellach o Awdurdodau Lleol yn:

<http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd2005/results/analysis-revised/?lang=cy>

Ffigur 18. Mynegai Cyffredinol Amddifadedd Lluosog



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005

2.108 Yn gyffredinol, mae gan y 10% mwyaf difreintiedig o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghymru grynhoad o unigolion sy'n amddifad o incwm a chyflogaeth sydd ddwywaith yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn gyffredinol. Felly, dyma'r ardaloedd lle y ceir y crynhoad mwyaf o amddifadedd. Ar draws Awdurdodau Lleol yng Nghymru, mae gan Ferthyr Tudful y ganran fwyaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 10% mwyaf difreintiedig o'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is. Roedd cyfanswm o 36% o'r holl ardaloedd cynnyrch ehangach haen is ym Merthyr Tudful ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dengys Tabl 19 nifer a chanran yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is o fewn pob Awdurdod Lleol sydd o fewn y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

2.109 Fel y dengys Tabl 19 mae'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru sydd â'r crynhoad mwyaf o amddifadedd yn cynnwys Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r awdurdodau lleol â'r

crynhoad isaf o amddifadedd yn cynnwys Sir Fynwy, Powys a Cheredigion. Yn ddi-ddorol ddigon mae gan Gaerdydd gyfran fawr o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is o fewn y 10% mwyaf difreintiedig a'r nifer absoliwt fwyaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is o fewn y categori hwn yng Nghymru.


Tabl 19: Nifer a chanran yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym mhob awdurdod lleol sydd ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig (10%, 20%, 30% neu 50%) yng Nghymru

Awdurdod Lleol	10%		20%		30%		50%	
	Nifer	% o'r ALI	Nifer	% o'r ALI	Nifer	% o'r ALI	Nifer	% o'r ALI
Ynys Môn	1	2%	5	11%	9	20%	27	61%
Gwynedd	2	3%	3	4%	5	7%	29	39%
Conwy	3	4%	9	13%	14	20%	29	41%
Sir Ddinbych	5	9%	9	16%	10	17%	23	40%
Sir y Fflint	2	2%	6	7%	14	15%	27	29%
Wrecsam	6	7%	13	15%	22	26%	35	41%
Powys	0	0%	1	1%	4	5%	18	23%
Ceredigion	0	0%	1	2%	2	4%	11	23%
Sir Benfro	2	3%	6	8%	9	13%	29	41%
Sir Gaerfyrddin	7	6%	16	14%	26	23%	65	58%
Abertawe	22	15%	37	25%	48	33%	70	48%
Castell-nedd Port Talbot	17	19%	31	34%	50	55%	66	73%
Pen-y-bont ar Ogwr	10	12%	18	21%	30	35%	50	59%
Bro Morgannwg	2	3%	5	6%	13	17%	23	29%
Caerdydd	33	16%	55	27%	70	34%	91	45%
Rhondda Cynon Taf	29	19%	57	38%	79	52%	114	75%
Merthyr Tudful	13	36%	20	56%	26	72%	31	86%
Caerffili	12	11%	32	29%	49	45%	82	75%
Blaenau Gwent	12	26%	22	47%	33	70%	42	89%
Tor-faen	2	3%	8	13%	23	38%	33	55%
Sir Fynwy	0	0%	0	0%	3	5%	8	14%
Casnewydd	10	11%	26	28%	21	33%	47	50%
Cymru	190	10%	380	20%	570	30%	950	50%

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005

2.110 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am faterion yn ymwneud â mynediad i wasanaethau⁸⁰. Dengys Ffigur 19 fod y math hwn o amddifadedd wedi'i ganoli yn ardaloedd gorllewinol Cymru yn hytrach na'r cymoedd. Nid yn unig y mae parth mynediad at wasanaethau yn rhoi rhyw syniad o gwantwm y gwasanaethau mewn lleoliad penodol, ond hefyd o fynediad cymharol i drafnidiaeth am y mesurir y mynegeion fel amser a gymerir i gael mynediad i wasanaeth penodol.

Ffigur 19. Mynediad i wasanaethau



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005

⁸⁰ Mae gwasanaethau yn cynnwys, mynediad i siop fwyd, meddyg teulu, ysgolion, deintydd GIG, llyfrgell gyhoeddus a chanolfan hamdden. Am ragor o fanylion gweler: <http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/reportfolders.aspx>

2.111 Er yr ystyrir yn y llenyddiaeth academaidd⁸¹ fod nodweddion unigolion yn bwysicach wrth benderfynu canlyniadau economaidd, dengys tystiolaeth ar bwysigrwydd 'lle' y gall atyniad cyffredinol tref neu ranbarth gael cryn effaith ar ganlyniadau economaidd y trigolion⁸². Felly gall yr amgylchedd fod yn ffactor pwysig i lywio lles economaidd a chymdeithasol, yn ogystal â bod yn fudd cyhoeddus ynddo'i hun. Gall amgylchedd o safon helpu i symblu cyflawni agendâu twf a chystadleurwydd ac mae cyfleoedd economaidd y gellir manteisio arnynt yn y sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol sy'n tyfu. Bydd diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd yn dod yn fwyfwy pwysig i'n heconomi a'n hansawdd bywyd yn oes yr economi wybodaeth.


2.112 Bwriedir i barth yr amgylchedd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 fodelu'r ffactorau yn gysylltiedig â'r amgylchedd ffisegol a all effeithio ar ansawdd bywyd. Mae'r parth yn cynnwys dangosyddion megis ansawdd aer, gollyngiadau i'r awyr, mynediad i safle gwaredu gwastraff, agosrwydd cymharol i ffynonellau diwydiannol a reoleiddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd a pherygl llifogydd.

2.113 Dengys Ffigur 20 fod y prif ardaloedd o amddifadedd amgylcheddol i'w gweld ar draws Caerdydd a Chasnewydd, yn arbennig o amgylch wardiau canol y dinasoedd a chyn-ardaloedd o ddiwydiant trwm (Casnewydd yn arbennig).

⁸¹ Gweler Durlaf, S, 2004. Neighbourhood Effects. Handbook of Urban and Regional Economics, Cyfrol 4, Economics, J. V. Henderson a J.-F. Thisse, golygyddion. Mackay, S, 2003 Local Area Characteristics and Individual Behaviour. Adran Ymchwil Gymdeithasol, yr Adran Gwaith a Phensiynau. Adroddiad mewnol 123.

⁸² Dynamic Small Towns: Identification of Critical Success Factors. Adroddiad ar gyfer y Panel Cynghori Ymchwil Economaidd 2002.

Ffigur 20. Amddifadedd yr Amgylchedd Ffisegol



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005

2.114 O'r 10% uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, h.y. y 10% mwyaf difreintiedig, lleolir y mwyaf yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mynediad i wasanaethau yw un o'r saith dangosydd craidd o fewn Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2005)⁸³. Dangosodd astudiaethau pellach fod ffactorau eraill amddifadedd, megis incwm isel ac anweithgarwch economaidd, hefyd fel petaent yn atgyfnerthu cyfyngiadau ar ddefnyddio gwasanaethau⁸⁴.

2.115 Dangoswyd bod angen diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ymhellach gan arolwg annibynnol Beecham o Ddarpariaeth Gwasanaethau Lleol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ei adroddiad *Ar Draws*

⁸³ MALIC 2005 <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd2005/?lang=cy>

⁸⁴ Er enghraifft: 'Social Exclusion and Lack of Access to Services – Evidence from the 1999 PSE Survey of Britain', Bramley G. a Ford T., Prifysgol Herriott-Watt, 2001

*Ffiniau*⁸⁵. Casglodd dystiolaeth o 300 o sefydliadau a phobl, meincnododd berfformiad gwasanaethau yng Nghymru yn erbyn cymaryddion yn Lloegr a gwnaeth arolwg o'r cyhoedd. Daeth yr Arolwg i'r casgliad bod perfformiad yng Nghymru yn gyffredinol yn dameidiog ar draws ystod eang o wasanaethau a nododd 3 rhwystr allweddol i wella gwasanaethau.

2.116 Mae'r diwylliant mewn gwasanaethau cyhoeddus yn rhy gaeth ac nid yw'n ddigon trawsbynciol, nid yw'n ymatebol nac yn uchelgeisiol. Mae peirianwaith llywodraeth yn rhy gymhleth. Ar ben hynny, mae gallu arweinwyr, rheolwyr a'r gweithlu wedi'i orymestyn, ac mae pryderon yn cynnwys: arweiniad (gwleidyddol a rheolwyr, sefydliadau), meddwl strategol a thrawsbynciol (ar iechyd, cyflogaeth, sgiliau, anghydraddoldebau), arbenigedd arbenigol (sgiliau proffesiynol, rheoli prosiectau, contractio, e-lywodraeth) sgiliau (cyfathrebu, negodi, rheoli perthnasau), her ac arloesi. Cadarnhaodd astudiaeth ar wahân fod prosesau cynllunio gweithlu a meddwl strategol am ddatblygu'r gweithlu mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wael.

2.117 Mae'r pwysau ar allu yn cynyddu wrth i'r modd y darperir gwasanaethau newid. Mae'n rhaid i wasanaethau fod yn fwy ymatebol i anghenion ac amgylchiadau unigol. Maent yn dibynnu'n fwy ar rwydweithiau o sefydliadau i ymateb i ofynion fwyfwy arbenigol neu gymhleth mewn meysydd megis iechyd, addysg a thrafnidiaeth. Mae'r modelau cyllido yn fwy cymhleth mewn cysylltiad â meysydd datblygu cyfalaf a rheoli asedau. Mae cynnwys y gymuned a phartneriaid yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau yn dod yn fwyfwy allweddol i newid gwasanaethau.

2.118 Fodd bynnag, nid yw'r heriau sy'n gysylltiedig â mynediad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn unffurf, ac mae angen i wasanaethau cyhoeddus ymateb i glytwaith cymhleth o anghenion. Mae rhai heriau sy'n gysylltiedig â mynediad yn gyffredin ar draws y rhanbarth ac efallai y bydd modd eu datrys ar y cyd: mae mynediad daearyddol yn broblem yn ardaloedd gweledig Gorllewin Cymru, ac mae hefyd yn berthnasol i lawer o gymunedau yn y Cymoedd. Fodd bynnag, pan fydd pobl yn wynebu amddifadedd lluosog mae angen ymyriadau wedi'u teilwra: er enghraifft, mewn ardaloedd gwledig, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyfran fwy o'r bobl dlawd sy'n byw yng nghefn gwlad yn debygol o fod yn bobl hŷn⁸⁶, y dangoswyd bod angen y lefelau uchaf o ofal a chymorth arnynt gan wasanaethau cyhoeddus.

2.119 Gwaethygir materion gallu gan fylchau sgiliau yn y rhanbarth a chan faint cymharol fach llawer o'r cyrff sy'n darparu gwasanaethau. Er enghraifft mae ei awdurdodau lleol ar gyfartaledd yn gwasanaethu poblogaeth lai o faint, rhai mor fach â 60,000, na chyfartaledd Cymru gyfan. Adlewyrchir hyn yn y sector gwirfoddol. Yr her yw cynnal manteision ymwybyddiaeth ac atebolrwydd lleol a geir o ganlyniad tra'n dod o hyd i ffyrdd o atgyfnerthu'r gallu i ymateb i ymrwymadau gwasanaethau sy'n newid ac arloesi.

⁸⁵ Adroddiad Ar Draws Ffiniau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, <http://new.wales.gov.uk/about/strategy/makingtheconnections/beechemreview/beechemrep?lang=Cy>

⁸⁶ Anghenion Tai, Gofal a Chymorth Cartref Pobl Hyn Cymru (AYT 3/03) <http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/research/hrr303?lang=Cy>

2.120 Cymeradwyodd *Ar Draws Ffiniau* ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus a nodir yn *Creu'r Cysylltiadau* (Hydref 2004) a'r cynllun gweithredu a ddeilliodd ohono. Argymhellir y dylid ei weithredu'n gyflymach ac ymhellach. Nododd adroddiad diweddar a gomisiynwyd gan yr Asiantaeth Gwella a Datblygu, fod diffyg arbenigedd ym maes rheoli newid. Mae 72% o'r awdurdodau lleol yn Lloegr yn cofnodi bylchau sgiliau ym meysydd rheoli sefydliadol a rheoli newid sy'n effeithio ar feysydd hanfodol bwysig y mae angen eu diwygio, ac mae mwy na 60% o'r awdurdodau yn cofnodi bylchau sgiliau ym maes ailgynllunio prosesau busnes⁸⁷. Mae hyn yn atgyfnerthu'r diffygion gallu a nodwyd yn Adroddiad Beecham ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol yng Nghymru.

2.121 Bydd yn rhaid i bob corff gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru newid gryn dipyn yn ystod y 5 – 7 mlynedd nesaf o ran y ffordd y mae'n cynllunio, yn dylunio ac yn darparu gwasanaethau. Mae hyn i'w briodoli i newidiadau mawr yn y galw am wasanaethau cyhoeddus ac yn nyluniad gwasanaethau cyhoeddus, oherwydd newid demograffig a chymdeithasol, gan gynnwys materion megis y cynnydd o 47% yn nifer y bobl dros 85 oed erbyn 2018, nifer ostyngol o blant ac amllder problemau yn ymwneud â'r teulu. Mae angen cynyddol pobl, cymunedau a busnesau am ystod ehangach, fwy ymatebol, a mwy amrywiol o wasanaethau cyhoeddus y gellir eu teilwra i'w hanghenion penodol, er enghraifft dewisiadau cwricwlwm ehangach mewn ysgolion a cholegau a llwybrau dysgu hyblyg, y gellir cael mynediad iddynt yn haws ar draws y gymuned gyfan yn ail ffactor.

2.122 Y trydydd ffactor yw'r pwyslais cynyddol ar sicrhau gwell canlyniadau a'r angen sy'n deillio o hynny i wasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd mewn ffordd lawer mwy integredig (llywodraeth leol, gwasanaeth iechyd, addysg, y trydydd sector ac ati), e.e. i leihau anweithgarwch economaidd, datblygu gweithlu crefftus, hyrwyddo cymunedau cynaliadwy lleol; yr angen i ddarparu gwasanaethau a rhwydweithiau (gan gynnwys materion amgylcheddol cymhleth megis rheoli gwastraff, darparu trafniadaeth gyhoeddus, comisiynu gofal ar gyfer pobl ag anghenion mawr) sy'n dibynnu ar wybodaeth arbenigol a gallu rheoli na ellir eu rhoi ar waith ond trwy bartneriaethau rhanbarthol neu isranbarthol; a'r angen i fod yn hyblyg wrth reoli adnoddau er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau rheng flaen mewn cyfnod o dwf cyfyngedig mewn gwariant cyhoeddus trwy sicrhau mwy o effeithlonrwydd mewn prosesau busnes allweddol ac wrth ddyrannu adnoddau.

2.123 Llywir y galw am newid yn nyluniad a darpariaeth gwasanaethau sector cyhoeddus gan gorff o dystiolaeth o nifer o ffynonellau allweddol, sy'n gyson o ran eu negeseuon. Cesglir llawer o'r dystiolaeth hon at ei gilydd yn adroddiad yr Arolwg o Ddarpariaeth Gwasanaethau Lleol yng Nghymru (adroddiad Beecham), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a gyhoeddwyd yn 2006. Ar sail tystiolaeth o 300 o sefydliadau ac unigolion a gwaith dadansoddi data, daeth i'r casgliad bod perfformiad cyfredol gwasanaethau yng Nghymru yn dameidiog o gymharu â grŵp o gymaryddion. Roedd y gallu i arwain a rheoli newid, partneriaethau, prosiectau ac ymagweddau trawsbynciol wedi'i orymestyn, roedd y diwylliant sefydliadol yn rhy geidwadol ac nid oedd yn ddigon uchelgeisiol,

⁸⁷ Adroddiad gan yr Asiantaeth Gwella a Datblygu, 'The future shape of local authorities' workforces, Ebrill 2007, <http://www.idea.gov.uk/idk/core/page.do?pagelid=6205455>

roedd y system llywodraethu a darparu gwasanaethau yn rhy gymhleth. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y gallai Cymru ddatblygu'n batrwm o sut i lywodraethu gwlad fach pe bai'n cyrraedd y nod o ran pedwar ffactor llwyddiant hanfodol bwysig: ymgysylltu â dinasyddion, canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau, partneriaethau effeithiol a bod yn agored i heriau adeiladol.

2.124 Mae Swyddfa Archwilio Cymru (y corff archwilio cyhoeddus cenedlaethol) a'r arolygiaethau gwasanaethau unigol yn atgyfnerthu'r casgliadau hyn yn eu systemau cofnodi blynyddol, gan nodi gallu corfforol ac arbenigol fel meysydd risg uchel barhaus. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau adnoddau dynol a datblygu'r gweithlu. Dengys gwaith dadansoddi fod prinderau sgiliau sylweddol o fewn y sector gwirfoddol, gan gynnwys ar lefel rheolwyr ac ar lefel datrys problemau. O ran adfywio, nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod angen sicrhau gweithio mwy effeithiol mewn partneriaeth i sicrhau ymagwedd fwy strategol a mwy cydgysylltiedig, a meithrin gallu a sgiliau ym meysydd cynllunio, rheoli prosiectau a datblygu cymunedol⁸⁸.

2.125 Er mwyn i economi rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd newid yn sylweddol fel yr hoffai iddi ei wneud, nid yn unig y mae angen i'w wasanaethau cyhoeddus fod cystal â'r rhai gorau, ond mae angen iddo allu cynnal ac ysgogi twf economaidd o fewn yr ardal hefyd. Fodd bynnag, mae'r her yn fwy i gyrrff gwasanaeth cyhoeddus yn y rhanbarth Cydgyfeirio nag mewn mannau eraill yng Nghymru.

Dadansoddiad SWOT

2.126 Mae'r canlynol yn crynhoi'r dystiolaeth economaidd-gymdeithasol ar ffurf dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau). Mae'r dadansoddiad SWOT yn nodi'r meysydd penodol lle y mae Cymru yn amlwg wahanol i weddill y DU yn gyffredinol, yn ogystal â darparu meysydd allweddol lle y gall ymyriadau wedi'u targedau gael yr effaith fwyaf. Mae'r dadansoddiad SWOT wedi'i ddadgyfuno ar lefel Cymru gyfan i ddangos lle y mae gwahaniaethau pendant rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Dwyrain Cymru. Fodd bynnag, ceir themâu cyffredin yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Tabl 20: Dadansoddiad SWOT o Orllewin Cymru a'r Cymoedd

Cryfderau	Gwendidau
<p>-Dengys gwelliannau yn sefyllfa'r farchnad lafur lle y mae cyflogaeth yn cynyddu a diweithdra yn lleihau ac anweithgarwch economaidd yn lleihau nad yw'r problemau yn rhai anhydrin.</p> <p>-Cyfradd twf cyflogaeth uwch ar draws Gorllewin Cymru a'r</p>	<p>-CMC y pen isel o gymharu â chyfartaleddau Cymru gyfan a'r DU. Er gwaethaf gwelliannau, mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd, gyfraddau cyflogaeth is, cyfraddau anweithgarwch economaidd uwch a chyfraddau diweithdra uwch nag ar gyfer Cymru yn gyffredinol ac o</p>

⁸⁸ Adfywio: Dull symlach y Gymru:

http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/Regeneration_Welsh.pdf

<p>Cymoedd o gymharu â Chymru, y DU a'r UE yn gyffredinol.</p> <ul style="list-style-type: none"> -Cynnydd yng nghyfradd cyflogaeth benywod, Mae'r gyfradd cyflogaeth gyffredol uwchlaw'r targed o 60% a bennwyd yn agenda Lisboa. - Llai o fwch cyflog rhwng y rhywiau nag ar draws y DU yn gyffredinol, er ei fod yn dal i fod uwchlaw cyfartaledd yr UE. -Cyfran lai o ddisgyblion yn gadael yr ysgol yn 16 oed heb ennill unrhyw gymhwyster ffurfiol nag ar draws Cymru yn gyffredinol. -Amgylchedd naturiol o ansawdd da iawn bron ym mhob ardal yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n ddeniadol i dwristiaid ac a ddylai mewn egwyddor fod yn ddeniadol i deuluoedd a buddsoddwyr. -Ansawdd bywyd da sy'n helpu i gynyddu ymfudo net i Gymru. 	<p>gymharu â chyfartaledd y DU.</p> <ul style="list-style-type: none"> -Esbonnir y gymhareb ddibyniaeth uwch o gymharu â chyfartaledd Ewrop gan gynrychiolaeth fwy o unigolion dros yr oedran gweithio. -Gostyngiad y boblogaeth o bobl 11-25 mlwydd oed rhwng 1991 a 2004. -Allfudo net gan unigolion 16-24 oed. -Cyfradd anweithgarwch economaidd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr UE yn gyffredinol. - Cyfradd diweithdra uwch ymhlith grwpiau dan anfantais (unigolion anabl, Grwpiau Duon a Lleiafrif Ethnig). -Enillion sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU yn gyffredinol. -Lefelau uwch o iechyd gwael ynghyd â chyfran fwy o bobl sy'n dweud eu bod yn economaidd anweithgar oherwydd iechyd gwael. -Proffil sgiliau anffafriol, lle y mae cyfran fawr o unigolion heb unrhyw sgiliau ffurfiol. - Dim ond 30% o unigolion 16-24 oed heb unrhyw gymwysterau sydd mewn gwaith o gymharu â 70% yn achos y rhai â chymwysterau Lefel 4 ac uwch. Mae'r gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc yn fwy na 10 pwynt canran yn is nag ar gyfer unrhyw ddsbarth oedran arall. - Proffil sgiliau anffafriol ar gyfer pobl anabl o gymharu â'r rhai heb anabled. - Cyfran fwy o bobl ifanc 19 – 21 oed heb unrhyw gymwysterau ffurfiol o gymharu â chyfartaleddau Cymru a'r DU. -Lefelau isel o sgiliau sylfaenol ledled Cymru yn gyffredinol (nid oes unrhyw ddata ar lefel is-Gymru ar gael) o gymharu â Lloegr. - Cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg na
---	---

	<p>hyfforddiant (NEET).</p> <p>-Rhoddir mwy o bwys ar atal cyfnodau sylweddol o ddiweithdra a NEET rhag crynhoi ar gyfer pobl ifanc o gofio'r creithiau y gall hyn eu gadael ar unigolion.</p> <p>-Nid oes gan gyfran fwy o fenywod ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd unrhyw gymwysterau ffurfiol o gymharu â gwrywod.</p> <p>-Mae cyfran fawr o fenywod yn gweithio mewn swyddi rhan amser.</p> <p>-Hygyrchedd gwael a phroblemau yn gysylltiedig â fforddiadwyedd gofal plant.</p> <p>-Cyfran lai o ddisgyblion sy'n ennill pump neu ragor o TGAUau graddau A*-G neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn gyffredinol.</p> <p>-Cyfran lai o ddisgyblion sy'n aros mewn addysg bellach pan fyddant yn 16 oed ynghyd â chyrhaeddiad lefel U/UA is o gymharu â Chymru yn gyffredinol.</p> <p>-Gorddibyniaeth ar sectorau gwerth ychwanegol isel sy'n dirywio yn arbennig amaethyddiaeth a chynhyrchu.</p> <p>-Llai o wario ar YaD fel canran o CMC nag ar gyfer y DU yn gyffredinol.</p> <p>-Cyfran lai o swyddi yn y sector gweithgynhyrchu technoleg uchel a chanolig a gwasanaethau technoleg uchel gwybodaeth ddwys.</p> <p>-Lefelau uchel o amddifadedd cyffredinol sydd i'w priodoli yn bennaf i amddifadedd incwm a chyflogaeth.</p> <p>-Mae cyfran fwy o blant Cymru yn byw mewn cartrefi lle nad oes unrhyw un yn gweithio o gymharu â'r DU a 25 Aelod-wladwriaeth yr UE.</p> <p>-Natur anghysbell rhai ardaloedd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a mynediad cymharol wael i</p>
--	---

	<p>farchnadoedd a gwasanaethau cyhoeddus.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Newidiadau demograffig a chymdeithasol e.e. cynnydd yn nifer yr henoed, gostyngiad yn nifer y plant ac amledd problemau teuluol, sy'n creu pwysau newydd a newidiol / galwadau newydd a newidiol am wasanaethau cyhoeddus. - Methiant i foderneiddio'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus ac aneffeithlonrwydd cysylltiedig a achosir gan faterion gallu a bylchau sgiliau e.e. rheoli ac arwain prosiectau, ymhlith y gweithlu.
Cyfleoedd	Bygythiadau
<ul style="list-style-type: none"> -Cyfle i adeiladu ar gryfderau'r cylch blaenorol o Gronfeydd Strwythurol a'r cynnydd mewn gallu ar gyfer adfywio'r sectorau cymunedol, cyhoeddus a phreifat. -Cyfleoedd i ddefnyddio'r strwythur addysg uwch bresennol i wella sgiliau'r boblogaeth. -Cyfleoedd i wella canlyniadau addysgol plant trwy ymyriadau wedi'u targedu'n effeithiol ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig. -Cyfleoedd ar gael ar draws rhai rhannau o Orllewin Cymru a'r Cymoedd yn deillio o fewnfudo gan unigolion. -Mae lle i wella lefelau sgiliau a chynyddu maint a dyfnder y pwll llafur. -Mae potensial i adeiladu ar rwydweithiau ac ehangu gallu gweinyddiaethau a gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth, i sicrhau y gallant chwarae eu rôl, a diwallu anghenion eu defnyddwyr, unigolion, busnesau a chymunedau yn fwy effeithiol. 	<ul style="list-style-type: none"> -Nodwyd mai'r galw sy'n lleihau am unigolion sgil isel yw prif achos cyfraddau anweithgarwch economaidd uwch yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Wrth i'r galw barhau i leihau, mae materion cymdeithasol yn ymsefydlu. -Mae bron 1 o bob 5 busnes yn cofnodi bwch sgiliau yng Nghymru. -Poblogaeth sy'n heneiddio sy'n arwain at gyfran gymharol is o unigolion o oedran gweithio (cymhareb ddibyniaeth uwch) a phwysau cynyddol ar lawer o wasanaethau cyhoeddus (er bod angen dealltwriaeth well am batrymau ymfudo am y gall hyn wrthbwysu proses heneiddio naturiol y boblogaeth. -Poblogaeth sy'n lleihau yn y cymoedd uchaf wrth i unigolion ymfudo i rannau eraill o Gymru a Lloegr. -Mae'r risg o syrthio i dlodi yn uwch yn achos rhieni unigol a chartrefi lle nad oes unrhyw un yn gweithio sydd â phlant dibynnol.

Cyfeiriadau

ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU, 2006, A New Deal for Welfare: Empowering People to Work. Ar gael yn:
http://www.dwp.gov.uk/welfarereform/empowering_people_to_work.asp

ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU, 2006, Impacts of the Job Retention and Rehabilitation Pilot. Adroddiad ymchwil a luniwyd gan y Ganolfan Ymchwil Gymdeithasol a'r Sefydliad Dinesig ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau. Ar gael yn: <http://www.dwp.gov.uk/asd/asd5/rports2005-2006/rrep342.pdf>

BERTHOURED, R. 2003. Multiple Disadvantages in Employment: A Quantitative Analysis. Adroddiad ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree.

BLACKABY, D ac eraill 2003. Identifying Barriers to Economic Activity in Wales. Adroddiad ar gyfer Uned Ymchwil Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru: <http://new.wales.gov.uk/about/aboutresearch/econoresearch/economicresearch/ecompletedresearch/barrierseconomicactivity?force=cy>

BLANDEN, J ac eraill 2005. Educational Inequality and Intergenerational Mobility in S Machin ac A Vignoles (golygyddion) *What Can Education Do?* Y Ganolfan Economeg Addysg.

CARTMEL, F a FURLONG, A, 2000. Youth Unemployment in Rural Areas. Adroddiad ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree.

CLARK, K a DRINKWATER S. 2005. Dynamics and Diversity: Ethnic Employment Differences in England and Wales, 1991-2001. IZA Papur Trafod Rhif 1698 <http://www.econ.surrey.ac.uk/staff/sdrinkwater/dp1698.pdf>

COMISIWN EWROPEAIDD, 2005, Common Actions for Growth and Employment: Rhaglen Lisboa y Gymuned, Cyfathrebiad o'r Comisiwn i'r Cyngor a Senedd Ewrop. COM(2005) 330 final. Ar gael yn: http://europa.eu.int/growthandjobs/key/index_en.htm

COMISIWN MERCHED A GWAITH, 2005, Shaping A Fairer Future. Ar gael yn: http://www.womenandequalityunit.gov.uk/publications/wwc_shaping_fairer_future06.pdf

DUNCAN, A a GILES, C. 1996. Should we Subsidise Childcare and if so how? *Fiscal Studies*, Cyf 17 tudalennau 39-61.

DUNCAN, A ac eraill, 2001. Mothers' Employment and the use of Childcare in the UK, Y Sefydliad Astudiaethau Ariannol WP01/23.

DURLAUF, S, (2004. Neighbourhood Effects. *Handbook of Urban and Regional Economics*, Cyfrol 4, *Economics*, J. V. Henderson a J.-F. Thisse, golygyddion.

FAGGIO, G a NICKELL, S, 2005. Inactivity Among Prime Age Men in the UK. *Papur Trafod gan y Ganolfan Perfformiad Economaidd (CEP)* 673 ar gael o: <http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp0673.pdf>

GIBBONS. S ac eraill, 2005, Is Britain Pulling Apart? Area Disparities in Employment, Education and Crime, Centre for Market and Public Organisation Working Paper 05/120, a gyhoeddwyd yn N. Pearce a W. Paxton (golygyddion) *Social Justice, Building a Fairer Britain*, y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus. Ar gael yn: <http://www.bris.ac.uk/Depts/CMPO/workingpapers/wp120.pdf>

GLAESER. E, 2004 Four Challenges for Scotland's Cities. Ar gael yn: <http://www.fraser.strath.ac.uk/Allander/AllanderPapers.htm>

GRŴP STRATEGAETH A CHYFATHREBU LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, 2004. Adolygiad o Anweithgarwch Economaidd. Ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-second/bus-committees-second-edt-home/bus-committees-second-edt-agendas.htm?act=dis&id=20929&ds=9/2004>

JONES. M a SLOANE. P, 2003, Low Pay, High Pay and Job Satisfaction in Wales. Ar gael yn: <http://www.swan.ac.uk/welmerc/Research.htm>

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, 2005 *Cymru: Economi yn Ffynnu*, Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Datblygu Economaidd. Ar gael yn: <http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/wave?lang=cy>

MACKAY. S, 2003 Local Area Characteristics and Individual Behaviour. Adran Ymchwil Gymdeithasol, yr Adran Gwaith a Phensiynau. Adroddiad mewnol 123.

Pennod 3: Y Strategaeth

Cyflwyniad

3.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r strategaeth gyffredinol ar gyfer Rhaglen Gydgyfeirio ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'n ystyried yr heriau allweddol sy'n wynebu'r rhanbarth ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys cymorth y rhaglen Amcan 1 gyffredol. Mae'r strategaeth yn nodi'r amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer rhaglen gydggyfeirio newydd ESF, gan esbonio ei chyfraniad at adfywiad parhaol economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac ysgogi twf posibl. Fe'i datblygwyd yng nghyd-destun y *Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi*⁸⁹ a luniwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd a *Chanllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant 2007-2013*⁹⁰.

3.2 Mae'r strategaeth yn esbonio sut y bydd y rhaglenni yn cyfrannu at ymateb cyffredinol y DU i agenda Lisboa ar gyfer swyddi a thwf, fel y'i nodir yn y *Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol*⁹¹ a'r *Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (NSRF)*⁹². Mae hefyd yn esbonio sut y caiff arian yr UE eu canolbwyntio i gynyddu hyd yr eithaf ar y potensial ar gyfer twf a swyddi, ac i ychwanegu gwerth at strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynyddu cyflogaeth a gwella sgiliau. Yn olaf, mae'r strategaeth yn nodi'r prif egwyddorion a fydd yn llywio'r gwaith o weithredu'r rhaglenni newydd, gan gynnwys y rôl allweddol sydd i'w chwarae gan bartneriaid yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Datblygir y rhaglenni gan adlewyrchu prif egwyddorion polisi Cydlyniant yr UE, gan gynnwys partneriaeth, tryloywder, cydariannu, gwerthuso, cymesuredd, datblygu rhanbarthol cynaliadwy, cyfle cyfartal a gwerth ychwanegol.

Cronfeydd Strwythurol Cyfredol yr UE 2000 – 2006

3.3 Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn elwa ar gymorth o dros £1.3bn (€1.8bn) gan raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop o dan raglen Amcan 1 2000-2006. Ynghyd ag arian cyfatebol gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, mae ychydig dros 1,700 o brosiectau yn derbyn buddsoddiad sy'n dod i gyfanswm o fwy na £3.1 biliwn, y mae £0.88 biliwn ohono yn cefnogi 652 o brosiectau'r ESF, gan wneud gwahaniaeth go iawn i ddyfodol busnesau ac unigolion ar draws y rhanbarth. Mae Diweddariad Gwerthusiad Canol Tymor (MTEU) rhaglen Amcan 1 2000-2006⁹³ yn amcangyfrif y bydd hyd at 84,800 o bobl ddi-waith neu economaidd anweithgar wedi symud i mewn i gyflogaeth neu ddysgu pellach erbyn diwedd cyfnod y rhaglen. Ar ben hynny, bydd hyd at 40,500 net o swyddi newydd a 1,895 net o fentrau bach a chanolig newydd

⁸⁹ Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi (2005–2008)

http://ec.europa.eu/growthandjobs/pdf/COM2005_141_en.pdf

⁹⁰ Polisi Cydlyniant ar gyfer Twf a Swyddi: Canllawiau Strategol y Gymuned, 2007-2013

http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/2007/osc/1180706_en.pdf

⁹¹ Strategaeth Lisboa ar gyfer Swyddi a Thwf: Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU, a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2006 <http://www.dti.gov.uk/files/file34761.pdf>

⁹² Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU: 2007–2013

<http://www.dti.gov.uk/consultations/page28796.html>

⁹³ Diweddariad o'r Gwerthusiad Canol Tymor ar gyfer Rhaglen Amcan 1 2000-2006, Adroddiad Terfynol, Rhagfyr 2005 gan Old Bell 3 ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://www.wefo.wales.gov.uk/resource/2005-12-23-O1-MTEU-Final-Report6586.pdf>

wedi'u creu. Chwaraeodd Cronfeydd Strwythurol rôl bwysig o ran datblygu economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gyfrannu'n sylweddol at y nod o sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy yn unol ag agendâu diwygio Lisboa a Göteborg.

3.4 Mae rhaglen Gydgyfeirio newydd ESF yn adeiladu ar y llwyddiant hwn ac yn dysgu o brofiad rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2000-2006, o ran ei ffocws strategol a'r trefniadau ar gyfer ei gweithredu. Bydd y cam nesaf yn nhrawsnewidiad economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn datblygu'r ymyriadau presennol sydd â record sicr o lwyddiant, tra'n hyrwyddo ymagweddau newydd ac arloesol. Nid rhagor o'r un peth yn unig fydd y rhaglen newydd, ond rhagor o'r gorau, a bydd yn canolbwyntio'n gryf ar gynyddu cyflogaeth a gwella sgiliau. Clustnodir yr arian sydd ar gael ar gyfer adeiladu economïau a chymunedau parhaol a fydd yn ffynnu ac yn sbarduno twf economaidd cryf a chynaliadwy. Gwneir buddsoddiadau ar sail y potensial ar gyfer y dyfodol a'r thema hon o feithrin gallu economaidd hirdymor - sy'n hanfodol ar gyfer swyddi a thwf - fydd y conglfaen ar gyfer dyrannu adnoddau.

Heriau strategol allweddol

3.5 Dangosodd Pennod 2, y Dadansoddiad, fod economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gwella gryn dipyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan barhau ei weddnewidiad o gyfnod hir o ddirywiad economaidd pan ddiflannodd llawer o ddiwydiannau traddodiadol. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd i leihau gwahaniaethau economaidd rhwng y rhanbarth a gweddill Cymru a'r DU i sicrhau cydgyfeirio llawn â rhannau eraill o'r UE, ac i wireddu ein huchelgais i fod ar flaen y gad o ran datblygu economaidd.

3.6 Mae sefyllfa economaidd bennawd (a fesurir yn draddodiadol trwy GYC fesul pen o'r boblogaeth) Gorllewin Cymru a'r Cymoedd y tu ôl i sefyllfa economaidd bennawd Cymru a'r DU ac mae'n 77% o gyfartaledd 25 Aelod-wladwriaeth yr UE. Mae dau brif ffactor yn helpu i esbonio tanberfformiad economaidd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o gymharu â gweddill y DU: cyfradd cyflogaeth is a gwerth ychwanegol is fesul gweithiwr (allbwn fesul swydd).

3.7 Er gwaethaf gwelliannau sylweddol yn sefyllfa'r farchnad lafur a thwf mewn enillion ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae'r gyfradd cyflogaeth yn y rhanbarth yn dal i fod islaw cyfartaleddau Cymru a'r DU. Esbonnir y rhan fwyaf o'r gwahaniaeth hwn gan lefelau uwch o anweithgarwch economaidd, yn hytrach na lefelau uwch o ddiweithdra. Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn uwch ymhlith rhai grwpiau dan anfantais, gan gynnwys pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, gweithwyr hŷn, rhieni unigol a Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME). Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd hefyd yn uwch ymhlith rhai cymunedau ar draws y rhanbarth, yn arbennig cymoedd De Cymru.

3.8 Y consensws yn y llenyddiaeth economaidd yw mai'r galw gostyngol am lafur di-grefft sydd wrth wraidd lefelau uchel o anweithgarwch economaidd. Mae'n hanfodol bwysig gwella sgiliau'r boblogaeth oedran gweithio ynghyd â dileu rhwystrau i gyfranogiad (iechyd gwael, mynediad i wasanaethau megis trafnidiaeth) er mwyn gwella eu rhagolygon cyflogaeth. Ar ben hynny, mae'n

hanfodol bwysig sicrhau bod pobl ifanc yn gadael yr ysgol yn meddu ar y sgiliau i sicrhau eu bod yn trosglwyddo i fyd gwaith yn llwyddiannus, er mwyn hyrwyddo'r agenda ar gyfer twf a chynhyrchiant yn y rhanbarth yn y dyfodol. Bydd sicrhau y gall mwy o bobl ifanc gael mynediad i sgiliau lefel uwch yn helpu i sicrhau gweithlu sy'n ddigon crefftus a hyblyg i fynd i'r afael â heriau economi wybodaeth fodern. Ar ben hynny, mae codi lefelau cyflogaeth yn mynd i'r afael â chanlyniadau cymdeithasol ehangach bod yn ddi-waith a thlodi sy'n effeithio ar iechyd a chynhwysiant cymdeithasol.

3.9 Esbonnir gwerth ychwanegol is fesul gweithiwr ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn rhannol gan gyfansoddiad diwydiannol yr isranbarth yn hytrach na'r ffaith bod gweithwyr Cymru yn llai cynhyrchiol na'u cyfatebwyr yn y DU a'r UE. Mae ffactor arall yn ymwneud â'r lefelau sgiliau is ar draws y rhanbarth, lle y mae lefelau uwch o weithwyr â sgiliau sylfaenol isel a bylchau sgiliau a phrinderau sgiliau a nodwyd ar lefel ganolraddol. Ar ben hynny, mae cyfyngiadau pellach yn deillio o'r ffaith bod trefi a dinasoedd Cymru yn gymharol fach, a bod rhannau helaeth o Gymru yn denau eu poblogaeth ac yn bell o ganolfannau mawr (sy'n adlewyrchu anallu i fanteisio ar effeithiau athyrru cryf).

3.10 Fodd bynnag, mae'n galonogol nodi bod yr economi yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi dangos arwyddion clir ei bod yn gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi'i chynorthwyo, yn rhannol, gan y Cronfeydd Strwythurol. Mae'r llwyddiant hwn ar ei amlycaf yn y farchnad lafur, ond cafwyd llwyddiant hefyd wrth ddatblygu busnesau sector preifat a gwella seilwaith y rhanbarth. Dengys y gwelliannau hyn nad yw problemau economaidd a chymdeithasol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn anhydryn, ac y gellir gwneud cynnydd, a bod cynnydd wedi'i wneud.

3.11 Bydd darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol yn ffactor allweddol er mwyn i Orllewin Cymru a'r Cymoedd barhau â'r twf economaidd hwn ac ymateb i bwysau cystadleuol yr economi fyd-eang. Mae gwasanaethau ym meysydd addysg a hyfforddiant, iechyd, trafnidiaeth, tai, adfywio a datblygu economaidd i gyd yn hanfodol bwysig ac maent yn ganolog i bolisiau a rhaglenni prif ffrwd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r perfformiad cyfredol yn dameidiog ac mae natur y galw yn newid. Mae angen gwasanaethau mwy hwylus a all hyrwyddo adfywio economaidd yn fwy effeithiol ar fusnesau a chymunedau. Mae angen i wasanaethau fod yn fwy hygyrch, yn fwy hyblyg, yn fwy ymatebol i'r gwahanol anghenion, wedi'u hintegreiddio i'w gilydd ac yn fwy effeithlon. Mae hyn yn golygu trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu harwain, eu cynllunio a'u darparu trwy fuddsoddi yng ngallu'r gwasanaethau cyhoeddus, i sicrhau y gall systemau arwain, systemau sgiliau a systemau perfformiad ymateb i anghenion yr 21^{ain} ganrif.

Nod ac Amcanion ar gyfer Rhaglen Gydyfeirio ESF

3.12 Cytunwyd ar yr amcanion canlynol trwy astudio'r heriau allweddol y mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn eu hwynebu yng nghyd-destun sicrhau twf economaidd cynaliadwy. Mae'r dadansoddiad SWOT yn crynhoi'r prif heriau a chyfleoedd ar gyfer y rhanbarth yn ystod y cyfnod nesaf o saith mlynedd a datblygwyd echelau blaenoriaeth y rhaglen i ychwanegu gwerth at bolisiau sy'n bodoli eisoes i fynd i'r afael â'r materion hyn. Dylid ystyried rhaglenni ESF ac

ERDF sydd ar wahân gyda'i gilydd fel ffordd o wireddu'r weledigaeth ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fel rhanbarth entrepreneuriaidd bywiog sydd ar flaen y gad o ran twf cynaliadwy.

3.13 Nod cyffredinol rhaglen Gyddyfeirio ESF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yw:

Creu economi sgil uchel yn seiliedig ar wybodaeth, lle y ceir cyflogaeth lawn, gweithlu crefftus, hyblyg a busnesau ymatebol, ac sydd ar flaen y gad o ran datblygu cynaliadwy.

3.14 Amcanion rhaglen ESF yw :

- rhoi i bobl ifanc y sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol;
- cynyddu cyflogaeth, yn arbennig trwy fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd;
- gwella lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu; ac
- moderneiddio a gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus (Creu'r Cysylltiadau).

3.15 Amcanion rhaglen ategol ERDF yw:

- hyrwyddo economi gwerth ychwanegol uchel trwy wella gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf trwy feithrin Ymchwil a Datblygu, arloesi a thechnoleg a'r defnydd a wneir ohoni at ddibenion masnachol a chynyddu mynediad i TGCh a'r defnydd a wneir ohoni;
- atgyfnerthu'r economi trwy gynyddu maint y stoc fusnesau ac ehangach ei chwmpas a mynd i'r afael â methiannau'r farchnad o ran cyngor, gwybodaeth a chyllid busnes;
- sicrhau bod gan y rhanbarth y seilwaith ffisegol sydd ei angen i ddatblygu economi fodern a chystadleuol;
- creu amgylchedd busnes deniadol; ac
- adeiladu cymunedau cynaliadwy.

3.16 Bydd yr amcanion hyn yn hyrwyddo cyflawni amcanion Lisboa i gynyddu twf economaidd a darparu swyddi ychwanegol ar gyfer pobl Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gyda pherthnasau cydategol rhwng polisïau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Ymateb Polisi

3.17 Mae Rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol yn rhagweld ymagwedd fwy strategol at waith rhaglennu yn ystod y cyfnod 2007 – 2013, ac y cryfheir ffocws polisi cydlyniant yr UE ar agendâu Lisboa a Göteborg ar gyfer twf, swyddi a datblygu cynaliadwy⁹⁴. Cymeradwyodd Aelod-wladwriaethau set o "Canllawiau

⁹⁴ Camau Gweithredu Cyffredin ar gyfer Twf a Chyflogaeth: Rhaglen Lisboa y Gymuned, 20 Gorffennaf 2005 (www.europa.eu.int)

Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant⁹⁵ (CSG), sy'n darparu fframwaith ar gyfer helpu i gyflawni amcanion Lisboa fel y'u diffinnir yn y Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi. Nid yw pob elfen o'r fframwaith hwn yn berthnasol i bob rhanbarth o'r UE ac mae'n rhaid i bob rhanbarth ddewis y cyfuniad mwyaf priodol o fuddsoddiadau i gyflawni'r agenda ar gyfer twf a swyddi, gan ystyried ei gryfderau a'i wendidau penodol.

3.18 Mae Canllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant yn nodi y dylai rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol ymdrin â thair prif flaenoriaeth:


- Gwella atyniad Aelod-wladwriaethau, rhanbarthau a dinasoedd trwy wella hygyrchedd, sicrhau gwasanaethau o safon ddigonol a lefel ddigonol o wasanaethau, a diogelu eu potensial amgylcheddol;
- Hyrwyddo arloesi, entrepreneuriaeth a thwf yr economi wybodaeth trwy alluoedd ymchwil ac arloesi, gan gynnwys technolegau gwybodaeth a chyfathrebu newydd; ac
- Chreu mwy o swyddi a gwell swyddi trwy ddenu mwy o bobl i mewn i gyflogaeth, gwella hyblygrwydd gweithwyr a mentrau, a chynyddu buddsoddi mewn cyfalaf dynol.

3.19 Mae pob un o dri amcan Canllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant yn berthnasol o ran llywio'r strategaeth gydgyfeirio ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, lle y mae angen canolbwyntio buddsoddiadau ar gamau y mae angen eu cymryd i hyrwyddo cystadleurwydd hirdymor, creu swyddi a datblygu cynaliadwy. Mae'r trydydd yn arbennig o berthnasol i'r rhaglen hon.


3.20 Mae amcanion a blaenoriaethau rhaglenni Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gyson ag agenda Lisboa agenda a byddant yn cyfrannu'n uniongyrchol at Raglen Ddiwygio Genedlaethol gyffredinol y DU (NRP), sydd yn ei thro yn ymateb i'r Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi. Mae'r ymateb hwn yn cynnwys polisiau a chymau gweithredu o dan Raglen Gydgyfeirio ESF o fynd i'r afael â'r heriau yn gysylltiedig ag ehangu cyfleoedd ar gyfer caffael sgiliau a hyrwyddo hyblygrwydd gweithwyr a mentrau, gwella rhagolygon cyflogaeth ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig, a thrwy Raglen ERDF adeiladu sector busnes mentrus a hyblyg, a hyrwyddo arloesi ac YaD.

⁹⁵ Canllawiau Strategol y Gymuned ar Gydlyniant Economaidd, Cymdeithasol a Thiriogaethol 2007-2013, Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, 18 Awst 2006
http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/2007/osc/1180706_en.pdf

Ffigur 21. Cysylltiadau rhwng Rhaglenni Gweithredol, Canllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant a Chanllawiau Integredig



Ffigur 22. Cysylltiadau rhwng amcanion CSG a Blaenoriaethau Cydgyfeirio ESF ac ERDF



3.21 Nodir y cyfraniad y bydd y Cronfeydd Strwythurol yn ei wneud at y rhaglen ddiwygio hon yn *Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (NSRF)* y DU. Mae'r NSRF yn darparu fframwaith polisi i lywio'r gwaith o lunio Rhaglenni Gweithredol (RhG) yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Mae'n cynnwys dadansoddiad o gryfderau a gwendidau economaidd y DU ac yn nodi'r strategaeth a ddewiswyd ar gyfer y rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ym mhob rhan o'r DU. Mae NSRF y DU yn cynnwys pennod ar wahân sy'n nodi'r strategaeth ar gyfer twf economaidd rhanbarthol yng Nghymru a blaenoriaethau'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer y rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol. Mae Rhaglen Weithredol Gydygyfeirio ESF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cyd-fynd yn agos â'r fframwaith polisi hwn.

3.22 Bwriedir i'r rhaglen wireddu ein gweledigaeth i greu rhanbarth entrepreneuriaidd bywiog sydd ar flaen y gad o ran datblygu cynaliadwy a chymunedau ffyniannus ledled Cymru. Y ffactorau sbarduno allweddol ar gyfer cyflawni hyn trwy raglen ESF yw:

- Datblygu'r sgiliau y mae ar bobl ifanc eu hangen, yn arbennig pobl ifanc dan anfantais, i gael mynediad i ddysgu a chyfleoedd hyfforddi;
- Cynyddu cyflogaeth, yn arbennig trwy fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd;
- Gwella lefelau sgiliau gweithwyr a hyblygrwydd busnesau, i'w helpu i symud yn barhaus i fyny'r gadwyn werth a chynyddu gwerth ychwanegol fesul swydd, gan gynyddu cynhyrchiant ac enillion; ac
- Cefnogi buddsoddiadau wedi'u targedu mewn gwasanaethau cyhoeddus i wella'r ffocws ar gwsmeriaid, hygyrchedd, perthnasedd ac effeithlonrwydd.

3.23 Datblygwyd y fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo datblygu economaidd yng nghyd-destun *Cymru: Gwlad Well*⁹⁶, sef agenda polisi strategol cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn arbennig, mae'n rhaid i gamau i hyrwyddo datblygu economaidd gael eu cymryd ochr yn ochr ag elfennau eraill o'r agenda strategol hwn – sef gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb trwy hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, gwella'r amgylchedd, iechyd ac addysg, yn unol â *Chynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru – Dechrau Byw'n Wahanol*⁹⁷.

3.24 Nodir y strategaeth datblygu economaidd yn *Cymru: Economi sy'n Ffynnu*⁹⁸ (*W:AVE*), a luniwyd yn 2006, i bennu'r fframwaith strategol ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2007–2013. Ei gweledigaeth yw economi sy'n ffynnu a all sicrhau twf cryf a chynaliadwy trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer pawb. Nodau *W:AVE* wrth ddatblygu agenda Lisboa yw:

⁹⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru Cymru: *Gwlad Well*:
http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/40382313/40382/403821211/walesabettercountry_w.pdf?lang=cy

⁹⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru*:
<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/startlivedifferently/?lang=cy>

⁹⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru Cymru: *Economi sy'n Ffynnu*:
<http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/wave?lang=cy>

- cynyddu cyflogaeth trwy hyrwyddo creu swyddi ac ysgogi twf ledled Cymru;
- buddsoddi yn y gwaith o adfywio cymunedau difreintiedig ac ysgogi twf economaidd ledled Cymru;
- helpu busnesau i dyfu a chynyddu gwerth ychwanegol fesul swydd, allbwn ac enillion trwy:
 - buddsoddi mewn trafndiaeth, rhwydweithiau TGCh a seilwaith economaidd arall;
 - denu rhagor o swyddogaethau gwerth ychwanegol uchel i Gymru a chynorthwyo busnesau a sectorau sydd â chryn botensial i dyfu;
 - gwella'r sylfaen sgiliau a darparu rhagor o hyfforddiant a arweinir gan y galw sydd wedi'i deilwra i anghenion busnesau;
 - helpu busnesau i fod yn fwy cystadleuol trwy hyrwyddo'r ffactorau sy'n sbarduno twf busnes: entrepreneuriaeth, arloesi, buddsoddi a masnach; ac
- sicrhau bod pob rhaglen a pholisi economaidd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy, yn arbennig trwy hyrwyddo cynhyrchu ynni glân ac effeithlonrwydd adnoddau.

3.25 Mae *W:AVE* yn cynnwys ymagwedd sy'n gweithio trwy sectorau allweddol. Nodwyd y sectorau hyn trwy nifer o ffyrdd. Mae'n nodi bod deg sector yn bwysig ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol, sef y sectorau modurol, aerofod, amaeth-fwyd, technoleg uchel, cynhyrchion fferyllol/ biocemegau, gwasanaethau ariannol, diwydiannau creadigol, adeiladu, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth, a gofal cymdeithasol. Bydd camau a gymerir trwy raglen ESF yn ategu gweithgarwch rhaglen ERDF, a fydd wedi'i dargedu i ddechrau ar gynorthwyo busnesau a chyflogeion o fewn y sectorau allweddol hyn. Adolygir y set gychwynnol hon yn ddiweddarach yn dilyn dadansoddiad sectoraidd a strwythurol manylach o'r newid o fewn economi Cymru.

3.26 Ochr yn ochr â hyn, mae strategaethau *Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19*⁹⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd i'r afael yn benodol â'r gyfran fawr o bobl ifanc 16-18 mlwydd oed nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau ac nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant (NEET), ac *Ymgeisio'n Uwch*¹⁰⁰, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n hyrwyddo addysg uwch ac yn ehangu mynediad iddi.

3.27 Cefnogir ac ategir y strategaeth hefyd gan bolisiau cyflogaeth ar lefel y DU a weithredir yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae cynigion yn *Bargen Newydd ar gyfer Lles: Galluogi pobl i*

⁹⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19*: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/extending_entitlement/?lang=cy a http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/learning_pathways/?lang=cy

¹⁰⁰ *Strategaeth addysg Ymgeisio'n Uwch* Llywodraeth Cynulliad Cymru,: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/further_and_higher_education/reaching_higher/?lang=cy

*weithio*¹⁰¹ yn canolbwyntio rhagor o gymorth ar fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chynyddu cyflogaeth ymhlith y rhai yr ystyrir yn draddodiadol eu bod ymhellach i ffwrdd o gyfranogi yn y farchnad lafur.

3.28 Mae *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith*¹⁰² yn adeiladu ar y strategaeth 10 mlynedd wreiddiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001, sy'n ceisio trawsnewid addysg a hyfforddiant yng Nghymru i greu gwlad lle y mae dysgu gydol oes o safon yn rhyddhau talent, yn ymestyn cyfleoedd, yn grymuso cymunedau, yn darparu gwell swyddi a sgiliau i alluogi pobl i ffynnu yn yr economi newydd ac yn creu dyfodol cynaliadwy i Gymru. Mae *Y Wlad sy'n Dysgu 2* yn ailddatgan ac yn diweddarau'r weledigaeth hon. Mae'n cynnwys nifer o amcanion a thargedau allweddol sy'n cyfrannu at agenda Lisboa o sicrhau twf economaidd cryf, parhaol a chreu mwy o swyddi a gwell swyddi. Yr amcanion hyn yw:

- Hyrwyddo cynhwysiant mewn addysg a dysgu;
- Darparu rhaglenni a llwybrau dysgu atyniadol, ysgogol a hyblyg;
- Galluogi pobl ifanc i ymateb i farchnadoedd cyflogaeth sy'n newid;
- Ymestyn a gwella galluoedd ein gweithlu sy'n dysgu;
- Datblygu sgiliau a gwybodaeth ein gweithlu sy'n dysgu;
- Gwella sgiliau ac ychwanegu gwerth at economi Cymru;
- Gwella'r defnydd a wneir o wybodaeth a chynyddu hyd yr eithaf ar gyfraniad AU at ddatblygu economi wybodaeth; ac
- Hyrwyddo cyfle cyfartal i bob dysgwr.

3.29 Ceir hefyd nifer o dargedau allweddol a bennwyd i asesu a meincnodi cynnydd tuag at weledigaeth strategol *Y Wlad sy'n Dysgu 2*. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Canran y bobl ifanc 15 mlwydd oed sy'n ennill cymhwyster yn cyfateb i TGAU gradd A* - C i gyrraedd 60 % erbyn 2010 (carreg filltir 2007 53%)
- Erbyn 2010 ni fydd unrhyw ddisgybl yn gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cymeradwy;
- Canran y bobl ifanc 16 – 18 mlwydd oed mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant i gyrraedd 93% erbyn 2010;
- 95 % o bobl ifanc erbyn iddynt gyrraedd 25 oed i fod yn barod ar gyfer cyflogaeth sgil uchel a / neu addysg bellach neu uwch erbyn 2010;
- Erbyn 2010 y cyfraddau cwblhau ar gyfer Prentisiaethau Modern i gynyddu i 40%;
- Canran yr oedolion o oedran gweithio â sgiliau sylfaenol lefel 1 neu uwch mewn llythrennedd i gyrraedd 80% a sgiliau sylfaenol lefel 1 neu uwch mewn rhifedd i gyrraedd 55% erbyn 2010;

¹⁰¹ Adroddiad Ymgynghori'r Adran Gwaith a Phensiynau, Mehefin 2006 Bargen Newydd ar gyfer Lles – Galluogi Pobl i Weithio,

http://www.dwp.gov.uk/welfare-reform/docs/welfare_reform_response.pdf

¹⁰² Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith*, 2006, <http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/News/2006/learning-country-via-w.pdf?lang=en>

- Canran yr oedolion o oedran gweithio â chymhwyster sy'n cyfateb i lefel 2 neu uwch i gyrraedd 70%, a lefel 3 neu uwch i gyrraedd 50% a lefel 4 neu uwch i gyrraedd 30% erbyn 2010.

3.30 Ategir a hyrwyddir *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith* gan *Gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005 (SEAP 2005)*¹⁰³, sy'n datblygu agenda dysgu gydol oes Cymru ac yn dangos ymrwymiad Cymru i gyflawni amcanion *Strategaeth Cyflogaeth Ewrop*¹⁰⁴. Mae *SEAP 2005* yn hyrwyddo gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'i phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i wneud cynnydd go iawn wrth gymryd camau i fynd i'r afael â heriau sgiliau a chyflogaeth sy'n wynebu Cymru. Y weledigaeth yw Cymru lle y mae gan bawb y sgiliau, y cymhelliant a'r cyfle i gael swyddi o safon sy'n cyd-fynd â'u dyheadau a'u galluoedd a lle y mae cyflogwyr yn gweithio gyda'u cyflogeion ac asiantaethau sector cyhoeddus i godi'r sgiliau i'r lefelau uchaf posibl i gynnal swyddi o safon mewn economi sy'n tyfu. Amcanion allweddol y cynllun yw:

- Gwella'r systemau ar gyfer datblygu'r gweithlu;
- Sicrhau bod gan newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth;
- Gweithio gyda chyflogwyr a chyflogeion i wella sgiliau; ac
- Helpu rhagor o bobl i mewn i gyflogaeth barhaol.

3.31 Y nod yw cynyddu nifer y bobl â'r sgiliau uwch sydd eu hangen i sicrhau twf economaidd a ffyniant, tra'n pwysu am ragor o gyfleoedd cyflogaeth ar lefelau uwch ar yr un pryd. Nodwyd mai lefel 3 yw'r isafswm lefel y mae angen i Gymru anelu at ei chyrraedd, er mwyn iddi wella ei pherfformiad economaidd i gyd-fynd â dyheadau *W:AVE*. Fodd bynnag, mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd, a Chymru yn gyffredinol, ddiffyg sgiliau sylfaenol mawr ac mae angen mynd i'r afael â hyn fel mater o flaenoriaeth. Mae angen gwaith i fynd i'r afael gam wrth gam â gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd sylfaenol, wedyn cynyddu'r cyflenwad o bobl â sgiliau canolradd ac uwch a sgiliau graddedig, tra ar yr un pryd yn ceisio cynyddu'r galw am sgiliau lefel uwch yn gyffredinol.

3.32 Mae *SEAP 2005* hefyd yn hyrwyddo agenda Llywodraeth y DU i helpu rhagor o bobl o oedran gweithio i mewn i gyflogaeth gynaliadwy trwy fynd i'r afael â'r amrywiaeth o rwystrau i gyfranogiad mewn gwaith. Bydd camau a gymerir trwy'r rhaglen hon yn cyfrannu at y gwaith a ragwelwyd ac a gynlluniwyd trwy *SEAP 2005* ac yn cyfrannu at nod hirdymor Llywodraeth y DU o gynyddu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pawb a chyrraedd ei tharged ymestynnol o gyfradd cyflogaeth o 80%.

3.33 Ar lefel y DU cyhoeddwyd adolygiad mawr o lefelau sgiliau'r DU a'i hanghenion yn y dyfodol ym mis Rhagfyr 2006 gan yr Arglwydd Sandy Leitch. Mae ei adroddiad ar sgiliau'r DU, *Prosperity for all in the global economy - World*

¹⁰³ Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005 Llywodraeth Cynulliad Cymru: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/127035/skills_and_employment_action_pla?lang=cy

¹⁰⁴ Strategaeth Gyflogaeth Ewrop: http://ec.europa.eu/comm/employment_social/employment_strategy/index_en.htm

*class skills*¹⁰⁵, yn cynnwys nifer o argymhellion ar sut y gellir bwrw ymlaen â gwireddu'r weledigaeth o ddatblygu'r DU fel ceffyl blaen ledled y byd o ran sgiliau erbyn 2020. Dilynodd adroddiad Leitch bapurau Gwyn llywodraeth ganolog y DU *Skills: Getting on in business, getting on at work*¹⁰⁶, a *21st Century Skills: realising our potential*¹⁰⁷ a gyhoeddwyd yn 2003 a 2005 yn y drefn honno. Croesawodd llywodraeth ganolog y DU adroddiad Leitch, a derbyniodd y cynnig i sefydlu Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau newydd i'r DU gyfan. Cytunwyd y bydd gan Gymru gynrychiolydd ar y corff hwn. Cyhoeddir ymateb ffurfiol Llywodraeth y DU yn Haf 2007, yn dilyn yr Adolygiad Gwario Cynhwysfawr.

3.34 Ers datganoli datblygodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei strategaethau ei hun ar gyfer sgiliau ac addysg sydd wedi'u teilwra ar gyfer Cymru. Nodwyd y strategaethau hyn uchod. Cydnabuwyd llawer o'r materion a godir gan yr Arglwydd Leitch eisoes, ac yr ydym yn mynd i'r afael â hwy yng Nghymru. Felly croesawodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr adroddiad a'r ffaith bod mentrau Cymreig wedi'u nodi yn yr adroddiad e.e. gwasanaethau cyngor gyrfaoedd i bob oedran sy'n cysylltu cyngor â chyfluoedd cyflogaeth go iawn. Mae llawer o'r gweithgarwch a argymhellwyd gan yr Arglwydd Leitch yn cael ei weithredu gan ddefnyddio *SEAP 2005*. Y maes penodol lle y bydd angen i Gymru gydlynu gweithgarwch fydd gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector y mae ganddynt gylch gwaith yn cwmpasu'r DU gyfan i sicrhau ymagwedd Gymreig bendant at y materion a godwyd gan yr Arglwydd Leitch.

3.35 Mae cwpl o bolisiâu allweddol ar lefel y DU ar gyfer cyflogaeth, megis *Galluogi Pobl i Weithio*, a gyflawnir yng Nghymru gan y Ganolfan Byd Gwaith, yr asiantaeth i'r llywodraeth sy'n cynorthwyo pobl o oedran gweithio i symud o fuddal i waith, ac yn helpu cyflogwyr i lenwi swyddi gwag. Mae'n rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Ei phrif amcanion yw:

- Cynyddu'r cyflenwad effeithiol o lafur trwy hyrwyddo gwaith fel y ffurf orau ar les a helpu pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar i symud i mewn i gyflogaeth;
- Gweithio tuag at gydraddoldeb o ran canlyniadau i gwsmeriaid sy'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig;
- Darparu gwasanaethau o safon a arweinir gan y galw ar gyfer cyflogwyr, sy'n helpu i lenwi swyddi gwag yn gyflym ac yn effeithiol â chyflugeion gyda chymhelliant sydd wedi paratoi'n dda;
- Helpu pobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gyflogaeth i gystadlu'n effeithiol yn y farchnad lafur a symud i mewn i waith a'i gadw;
- Gwella ansawdd, hygyrchedd a'r broses o gyflenwi gwasanaethau yn barhaus i bob cwsmer; ac
- Sicrhau bod pobl sy'n cael budd-daliadau oedran gweithio yn cyflawni eu cyfrifoldebau tra'n darparu help a chymorth priodol ar gyfer y rhai nad ydynt yn gweithio.

¹⁰⁵ Adolygiad Leitch o Sgiliau tudalen yng ngwefan Trysorlys EM, http://www.hm-treasury.gov.uk/independent_reviews/leitch_review/review_leitch_index.cfm

¹⁰⁶ Yr Adran Addysg a Sgiliau: "Skills, Getting on in business, getting on in work" Papur Gwyn 2005, <http://www.dfes.gov.uk/skillsstrategy/index.cfm?fuseaction=content.view&CategoryID=6>

¹⁰⁷ DfES, 2003 Papur Gwyn - 21st Century Skills - Realising our Potential, <http://www.dfes.gov.uk/skillsstrategy/uploads/documents/21st%20Century%20Skills.pdf>

3.36 Mae'n darparu nifer o raglenni gorfodol a gwirfoddol ar gyfer unigolion o dan faner gyffredinol O Fudd-dal i Waith, megis y set o raglenni o dan y *Fargen Newydd – Y Fargen Newydd ar gyfer Pobl Ifanc; ar gyfer Pobl Anabl; ar gyfer Rhieni Unigol; ar gyfer partneriaid pobl ddi-waith*. Mae hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar nifer o fentrau, yn arbennig y prosiect *Yn Awyddus i Weithio* o dan y rhaglen Amcan 1 gyffredol, ac mae'n gyfrifol am ddarparu cymorth, pan ofynnir amdano, ar gyfer cyflogwyr y mae eu gweithwyr naill ai dan fygythiad cael eu diswyddo neu wedi derbyn rhybudd diswyddo.

3.37 Mae *Cynllun Gofodol Cymru*¹⁰⁸ yn darparu'r fframwaith cyffredinol i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid gydweithredu yn y dyfodol i sicrhau twf a datblygu economaidd cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru. Mae'n pennu cynllun 20 mlynedd ar gyfer datblygu ac integreiddio'r buddsoddiad sydd ei angen i ddatblygu cymunedau yn gynaliadwy ledled Cymru. Bydd polisïau datblygu economaidd yn ystyried gwahaniaethau mewn lleoliadau a blaenoriaethau, ac mae hyn yn gofyn am weithredu cydgysylltiedig yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, megis fframwaith Adfywio Blaenau'r Cymoedd a ddatblygwyd yn ddiweddar. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau trawsffiniol a rhyngranbarthol.

3.38 Y tu mewn i hyn cydnabyddir nad yw atebion 'un maint' yn addas ar gyfer pob rhan o Gymru a mabwysiedir gwahanol ymagweddau ar gyfer ardaloedd unigol y *Cynllun Gofodol*:

- **Gogledd-orllewin:** Y weledigaeth ar gyfer yr ardal hon yw amgylchedd naturiol a ffisegol o safon sy'n cynnal economi ddiwylliannol yn seiliedig ar wybodaeth, a fydd yn helpu'r ardal i gadw ei chymeriad unigryw, cadw pobl ifanc a'u denu yn ôl, a diogelu'r iaith Gymraeg.

Mae'r etifeddiaeth o newid economaidd ac amddifadedd cymdeithasol yn golygu y bydd ardal Gogledd-orllewin Cymru yn wynebu her fawr i sicrhau bod gan bob person yn yr ardal y sgiliau y bydd arno eu hangen i fod yn rhan o economi uchel ei chynhyrchiant lwyddiannus. Er gwaethaf gwelliannau diweddar, mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn dal i fod yn uchel mewn pocedi ledled y rhanbarth, yn arbennig mewn cymunedau mwy anghysbell.

- **Gogledd-ddwyrain:** Y weledigaeth ar gyfer yr ardal hon yw harneisio'r ffactorau sy'n llywio'r economi ar y naill ochr a'r llall i'r ffin, gan leihau anghydraddoldebau, a gwella ansawdd ei hasedau naturiol a ffisegol.

Wrth wireddu'r weledigaeth hon mae cysylltu ardaloedd o gyfle (ardaloedd ffyniannus Glannau Dyfrdwy a Gogledd-orllewin Lloegr) ag ardaloedd anghenus yn fater allweddol i Sir Ddinbych a Chonwy. Nodweddir ardaloedd anghenus gan set gymhleth o faterion yn

¹⁰⁸ *Cynllun Gofodol Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru:
<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/spatial/sppublications/walesspatial?lang=cy>

ymwneud â sgiliau, amddifadedd addysgol, cymdeithasol, iechyd ac anweithgarwch economaidd, yn arbennig trefi arfordirol Conwy a Sir Ddinbych. Ni all cymunedau yma gael mynediad i gyflogaeth o safon yn erbyn cefndir o brinderau yn y farchnad lafur sy'n gyffredin o fewn yr ardal yn gyffredinol.

- **Canolbarth Cymru:** Y weledigaeth ar gyfer yr ardal hon yw cynnig amodau byw a gweithio o safon mewn aneddiadau llai o faint o fewn amgylchedd ardderchog, gan ddarparu modelau deinamig o ddatblygu cynaliadwy gwledig, a symud pob sector i weithgareddau gwerth ychwanegol uwch.

Mae gan siroedd gorllewinol Canolbarth Cymru y lefelau uchaf o gyrhaeddiad addysgol yng Nghymru. Fodd bynnag, yr her wrth wireddu'r Weledigaeth Ofodol yw cysoni hyn â darparu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc aros yn yr ardal, gan ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth o safon uwch.

- **De-ddwyrain:** Y weledigaeth ar gyfer y De-ddwyrain yw ardal fedrus arloesol sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel - ardal ryngwladol sydd â chymeriad Cymreig nodedig serch hynny. Bydd yn cystadlu'n rhyngwladol trwy gynyddu ei gwelededd byd-eang trwy gysylltiadau cryfach rhwng y Cymoedd a'r arfordir, ac â'r DU a gweddill Ewrop, gan helpu i ledaenu ffyniant o fewn yr ardal a dwyn manteision i rannau eraill o Gymru.

Mae gan Flaenau'r Cymoedd y crynhoad mwyaf o amddifadedd cymdeithasol ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru, ynghyd â lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol a sgiliau, iechyd gwael a phoblogaeth sy'n lleihau. Mae hyn wedi cael cryn effaith ar allu'r ardal i ddenu swyddi o safon ac ar allu cymunedau i gael mynediad i swyddi mewn rhannau mwy ffyniannus eraill o ranbarth y De-ddwyrain. Felly mae'n hanfodol, yn y rhannau o'r rhanbarth hwn sy'n gymwys i gael arian Cydgyfeirio, ganolbwyntio ymyriadau ar sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau cywir ar gyfer economi fodern, a gweithio gyda chymunedau difreintiedig i ddileu rhwystrau economaidd a chymdeithasol i gael mynediad i gyflogaeth.

- **Bae Abertawe:** Y weledigaeth ar gyfer yr ardal hon yw twf cynaliadwy cynlluniedig a gwelliannau amgylcheddol, gan wireddu ei photensial, gyda chymorth system drafndiaeth integredig o fewn yr ardal a'r tu allan iddi, a lleadaenu ffyniant i hyrwyddo adfywiogi Gorllewin Cymru.


Bydd sicrhau bod gwasanaethau yn ymwneud â chyflogaeth yn yr ardal yn cael eu harwain gan y galw, eu bod yn canolbwyntio ar gleientiaid a'u bod yn gydgyssylltiedig fel eu bod yn gweithio'n dda ar gyfer pobl economaidd anweithgar / pobl sy'n chwilio am waith, a chyflogwyr (y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol) sy'n chwilio

am staff yn fater allweddol yn yr ardal hon. Ble bynnag y bo modd, creir cysylltiadau rhwng y cyfryw waith i ddarparu sgiliau a chymorth ar gyfer unigolion, gyda mentrau sy'n creu cyflogaeth. Bydd yn bwysig sicrhau bod patrwm daearyddol y ddarpariaeth yn darparu ar gyfer pobl mewn cymunedau mwy anghysbell, yn ogystal â'r rhai yn y trefi mwy o faint.

- **Sir Benfro:** Y weledigaeth ar gyfer yr ardal hon yw cymunedau cryf a gynhelir gan economi gynaliadwy sy'n seiliedig ar amgylchedd unigryw'r ardal, mynediad arforol a chyfleoedd twristiaeth.

Mae'r ardal yn wynebu her fawr, i sicrhau bod gan bob person yn yr ardal y sgiliau y bydd arno eu hangen i fod yn rhan o economi uchel ei chynhyrchiant lwyddiannus, a chodi cyfraddau gweithgarwch economaidd sy'n dal i fod yn isel mewn rhai o'r cymunedau difreintiedig yn yr ardal yn gyffredinol, ond yn arbennig mewn pocedi o amddifadedd trefol o amgylch canolfannau Cleddau, Caerfyrddin a Gogledd Penfro.

Ffigur 23. Ardaloedd Cynllun Gofodol Cymru



3.39 Bydd y *Strategaeth Amgylcheddol newydd i Gymru*¹⁰⁹ yn darparu cyfleoedd i ddatblygu'r amgylchedd ymhellach fel sector economaidd sy'n tyfu'n gyflym ynddo'i hun ac fe'i defnyddir i sicrhau bod ymyriadau'r Cronfeydd Strwythurol wedi'u targedu fel eu bod yn sicrhau cynnydd economaidd ac amgylcheddol yr un pryd ac yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt yng Nghyngor Göteborg.

3.40 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod y sector cyhoeddus, fel cyflogwr mawr, yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu economaidd ac at sicrhau y cyflawnir polisiâu a rhaglenni cysylltiedig yn llwyddiannus. Mae *Creu'r Cysylltiadau*¹¹⁰ yn nodi'r weledigaeth o wlad ffyniannus, cynaliadwy, dwyieithog, iach a mwy addysgedig a fydd yn llywio'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus ac yn darparu gwasanaethau o'r safon uchaf yng Nghymru. Mae *Cyflawni'r Cysylltiadau*¹¹¹ yn darparu cynllun gweithredu ar gyfer gweithredu'r gwelliannau sydd eu hangen mewn gwasanaethau cyhoeddus. Y nod yw gwneud gwasanaethau yn fwy hygyrch ac yn fwy agored i gyfranogiad go iawn, yn fwy cydgysylltiedig a chydlynol, yn fwy effeithiol ac effeithlon, ac yn fwy ymatebol i anghenion unigolion, busnesau a chymunedau.

3.41 Lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Bolisi Gwyddoniaeth i Gymru* at ddibenion ymgynghori ym mis Tachwedd 2006. Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith ar gyfer hyrwyddo ymchwil wyddonol a thechnegol, a chymhwyso'r cyfryw ymchwil at broblemau busnes, cynhyrchion a gwasanaethau. Bydd y Polisi Gwyddoniaeth yn llywio buddsoddiadau i hybu gwyddoniaeth ac YaD, a'r broses o'i masnacheiddio trwy strategaeth Gyddyfeirio ERDF. Bydd rhaglen ESF yn ceisio ategu gweithgarwch wrth geisio cyflawni amcanion rhaglen ERDF.

3.42 Yn ogystal â'r polisiâu allweddol a nodwyd uchod, caiff y rhaglenni Cyddyfeirio eu llywio gan ystod o bolisiâu a strategaethau thematig eraill. Nodir y rhain ym Mhennod 4 mewn perthynas â blaenoriaethau'r brif raglen. Gweler Map Polisi Cymru yn Ffigur 24, a'r Map Strategaethau Allweddol yn Ffigur 25 isod.

Ffigur 24. Map Polisi Cymru

Gweler isod

Ffigur 25. Map o Strategaethau Allweddol

Gweler isod

¹⁰⁹ *Strategaeth Gyflogaeth Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru:


http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/environment_strategy/?lang=cy

¹¹⁰ *Creu'r Cysylltiadau* Llywodraeth Cynulliad Cymru:


<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/makingtheconnections/?lang=cy>

¹¹¹ *Cyflawni'r Cysylltiadau* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/makingtheconnections/actionplan/?lang=cy>



Ffigur 24



Cyfle Cyfartal: Deddf Llywodraeth Cymru a Phrif Ffrydio Cydraddoldeb;
Cynaliadwyedd Amgylcheddol: Strategaeth Amgylchedd; Strategaeth Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy

Ffigur 25

Canolbwyntio Adnoddau

3.43 Mae'r *Canllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant* yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio adnoddau, yn thematig ac yn ddaearyddol. Y nod yw canolbwyntio ar y buddsoddiadau sydd eu hangen i gynyddu cystadleurwydd hirdymor, creu swyddi a datblygu cynaliadwy. Bydd y rhaglenni Cydgyfeirio ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn canolbwyntio'n gryf ar ymyriadau sy'n cyfrannu at agenda Lisboa ar gyfer twf a swyddi. Mae hyn yn golygu rhagor o fuddsoddi mewn meysydd megis cyflogaeth a sgiliau trwy raglen ESF, ac wedi'i ategu trwy raglen Gydgyfeirio ERDF, trwy fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu (YaD), arloesi, entrepreneuriaeth, y gymdeithas wybodaeth, cynhyrchion a phrosesau ecogyfeillgar, ynni adnewyddadwy a rhai meysydd o seilwaith, gan gynnwys trafndiaeth.

3.44 Llwyddir i ganolbwyntio adnoddau trwy:

- dargedu 94% o'r adnoddau Cydgyfeirio (ESF) ar gategoriâu o fuddsoddi y nodir yn Rheoliad Cyffredinol yr UE [1083/2006] Erthygl 9(3) eu bod yn hyrwyddo amcanion y *Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi*. Ar gyfer Rhaglenni ERDF ac ESF y cyfanswm a nodwyd yw 79% o'r holl adnoddau, o gymharu ag isafswm targed Lisboa, sef 60%;
- sicrhau bod rhaglen Gydgyfeirio ESF yn cyfrannu at flaenoriaethau perthnasol a nodwyd yn *Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU*;
- canolbwyntio blaenoriaethau'r rhaglenni yn unol â pholisïau a strategaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith*, a *Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005* sy'n nodi'r agenda ar gyfer addysg a dysgu gydol oes, a *Cymru: Economi yn Ffynnu*. Mae'r strategaethau hyn yn cyd-fynd yn agos ag agenda Lisboa a Göteborg;
- defnyddio'r sectorau allweddol a nodwyd yn *W:AVE* i ganolbwyntio adnoddau ar y rhai sydd â chryn botensial i dyfu, yn arbennig o dan Flaenoriaeth ESF 3, ac i ategu Blaenoriaeth ERDF 2.
- defnyddio fframwaith *Cynllun Gofodol Cymru* i dargedu adnoddau ar feysydd o angen a chyfle;
- gweithredu'r rhaglenni trwy Fframweithiau Strategol a fydd yn sicrhau bod gweithgarwch prosiectau wedi'i ganolbwyntio ar amcanion allweddol y rhaglenni, a'i fod yn cael ei gydlynyn'n effeithiol; ac
- meithrin synergeddau â pholisïau eraill y DU a pholisïau cenedlaethol eraill ar lawr gwlad.

3.45 Ceir manylion y dyraniadau ariannol ym Mhennod 7 ond i grynhoi canolbwyntir gwariant yn unol â bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu ymyriadau yn gysylltiedig â phobl a ariennir gan ESF o 35% i 40% o'r adnoddau. Derbyniodd y cynnig hwn gefnogaeth eang ar draws pob sector yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r cynnig hefyd yn ymdrin ag argymhelliad Cyngor Ewrop i'r DU ym mis Mawrth 2007 fel rhan o'i adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan y DU o ran gweithredu'r *Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol ar gyfer twf a swyddi*, y dylai'r DU gynyddu sgiliau sylfaenol a chanolradd, i gynyddu cynhyrchiant, a gwella rhagolygon cyflogaeth ymhellach ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig. Ym

Mlaenoriaeth 1 canolbwyntir y cyllid ar anghenion pobl ifanc dan anfantais y mae angen cymorth arnynt i aros mewn addysg a hyfforddiant. O dan Flaenoriaeth 2 canolbwyntir y gwariant ar fynd i'r afael ag anghenion pobl economaidd anweithgar o ran ymbaratoi ar gyfer cyflogaeth, a chael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth trwy dargedu rhwystrau ac anghenion unigol. Ym Mlaenoriaeth 3 bydd cymorth yn canolbwyntio ar anghenion y gweithlu o ran sgiliau sylfaenol, canolradd ac uwch. Bydd cyfran fach o'r cyllid yn hyrwyddo Blaenoriaeth 4 a fydd yn ceisio gwella'r modd y darperir gwasanaethau ac effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Fframwaith y Blaenoriaethau

3.46 Yn unol ag agenda'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer symleiddio prosesau rhaglennu a gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol, gweithredir y rhaglen Gydgyfeirio newydd trwy strwythur symlach, Rhaglenni Gweithredol ESF ac ERDF ar wahân, a gwneir y gwaith rhaglennu ar lefel blaenoriaethau. Ar gyfer Rhaglen ESF bydd fframwaith o bedair prif flaenoriaeth a nodir isod (ynghyd â Blaenoriaeth Cymorth Technegol). Ni fydd unrhyw raglennu 'ar lefel mesurau', er y bydd pob blaenoriaeth yn cynnwys nifer o 'Themâu' penodol a ddefnyddir i sicrhau ymagwedd gytbwys at weithredu. Y pedair blaenoriaeth yw:

Blaenoriaeth ESF 1: Rhoi i Bobl Ifanc y Sgiliau ar gyfer Dysgu a Chyflogaeth yn y Dyfodol

3.47 Amcan y Flaenoriaeth hon yw paratoi pobl ifanc (11 - 19 blwydd oed) sydd mewn perygl penodol o dangyflawni neu o fod yn NEET, ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol trwy godi eu dyheadau, a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu neu hyfforddiant. Ni fydd yn ariannu gweithgarwch addysg prif ffrwd.

3.48 Bydd llwyddiant o ran sicrhau gweithlu creffus a rhyngwladol gystadleuol ar gyfer y dyfodol, yn dibynnu llawer iawn ar sicrhau bod cymaint o bobl ifanc â phosibl yn cymryd rhan mewn ffurfiau priodol a pherthnasol ar addysg, dysgu neu hyfforddiant. Mae sicrhau bod gan bobl ifanc yr addysg a'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau eu bod yn trosglwyddo'n llwyddiannus i fyd gwaith yn y dyfodol, yn ofyniad hanfodol i hyrwyddo'r agenda ar gyfer twf economaidd a chynhyrchiant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Bydd themâu o dan y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar:

- (a) Mynd i'r Afael â Thangyflawni; ac
- (b) Codi Sgiliau a Dyheadau

3.49 Dengys y Tabl canlynol sut y bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategoriâu 66 a 73 o'r categorïau o fuddsoddi gan y Cronfeydd Strwythurol a nodir yn Rheoliad UE [1083/2006], Erthygl 9.

3.50 Bydd y flaenoriaeth hon yn ymdrin â chwmpas y cymorth a ddarperir fel y'i nodir yn Rheoliad UE [1081/2006] Erthygl 3, adran 2a(ii).

Tabl 21: Cyfraniad Blaenoriaeth 1 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU

	Cyfraniad y Flaenoriaeth at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU
Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi	C19: Sicrhau marchnadoedd llafur cynhwysol ar gyfer ceiswyr gwaith a phobl dan anfantais C20: paru anghenion y farchnad lafur yn fwy effeithiol C24: Addasu systemau addysg a hyfforddiant mewn ymateb i ofynion cymhwysedd newydd
Canllawiau Strategol y Gymuned	C1.3.1: Denu a chadw mwy o bobl mewn cyflogaeth a moderneiddio systemau diogelu cymdeithasol C1.3.3: Cynyddu buddsoddi mewn cyfalaf dynol trwy well addysg a sgiliau
Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU	Sgiliau (3.77 – 3.90) Darparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pawb (4.7 – 4.35) Galluogi pobl i wireddu eu potensial (4.36 – 4.38)
NSRF y DU	Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd (266 – 268)

Blaenoriaeth ESF 2: Cynyddu Cyflogaeth a Mynd i'r Afael ag Anweithgarwch Economaidd

3.51 Amcanion y flaenoriaeth hon yw codi lefelau cyflogaeth a gweithgarwch economaidd, a sicrhau lefelau uwch o gyfranogiad yn y farchnad lafur.

3.52 Mae perfformiad Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn y farchnad lafur wedi gwella gryn dipyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gwelwyd lefelau cynyddol o gyflogaeth a lefelau gostyngol o ddiweithdra. Er gwaethaf hyn, mae'r gyfradd cyflogaeth yn y rhanbarth yn dal i fod yn is nag mewn llawer o rannau o'r DU am nad yw cyfran uwch o'r boblogaeth oedran gweithio yn cyfranogi yn y farchnad lafur. Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar bobl economaidd anweithgar gyda'r nod o'u helpu i sicrhau cyflogaeth gynaliadwy, ac yn helpu pobl â chyflyrau iechyd ac anabledau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio i aros mewn gwaith lle y gall fod risg y byddant yn mynd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Bydd yn hanfodol dod â mwy o bobl i mewn i gyflogaeth gynaliadwy i yrru economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i lefelau uwch o GYC, a lleihau tldi, iechyd gwael ac allgau cymdeithasol. Bydd angen ystod o fesurau marchnad lafur gweithredol a champau gweithredu eraill i helpu'r cyfryw unigolion i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth a rhoddir sylw arbennig i'r rhwystrau penodol a wynebir gan ystod o grwpiau difreintiedig.

3.53 Bydd themâu o dan y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar:

- (a) helpu pobl i mewn i gyflogaeth gynaliadwy; ac
- (b) helpu pobl i aros mewn gwaith.

3.54 Dengys y Tabl canlynol sut y bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategoriâu 66, 67 a 71 o'r categorïau o fuddsoddi gan y Cronfeydd Strwythurol a nodir yn Rheoliad UE [1083/2006], Erthygl 9.

3.55 Bydd y flaenoriaeth hon yn ymdrin â chwmpas y cymorth a ddarperir fel y'i nodir yn Rheoliad UE [1081/2006] Erthygl 3, adran 1b.

Tabl 22: Cyfraniad blaenoriaeth 2 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU

	Cyfraniad y Flaenoriaeth at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU
Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi	C17: Gweithredu polisiâu cyflogaeth sy'n ceisio sicrhau cyflogaeth lawn, gan wella ansawdd a chynhyrchiant yn y gwaith ac atgyfnerthu cydlyniant cymdeithasol a thiriogaethol C18: Hyrwyddo ymagwedd cylch bywyd at waith C19: Sicrhau marchnadoedd llafur cynhwysol ar gyfer ceiswyr gwaith a grwpiau difreintiedig C21: Hyrwyddo hyblygrwydd ar y cyd â sicrwydd cyflogaeth a lleihau segmentu yn y farchnad lafur. C23: Ehangu a gwella buddsoddi mewn cyfalaf dynol
Canllawiau Strategol y Gymuned	C1.3.1: Denu a chadw mwy o bobl mewn cyflogaeth C1.3.3: Cynyddu buddsoddi mewn cyfalaf dynol trwy well addysg a sgiliau C1.3.5: Helpu i gynnal gweithlu iach
Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU	Sgiliau (3.77 – 3.90) Darparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pawb (4.7-4.35)Galluogi pobl i godi eu potensial (4.36–4.38)
NSRF y DU	Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd (266 - 268)

Blaenoriaeth ESF 3: Gwella Lefelau Sgiliau a Hyblygrwydd y Gweithlu

3.56 Hyrwyddo cynhyrchiant a dilyniant o ran cyflogaeth trwy godi lefelau sgiliau ar lefelau sgiliau sylfaenol, canolradd ac uwch, i fynd i'r afael â bylchau a phrinderau sgiliau, a hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth. Mae codi lefelau sgiliau'r boblogaeth yn gysylltiedig nid yn unig â chyfraddau gweithgarwch economaidd uwch, ond hefyd â gwelliannau i gynhyrchiant a thwf. Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar godi lefelau sgiliau cyflogaethion ac yn helpu cyflogwyr i ymaddasu i newid a chynyddu cynhyrchiant. Prif ffocws y flaenoriaeth fydd codi lefelau sgiliau'r rhai â lefelau sgiliau islaw Lefel 2, yn arbennig cyflogaethion heb sgiliau rhifedd, llythrennedd a TGCh sylfaenol, i ddod â hwy i Lefel 2 ac uwch. Bydd camau a gymerir o dan y flaenoriaeth hon yn cydnabod bod methiannau sylweddol yn y farchnad o ran diffyg galw a pharu anghenion sgiliau a hyfforddiant â meysydd lle y mae galw. Mae angen cymryd camau felly i nodi prinderau sgiliau, bylchau sgiliau a chamgymariadau, i hyrwyddo cynnydd gweithwyr yn eu gyrfaedd, datblygu sgiliau arbenigol lefel uwch i ddiwallu anghenion byd busnes, a helpu unigolion i addasu i ffyrdd newydd o weithio neu

ddewis llwybrau cyflogaeth newydd fel y gallant ffynnu mewn economi a chymdeithas sy'n newid.

3.57 Mae anghydraddoldebau rhywiol cyfredol yn golygu na ddefnyddir cyfraniad economaidd merched ddigon ac mae hyn yn amharu ar economi Cymru yn gyffredinol. Bydd angen nifer o wahanol ymagweddau i fynd i'r afael â'r newidiadau agweddol a strwythurol sydd eu hangen i wella sefyllfa bresennol merched o fewn y gweithlu.

3.58 Bydd themâu o dan y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar:

- codi sylfaen sgiliau'r gweithlu a hyrwyddo dilyniant mewn cyflogaeth trwy sgiliau lefel sylfaenol a chanolraddol;
- sgiliau ar gyfer yr economi wybodaeth: sgiliau lefel uwch a systemau ar gyfer datblygu'r gweithlu; ac
- hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth.

3.59 Dengys y tabl canlynol sut y bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategoriâu 62, 64, 69, 70, 72 a 74 o'r categorïau o fuddsoddi gan y Cronfeydd Strwythurol a nodir yn Rheoliad UE [1083/2006], Erthygl 9.

3.60 Bydd y flaenoriaeth hon yn ymdrin â chwmpas y cymorth a ddarperir fel y'i nodir yn Rheoliad UE [1081/2006] Erthygl 3, adran 1a.

Tabl 23: Cyfraniad blaenoriaeth 3 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU

	Cyfraniad y Flaenoriaeth at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU
Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi	C17: Gweithredu polisiau cyflogaeth sy'n ceisio sicrhau cyflogaeth lawn, gwella ansawdd a chynhyrchiant yn y gwaith ac atgyfnerthu cydlyniant cymdeithasol a thiriogaethol C20: Gwella prosesau paru ag anghenion y farchnad lafur C21: Hyrwyddo hyblygrwydd ar y cyd â sicrwydd cyflogaeth a lleihau segmentu yn y farchnad lafur C23: Ehangu a gwella buddsoddi mewn cyfafaf dynol C24: Addasu systemau addysg a hyfforddiant mewn ymateb i ofynion cymhwysedd newydd
Canllawiau Strategol y Gymuned	C1.3.1 Denu a chadw mwy o bobl mewn cyflogaeth a moderneiddio systemau diogelu cymdeithasol C1.3.2 Gwella gallu gweithwyr a mentrau i ymaddasu a hyblygrwydd y farchnad lafur C1.3.3 Cynyddu buddsoddi mewn cyfalaf dynol trwy well addysg a sgiliau
Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU	Sgiliau (3.77 – 3.90) Darparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pawb (4.7-4.35) Galluogi pobl i wireddu eu potensial (4.36 – 4.38) Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol (4.43 - 4.51)
NSRF y DU	Gwella lefelau sgiliau a gwella gallu'r gweithlu i ymaddasu (269 – 270)

Blaenoriaeth ESF 4: Moderneiddio a gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus: Creu'r Cysylltiadau

3.61 Amcan y flaenoriaeth hon yw gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth.

3.62 Yn *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus i Gymru*, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi ei pholisi ar gyfer gwella'r sector gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys ei wneud yn fwy hygyrch, cydlynol, effeithiol ac effeithlon, ac yn fwy ymatebol i anghenion unigolion, busnesau a chymunedau. Diben y flaenoriaeth hon yw meithrin gallu gweinyddiaethau a gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth, i sicrhau eu bod yn gymwys i chwarae eu rôl a diwallu anghenion eu defnyddwyr a'r gymuned ehangach yn fwy effeithiol, wrth oresgyn anfanteision y rhanbarth a chynnig y lefel o wasanaeth y dylid ei disgwyl yn yr 21^{ain} Ganrif.

3.63 Er na fydd y flaenoriaeth hon ond yn cymryd cyfran fach o'r arian Ewropeaidd sydd ar gael i Orllewin Cymru a'r Cymoedd, bydd yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu sgiliau rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli rhaglenni adfywio. Bydd hefyd yn hyrwyddo gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgarwch darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys datblygu gwasanaethau a rennir a mynediad electronig i wasanaethau gan unigolion a busnesau.

3.64 Bydd themâu o dan y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar:

- drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus trwy gydweithredu mwy effeithiol; ac
- meithrin gallu sectorau gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau o safon uwch.

3.65 Dengys y tabl canlynol sut y bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategori 81 o'r categorïau o fuddsoddi gan y Cronfeydd Strwythurol a nodir yn Rheoliad UE [1083/2006], Erthygl 9.

3.66 Bydd y flaenoriaeth hon yn ymdrin â chwmpas y cymorth a ddarperir fel y'i nodir yn Rheoliad UE [1081/2006] Erthygl 3, adran 2b.

Tabl 24: Cyfraniad blaenoriaeth 4 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU

	Cyfraniad y Flaenoriaeth ar Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU
Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi	C9: Hwyluso lledaenu TGCh a'i defnyddio'n effeithiol a chreu cymdeithas wybodaeth hollol gynhwysol. C24: Ehangu a gwella buddsoddi mewn cyfalaf dynol
Canllawiau Strategol y Gymuned	C1.3.4: Gallu gweinyddol
Rhaglen Ddiwygio	Sgiliau (3.77–3.90)

Genedlaethol y DU	
NSRF y DU	Creu'r Cysylltiadau a moderneiddio gwasanaethau cyhoeddus (271 - 272)

Blaenoriaeth ESF 5: Cymorth Technegol

3.67 Bydd Blaenoriaeth Cymorth Technegol (CT) ar wahân yn hyrwyddo rheoli a gweithredu rhaglenni, gan gynnwys cyfathrebu a chyhoeddusrwydd, ymchwil a gwerthuso a chamau gweithredu wedi'u targedu i feithrin gallu. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategorïau 85 a 86 o'r categorïau o fuddsoddi gan y Cronfeydd Strwythurol a nodir yn Rheoliad UE [1083/2006], Erthygl 9.

Argymhellion Cyflogaeth i'r DU

3.68 Bydd rhaglen Gydgyfeirio ESF yn cyfrannu at gamau a gymerir yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i ymdrin ag argymhelliad Cyngor Ewrop i'r DU ym mis Mawrth 2007 fel rhan o'i adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan y DU o ran gweithredu'r *Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol (NRP)* ar gyfer twf a swyddi. Bydd hefyd yn hyrwyddo gweithredu i ymdrin â'r pedwar argymhelliad cyflogaeth a wnaed gan y Cyngor Ewropeaidd i'r DU ar 14 Hydref 2004 fel rhan o broses *Strategaeth Gyflogaeth Ewropeaidd (SGE) 2004*. Erbyn hyn daethpwyd â'r SGE o fewn cwrpas y Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi a phrosesau cynllunio ac adrodd cysylltiedig Lisboa, ond mae'r argymhellion cyflogaeth yn dal mewn bodolaeth ac maent yn dal i fod yn berthnasol iawn i anghenion y rhanbarth.

Argymhelliad Cyngor Ewrop (Mawrth 2007) – Cynyddu sgiliau sylfaenol a chanolradd, er mwyn cynyddu cynhyrchiant, a gwella rhagolygon cyflogaeth ymhellach ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig.

3.69 Mae'r NRP yn nodi bod angen cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhannau o'r boblogaeth â chyfraddau cyflogaeth isel a chodi'r lefelau sgiliau yn y gweithlu. Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran mynd i'r afael â'r heriau hyn ond, fel y nodwyd yn adolygiad Leitch, mae angen gwneud rhagor. Bydd camau a gymerir o dan Flaenoriaeth ESF 3 - *Gwella lefelau sgiliau a gallu'r gweithlu i ymaddasu yn canolbwyntio'n benodol ar gynyddu sgiliau sylfaenol a chanolradd yn y gweithlu a hyrwyddo dilyniant mewn cyflogaeth*. Ategir hyn gan gamau gweithredu o dan Flaenoriaeth ESF 1 - *Rhoi i bobl ifanc sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol* - a fydd yn darparu llwybrau dysgu mwy hyblyg ac yn mynd i'r afael â phroblem pobl ifanc yn gadael yr ysgol yn gynnar, yn ogystal ag annog mwy o bobl ifanc i barhau mewn addysg a symud ymlaen i lefelau cymwysterau uwch. Bydd Blaenoriaeth ESF 2 - *Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd* - yn hyrwyddo integreiddio grwpiau diamddiffyn yn y farchnad lafur gan gynnwys y rhai sy'n hawlio budd-daliadau analluogrwydd, pobl anabl, rhieni unigol, rhai grwpiau BME, pobl hŷn a'r bobl hynny o ardaloedd o amddifadedd mawr, a'r rhai sydd wedi derbyn rhybudd diswyddo ffurfiol.

SGE Argymhelliad 1 – Gwella gallu gweithwyr a mentrau i ymaddasu a sicrhau nad yw datblygiadau o ran cyflogau yn uwch na datblygiadau o ran cynhyrchiant.

3.70 Bydd camau a gymerir i wella sgiliau o dan Flaenoriaeth ESF 3 – *Gwella lefelau sgiliau a gallu'r gweithlu i ymaddasu* – yn helpu i wella lefelau cynhyrchiant, a chynyddu gallu mentrau a gweithwyr i arloesi ac ymaddasu i ffurfiau newydd o drefniadaeth gwaith a thechnolegau newydd. Bydd rhaglen Gyddyfeirio ERDF hefyd yn cyfrannu at ymdrin â'r argymhelliad hwn trwy flaenoriaethau sy'n ceisio gwella cystadleurwydd busnesau a datblygu'r economi wybodaeth.

SGE Argymhelliad 2 - Sicrhau bod polisïau marchnad lafur gweithredol a systemau budd-daliadau yn atal datsgilio ac yn hyrwyddo safon yn y gwaith, trwy wella cymhellion i weithio a hyrwyddo integreiddio pobl anweithgar a di-waith yn gynaliadwy yn y farchnad lafur a'u cynorthwyo i wneud cynnydd ynddi; mynd i'r afael â'r nifer gynyddol o bobl sy'n hawlio budd-daliadau salwch neu anabledd, a rhoi sylw arbennig i rieni unigol a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

3.71 Bydd Blaenoriaeth ESF 2 – *Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd* – yn gwneud cyfraniad pwysig at ymdrin â'r argymhelliad hwn. Bydd yn hyrwyddo integreiddio grwpiau diamddiffyn yn y farchnad lafur gan gynnwys y rhai sy'n hawlio budd-daliadau analluogrwydd, pobl anabl, rhieni unigol, rhai grwpiau BME, pobl hŷn a'r bobl hynny sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd mawr. Eir i'r afael â rhwystrau i gyfranogi mewn gwaith trwy gymorth sydd wedi'i deilwra i anghenion yr unigolyn i gynyddu cyflogadwyedd a helpu pobl i ddod o hyd i swyddi yn ogystal â thrwy wella sgiliau. Bydd y flaenoriaeth hon hefyd yn helpu pobl â chyflyrau iechyd ac anableddau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio i aros mewn gwaith ac yn annog cyflogwyr i ddatblygu arferion gwaith mwy hyblyg.

SGE Argymhelliad 3 – Sicrhau bod gofal plant a gofal ar gyfer dibynyddion eraill yn fwy hygyrch a fforddiadwy, cynyddu mynediad i hyfforddiant ar gyfer merched mewn gwaith rhan amser sy'n ennill cyflog isel, a chymryd camau brys i fynd i'r afael ag achosion y bwch cyflog rhwng y rhywiau.

3.72 Er gwaethaf gwelliannau sylweddol a wnaed yn ddiweddar yn argaeledd a fforddiadwyedd gofal plant, mae angen gwneud cynnydd pellach ar y ddwy agwedd er mwyn sicrhau bod gan bob rhiant ddewis go iawn i weithio. Bydd Blaenoriaeth ESF 2 – *Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd* yn cynnwys camau gweithredu i wella mynediad i gymorth fforddiadwy a phriodol ar gyfer pobl â chyfrifoldebau gofalu, yn arbennig gofal plant. Bydd Blaenoriaeth ESF 3 – *Gwella lefelau sgiliau a gallu'r gweithlu i ymaddasu* yn cadw ffocws ar gydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth, gan fynd i'r afael yn benodol ag achosion y bwch cyflog rhwng y rhywiau. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â gwahanu galwedigaethol – fertigol a llorweddol; codi ymwybyddiaeth o anfantais rywiol yn y gweithle, a chynyddu gweithgarwch economaidd mewn galwedigaethau a sectorau lle nad oes gan ddynion a merched ddigon o gynrychiolaeth.

SGE Argymhelliad 4 – Buddsoddi mwy a buddsoddi'n fwy effeithiol mewn cyfalaf dynol a dysgu gydol oes trwy weithredu strategaethau sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol i ddarparu gwell cymhellion ar gyfer dysgu gydol oes gan gynyddu

cynhyrchiant ac ansawdd yn y gwaith; rhoi pwys penodol ar wella llythrennedd a rhifedd y gweithlu, cyfranogiad a chyrhaeddiad pobl ifanc 16-19 blwydd oed, a gweithwyr sgil isel, yn arbennig y rhai mewn swyddi cyflog isel.

3.73 Nodwyd bod cynyddu sgiliau yn y gweithlu, yn arbennig ar lefelau isel a chanolradd, ond hefyd gan gynnwys buddsoddiadau wedi'u targedu mewn sgiliau lefel uwch, yn allweddol i gynyddu cynhyrchiant ac eir i'r afael â hyn trwy Flaenoriaeth ESF 3 - *Gwella lefelau sgiliau a gallu'r gweithlu i ymaddasu*. Canolbwyntir ar wella lefelau sylfaenol llythrennedd a rhifedd, sgiliau i hyrwyddo dilyniant mewn cyflogaeth a'r sgiliau lefel uwch i hyrwyddo'r economi wybodaeth. Bydd y flaenoriaeth hon hefyd yn cyfrannu at fynd i'r afael â chamgymariadau o ran sgiliau. Bydd Blaenoriaeth ESF 1 - *Rhoi i bobl ifanc sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol* - yn cyfrannu at ddiwygiadau i'r cwricwla uwchradd trwy fenter Llwybrau Dysgu 14-19, a fydd yn darparu llwybrau dysgu mwy hyblyg ac yn mynd i'r afael â phroblem pobl ifanc yn gadael yr ysgol yn gynnar, yn ogystal ag annog mwy o bobl ifanc i barhau mewn addysg a symud ymlaen i lefelau cymwysterau uwch.

Cynhwysiant Cymdeithasol

3.74 Bydd rhaglen Gydyfeirio ESF hefyd yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu sy'n ategu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU ar Gynhwysiant Cymdeithasol (2006 – 2008) - *Gweithio Gyda'n Gilydd*. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn ac Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol¹¹² Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi'r heriau allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt wrth fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoleb. Mae'r rhain yn cynnwys gwella mynediad i gyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, codi sgiliau, dileu tlodi plant, lleihau nifer y bobl ddigartref, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gwella mynediad i wasanaethau o ansawdd.

3.75 Mae mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoleb yn amcan hanfodol er mwyn gwella ansawdd bywyd, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, a sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob cymuned yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu ac yn gweithredu ystod o bolisïau a rhaglenni i geisio mynd i'r afael â thlodi ac allgáu a wynebwr gan grwpiau difreintiedig a'r rhai sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r rhain yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf, menter Yn Awyddus i Weithio, y Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu dilynol, agenda Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol cyfredol wedi hyrwyddo gweithredu o dan nifer o'r mentrau hyn.

3.76 Mae Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Cymdeithasol y DU yn nodi 4 amcan polisi allweddol, lle y bydd gweithgareddau'r Rhaglen Weithredol Gydyfeirio ESF newydd yn cynorthwyo ac yn ychwanegu gwerth:

- Dileu tlodi plant;
- Cynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur;
- Gwella mynediad i wasanaethau o ansawdd; ac
- Mynd i'r afael â gwahaniaethu.

¹¹² Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru
<http://new.wales.gov.uk/topics/socialjustice/publications/socjustreport2006?lang=cy>

3.77 Gosododd Llywodraeth y DU darged i ddileu tlodi plant erbyn 2020, ac o dan Flaenoriaeth 1 - Rhoi i bobl ifanc y sgiliau ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol, bydd y Rhaglen Weithredol Gydgyfeirio ESF newydd yn helpu pobl ifanc yr effeithir arnynt gan rai o sgîl-ffeithiau tlodi plant, megis llythrennedd a rhifedd gwael, dadrithio cymdeithasol ac ymddieithrio o ddysgu, a rhwystrau i ragolygon cyflogaeth yn y dyfodol, ac yn helpu i godi pobl ifanc allan o amddifadedd a thorri cylch tlodi.

3.78 Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU yn nodi'r strategaeth ar gyfer darparu mwy o gymorth ar gyfer pobl sydd wedi'u hallgáu o'r farchnad lafur er mwyn sicrhau gostyngiad yn nifer y bobl sy'n hawl budd-daliadau analluogrydd o 1 filiwn mewn degawd, cael 300,000 ychwanegol o rieni unigol i mewn i waith, a chynyddu nifer y gweithwyr hŷn o 1 filiwn. Bydd Blaenoriaeth ESF 2 - Cynyddu Cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd, yn hyrwyddo'r amcanion hyn trwy fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd trwy annog a chynorthwyo unigolion sydd wedi ymddieithrio o'r farchnad lafur i gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth, a hefyd hyrwyddo mesurau i atal cyflogaethion ac unigolion â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio rhag mynd yn economaidd anweithgar.

3.79 O dan Flaenoriaeth 3 - Gwella lefelau sgiliau a gallu'r gweithlu i ymaddasu bydd camau gweithredu yn canolbwyntio ar wella lefelau sgiliau ymhlith y gweithlu, yn arbennig sgiliau sylfaenol megis llythrennedd a rhifedd, a datblygu sgiliau canolradd ac uwch, yn ogystal â helpu busnesau i ymaddasu i gyflyrau economaidd sy'n newid. Mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith y bydd tua hanner yr oedolion yn y DU dros 50 mlwydd oed erbyn 2004, mae cadw ac ailsgilio gweithwyr hŷn o fewn busnesau a sefydliadau, yn gam pwysig tuag at ddiwallu anghenion sgiliau yn y dyfodol ac ymaddasu i hinsawdd economaidd sy'n newid. Mae'r agwedd hon ar raglen ESF yn ategu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol trwy sicrhau y gall pobl dorri'r cylch tlodi a chael sicrwydd ariannol trwy gyflogaeth, a mynd i'r afael â materion megis gwahaniaethu ar sail oedran.

3.80 Mae gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yn chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol. Bydd Blaenoriaeth 4 - Gwella a moderneiddio gwasanaethau cyhoeddus: Creu'r Cysylltiadau, yn cynorthwyo i gyflawni'r amcan strategol hwn. Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn nodi sut y mae polisiau a gwasanaethau yn cael eu cysylltu yn fwy effeithiol yn lleol i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus effeithlon sy'n gwella'n gyson, ac sy'n hygyrch i bawb. Mae Blaenoriaeth 4 yn nodi'r ffyrdd y gall arian ESF hyrwyddo agenda unigryw Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a'r angen i'w diwygio, trwy strategaeth Creu'r Cysylltiadau.

3.81 O dan Flaenoriaeth 5 Rhaglen Weithredol Gydgyfeirio ERDF - Adeiladu cymunedau cynaliadwy bydd ystod o weithgareddau yn hyrwyddo'r amcanion cyffredin a geir yng Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU. Bydd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag amddifadedd a gwella economïau lleol yn integredig gan ddod ag adfywio ffisegol a datblygu economaidd cymunedol at ei gilydd. Bydd yn hyrwyddo datblygu rhwydweithiau cymunedol, yn meithrin gallu cymunedau i fentro; yn sicrhau y rhoddir cyfle cyfartal i bobl lleol gael mynediad i fanteision buddsoddiadau lleol; ac yn hyrwyddo datblygiad a thwf gwasanaethau

penodol lle y gwelwyd bylchau neu lle y gellir dangos bod bylchau. Wrth ddatblygu'r materion hyn, bydd yn datblygu synergeddau â gweithgarwch a hyrwyddir mewn mannau eraill yn Rhaglen Gydgyfeirio ERDF ac o dan flaenoriaethau Rhaglen Gydgyfeirio ESF.

3.82 Mae'r Cynllun Gweithredu Cymunedol hefyd yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â gwahaniaethu. Gwnaed cryn dipyn o gynnydd yn ystod y 30 mlynedd diwethaf ond mae rhai grwpiau yn dal i fod mewn mwy o berygl o amddifadedd nag eraill, yn arbennig pobl anabl a phobl o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig. Mae gormod o bobl yn cael eu hatal rhag gwireddu eu llawn botensial o ganlyniad i wahaniaethu. Bydd rhaglenni gweithredol ESF ac ERDF yn hyrwyddo'r amcan hwn trwy ei thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal a fydd yn sicrhau bod pob prosiect yn ymgorffori cydnabyddiaeth o'r angen i ymdrin â materion cydraddoldeb. Bydd rhaglen ESF hefyd yn darparu cymorth sydd wedi'i dargedu'n well trwy gamau gweithredu ym Mlaenoriaeth 3, Thema 3 - Hyrwyddo Cydraddoldeb Rhywiol.

Ymagwedd at Werth Ychwanegol

3.83 Bydd y rhaglen yn adeiladu ar fuddsoddiadau a gefnogwyd o dan raglenni cyfredol a blaenorol, gan dynnu ar waith a wnaed i werthuso eu heffaith a'r gwersi a ddysgwyd wrth eu gweithredu. Mae'n amlwg bod y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ychwanegu gwerth at y broses o weithredu polisïau a rhaglenni cenedlaethol yng Nghymru, o ran sylwedd a phroses. Parheir â'r pwyslais hwn ar werth ychwanegol yng nghyfnod y rhaglen newydd.

3.84 O ran nod ac amcanion cyffredinol y rhaglen, bydd y Cronfeydd Strwythurol yn ategu polisïau cenedlaethol, ac yn hyrwyddo aliniad agosach â pholisïau'r UE ar gyfer hyrwyddo datblygu economaidd. Bydd manteisio i'r eithaf ar y synergeddau hyn yn helpu i sicrhau y ceir y gwerth mwyaf posibl o'r rhaglenni newydd. Mae gwaith rhaglennu aml-flynyddol hefyd yn darparu sylfaen cadarn ar gyfer gweithredu tymor hwy i geisio mynd i'r afael â materion mwy sylfaenol neu anhydrin, a sicrhau newid trawsffurfiol.

3.85 O ran buddsoddi, bydd y Cronfeydd Strwythurol yn ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth gyfredol mewn nifer o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cyflogaeth newydd a gwasanaethau hyfforddi, neu ymestyn darpariaeth gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Yn ail, gellir ychwanegu gwerth trwy wella ansawdd gwasanaethau a darpariaeth. Yn drydydd, mae cyfle i wneud buddsoddiadau a allai fod wedi'u cynllunio ar gyfer rhyw ddyddiad yn y dyfodol ynghynt, er enghraifft, pontio'r bwch rhwng y rhaglen "Yn Awyddus i Weithio", helpu pobl economaidd anweithgar i ddychwelyd i waith, a rhaglen "*Llwybrau at Waith*" y bwriedir ei chyflwyno gan Adran Gwaith a Phensiynau'r DU. Bydd y Cronfeydd Strwythurol hefyd yn ychwanegu gwerth trwy gynyddu'r ffocws ar gyfle cyfartal i bawb, a chynaliadwyedd economaidd trwy weithredu'r themâu Trawsbynciol.

3.86 Daw gwerth o'r Cronfeydd Strwythurol trwy broses hefyd. Un fantais allweddol yw'r rhyngweithio a hyrwyddir rhwng partneriaid yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol yn yr ymdrech gyffredin i hyrwyddo twf economaidd. Bu'r cyfryw weithio mewn partneriaeth yn nodwedd allweddol o gyfnod paratoadol y

Rhaglen newydd hon ac fe'i hystynnir i gynnwys partneriaeth ar lefel ardaloedd y Cynllun Gofodol a'r trefniadau ar gyfer Fframweithiau Strategol. Mae'r cronfeydd hefyd yn hyrwyddo egwyddorion tryloywder, tegwch a chyfle cyfartal a bydd yr egwyddorion hyn yn parhau i gael eu hadlewyrchu yn y trefniadau ar gyfer dosbarthu arian. Yn olaf mae rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn hyrwyddo arloesi ac yn darparu llwyfan ar gyfer gweithio gyda rhanbarthau eraill ac ystod eang o sefydliadau i rannu arfer gorau. Ceir rhagor o fanylion am werth ychwanegol ym Mhennod 4 - Blaenoriaethau.

Themâu Trawsbynciol

3.87 Yn ogystal â'r blaenoriaethau a nodwyd uchod, caiff dwy thema Drawsbynciol neu lorweddol eu hintegreiddio ym mhob agwedd ar y rhaglen Gydgyfeirio yn unol â gofynion Rheoliad UE 1083/2006 Erthyglau 16 a 17. Ymdrinnir â'r strategaeth ar gyfer gweithredu dwy thema Drawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol yn fanylach ym Mhennod 5 - Themâu Trawsbynciol, a'r Darpariaethau Gweithredu - Pennod 6.

Cynaliadwyedd amgylcheddol

3.88 Mae'r dystiolaeth gynyddol o newid yn yr hinsawdd a'i ganlyniadau ehangach yn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau nad yw twf economaidd yn arwain at faich bythol-gynyddol ar yr amgylchedd. Caiff effeithiau negyddol twf eu gwrthbwyso gan gamau gweithredu penodol, a thrwy integreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol trwy'r rhaglen gyfan fel thema lorweddol. Disgwylir i bob prosiect roi sylw i thema cynaliadwyedd amgylcheddol trwy gynnwys cyfleoedd priodol i ymdrin â'r materion amgylcheddol sy'n effeithio ar y rhanbarth a'r amgylchedd byd-eang ehangach.

Cydraddoldeb rhywiol a chyfle cyfartal i bawb

3.89 Mae'r angen i gydnabod y cyfraniad y gall pob unigolyn ei wneud yn un pwysig. Bwriedir i Fap Ffyrdd Ewrop ar gyfer Cydraddoldeb rhwng dynion a merched 2006–2010¹¹³, a'r pecyn o fesurau a gyflwynwyd yn 2000 gan yr Undeb Ewropeaidd orfodi hawl pobl ym mhobman i gael eu trin yn gyfartal a chryfhau parch at hawliau dynol ledled yr Undeb Ewropeaidd¹¹⁴. Mae'r cyfarwyddbau hyn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth gynyddol o fanteision amrywiaeth ar gyfer yr economi a'r gymdeithas yn gyffredinol.

3.90 Caiff cyfle cyfartal ei integreiddio fel thema drawsbynciol yn rhaglen Gydgyfeirio ESF er mwyn hyrwyddo mynediad cyfartal i bawb i gyfleoedd yn y rhaglen Gydgyfeirio. Darperir cymorth, er enghraifft, ar gyfer camau gweithredu sy'n galluogi mynediad i fesurau cynorthwyo busnesau, gan gynnwys hyfforddiant ac ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau a fu gynt wedi'u hallgáu, yn arbennig pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Gellir hyrwyddo thema cydraddoldeb rhywiol yn rhaglen ESF gan weithgareddau a ariennir o dan raglen Gydgyfeirio ERDF sy'n herio stereoteipio ar sail rhyw, yn cynorthwyo merched a

¹¹³ Map Ffyrdd Ewrop ar gyfer Cydraddoldeb rhwng dynion a merched 2006-2010 http://ec.europa.eu/employment_social/emplweb/news/news_en.cfm?id=136

¹¹⁴ http://ec.europa.eu/employment_social/fundamental_rights/legis/legln_en.htm

dynion i fynd i mewn i feysydd gwaith anhraddodiadol, ac yn hyrwyddo cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

3.91 Dangosir ystod y camau a gymerir o fewn y blaenoriaethau a'r themâu i hyrwyddo integreiddio amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal y rhaglen yn llorweddol gan ddadansoddiad matrices (Atodiadau Ch a D).

Cyfatebolrwydd rhwng Rhaglen ESF a pholisïau ac offerynnau ariannu eraill yr UE

ESF ac ERDF

3.92 Datblygwyd rhaglen Gydyfeirio ESF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i gyd-fynd yn agos â rhaglen Gydyfeirio ERDF, gan sicrhau bod y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer pob rhaglen yn gydategol ac yn ychwanegu gwerth at ei gilydd. Mae cysylltiadau agos yn arbennig ym meysydd cyfleoedd cyflogaeth, arloesi a sgiliau lefel uwch a graddedig, lle y mae'r gwaith o gyflawni elfennau ESF yn hyrwyddo mentrau arloesi, ymchwil a datblygu rhaglen ERDF. Hefyd, ym maes adeiladu cymunedau cynaliadwy, bydd helpu mwy o bobl i mewn i gyflogaeth gynaliadwy, yn ganolog i les hirdymor unigolion, teuluoedd a chymunedau ffyniannus. Mae cynyddu cyflogaeth yn un o'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno twf economaidd ac mae'n un o'r ffactorau sy'n esbonio'r bwlch cynhyrchiant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Bydd y rhaglenni yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo'r weledigaeth gyffredin o economi sy'n ffynnu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

3.93 Bydd y rhaglenni Cydyfeirio yn ceisio cynyddu hyd yr eithaf ar synergeddau rhwng ymyriadau ESF ac ERDF. Gallai hyn gynnwys cymorth ar gyfer amcanion rhaglen ESF trwy gostau cyfalaf datblygu cyfleusterau dysgu o dan Flaenoriaeth 3 rhaglen ERDF - datblygu'r seilwaith strategol ar gyfer economi fodern. Hefyd fe ddefnyddir y darpariaethau yn Rheoliad UE [1083/2006] Erthygl 34(2), sy'n caniatáu i hyd at 10% o'r arian sydd ar gael o fewn echel Blaenoriaeth briodol ariannu, yn gydategol, gamau gweithredu sy'n dod o fewn cwmmpas cymorth cronfa ESF neu ERDF. Fe ddefnyddir y cyfleustra hyblygrwydd i ariannu gweithgaredd sydd dan gwmpas ERDF lle mae'n gysylltiedig a gweithgaredd ESF, ac yn angenrheidiol ar gyfer gweithrediad llwyddianus. Nodir yr ymagwedd at ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn o ran pob un o'r Blaenoriaethau perthnasol ym Mhennod 4.

EAFRD ac EFF

3.94 Yn unol â Rheoliad UE [1083/2006] Erthygl 37(1f), nodir isod y meini prawf ar gyfer gosod ffiniau rhwng ESF ac ERDF ar y naill law, a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) ar y llaw arall. Mae hyn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau aliniad mor agos â phosibl a'r gwerth mwyaf posibl am arian, tra'n osgoi unrhyw ddyblygu neu ariannu dwbl.

3.95 Fel egwyddor gyffredinol, bydd gweithgareddau a ariennir gan ESF yn ymdrin yn bennaf â materion gwledig fel rhan o weithgaredd rhanbarthol, isranbarthol neu genedlaethol ehangach trwy ddarparu rhaglenni cyflogaeth a

sgiliau integredig sy'n cyfrannu at well perfformiad economaidd. Bydd y rhain yn cynnwys ymyriadau i godi cyfraddau gweithgarwch economaidd mewn ardaloedd gwledig trwy leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd, a hyrwyddo datblygu gweithlu mwy crefftus a hyblyg.

3.96 Canolbwyntir arian o'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop ar hyrwyddo arallgyfeirio economïau gwledig yn lleol ac ar wella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau mewn amaethyddiaeth, gan gynnwys hyrwyddo cynlluniau arloesol i arallgyfeirio ffermydd, coedwigaeth a phrosesu bwyd, a datblygu a rheoli pysgodfeydd môr a mewndirol hyfyw a chynaliadwy.

3.97 Llwyddir i osod ffiniau rhwng y gwahanol gronfeydd trwy wahaniaethu'n glir rhyngddynt yn y rheolau cymhwysedd. Ni fydd unrhyw weithgaredd yn gymwys i dderbyn arian gan fwy nag un rhaglen. Ni fydd arian ESF ar gael ar gyfer ymyriadau sy'n targedu unigolion na mentrau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, coedwigaeth neu bysgodfeydd, nac unigolion na mentrau sy'n cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol, coedwigaeth neu bysgodfeydd trwy brosesau sylfaenol. Nodir hyn yn glir yn y rheolau cymhwysedd a bydd y gofyniad cymhwysedd hwn yn berthnasol ar draws pob Rhaglen Strwythurol. Ni fydd ESF yn ariannu gweithgareddau sy'n hyrwyddo cynlluniau amaeth-fwyd na gweithgarwch cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol a / neu gynhyrchion coedwigaeth trwy brosesau sylfaenol. Bydd yr egwyddor hon yn berthnasol i EFF o ran cynhyrchion a gweithgarwch prosesu pysgod a physgod cregyn.

3.98 Mae'r CDG yn nodi yn benodol fod angen creu gwell cymunedau gwledig â gwell mynediad i gyfleoedd economaidd. Pan all y camau gweithredu hyn gynnwys mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth sgiliau a phrif ffrydio darpariaeth hyfforddiant bydd egwyddor gyffredinol gosod ffiniau yn ôl cymhwysedd yn berthnasol am y bydd camau a gymerir o dan y CDG a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop yn rhai penodol i ddiwallu anghenion y sectorau a nodwyd uchod. Er enghraifft, ni fydd rhaglenni i ddarparu hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer ffermwyr, nac yn achos Cronfa Pysgodfeydd Ewrop gymorth ar gyfer y sector pysgodfeydd môr a mewndirol, yn gymwys i dderbyn cymorth trwy gwmpas rhaglen ESF.

3.99 Yn yr un modd, ymdrinnir â hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer gweithwyr amaethyddol a gweithwyr coedwigaeth o dan y CDG Echel 1 (Cyswllt Ffermio). Ymdrinnir â rheoli amgylcheddol o dan Echel 2, a gellid hyrwyddo sgiliau bywyd neu sgiliau personol, sylfaenol a busnes generig o dan Echel 3. Gall ESF gefnogi rhaglenni hyfforddi yn seiliedig ar grefftau, er enghraifft, ond nid yn y meysydd a nodwyd uchod. Mae lle i'r offerynnau ategu ei gilydd o ran y modd y mae rhaglenni hyfforddi a rhaglenni cyflogaeth yn gweithio gyda'i gilydd, gan gynnwys helpu ar yr agenda sgiliau analwedigaethol, anghenion cymunedol ehangach, datblygu ffynonellau incwm eraill, datblygu cyfleoedd ar gyfer aelodau o'r teulu, mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol a diwylliannol generig.

3.100 Mae'r CDG yn nodi'r gofyniad i ddatblygu strategaethau datblygu lleol i nodi'r egwyddorion llywodraethol a'r meysydd gweithredu allweddol a'r union weithgareddau a gyflawnir. Ymgorfforir methodoleg LEADER yn y broses hon ac ar gyfer y CDG Echelau 3 a 4 trafodir y strategaethau lleol hyn gyda Grwpiau

Ardal y Cynllun Gofodol, y gofynnir iddynt eu cymeradwyo. Mae Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol yn gyfrifol am gyfrannu at ddatblygu'r Fframweithiau Strategol thematig ar wahân sy'n cyflawni rhaglen ESF a bydd y broses hon yn fodd i nodi unrhyw orgyffwrdd posibl rhwng ESF ac EAFRD neu EFF, tra ar yr un pryd yn sicrhau y caiff cyfleoedd ar gyfer gwerth ychwanegol a chyfatebolrwydd rhwng pob un o'r cronfeydd eu nodi ac y manteisir i'r eithaf arnynt lle bynnag y bo modd.

3.101 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod angen rhoi sylw i'r broses gosod ffiniau a'r cyfatebolrwydd a nodwyd uchod wrth weithredu rhaglen ESF. Gwneir hyn mewn tair ffordd:

- Croes-aelodaeth o'r Pwyllgorau Monitro Rhaglenni ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol, EAFRD ac EFF.
- Datganiad penodol yn rheolau cymhwysedd y Cronfeydd Strwythurol nad yw ffermwyr na'r rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu cynhyrchion amaethyddol, pysgodfeydd neu goedwigaeth trwy brosesau sylfaenol yn gymwys i dderbyn cymorth gan ESF ar gyfer y gweithgareddau hyn; ac
- Canllawiau allanol ar gyfer ymgeiswyr prosiectau posibl, a ddatblygwyd ar y cyd â staff yn gweithio ar raglenni'r CDG a rhaglen EFF ar gyfer Cymru.

3.102 Er mwyn dileu unrhyw bosibilrwydd o ariannu dwbl a chynyddu hyd yr eithaf ar gyfatebolrwydd ar lefel prosiectau, bydd y gwahanol dimau yn cysylltu â'i gilydd eto adeg cyflwyno'r cais. Fel rhan o broses WEFO, bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut y mae eu prosiect yn cyd-fynd â'r strategaethau a'r rhaglenni perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys y CDG ac EFF a bydd swyddogion arfarnu WEFO yn sicrhau pan allai unrhyw brosiect ffitio i mewn i'r meysydd diffinio neu'r meysydd cyfatebolrwydd a nodwyd uchod, yr ymgynghorir â'r swyddogion perthnasol a chaiff y prosiect ei arfarnu yn fanwl.

3.103 Ar ôl cael eu cymeradwyo, caiff prosiectau eu monitro'n llym i sicrhau y glynir wrth delerau'r gymeradwyaeth ac yr ystyrir unrhyw gais dilynol i ddiwygio prosiect yr un mor ofalus.

3.104 Cyflwynir trefniant cyfatebol ar gyfer prosiectau a gyflwynir o dan y CDG ac EFF.

3.105 Ategir polisïau ac offerynnau Ewropeaidd eraill megis y Rhaglen Fframwaith Ymchwil¹¹⁵ a Chyflogaeth a Sgiliau, megis y Rhaglen Dysgu Gydol Oes¹¹⁶ gan weithgareddau rhaglen ESF. Mae'r Rhaglen Dysgu Gydol Oes yn cynnwys pedair rhaglen sectoraidd ar addysg ysgol (Comenius), addysg uwch (Erasmus), hyfforddiant galwedigaethol (Leonardo da Vinci) ac addysg oedolion (Grundtvig), ac fe'i cwblheir gan raglen drawslin sy'n canolbwyntio ar gydweithio ym maes polisi, ieithoedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a lledaenu a defnyddio canlyniadau. Nod y rhaglen Dysgu Gydol Oes newydd yw cyfrannu

¹¹⁵ Rhaglen Fframwaith Ymchwil 7 y Comisiwn Ewropeaidd (FP7) ar gyfer 2007–2013 'Building the Europe of Knowledge': http://ec.europa.eu/research/future/index_en.cfm

¹¹⁶ Rhaglen Dysgu Gydol Oes yr Undeb Ewropeaidd, http://ec.europa.eu/education/programmes/newprog/index_en.html

trwy ddysgu gydol oes at ddatblygu'r Gymuned fel cymdeithas wybodaeth ddatblygedig, lle y ceir datblygu economaidd cynaliadwy, mwy o swyddi a gwell swyddi a mwy o gydlyniant cymdeithasol. Mae'n ceisio meithrin rhyngweithio, cydweithio a symudoledd rhwng systemau addysg a hyfforddiant o fewn y Gymuned, fel eu bod yn datblygu'n gyfeirbwynt byd-eang ar gyfer safon.

Ymchwil a Datblygu

3.106 Bydd defnyddio ymchwil, technoleg a gwaith arloesi yn llwyddiannus yn hanfodol bwysig i gyflawni ein huchelgais i greu economi gystadleuol sy'n ffynnu. Bydd hyn yn darparu congflaen ar gyfer sicrhau lefelau bythol-gynyddol o gynhyrchiant a menter, ac ar gyfer creu mwy o swyddi a chyfoeth, gan sicrhau bod Cymru yn gystadleuydd o safon fyd-eang. Oherwydd y lefel isel o wariant ar YaD gan fusnesau o gymharu â rhannau eraill o'r DU, mae angen annog busnesau i gydweithredu er mwyn creu 'effaith grynhoi rithwir'. Anogir y sector addysg uwch, y sector addysg bellach a busnesau i weithio gyda'i gilydd er mwyn hyrwyddo datblygu, trosglwyddo a masnacheiddio technoleg a chynyddu eu mynediad i 7^{fed} Raglen Fframwaith Ymchwil yr UE.

Monitro a Gwerthuso Cynnydd

3.107 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod gwaith monitro a gwerthuso o safon yn hanfodol i reoli rhaglenni a gwneud penderfyniadau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth yn effeithiol. Gwnaeth gwaith monitro a gwerthuso gyfraniad pwysig at reoli Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2000–2006 yng Nghymru a chymerwyd i ystyriaeth y gwersi a ddysgwyd o waith monitro a gwerthuso wrth gynllunio Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007 - 2013. Bydd gwaith monitro a gwerthuso yn parhau i chwarae rolau allweddol wrth gynyddu hyd yr eithaf ar ansawdd ac effeithiolrwydd Rhaglenni 2007 - 2013.

3.108 Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at asesu llwyddiant Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn seiliedig ar:

- olrhain cynnydd ystod o ddangosyddion economaidd, yn arbennig cyflogaeth, enillion a GYC, mewn termau absoliwt ac mewn perthynas â rhannau eraill o'r DU a'r UE;
- monitro yn erbyn y dangosyddion a bennwyd ar gyfer blaenoriaethau unigol, wedi'u grosio i fyny i lefel rhaglenni;
- gwaith gwerthuso ar lefel rhaglenni;
- gwaith gwerthuso strategol ar lefel fframweithiau; ac
- gwaith gwerthuso ar lefel prosiectau.

Dangosyddion olrhain

3.109 Datblygwyd y dangosyddion olrhain lefel uchel a nodir yn *W:AVE* a'r *Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith* i ddarparu darlun bras a chadarn o hanfodion twf economaidd cynaliadwy. Fe'u defnyddir i fonitro cynnydd dros amser a chymharu Cymru â gwledydd a rhanbarthau eraill. Mae llawer o'r dangosyddion olrhain hyn hefyd ar gael ar lefel NUTS 2 ac felly fe'u defnyddir i ddarparu asesiad cytbwys o'r cynnydd a wnaed yn economi Gorllewin Cymru a'r

Cymoedd. Pan nad oes unrhyw ddata ar gael ar lefel NUTS 2, nodwyd dangosyddion priodol eraill. Caiff cynnydd ei olrhain hefyd yn erbyn dangosyddion Lisboa, y mae llawer ohonynt yn gorgyffwrdd yn agos â'r dangosyddion a nodir yn *W:AVE*, ond y mae rhai ohonynt wedi'u diffinio ychydig yn wahanol.

3.110 Dylid nodi bod perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn dibynnu ar ffactorau eraill megis tueddiadau macro-economaidd a digwyddiadau byd-eang. Serch hynny, mae'r dangosyddion olrhain datblygu economaidd lefel uchel canlynol yn darparu'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer asesu'r cynnydd a wnaed gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd. Bydd defnyddio'r dangosyddion olrhain hyn yn sicrhau yr ystyrir tueddiadau mwy cyffredinol yn yr economi, gan gynnwys newidiadau strwythurol, wrth werthuso effeithiolrwydd y rhaglenni Cydgyfeirio yng Nghymru.

3.111 Felly bydd y dangosyddion olrhain datblygu economaidd lefel uchel canlynol yn darparu'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer asesu'r cynnydd a wnaed gan y rhaglen Gydgyfeirio.

Tabl 25: Dangosyddion Olrhain ar Lefel Rhaglen

	Dangosyddion datblygu economaidd a'r Farchnad Lafur
Economaidd lefel uchel	GYC y pen ⁱ Incwm gwario aelwydydd y pen ⁱ Cyfradd cyflogaeth ⁱ Enillion cyfartalog ⁱ
Y farchnad lafur	Cyfradd anweithgarwch economaidd Cyfradd diweithdra ⁱ Llifau ymfudo
Gwerth ychwanegol fesul swydd	GYC fesul gweithiwr a fesul awr a weithiwyd ⁱ
Sgiliau	Cymwysterau'r boblogaeth oedran gweithio ⁱⁱ Cymwysterau pobl ifanc 16-18 mlwydd oed a phobl ifanc 19-21 mlwydd oed ⁱ Cyfran y boblogaeth mewn swyddi proffesiynol, technegol, rheoli a gwyddonol
Cydlyniant cymdeithasol	Canran yr oedolion o oedran gweithio mewn cartrefi lle nad oes unrhyw un yn gweithio ⁱⁱⁱ Canran y plant mewn cartrefi lle nad oes unrhyw un yn gweithio ⁱⁱⁱ
Cyfle cyfartal	Enillion benywod fel canran o enillion gwrywod ^{iv}

- i Mae'r dangosydd yn debyg i Ddangosydd Strwythurol Lisboa a roddwyd ar y rhestr fer.
- ii Mae'r dangosydd yn cynnwys dangosyddion cymwysterau yn *Y Wlad sy'n Dysgu 2*.
- iii Nid yw'r dangosydd yn *W:AVE*, cynigiwyd dangosydd arall. Nid oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd ond disgwylir iddo fod ar gael yn 2007
- iv Nid yw'r dangosydd yn *W:AVE*, cynigiwyd dangosydd arall.

3.112 Ceir data sylfaen yn Atodiad Ng - Dangosyddion.

Tabl 26: Dangosyddion Lefel Rhaglen

Mae pob dangosydd a tharged o fewn y Rhaglen Weithredol yn cwmpasu'r Rhaglen gyfan (Arian y Gymuned, arian cyhoeddus cenedlaethol ac arian preifat cenedlaethol) ac mae'n rhaid eu cyflawni erbyn 2015.

Dangosydd	Targed (2015)
Cyfanswm y cyfranogwyr ¹¹⁷	267,500*
Cyfranogwyr benywaidd ¹¹⁸	146,150
Cyfranogwyr economaidd anweithgar ¹¹⁹	63,750
Cyfranogwyr di-waith ^{120**}	55,000
Cyfranogwyr cyflogedig ¹²¹	122,500
Cyflogwyr a gynorthwyr neu sy'n derbyn cymorth ariannol ¹²²	20,060
Cytundebau cydweithrediadol rhwng cyrff gwasanaeth cyhoeddus ¹²³	20
Cyfranogwyr sy'n ymgymryd â chyflogaeth ¹²⁴	27,500
Cyfranogwyr yn ennill cymhwysterau ¹²⁵	79,530
Cyfranogwyr yn ennill cymhwyster sgiliau sylfaenol ¹²⁶	43,900
Cyfranogwyr yn ennill cymhwyster ar Lefel 2 ¹²⁷	23,000
Cyfranogwyr yn ennill cymhwyster ar Lefel 3 ¹²⁸	8,900
Cyfranogwyr yn ennill cymhwyster ar Lefel 4 ac uwch ¹²⁹	3,800
Cyfranogwyr yn ymgymryd â dysgu pellach ¹³⁰	57,700

* Mae'n cynnwys 35,000 o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 sydd yn y grŵp oedran 11-19

** Mae cyfranogwyr di-waith yn cynnwys unigolion sydd wedi derbyn rhybudd diswyddo ffurfiol

Gweithredu Strategol

3.113 Ar ben hynny, mae profiad a gwersi a ddysgwyd yn awgrymu y bydd ymagwedd fwy strategol at weithredu yn helpu i sicrhau bod y rhaglenni newydd yn gwneud cyfraniad cryfach byth at ddatblygu economaidd cynaliadwy. Awgrymodd gwerthusiadau o raglenni 2000-2006 fod gormod o brosiectau a'i bod

¹¹⁷ Nifer yr unigolion sy'n cyfranogi yn y Rhaglen hon

¹¹⁸ Nifer y cyfranogwyr benywaidd sy'n cyfranogi yn y Rhaglen hon

¹¹⁹ Nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr) sy'n cyfranogi yn y Rhaglen hon

¹²⁰ Nifer y cyfranogwyr di-waith sy'n cyfranogi yn y Rhaglen hon

¹²¹ Nifer y cyfranogwyr cyflogedig sy'n cyfranogi yn y Rhaglen hon

¹²² Nifer y cyflogwyr sy'n derbyn cymorth neu gymorth ariannol, a ariennir gan ESF

¹²³ Nifer y cytundebau cydweithrediadol rhwng cyrff gwasanaethau cyhoeddus a sicheir trwy gymorth ESF

¹²⁴ Nifer y cyfranogwyr sy'n ymgymryd â chyflogaeth ar ôl cyfranogi yn y Rhaglen hon

¹²⁵ Nifer y cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster o ganlyniad i gyfranogi yn y Rhaglen hon

¹²⁶ Nifer y cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster sgiliau sylfaenol o ganlyniad i gyfranogi yn y Rhaglen hon

¹²⁷ Nifer y cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster ar Lefel 2 o ganlyniad i gyfranogi yn y Rhaglen hon

¹²⁸ Nifer y cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster ar Lefel 3 o ganlyniad i gyfranogi yn y Rhaglen hon

¹²⁹ Nifer y cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster ar Lefel 4 neu uwch o ganlyniad i gyfranogi yn y Rhaglen hon

¹³⁰ Nifer y cyfranogwyr sy'n ymgymryd â dysgu pellach o ganlyniad i gyfranogi yn y Rhaglen hon

yn anodd mesur cyfraniad rhai o'r rhain at gyflawni nodau ac amcanion strategol y rhaglenni. Mae llawer i'w ennill trwy gyfuno prosiectau cydategol at ei gilydd yng nghyd-destun fframweithiau strategol er mwyn bwrw ymlaen â chyflawni rhannau allweddol o'r rhaglenni. Darperir rhagor o wybodaeth am yr ymagwedd fwy strategol hon at gyflawni nodau ac amcanion y rhaglenni a'r egwyddorion a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r fframweithiau newydd ym Mhennod 6, Darpariaethau Gweithredu.

Y Gymraeg

3.114 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg a lle y mae presenoldeb y ddwy iaith yn ffynhonnell weladwy a chlywadwy o falchder a chryfder i bawb. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno, gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad - yn *laith Pawb*¹³¹, y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog a'i Chynllun Iaith Gymraeg - i brif ffrydio'r Gymraeg ar draws meysydd polisi. Bydd gweithredu'r rhaglenni Cydgyfeirio yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn.

Prif Ffrydio Mentrau Cymunedol

3.115 Bu Cymru yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau arian o dan raglen EQUAL Prydain Fawr 2000-2006. Roedd pedair Partneriaeth Ddatblygu ar waith yn ystod y cylch cyntaf, a dderbyniodd £1.6 miliwn o gyllid gan ESF. Yn ystod yr ail gylch roedd 15 Partneriaeth Ddatblygu ar waith, a dderbyniodd £15 miliwn o gyllid gan ESF. Mae prosiectau megis '*Meddwl Iach yn y Gwaith*', wedi helpu i gynyddu dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng anweithgarwch economaidd ac iechyd meddwl yn y gweithle. Yn ogystal â dysgu gwersi polisi gwerthfawr, bu ymagwedd EQUAL at weithredu trwy bartneriaethau datblygu yn llwyddiannus iawn wrth ymgorffori dealltwriaeth a phartneriaeth ym mhob agwedd ar y prosiectau, a hyrwyddo prif ffrydio gwersi polisi a gwersi gweithredol.

3.116 Adeiledir ar brofiad EQUAL o dan raglen Gydgyfeirio newydd ESF i ddatblygu trefniadau ar gyfer hyrwyddo gweithredu arloesol, a chydweithredu trawswladol.

Camau Gweithredu gan Bartneriaid Cymdeithasol

3.117 Yn unol â Rheoliad UE [1081/2006] Erthygl 5, anogir y partneriaid cymdeithasol (byd busnes ac undebau llafur) i gymryd rhan yn y gwaith o weithredu rhaglen Gydgyfeirio ESF. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi camau gweithredu sy'n gwella effeithiolrwydd deialog gymdeithasol a gweithgareddau a gyflawnir ar y cyd gan y partneriaid cymdeithasol neu a arweinir ganddynt, yn arbennig o ran gallu gweithwyr a busnesau i ymaddasu. Darperir lefel briodol o adnoddau, are gyfer gweithgareddau sy'n cael ei arwain gan bartneriaethau cymdeithasol fel a nodir ym mhennod 4. Rhagwelir y byddai oddeutu €5.6 miliwn o adnoddau ESF yn cael eu dyrannu drwy Flaenoriaethau 1, 2 a 3. Mae'r gweithgareddau

¹³¹ *laith Pawb* Llywodraeth Cynulliad Cymru:
http://new.wales.gov.uk/topics/welsh_language/iaith_pawb/?lang=cy

canlynol yn rhoi syniad o weithgareddau y gellid bwrw ymlaen â hwy mewn cydweithrediad agos â'r partneriaid cymdeithasol:

Blaenoriaeth 1

- Atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng byd busnes ac addysg i sicrhau bod integreiddio agosach rhwng anghenion cyflogwyr a'r cwricwlwm galwedigaethol a'r cwricwlwm sgiliau sylfaenol. Gallai hyn gynnwys lleoliadau diwydiant ar gyfer athrawon neu leoliadau addysg ar gyfer byd busnes. Gallai hefyd gynnwys lleoliadau profiad gwaith estynedig neu well ar gyfer pobl ifanc.

Blaenoriaeth 2

- Mentrau partneriaeth i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyflogaeth;
- Mentrau sy'n helpu grwpiau dan anfantais i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, gan gynnwys rhaglenni mentora;
- Codi ymwybyddiaeth o anabledd a gwella'r modd y'i rheolir, gan gynnwys trefniadau partneriaeth sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth sy'n ymwneud ag iechyd; ac
- Mentrau partneriaeth sy'n ymateb i ddiswyddiadau sylweddol.

Blaenoriaeth 3

- Mentrau i hyrwyddo cadw gweithwyr hŷn mewn cyflogaeth.
- Meithrin cyfranogiad cyflogwyr a chyflogeion mewn dysgu, trwy fentrau sy'n hyrwyddo, yn cydnabod ac yn gwobrwo arfer da;
- Hyrwyddo mentrau, gan gynnwys trefniadau partneriaeth yn y gweithle, i ragweld newidiadau mewn swyddi a newidiadau sefydliadol ac ymateb iddynt ac ymaddasu i dechnoleg newydd; ac
- Codi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a gwella'r modd y'i rheolir.

Strategaeth ar gyfer arloesi a gweithgarwch trawswladol

3.118 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn hyrwyddo ac yn cefnogi gweithredu arloesol a gweithgarwch trawswladol trwy ystod o Flaenoriaethau o fewn y Rhaglen Weithredol, gan sicrhau bod yr egwyddorion sy'n sail iddynt yn cael cryn ddylanwad ar y broses gyffredinol o'u cyflawni. Oherwydd y diben prif ffrydio hwn, ni fydd na rhaglen nac echel blaenoriaeth ar wahân o fewn y Rhaglen Weithredol ar gyfer arloesi na gweithgarwch trawswladol.

3.119 Nodir y cyfle sydd ar gyfer arloesi a gweithgarwch trawswladol ar lefel Themâu Blaenoriaeth fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Fframweithiau Strategol. Bydd hyn yn sicrhau bod partneriaethau Fframwaith a Phwyllgor Monitro'r Rhaglen yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddewis y meysydd lle y dylid hyrwyddo a chefnogi gweithredu arloesol a gweithgarwch trawswladol.

Gweithredu Arloesol

3.120 Mae agenda ddiwygiedig Lisboa yn rhoi pwyslais mawr ar roi gwybodaeth ar waith a hyrwyddo arloesi. Adlewyrchir hyn yng Nghanllawiau Strategol y Gymuned sy'n hyrwyddo datblygu strategaethau sy'n darparu'n benodol ar gyfer gweithgarwch arbrosi i symbylu actorion rhanbarthol a lleol i arloesi a'r gofynion rheoliadol newydd yn ymwneud â phrif ffrydio gweithredu arloesol. Mae arloesi yn y cyd-destun hwn yn fwy cyffredinol nag 'arloesi technolegol' traddodiadol. Fe'i diffinnir fel cynhyrchu gwybodaeth newydd a'i thrawsnewid yn gynhyrchion, yn brosesau neu'n wasanaethau newydd sy'n ymateb i alw gan ddinasyddion. Mae'n cynnwys datblygiadau arloesol cymdeithasol sy'n hyrwyddo moderneiddio'r economi, yn ogystal â diwygio polisiau a chymau gweithredu ar gyfer cyflogaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

3.121 Yn unol â Rheoliad UE [1081/2006], Erthyglau 3(5) a 7, bydd rhaglen Gydgyfeirio ESF yn hyrwyddo arloesi trwy Fframweithiau Strategol y cytunwyd arnynt, a bydd yn hyrwyddo lledaenu canlyniadau a rhannu arfer gorau. Wrth wneud hynny, bydd yr Awdurdod Rheoli yn hyrwyddo defnyddio gwersi a ddysgwyd o dan raglen EQUAL.

3.122 Bydd gwaith gwerthuso manwl iawn yn nodwedd graidd o bob prosiect sy'n hyrwyddo arloesi a defnyddir canlyniadau'r gwaith arbrofol hwn i lywio polisi a gweithredu, a bydd y gwersi a ddysgwyd yn bwydo i mewn i'r gwaith o weithredu rhaglenni prif ffrwd a datblygu prosiectau. Datblygir strategaeth glir i hyrwyddo'r gwaith prif ffrydio hwn gan ymgynghori â Phwyllgor Monitro'r Rhaglen fel rhan o'r trefniadau ar gyfer gweithredu holl raglenni ESF ac ERDF.

3.123 Nodir y cyfle sydd ar gyfer gweithredu arloesol gan ymgynghori â phartneriaid fel rhan o'r gwaith ar Fframweithiau Strategol a chytunir arnynt wedyn â'r Awdurdod Rheoli (gweler Pennod 6 – Darpariaethau Gweithredu). Bydd yr adrannau o fewn Fframweithiau Strategol sy'n ymdrin â'r cyfle sydd ar gyfer Gweithredu Arloesol hefyd yn ymdrin â chanllawiau ar werthuso a'r potensial ar gyfer prif ffrydio camau gweithredu.

3.124 Wrth hysbysu noddwyr o ddatblygiad prosiectau sy'n hyrwyddo arloesi bydd yr Awdurdod Rheoli yn tynnu ar y gwersi a ddysgwyd wrth weithredu EQUAL, gan gynnwys yr angen i gynnwys llunwyr polisi a rhanddeiliaid allweddol a phwysigrwydd gwaith gwerthuso manwl ac annibynnol.

3.125 Caiff prosiectau gweithredu arloesol eu monitro'n benodol fel rhan o system rheoli rhaglenni newydd yr Awdurdod Rheoli (PPIMS) a byddant yn gweithredu o dan reolau cymhwysedd safonol. Caiff pob prosiect gweithredu arloesol ei werthuso'n allanol.

3.126 Gallai meysydd posibl ar gyfer gweithredu arloesol gynnwys:

- Datblygu cwricwla eraill i gynnwys pobl ifanc wedi dadrithio mewn dysgu (Blaenoriaeth 1);
- Ffyrdd newydd o gysylltu â'r grwpiau mwyaf difreintiedig a'u hintegreiddio mewn cyflogaeth gynaliadwy (Blaenoriaeth 2);

- Ffyrdd newydd o gynorthwyo cyflogwyr a chyflogeion i ymdrin â materion yn ymwneud ag iechyd (Blaenoriaeth 2);
- Hyrwyddo integreiddio gweithwyr ymfudol yn y gweithlu (Blaenoriaeth 2);
- Hyrwyddo cadw gweithwyr hŷn mewn cyflogaeth (Blaenoriaeth 3);
- Dulliau cyflenwi dysgu arloesol a methodolegau ar gyfer nodi anghenion sgiliau a mynd i'r afael â hwy (Blaenoriaeth 3);
- Ffyrdd newydd o helpu cyflogwyr a chyflogeion i ymaddasu i newidiadau mewn swyddi a newidiadau sefydliadol (Blaenoriaeth 3); ac
- Ymagweddau arloesol at gydweithredu rhwng gwasanaethau cyhoeddus (Blaenoriaeth 4).

Cydweithredu Trawswladol a Rhynggranbarthol

3.127 Mae'r fframwaith rheoleiddiol newydd hefyd yn darparu ar gyfer prif ffrydio cydweithredu trawswladol a rhynggranbarthol. Mae hyn yn cynnig cyfle cyffrous i ychwanegu gwerth at y gwaith o weithredu Rhaglenni Gydgyfeirio ESF trwy hwyluso cydweithredu mewn meysydd sydd o ddiddordeb i ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a rhanbarthau Ewropeaidd eraill.

3.128 Er y caiff prosiectau sy'n cynnwys partneriaid ar draws yr Undeb Ewropeaidd eu hystyried, rhoddir pwyslais arbennig ar weithgareddau ag Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau y mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gytundebau cydweithredu ffurfiol â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys Latfia, Llydaw, Catalonia, Silesia Uchaf a Baden-Württemberg. Bydd modd hefyd adeiladu ar drefniadau cydweithredu trawswladol llwyddiannus a sefydlwyd o dan fenter EQUAL ac â rhanbarthau sy'n aelodau o Gymdeithas Ewropeaidd yr Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol ar gyfer Dysgu Gydol Oes (EARLALL), sydd â phrofiad sylweddol eisoes o hwyluso gweithio trawswladol ymhlith ei haelodau.

3.129 Mae enghreifftiau o rwydweithiau trawswladol a allai ddarparu mynediad i bartneriaid ESF posibl ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cynnwys Rhwydwaith Ymchwil ac Arloesi Rhanbarthau Ewrop (ERRIN) sy'n canolbwyntio'n benodol ar YaD; y Grŵp e-Ddysgu anffurfiol sy'n ceisio datblygu cyfleoedd rhwydweithio strwythuredig ar gyfer ymarferwyr e-ddysgu ar ystod o faterion addysgol, technegol a pholisi; a'r rhwydwaith gwybodaeth ar gyfer Addysg a Hyfforddiant a leolir ym Mrwsel (BBInet) a grëwyd yn ddiweddar i ddod â Siambrau Masnach a Diwydiant â chysylltiadau addysg ac asiantaethau cymdeithasol neu fusnes eraill at ei gilydd, i ystyried pynciau megis symudedd, ac addysg oedolion.

3.130 Yn unol â'r ddarpariaeth yn Rheoliad UE [1081/2006], Erthygl 3(6) ac 8, bydd ESF yn cefnogi gweithgareddau trawswladol a rhynggranbarthol arloesol o safon ar draws holl flaenoriaethau rhaglenni perthnasol. Dengys y gweithgareddau dangosol canlynol y meysydd lle y disgwylir y bydd gweithredu trawswladol a rhynggranbarthol yn bosibl:

- cynyddu a gwella hyblygrwydd, gan gynnwys gweithredu i hyrwyddo dysgu gydol oes, ac ailstrwythuro;
- hyrwyddo integreiddio ceiswyr gwaith a phobl anweithgar, er enghraifft gan gynnwys camau i hyrwyddo rheoli oedran, diweithdra ymhlith pobl

ifanc (yng nghyd-destun Cytundeb Ieuencid Ewrop) cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd ac ymfudwyr;

- hyrwyddo integreiddio grwpiau dan anfantais a mynd i'r afael â gwahaniaethu, gan gynnwys er enghraifft camau i gynorthwyo pobl ag anableddau, cyn-droseddwyr, Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl â chyfrifoldebau gofalu;
- cynyddu cyfalaf dynol gan gynnwys er enghraifft camau i atgyfnerthu systemau ar gyfer dilysu sgiliau;
- hyrwyddo trosglwyddo sgiliau ac arfer gorau ar draws y sector cyhoeddus trwy rwydwaith o wasanaethau cyhoeddus partner; ac
- nodi technolegau arloesol ac arferion arwain a rheoli llwyddiannus mewn cyd-destun trawswladol.

3.131 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sefydlu Uned Cydweithredu Trawswladol ar wahân i hyrwyddo a chydlynu gweithredu o dan y rhaglenni. Rhoddir trefniadau ar waith trwy'r Uned i sicrhau nad yw gweithgareddau trawswladol a gefnogir trwy raglen gydgyfeirio ESF yn gorgyffwrdd â'r rhai a gefnogir trwy raglenni eraill y Gymuned, yn arbennig y meysydd addysg a hyfforddiant galwedigaethol (VET) ac addysg oedolion o fewn Rhaglen Dysgu Gydol Oes yr UE, sef israglenni Leonardo a Grundtvig, ynghyd â'r prosiectau VET o fewn israglen Erasmus, a meysydd datblygu polisi a gwybodaeth a lledaenu'r israglen drawslin. Er mwyn datblygu hyn, byddwn yn cydweithredu'n agos ag asiantaethau cenedlaethol y DU sy'n gyfrifol am y rhaglen Dysgu Gydol Oes (y Cyngor Prydeinig ac ECOTEC) i sicrhau nad oes unrhyw ariannu dwbl a bod prosiectau yn gydategol. Ar ben hynny, bydd prosiectau trawswladol a rhynggranbarthol a gefnogir trwy ESF yn rhoi sylw i integreiddio'r gwersi a ddysgwyr o Fenter Gymunedol EQUAL.

3.132 Mae Cymru yn un o aelodau sylfaenol EARLALL. Cymerodd ran mewn nifer o brosiectau ar y cyd ag aelodau eraill o EARLALL, gan gynnwys prosiect cychwynnol a gynigiwyd gan y Comisiwn i brofi cysyniad 'cynyddu gwerth' a phrosiect parhaus i brofi'r 'dull cydlynu agored' fel dull lledaenu.

3.133 Ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda phartneriaid yn EARLALL i weithredu cyfres o 'gytundebau symudoledd' dwyochrog sy'n hyrwyddo llif rhydd dysgwyr, ymchwilwyr a gweithwyr rhwng aelod-ranbarthau, ac yn rhagweld bod y cyfryw gyntundebau yn debygol o gynnwys rhagor o waith datblygu ar y cyd megis:

- e-ddysgu;
- setiau sgiliau ar gyfer entrepreneuriaeth;
- diffinio cymwyseddau galwedigaethol eraill;
- cydnabod credydau tuag at gymwysterau galwedigaethol; ac
- hyrwyddo lleoliadau profiad gwaith cyfatebol ar gyfer myfyrwyr ac ymarferwyr rhwng rhanbarthau.

3.134 Cyflwynwyd menter y Rhanbarthau dros Newid Economaidd sy'n datblygu gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Tachwedd 2006. Bydd Rhaglen Cydweithredu Rhynggranbarthol 2007-2013 sy'n cwmpasu'r UE gyfan ac a gefnogir o dan yr Amcan Cydweithredu Tiriogaethol, yn darparu offeryn pwysig ar gyfer gweithredu'r fenter hon. Mae Rhanbarthau dros Newid Economaidd yn cynnig cyfleoedd pwysig i Orllewin Cymru a'r Cymoedd ym maes prif ffrydio

gweithredu trawswladol a gweithredu arloesol a'i nod yw cyfnewid arfer gorau rhwng rhanbarthau Ewrop.

3.135 Mae'r fenter yn darparu cyfleoedd i sefydliadau yng Nghymru ymgysylltu â rhanbarthau mewn rhannau eraill o Ewrop ynghylch themâu sy'n cysylltu polisiau'r Undeb Ewropeaidd ag agenda Lisboa. Mae'n cyflwyno cyfrwng newydd i ranbarthau rannu a phrofi arfer gorau ar gyfer moderneiddio economaidd a gwell cystadleurwydd a lledaenu canlyniadau i mewn i raglenni Cydgyfeirio prif ffrwd.

3.136 Yn fframwaith menter y Rhanbarthau dros Newid Economaidd mae'r Awdurdod Rheoli yn ymrwmo i:

a) gwneud y trefniant angenrheidiol i groesawu i'r broses raglennu brif ffrwd weithrediadau arloesol yn ymwneud â chanlyniadau rhwydweithiau y mae'r rhanbarth yn ymwneud â hwy;

b) caniatáu presenoldeb cynrychiolydd (fel sylwedydd) o'r rhwydwaith(rhwydweithiau) y mae'r Rhanbarth yn ymwneud ag ef(â hwy) ym Mhwyllgor Monitro'r Rhaglen (neu'r pwyllgor rhaglennu), i gyflwyno adroddiadau ar gynnydd gweithgareddau'r rhwydwaith;

c) rhagweld pwynt yn agenda Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (neu'r pwyllgor rhaglennu) o leiaf unwaith y flwyddyn i roi sylw i weithgareddau'r rhwydwaith a thrafod awgrymiadau perthnasol ar gyfer y rhaglen brif ffrwd dan sylw; ac

ch) darparu gwybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol am weithredu'r camau gweithredu rhanbarthol a gynhwysir ym menter y Rhanbarthau Dros Newid Economaidd.

Ymgynghori

3.137 Datblygwyd pennod Cymru o NSRF a'r rhaglen Gydgyfeirio trwy broses helaeth o ymgysylltu â phartneriaid. Mae hyn wedi cynnwys Grŵp Rhanddeiliaid Allanol, sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr y prif sefydliadau partner a phum ffrwd waith¹³² sy'n cynnwys arbenigwyr ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Mae'r ffrydiau gwaith hyn wedi hyrwyddo datblygu'r Rhaglen Weithredol newydd ac wedi cynghori ar reoli, gwerthuso a monitro rhaglenni yn y dyfodol, a threfniadau archwilio a chydymffurfio.

3.138 Lanswyd yr ymgynghoriad ynghylch y rhaglenni Cydgyfeirio ar 28 Gorffennaf 2006 am gyfnod o 10 wythnos, a daeth i ben ar 06 Hydref 2006. Gwnaed dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan CRG Research Ltd a chyhoeddir yr adroddiad llawn ar wefan WEFO¹³³ ynghyd â'r ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd adborth hefyd o bedwar digwyddiad ymgynghori a drefnwyd gan WEFO a digwyddiadau rhanddeiliaid eraill a drefnwyd gan y sector llywodraeth leol, y sector busnes a'r sectorau

¹³² Ariennir y ffrydiau gwaith Ôl 2006 yn rhannol gan Gymorth Technegol Amcan 1 ERDF ac Amcan 1 ESF

¹³³ <http://www.wefo.cymru.gov.uk>

cymunedol a gwirfoddol, a fynychwyd gan swyddogion WEFO. Ers mis Gorffennaf, ymgynghorodd WEFO â dros 1,000 o randdeiliaid. Derbyniwyd cyfanswm o 129 o ymatebion ffurfiol o'r ymgynghoriad cyhoeddus. Trafodwyd canfyddiadau cychwynnol yr adroddiad dadansoddi gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Allanol Ôl-2006.

Tabl 27: Ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Sector	Nifer yr ymatebion
Sector Gwirfoddol a Chymunedol	17
Datblygu Economaidd / Partneriaethau Hyfforddi	35
Sector Preifat	10
Sefydliadau AU / AB	14
Cymdeithasau Masnach / Proffesiynol	8
Awdurdodau Lleol	19
Asiantaethau'r Llywodraeth	8
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	6
Yr Amgylchedd, Diwylliant a Threftadaeth	9
Arall	1

3.139 Y prif bwyntiau a gododd oedd:

- bod cefnogaeth gyffredinol i'r strategaeth, i'r blaenoriaethau a'r themâu;
- roedd cytundeb cyffredinol ar yr egwyddorion allweddol h.y. symleiddio, tryloywder, prosesau gwneud penderfyniadau cynhwysol ac adeiladu ar wersi o raglenni 2000 - 2006;
- roedd barn gymysg am sut i rannu adnoddau rhwng y blaenoriaethau;
- roedd barn gymysg am lefel y ffocws ar agenda Lisboa, cafwyd cefnogaeth gref gan rai ac roedd rhai eraill yn pryderu y byddai llai o ffocws ar rai meysydd gweithgarwch;
- cydnabuwyd pwysigrwydd gwaith monitro a gwerthuso da a phrosesau clir ar gyfer casglu gwybodaeth reoli;
- cefnogaeth (yn arbennig gan Sefydliadau Addysg Uwch) i rôl addysg uwch wrth ddatblygu economaidd;
- angen parhaus i ymgysylltu â phartneriaid ar bob lefel;
- gofynnwyd am ragor o wybodaeth am rôl Cynllun Gofodol Cymru a'r modd y mae'n rhyngweithio â'r Fframweithiau Strategol arfaethedig; ac
- diffyg pwyslais ymddangosiadol ar y sector twristiaeth.

3.140 Rhoddir manylion yr amrywiaeth o sylwadau yn Atodiad A - Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus.

Crynodeb o'r Rhag-werthusiad o Raglen Gyddyfeirio ESF

3.141 Yn unol â Rheoliad UE [1083/2006], Erthygl 47, ymgwymerwyd â Rhag-werthusiadau ar gyfer y Rhaglenni Cyddyfeirio (ERDF ac ESF) i sicrhau y caiff adnoddau eu dyrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol a bod cynlluniau ar gyfer gweithredu rhaglenni o'r safon uchaf posibl. Ym mis Ebrill 2006, yn dilyn proses dendro gystadleuol, contractiwyd DTZ Consulting and Research gan WEFO i wneud y gwerthusiadau hyn.

3.142 Daeth y Rhag-werthusiad o Raglen Gyddyfeirio ESF i'r casgliad bod y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn berthnasol ac yn gadarn. Ystyrid bod ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn gredadwy a bod digon o waith dadansoddi ar lefel isranbarthol wedi'i wneud lle'r oedd hynny'n briodol. Roedd y gwerthuswyr wedi argymhell cyn hynny y dylid gwneud rhagor o gymariaethau gan ddefnyddio data ar gyfer 25 Aelod-wladwriaeth yr UE. Felly gwnaed hynny. Roedd y gwerthuswyr hefyd wedi argymhell y dylai'r dadansoddiad ddefnyddio rhagolygon data er bod WEFO o'r farn bod rhagolygon data yn rhy annibynadwy i gael eu cynnwys.

3.143 Daeth y gwerthusiad i'r casgliad, yn gyffredinol, fod y Rhaglen yn ddatblygedig iawn. Ar y cyfan, mae cysylltiad cryf rhwng yr heriau allweddol sy'n wynebu Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, y weledigaeth strategol, ac elfennau allweddol y Rhaglen o ran Blaenoriaethau a Themâu Fodd bynnag, gwnaed nifer o argymhellion er mwyn atgyfnerthu'r rhesymeg a gweithredwyd y mwyafrif o'r rhain gan WEFO. Ni weithredwyd rhai argymhellion yn ymwneud â chanolbwyntio ar fewnfudo a gwerth ychwanegol Cronfeydd Strwythurol, y cyntaf am yr ystyrid ei fod wedi'i drafod yn anuniongyrchol a'r ail am y câi ei weithredu yng nghanllawiau Fframweithiau Strategol.

3.144 Cafodd y gwerthuswyr fod Rhaglenni Cyddyfeirio ERDF ac ESF yn cyd-fynd yn agos â'i gilydd. Daethpwyd i'r casgliad hefyd fod y Rhaglen yn cyd-fynd i raddau helaeth â pholisïau a strategaethau ar lefelau Cymru, y DU a'r UE. Fodd bynnag, gwnaeth y gwerthuswyr hyn rai argymhellion i'w cysoni ymhellach a gweithredwyd y mwyafrif o'r argymhellion hyn.

3.145 Cafwyd bod y Rhaglen yn gyson iawn yn fewnol, ac mai prin oedd yr achosion o wrthdaro rhwng y Blaenoriaethau. O ran trefniadau gweithredu argymhellodd y gwerthuswyr y dylid datblygu Strategaeth Monitro a Gwerthuso (neu Gynllun Gwerthuso) i nodi gweithgarwch monitro a gwerthuso arfaethedig. Ceir rhagor o fanylion am hyn ym Mhennod 6 – Darpariaethau Gweithredu.

3.146 I grynhoi, nodweddyd y Rhag-werthusiad gan lefel uchel o ryngweithio cadarnhaol a chynhyrchiol rhwng y gwerthuswyr a WEFO. O ganlyniad, derbyniwyd y mwyafrif llethol o'r argymhellion a'r awgrymiadau a wnaed gan DTZ gan WEFO ac fe'u hymgorfforwyd yn nrafft y Rhaglen Weithredol. Ceir yr adroddiad terfynol ar y Rhag-werthusiad yn Atodiad C.

Datganiad Asesu Amgylcheddol Strategol

3.147 O gofio natur Cronfa Gymdeithasol Ewrop, sy'n canolbwyntio ar weithrediadau anfaterol yn ymwneud â Datblygu Adnoddau Dynol, nid yw'r

Rhaglen Weithredol hon yn pennu'r fframwaith ar gyfer gweithrediadau sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol, megis prosiectau seilwaith, yn arbennig y rhai a restrir yn Atodiadau I a II i Gyfarwyddeb 85/337/EEC fel y'i diwygiwyd.

3.148 Pe bai prosiectau seilwaith yn cael eu hystyried yn ddiweddarach, yn arbennig gan ddefnyddio cymal hyblygrwydd 34.2 (CE) Rhif 1083/2006, câi'r angen am Asesiad Amgylcheddol Strategol ei ailystyried. O ganlyniad mae'r Awdurdod Rheoli o'r farn nad oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer y Rhaglen Weithredol hon o dan Gyfarwyddeb 2001/42/EC ar hyn o bryd ac mae'r awdurdodau cenedlaethol wedi derbyn hynny.

3.149 Nid yw hyn yn amharu ar unrhyw benderfyniadau sgrinio yr ystyrir bod angen eu gwneud yn unol â chyfreithiau cenedlaethol neu fesurau eraill i weithredu Cyfarwyddeb 2001/42/EC.

Pennod 4: Blaenoriaethau

Blaenoriaeth 1: Rhoi I Bobl Ifanc Sgiliau Ar Gyfer Dysgu A Chyflogaeth Yn Y Dyfodol

Amcan

4.1 Paratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol trwy godi dyheadau a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu.

Grwpiau Targed

4.2 Ni fydd y flaenoriaeth hon yn ariannu darpariaeth brif ffrwd. Bydd yn ychwanegu gwerth ac yn gwella'r cyfryw ddarpariaeth trwy ganolbwyntio ar bobl ifanc 11 - 19 blwydd oed sydd mewn perygl o dangyflawni mewn addysg neu hyfforddiant, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y bobl ifanc hynny a ddynodwyd fel NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET (ddim mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant). Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc y mae angen cymorth arnynt i ail-ymgysylltu â dysgu neu hyfforddiant er mwyn codi eu lefel cyrhaeddiad, yn ogystal â chodi dyheadau pobl ifanc i symud ymlaen i ddysgu neu hyfforddiant pellach, ac ennill sgiliau lefel uwch.

4.3 O fewn y grŵp oedran 11-19 dynodedig, pobl ifanc ddifreintiedig 14 i 19 blwydd oed a gaiff y prif sylw. Cyfeirir tua 70% o'r arian a ddyrannwyd i'r Flaenoriaeth hon at ddarparu ymyriadau sy'n cynorthwyo'r grŵp oedran hwn a chyfeirir gweddill yr arian, (tua 30%) at weithgareddau ac ymyriadau ar gyfer y grŵp oedran iau rhwng 11 a 13 blwydd oed.

Rhesymeg

4.4 Bydd llwyddiant o ran sicrhau gweithlu crefftus a rhyngwladol gystadleuol ar gyfer y dyfodol, yn dibynnu llawer iawn ar sicrhau bod cymaint o bobl ifanc â phosibl yn cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant priodol.

4.5 Wrth i batrymau gyrfa ddod yn fyw hyblyg, mae angen rhoi i bob person ifanc unigol y sgiliau bywyd priodol er mwyn iddo allu gwneud y gorau o'r amrywiaeth o gyfleoedd sy'n agored iddo. Dengys ymchwil fod gwella sgiliau cymdeithasol a lefelau cymhelliad yn arwain at lefelau is o alw am addysg arbennig a methiant yn yr ysgol ac at lefelau uwch o gyrhaeddiad addysgol. Dilynir y llwyddiant addysgol hwn yn aml gan fwy o lwyddiant o ran rhagolygon cyflogaeth ac integreiddio cymdeithasol.

4.6 Dengys ymchwil hefyd po gyntaf y cyflawnir yr ymyriad po fwyaf yw'r llwyddiant o ran sicrhau lefelau uwch o gyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau cyflogaeth tymor hwy. Felly, er y bydd y Flaenoriaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y grŵp oedran 14-19, bydd hefyd yn ceisio cymryd camau ataliol cynharach gyda phlant difreintiedig iau rhwng 11 a 13 oed i'w hatal rhag cael eu dadrithio ac ymddieithrio a dod yn NEET pan fyddant yn hŷn. Felly cyfeirir rhywfaint o weithgarwch o dan y Flaenoriaeth hon at fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu'r grŵp oedran hwn, i sicrhau y gallant drosglwyddo'n llwyddiannus trwy'r ysgol uwchradd i addysg bellach ac uwch.

4.7 Mae lefelau llythrennedd a rhifedd mewn pobl ifanc yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, er eu bod ychydig yn well na chenedlaethau cynharach, yn dal i fod yn isel. Mae llythrennedd a rhifedd wrth wraidd pob sgil arall ac os yw lefelau yn isel, mae tystiolaeth gref bod unigolion yn llawer mwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar ac o ddioddef canlyniadau cymdeithasol ehangach diweithdra hirdymor pan fyddant yn oedolion, gan gynnwys lefelau iechyd gwaeth a lefelau uwch o amddifadedd ac allgau cymdeithasol, iddynt eu hunain a chydag effaith ganlyniadol ychwanegol ar y cymunedau lle y maent yn byw.

4.8 Er mwyn galluogi pobl ifanc i symud trwy addysg uwchradd a throsglwyddo'n llwyddiannus i addysg bellach ac uwch mae angen darparu mynediad i ddewis ehangach o lwybrau dysgu galwedigaethol ac academiaidd, a chyfleoedd mwy hyblyg sy'n gweddu i allu a doniau pobl ifanc. Ar yr un pryd, mae angen sicrhau bod gan grwpiau difreintiedig o bobl ifanc fynediad i ystod well o systemau cymorth i sicrhau eu bod yn aros ac yn cyfranogi yn y system addysg, i hwyluso eu cyfranogiad yn y gweithlu neu mewn dysgu yn y dyfodol.

4.9 Mae grwpiau eraill o bobl ifanc yn ddifreintiedig ac yn wynebu rhwystrau penodol neu anghenion arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys pobl ifanc ag anableddau neu bobl ifanc o grwpiau Duon a lleiafrifoedd ethnig (BME) penodol. Mae pobl ifanc sy'n dod yn NEET yn debygol o fod wedi gadael yr ysgol neu'r coleg heb fawr ddim cymwysterau neu heb unrhyw gymwysterau ac mae ganddynt gyfradd gadael uchel o addysg bellach neu raglenni dysgu sy'n seiliedig ar waith. Mae angen ymyriadau wedi'u targedu i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i gyfranogi'n llawn yn y system ddysgu a / neu gyflogaeth.

4.10 Mae tystiolaeth glir o anghydraddoldeb cymdeithasol ac addysgol rhwng gwahanol grwpiau BME yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Dengys ymchwil fod rhai grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig o dan anfantais o ran cael mynediad i ddysgu, sgiliau a chyflogaeth. Mae'r mwyafrif o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig, yn arbennig Bangladesiaid a Phacistaniaid, yn dechrau o lefelau cymharol isel o gyrhaeddiad academiaidd, ac mae cyfraddau diweithdra yn uchel ymhlith y grwpiau hyn. Yn bwysicach fyth, yn aml nid yw'r rhai â chyraeddiadau academiaidd perthnasol yn derbyn y gydnabyddiaeth y mae eu cymhwyster neu eu profiad yn ei haeddu.

4.11 Yn ogystal ag wynebu rhwystrau neu fod ag anghenion arbennig, nid yw rhai pobl ifanc yn gwneud dewisiadau gyrfa priodol a gallant leihau eu potensial i ennill incwm yn y dyfodol. Ceir methiannau, hefyd, o ran darparu cyfleoedd dysgu, er enghraifft mewn dysgu galwedigaethol gyda'r canlyniad y bydd rhai pobl ifanc yn ceisio ymuno â'r farchnad lafur heb ddigon o sgiliau ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy. Mae llawer o bobl ifanc hefyd yn dilyn dewisiadau rhywiol traddodiadol mewn addysg a chyflogaeth. Mae angen codi mwy o ymwybyddiaeth ymhlith bechgyn a merched a darparu cymorth mwy penodol ar eu cyfer o ran sgiliau dysgu a gwneud penderfyniadau, a'u cynorthwyo i gael mynediad i lwybrau anhraddodiadol. Mae angen rhoi i bobl ifanc yr opsiynau, y cyfleoedd, y wybodaeth, a'r profiad a'r cymorth i'w galluogi i wneud penderfyniadau a dewisiadau hyddysg ynghylch eu gyrfaedd a'u cynlluniau dysgu yn y dyfodol. Mae sgiliau lefel uwch yn chwarae rhan hanfodol wrth weithredu ar agenda Lisboa ar gyfer twf a swyddi yng Nghymru, a datblygu economi wybodaeth, â chyfraddau cyflogadwyedd uwch a phremiwm cyflog clir.

Dengys data diweddar fod cyfraddau lefelau sgiliau uwch, fel y'u mesurir yn ôl cymwysterau, gryn dipyn yn is yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nac yn Nwyrain Cymru a rhannau eraill o'r DU, ac y gellid manteisio'n fwy ar y cyfleoedd a gynigir gan yr economi fyd-eang sy'n newid.

4.12 Er mwyn hyrwyddo'r economi wybodaeth a diwallu anghenion cyflogwyr am sgiliau lefel uwch, mae hefyd angen i fwy o bobl ifanc astudio gwyddoniaeth. Mae *Polisi Gwyddoniaeth Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2006, yn cydnabod bod angen mwy o bobl ifanc i astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) yng Nghymru, yn yr ysgol neu'r coleg, ac ar lefelau uwch. Mae'r Strategaeth hon, sy'n cynnig ystod ehangach o ymagweddau yn arbennig mewn pynciau STEM, yn gobeithio galluogi mwy o bobl ifanc, o bob gallu, i gymryd y cymhwyster sy'n gweddu orau i'w hanghenion a'u galluoedd, ac yn caniatáu iddynt fynd ymhellach mewn llwybrau hyfforddi a llwybrau addysg.

Cyd-destun Polisi

Ewropeaidd

4.13 Bydd y flaenoriaeth hon yn mynd i'r afael â'r argymhelliad cyflogaeth i'r DU yn 2004 o dan Strategaeth Gyflogaeth Ewrop trwy gefnogi camau gweithredu i:

- roi strategaethau sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol ar waith i ddarparu gwell cymhellion ar gyfer dysgu gydol oes gan gynyddu cynhyrchiant ac ansawdd yn y gwaith; rhoi pwyslais penodol ar wella llythrennedd a rhifedd y gweithlu; cyfranogiad a chyrhaeddiad pobl ifanc 16-19 oed a gweithwyr â sgiliau isel, yn enwedig y rhai mewn swyddi â chyflogau isel.

4.14 Mae'r flaenoriaeth hefyd yn adlewyrchu'r strategaethau a'r egwyddorion canlynol sy'n dylanwadu ar brosesau llunio a chyflawni polisi yng Nghymru:

- Cytundeb Ieuencid Ewrop¹³⁴ a'r rhaglen Ieuencid ar Waith (2007-2013), trwy helpu pobl ifanc i ddatblygu'r cymwyseddau sy'n hanfodol i'w datblygiad personol a phroffesiynol; ac
- 'Astudiaeth Thematig o Fesurau Polisi yn ymwneud â phobl ifanc ddifreintiedig¹³⁵', sy'n pwysleisio diwallu anghenion pobl ifanc ddifreintiedig.

¹³⁴ Casgliadau Cyngor Ewrop (22-23 Mawrth 2005) ar Gytundeb Ieuencid Ewrop: http://ue.eu.int/ueDocs/cms_Data/docs/pressData/en/ec/84335.pdf
Cyfathrebiad y Comisiwn (2005) 693 Yn ymdrin â phryderon pobl ifanc yn Ewrop – Gweithredu Pecyn Ieuencid Ewrop a hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol: http://ec.europa.eu/youth/index_en.html

¹³⁵ 2006 Rhaglen Gweithredu Cymunedol ar gynhwysiant cymdeithasol - Astudiaeth Thematig o Fesurau Polisi yn ymwneud â phobl ifanc ddifreintiedig: http://ec.europa.eu/employment_social/publications/2006/kear06001_en.pdf

Y DU

4.15 Y Papur Gwyn ar Sgiliau – *Skills: Getting on in business, getting on at work*¹³⁶ sy'n adeiladu ar y Papur Gwyn cyntaf – *21st Century Skills*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2003, yw'r ysgogwyr polisi allweddol ar lefel y DU ar gyfer y flaenoriaeth hon. Mae'r strategaeth *Mae Pob Plentyn yn Bwysig*¹³⁷ a gyhoeddwyd yn 2003, a'r Papur Gwyrdd ar *Youth Matters*¹³⁸ a edrychodd ar agweddau tebyg ar gyfer grŵp oedran hŷn hefyd yn berthnasol i bobl ifanc yn y DU.

4.16 Cyhoeddwyd adolygiad mawr o lefelau sgiliau'r DU a'i hanghenion yn y dyfodol ym mis Rhagfyr 2006. Cyhoeddodd yr Arglwydd Sandy Leitch ei adroddiad terfynol ar sgiliau'r DU, *Prosperity for all in the global economy - World class skills*¹³⁹, sy'n cynnwys nifer o argymhellion ar sut y gellir bwrw ymlaen â gwireddu'r weledigaeth o ddatblygu'r DU fel ceffyl blaen ledled y byd o ran sgiliau erbyn 2020. Croesawodd llywodraeth ganolog y DU adroddiad Leitch a derbyniodd y cynnig i sefydlu Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau newydd. Cyhoeddir ymateb ffurfiol Llywodraeth y DU yn haf 2007, yn dilyn yr Adolygiad Gwario Cynhwysfawr.

4.17 Yng Nghymru, croesawodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r adroddiad a chyfeirir at nifer o fentrau yn yr adroddiad e.e. gwasanaethau cyngor gyrfaoedd i bob oedran sy'n cysylltu cyngor â chyfleoedd cyflogaeth go iawn. Mae llawer o'r gweithgarwch a argymhellwyd gan yr Arglwydd Leitch yn cael ei weithredu gan ddefnyddio *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*. Bydd y rhwydwaith o Gynghorau Sgiliau Sector sy'n cwmpasu'r DU gyfan yn chwarae rôl werthfawr yma yng Nghymru, o ran cyflawni'r agenda hon, a defnyddio system y Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol, sy'n darparu cymwysterau yn seiliedig ar gymhwysedd sy'n seiliedig ar safonau galwedigaethol a luniwyd gan gyflogwyr.

Cenedlaethol

4.18 Mae Cymru: *Gwlad Well* yn nodi gweledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo economi amrywiol, cystadleuol a gwerth ychwanegol uchel a chanddi sgiliau ac addysg o safon; a chymau gweithredu i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol trwy alluogi pobl a'u cymunedau i'w helpu eu hunain, a dianc o fagl tlodi.

4.19 *Cymru: Economi yn Ffynnu* - mae gan y strategaeth economaidd genedlaethol weledigaeth o economi Gymreig ffyniannus sy'n canolbwyntio ar sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy, creu cyfleoedd i bawb, a helpu i godi enillion ar gyfer pawb mewn gwaith.

¹³⁶ Papur Gwyn Sgiliau Llywodraeth y DU, *Getting on in business, getting on at work*, 2005, <http://www.dfes.gov.uk/publications/skillsgettingon/>

¹³⁷ Strategaeth Mae Pob Plentyn yn Bwysig Llywodraeth y DU 2003, <http://www.everychildmatters.gov.uk/publications/>

¹³⁸ Papur Gwyrdd Youth Matters Llywodraeth y DU, 2005, <http://www.dfes.gov.uk/publications/youth/>

¹³⁹ Adolygiad Leitch, http://www.hm-treasury.gov.uk/independent_reviews/leitch_review/review_leitch_index.cfm

4.20 Mae addysg a sgiliau yn chwarae rhan hanfodol bwysig o ran gwireddu'r weledigaeth hon ac fe'u datblygir yn fanylach mewn strategaethau polisi penodol ar gyfer addysg a sgiliau. Datblygir y nodau hyn yn fanylach mewn strategaethau polisi penodol ar gyfer addysg, sgiliau a'r economi: *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith, Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2005 a Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri* sy'n nodi camau gweithredu ar gyfer oedolion a phobl iau gyda phwyslais newydd ar ehangu'r cwricwlwm 14-19 i helpu i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd posibl, sgiliau isel ac amddifadedd. Ystyrir camau gweithredu pellach i hyrwyddo datblygu lefelau sgiliau yng Nghymru fel rhan o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Leitch 2006 ar lefelau sgiliau yn y DU, ac yng nghyd-destun *SEAP 2005*.

4.21 Mae *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith* yn nodi nod Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod y cwricwlwm ysgol yn canolbwyntio'n fwy ar sgiliau; codi'r sgôr pwyntiau ehangach ar Lefel 2; gwella cyfraddau llwyddo TGAU yng ngraddau A*-C; cyfoethogi dysgu galwedigaethol plant a phobl ifanc; gwella cyrhaeddiad disgyblion o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig; gwella safonau mewn addysg bellach a dysgu sy'n seiliedig ar waith. Mae'n nodi agenda gynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau hyn a heriau eraill sy'n cysylltu â'r amcanion economaidd yn *Cymru: Economi sy'n Ffynnu*.

4.22 Mae agenda *Llwybrau Dysgu 14-19* yn ceisio cynyddu cyfran y bobl ifanc 16 oed sydd â chymwysterau Lefel 2, a chyfran y bobl ifanc 19 oed sydd â chymwysterau Lefel 3, tra'n lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael addysg lawn amser heb unrhyw gymwysterau. Mae lleihau nifer y bobl ifanc 16-18 mlwydd oed sy'n NEET yn darged allweddol, ac felly hefyd cynyddu nifer y bobl ifanc 16 oed sy'n mynd ymlaen i ddysgu pellach, llawn amser neu'n seiliedig ar waith. Mae cysylltiad agos rhwng agenda *Llwybrau Dysgu 14-19* a pholisi *Ymestyn Hawliau* ar gyfer pobl ifanc 11-25 mlwydd oed, sy'n ceisio rhoi i bobl ifanc y cyngor, y cymorth a'r hyder sydd eu hangen er mwyn iddynt wneud penderfyniadau hyddysg a chyfranogi yn y gymdeithas. Bydd y flaenoriaeth hefyd yn gobeithio adeiladu ar y gwaith a wnaed yn yr Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru a'r pwyslais cryfach a roddir ar sgiliau ar gyfer addysg plant 7-14 blwydd oed.

4.23 Mae *Ymgeisio'n Uwch*¹⁴⁰, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch a dysgu yng Nghymru, hefyd yn darparu ysgogwr pwysig ar gyfer gwireddu'r weledigaeth o Gymru fel gwlad sy'n dysgu.

4.24 Gan gysylltu â nodau ac amcanion *Ymgeisio'n Uwch*, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru "*Polisi Gwyddoniaeth i Gymru*¹⁴¹" ym mis Tachwedd 2006. Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith ar gyfer hyrwyddo ymchwil wyddonol a thechnegol a chymhwyso'r cyfryw ymchwil at broblemau, cynhyrchion a gwasanaethau busnes. Mae'n canolbwyntio ar dri maes - agweddau ar Wyddorau Iechyd a Bywyd, technolegau ar gyfer economi garbon

¹⁴⁰ *Ymgeisio'n Uwch* Llywodraeth Cynulliad Cymru – *Strategaeth ar gyfer y Sector Addysg Uwch yng Nghymru*:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/further_and_higher_education/reaching_higher/?lang=cy

¹⁴¹ "Polisi Gwyddoniaeth i Gymru 2006" Llywodraeth Cynulliad Cymru,
<http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/science-policy-2006?lang=cy>

isel a gweithgareddau sy'n hyrwyddo adfywio economaidd a chymdeithasol parhaol. Mae'n cydnabod bod angen i fwy o bobl ifanc astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) yng Nghymru ar lefel TGAU/Lefel 2, ac ar lefelau academaidd neu alwedigaethol uwch.

4.25 Nodir pwysigrwydd cynyddu ymwybyddiaeth o ddatblygu cynaliadwy a gwella sgiliau datblygu cynaliadwy yn *Strategaeth Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang* Llywodraeth Cynulliad Cymru¹⁴². Mae'n ceisio integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni addysg a dysgu plant, pobl ifanc, ac oedolion. Hefyd mae canlyniadau a nodir yn *Strategaeth Amgylchedd Cymru*¹⁴³ yn ymwneud ag unigolion yn deall eu heffaith amgylcheddol ac yn arddel cyfrifoldeb amdani. Hyrwyddir y canlyniadau a'r nodau hyn trwy integreiddio amcanion Cynaliadwyedd Amgylchedd y rhaglen Gydgyfeirio i'r gwaith o hyrwyddo rhaglenni hyfforddi ac addysg.

4.26 Ochr yn ochr â strategaethau a fydd yn llywio thema drawsbynciol Cynaliadwyedd Amgylcheddol, caiff y gwaith o gymhwyso thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal ei lywio gan ofyniad cyfreithiol adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i ymgorffori cyfle cyfartal, a strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru – Prif Ffrydio Cydraddoldeb.

Dangosyddion Lefel Blaenoriaeth

4.27 Defnyddir y dangosyddion canlynol, sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth, i olrhain cynnydd prosiectau a'r Rhaglen. Mae'r dangosyddion allbwn a chanlyniad yn ddangosyddion monitro, y bydd angen i brosiectau adrodd ar gynnydd yn eu herbyn tra bydd y prosiect ar waith. Mae'r dangosyddion effaith yn ddangosyddion gwerthuso a dylid eu hystyried wrth wneud gwaith gwerthuso ar lefel prosiectau ac ar lefel y Rhaglen. Cynhwysir targedau ar lefel y flaenoriaeth mewn cromfachau.

4.28 Yn ogystal ag adrodd ar gynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn, bydd angen i brosiectau ddarparu gwybodaeth fonitro bellach sy'n ategu'r dangosyddion er mwyn bodloni gofynion y Comisiwn fel y nodir yn Atodiad XXIII o'r Rheoliadau Gweithredu ac i ganiatáu i WEFO asesu effeithiolrwydd y Rhaglen. Yn unol ag erthygl 66(2) o'r rheoliad cyffredinol, bydd gwybodaeth fonitro a gesglir yn caniatáu dadansoddi ystadegau yn ôl rhyw a maint yr ymgymeriadau sy'n derbyn cyllid, lle y bo hynny'n briodol.

4.29 O dan y cyfleuster hyblygrwydd y darperir ar ei gyfer gan Erth 34(2) o Reoliad (EC) 1083/2006, bydd dangosydd "mangreoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd" ERDF ar gael i ddal gweithgarwch ERDF a ariennir trwy'r Flaenoriaeth hon.

4.30 Cyflwynir targedau yn y tabl isod hefyd. Mae'n rhaid cyrraedd pob targed

¹⁴² Llywodraeth Cynulliad Cymru, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang,

http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/458586/?lang=cy

¹⁴³ Strategaeth Amgylchedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006,

http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/environment_strategy/?lang=cy

erbyn 2015. Cyflwynir adroddiadau ar ddangosyddion effaith y mae angen eu hasesu trwy waith gwerthuso yn flynyddol o 2009 ymlaen. Nodir y rhain yn Atodiad Ng – Dangosyddion.

Tabl 28: Dangosyddion a Thargedau Blaenoriaeth 1

Dangosydd	Targed (2015)
Allbynnau	
Cyfanswm y cyfranogwyr (pobl ifanc 11-19 blwydd oed)	35,000
Cyfranogwyr benywaidd	40%
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
<i>Cyfranogwyr 11-13 blwydd oed</i>	30%
<i>Cyfranogwyr 14-19 blwydd oed</i>	70%
<i>Cyfranogwyr NEET</i>	25%
<i>Cyfranogwyr benywaidd sy'n derbyn hyfforddiant mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianeg a Thechnoleg</i>	3%
Cyflogwyr sy'n cydweithredu â darparwyr addysg/hyfforddiant	500
Systemau a ddatblygwyd	-
Prosiectau sy'n defnyddio systemau mesur canlyniadau meddal	50%
Prosiectau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant	75%
Canlyniadau	
Cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau – pobl ifanc 11-19 blwydd oed	10,500
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
<i>Cyfranogwyr 14-19 blwydd oed</i>	-
<i>Cyfranogwyr NEET</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd sy'n ennill cymwysterau mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth, Peirianeg a Thechnoleg</i>	3%
<i>Lefelau cymwysterau y disgwylir iddynt eu hennill:</i>	
<i>sgiliau sylfaenol</i>	60%
<i>ar Lefel 2</i>	25%
<i>ar Lefel 3</i>	15%

Dangosydd	Targed (2015)
Cyfranogwyr sy'n ymgymryd â dysgu pellach – pobl ifanc 16-19 blwydd oed <i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	21,000
<i>Cyfranogwyr NEET</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	-
Cyfranogwyr sy'n cael canlyniadau cadarnhaol eraill ¹⁴⁴ - pobl ifanc 11-19 blwydd oed <i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	31,500
<i>Cyfranogwyr 11-13 blwydd oed</i>	-
<i>Cyfranogwyr 14-19 blwydd oed</i>	-
<i>Cyfranogwyr NEET</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	-
Cyfranogwyr sy'n symud i mewn i gyflogaeth – pobl ifanc 16-19 blwydd oed <i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	-
<i>Cyfranogwyr NEET</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	-
Effeithiau	
Cyfranogwyr mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ôl 12 mis	-
Cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau rhannol	-

Strategaeth Weithredol

4.31 Cyflawnir y flaenoriaeth trwy ddwy thema:

Thema 1: Mynd i'r Afael â Thangyflawni

4.32 Bydd y thema hon yn canolbwyntio ar wella canlyniadau addysgol pobl ifanc sydd mewn perygl o dangyflawni. Bydd yn gwneud hynny trwy:

- fynd i'r afael â dadrithiad a lleihau'r risg y bydd pobl ifanc yn gadael yr ysgol yn gynnar; ac
- diwallu anghenion penodol grwpiau difreintiedig, gan gynnwys y plant hynny a ddsbarthwyd yn NEET, pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig, troseddwy'r ifanc a phobl ifanc o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig.

¹⁴⁴ Mae canlyniadau cadarnhaol yn y cyd-destun hwn yn ganlyniadau canolog sy'n cynrychioli cynnydd tuag at gyflogaeth, ennill cymwysterau neu ddysgu pellach. Mae canlyniadau cadarnhaol yn cynnwys: cwblhau cyrsiau; ymgymryd â gwaith gwirfoddol; a sicrhau cyfwelliad am swydd.

Gweithgareddau dangosol:

- gwella mynediad i'r cwricwlwm amgen trwy ddarparu cyfleoedd galwedigaethol ehangach, ac ymestyn lleoliadau gwaith a chyfleoedd ar gyfer profiad gwaith;
- gwella rhaglenni Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) i godi hyder a sgiliau pobl ifanc trwy ymestyn mynediad i'r cymorth personol sydd ar gael i bobl ifanc ddifreintiedig, gan gynnwys cymorth trwy raglenni mentora, cyngor eirioli ac allgymorth i bobl ifanc mewn cymunedau lleol;
- darparu mentrau i hyrwyddo dysgu annibynnol a chynaliadwy a chynyddu sgiliau a phrofiadau cyfranogi e.e. defnyddio celfyddydau, chwaraeon, gwirfoddoli a gwaith cymunedol;
- treialu ymagweddau arloesol at bobl ifanc o grwpiau penodol, gan gynnwys troseddwr ifanc, pobl ifanc o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc ag anableddau neu bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig neu'r rhai sy'n gadael gofal, trwy gyflawni ymyriadau sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu a'u dileu, yn helpu i greu annibyniaeth, ac yn darparu rhaglenni mentora a chyngor eirioli unigol;
- ymchwilio i ffyrdd o nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu dadrithio, a nodi'r rhwystrau a'r ffactorau sy'n cyfrannu at ddadrithiad ac ymddieithriad yng nghyfnodau allweddol trosglwyddo i addysg uwchradd a thrwy gydol addysg uwchradd, pan fydd pobl ifanc yn 11 ac yn 16 oed;
- hyrwyddo datblygiad ymarferwyr gan gynnwys athrawon, gweithwyr proffesiynol cyfarwyddyd gyfaoedd, gweithwyr ieuencid ac arweinwyr ieuencid cymunedol, er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc ddifreintiedig yn fwy effeithiol;
- gweithgareddau a gyflawnir gan bartneriaid cymdeithasol ar y cyd i hyrwyddo cydraddoldeb mynediad i ddulliau dysgu newydd a chymwysterau cydnabyddedig newydd; ac
- gweithgareddau sy'n ceisio gwella ymwybyddiaeth a rheolaeth amgylcheddol ymhlith pobl ifanc trwy gyfleoedd dysgu a hyfforddi.

4.33 Rydym yn disgwyl i'r thema hon ddefnyddio tua 70% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Thema 2: Codi Sgiliau a Dyheadau

4.34 Bydd y thema hon yn canolbwyntio ar gynorthwyo pobl ifanc i drosglwyddo'n llwyddiannus i gyflogaeth trwy:-

- ddarparu gwell gwybodaeth a chyfarwyddyd cyflogaeth, hyfforddiant galwedigaethol ac addysg uwch ar gyfer pobl ifanc ddifreintiedig;
- darparu mynediad i ystod ehangach ac arloesol o opsiynau dysgu i ymestyn ac atgyfnerthu eu profiadau a'u sgiliau dysgu; ac
- hyrwyddo a chefnogi caffael sgiliau lefel uwch ymhlith pobl ifanc ddifreintiedig.

Gweithgareddau dangosol:

- gwell cymorth i helpu pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau dysgu a'u cymhelliant i hwyluso mynediad i lwybrau dysgu mwy ymestynnol a chymwysterau lefel uwch, a gwneud penderfyniadau mwy effeithiol yn eu gyrfaeodd dysgu;
- darparu mynediad i ystod eang o gyfleoedd profiad gwaith gan gynnwys llwybrau gwirfoddoli, treialon lleoliadau gwaith a chyfranogiad mewn ystod eang o weithgareddau yn y gymuned;
- darparu mynediad i well cyngor gyrfaeodd a gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfaeodd manwl;
- darparu mynediad i ystod ehangach o raglenni dysgu a rhaglenni yn ymwneud â gyrfaeodd yn y dyfodol, gan gynnwys darparu cyfleoedd dysgu yn y gymuned y tu allan i'r cwricwlwm ffurfiol a thraddodiadol;
- gweithio gyda'r sector busnes a'r sector gwirfoddol i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau arloesol sy'n annog pobl ifanc, yn arbennig merched ifanc, i gymryd pynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM);
- mesurau i hyrwyddo a chefnogi cysylltiadau rhwng ysgolion a busnesau i hyrwyddo gwahanol lwybrau gyrfaeodd a chodi ymwybyddiaeth o wahanol sectorau economaidd a setiau sgiliau;
- mesurau wedi'u targedu mewn ysgolion a chymunedau i godi ymwybyddiaeth o fanteision addysg uwch, gan gynnwys defnyddio mentoriaid fel modelau rôl cadarnhaol a chyfleoedd i gyfranogi mewn digwyddiadau gwybodaeth a ddarperir gan sefydliadau AU;
- hyrwyddo gweithredu cadarnhaol, gyda busnesau a chyflogwyr yn benodol, sy'n herio rhagdybiaethau a stereoteipiau traddodiadol o gyfyngiadau unigolyn;
- mentrau sy'n hyrwyddo gwell dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy, gan gyfrannu at well sgiliau bywyd; ac
- chamau gweithredu i hyrwyddo ailstrwythuro'r rhwydwaith dysgu gan ddarparu mynediad gwell, mwy cyfartal i addysg alwedigaethol, addysg sy'n seiliedig ar waith ac addysg gysylltiedig â gwaith a darpariaeth academaidd ar gyfer pobl ifanc.

4.35 Rydym yn disgwyl i'r thema hon ddefnyddio tua 30% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Partneriaid Cymdeithasol

4.36 Mae Rheoliad UE [1081/2006] Erthygl 5(3) yn darparu ar gyfer dyrannu cyfran briodol o gyllid ESF ar gyfer cefnogi gweithgareddau a gyflawnir ar y cyd gan y partneriaid cymdeithasol.

4.37 O dan y Flaenoriaeth hon, neilltuir tua 0.5% o ddyraniad y flaenoriaeth ar gyfer hyrwyddo gweithredu gyda phartneriaid cymdeithasol. Bydd gweithgareddau y bwriedir eu hariannu yn cynnwys y rhai sy'n hyrwyddo integreiddio agosach rhwng gofynion cyflogwyr a chwricwla galwedigaethol a sgiliau sylfaenol a bydd yn cynnwys:

- lleoliadau diwydiant ar gyfer athrawon neu leoliadau addysg ar gyfer busnesau;
- ymestyn lleoliadau profiad gwaith a gynorthwyr; ac
- datblygu cyfranogiad cymunedol, gwirfoddoli a gweithgareddau cyfranogi eraill i ddatblygu sgiliau dysgu a bywyd ehangach.

Gwerth Ychwanegol

4.38 Bydd adnoddau ESF yn ychwanegu gwerth at gyllidebau domestig, sy'n darparu ar gyfer mynediad cyffredinol i addysg ar gyfer pobl ifanc, trwy brofi a hyrwyddo ymagweddau arloesol at fynd i'r afael â thangyflawni, sicrhau gwell cydlyniant rhwng ymyriadau, a chodi sgiliau a dyheadau. Ni fydd yn ariannu unrhyw ddarpariaeth addysg brif ffrwd.

4.39 Bydd y Flaenoriaeth yn ychwanegu gwerth trwy ariannu ymyriadau a gweithgarwch a fydd yn cynnwys datblygu'r cwricwlwm "amgen", gan hyrwyddo yn arbennig ddysgu galwedigaethol a chymunedol, ymestyn Addysg Bersonol a Chymdeithasol, asesu datblygiad sgiliau cyfranogi a sgiliau dinasyddiaeth trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli ac ymgysylltu â'r gymuned ac ati, atgyfnerthu allgymorth i bobl ifanc ddifreintiedig mewn cymunedau lleol, gwella ystod ac ansawdd y cymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n agored iawn i niwed, e.e. troseddwr ifanc neu grwpiau penodol megis pobl anabl neu grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig, a datblygu ystod o fentrau a fydd yn helpu i ategu cyfranogiad parhaol mewn dysgu a hyfforddiant.

Buddiolwyr

4.40 Gall y rhain gynnwys, cyrff sector cyhoeddus a phreifat e.e. Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol, sefydliadau hyfforddi, ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch a sefydliadau cyfarwyddyd gyrfaoedd.

Cyfleuster Hyblygrwydd

4.41 Mae Rheoliad UE [1083/2006], Erthygl 34(2), yn darparu i ESF ariannu ymyriadau sy'n dod o fewn cwmpas ERDF (ac fel arall), ar yr amod bod angen y cyfryw ymyriadau er mwyn rhoi gweithrediad ar waith yn llwyddiannus a bod cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt â'r gweithrediad hwnnw. Er mwyn hyrwyddo gweithredu camau yn gydlynol o dan y Flaenoriaeth hon, gellir defnyddio hyd at 10% o gyfraniad yr UE at y Flaenoriaeth i ariannu'r cyfryw fuddsoddiadau cydategol. Darperir cyfiawnhad dros ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn ar lefel y gweithrediad/prosiect a nodir yr adnoddau a ddefnyddir fel hyn ar wahân mewn ceisiadau am brosiectau a'r gwariant a ddatgenir.

4.42 Mae enghreifftiau o feysydd lle y gallai croesgyllido o dan y Flaenoriaeth hon hyrwyddo gweithredu cydlynol yn cynnwys:

- costau cyfalaf ar raddfa fach sy'n ymwneud ag offer i wella'r modd y darperir darpariaeth dysgu a gefnogir gan ESF a mynediad cyfartal i ddysgu yn fwy effeithiol;
- addasu neu wella cyfleusterau sy'n bodoli eisoes i hyrwyddo gweithredu camau a ariennir gan ESF yn llwyddiannus; ac
- costau cyfalaf ar raddfa fach sy'n gysylltiedig â datblygu'r cwricwlwm dysgu galwedigaethol ar gyfer pobl ifanc.

Grantiau Cyffredinol

4.43 Nid ydym yn rhagweld y defnyddir Grantiau Cyffredinol fel y'u diffinnir gan Reoliad UE [1083/2006], Erthygl 42.

Blaenoriaeth Esf 2: Cynyddu Cyflogaeth A Mynd I'r Afael Ag Anweithgarwch Economaidd

Amcan

4.44 Codi lefelau cyflogaeth a gweithgarwch economaidd, a sicrhau cyfraddau cyfranogiad uwch yn y farchnad lafur.

Grwpiau Targed

4.45 Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar bobl economaidd anweithgar, gyda'r nod o'u helpu i mewn i gyflogaeth barhaol¹⁴⁵. Bydd ymyriadau hefyd ar gael i bobl ddi-waith sy'n wynebu anfantaes benodol ac y mae angen cymorth arnynt y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael o dan ddarpariaeth brif ffrwd, a'r rhai sydd wedi derbyn rhybudd diswyddo ffurfiol. Bydd hefyd yn helpu pobl â chyflyrau iechyd ac anabledau sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio i aros mewn gwaith pan allant fod mewn perygl o fynd yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Bydd grwpiau targed allweddol o bobl economaidd anweithgar a di-waith yn cynnwys pobl sy'n derbyn budd-daliadau analluogrwydd, pobl ifanc sy'n NEET, pobl o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, merched sy'n dychwelyd i'r gwaith, pobl hŷn sydd am ailddechrau gweithio, rhieni unigol, ac amrywiaeth o grwpiau llai eraill sy'n wynebu anfanteision yn y farchnad lafur, ac unigolion sydd wedi derbyn rhybudd diswyddo ffurfiol.

Rhesymeg

4.46 Dengys dadansoddi'r elfennau sy'n cyfrannu at berfformiad economaidd cyffredinol mai'r ffactor allweddol sy'n gyfrifol am y bwlch cyffredinol mewn GYC y pen yng Nghymru, o gymharu â chyfartaledd y DU, yw sefyllfa anffafriol y farchnad lafur e.e. cyflogaeth i oedran gweithio. Mae hyn yn golygu bod llai o oedolion o oedran gweithio mewn gwaith yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nag yng ngweddill Cymru a'r DU a'r prif reswm am hyn yw bod gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd gyfran fawr o unigolion economaidd anweithgar, yn hytrach na diweithdra. Mae angen cymryd camau i helpu'r unigolion hyn i mewn i gyflogaeth gynaliadwy a hefyd atal eraill rhag symud i mewn i anweithgarwch economaidd hirdymor trwy feithrin eu gallu i reoli cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Er mwyn ategu twf economaidd, mae'n rhaid denu mwy o bobl i mewn i gyflogaeth a'u cynorthwyo i integreiddio i'r farchnad lafur yn yr hirdymor.

4.47 Nid yn unig y bydd cynyddu cyflogaeth yn cael effaith gadarnhaol ar economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, bydd hefyd yn lleihau tlodi a salwch, ac yn mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol. Y ffordd orau o helpu unigolion, teuluoedd a chymunedau i ddianc o'r cylch o dlodi ac amddifadedd yw trwy gyflogaeth. Gall cynyddu cyflogaeth hefyd leihau cylchoedd o anweithgarwch a chyflawniad isel sy'n pontio'r cenedlaethau trwy godi gorwelion a chyrhaeddiad addysgol.

¹⁴⁵ Yn y cyd-destun hwn mae cyflogaeth barhaol yn golygu aros mewn cyflogaeth am o leiaf 12 mis. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl sy'n aros mewn gwaith am 12 mis ar ôl cyfnod o anweithgarwch yn llawer iawn mwy tebygol o aros mewn gwaith.

4.48 Ystyrir natur anweithgarwch economaidd yn fanwl yn y dadansoddiad a chymerir gwahaniaethau rhwng grwpiau i ystyriaeth wrth lunio ymyriadau. Bydd angen cymorth wedi'i deilwra ar rai grwpiau megis pobl sgil isel, rhieni unigol, cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, pobl â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, pobl anabl a gweithwyr ymfudol i'w galluogi i ymuno neu ailymuno â'r farchnad lafur. Gall y rhain gynnwys cymorth i reoli cyflyrau iechyd ac anabledau sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio, cymorth i gyflawni cyfrifoldebau gofalu (yn arbennig cyfrifoldebau gofalu am blant a ysgwyddir gan lawer o ferched), cymorth gyda phroblemau trafndiaeth a chynorthwyo pobl heb brofiad diweddar, perthnasol o'r farchnad lafur. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai ymyriadau personol a arweinir gan gynghorwyr ar y cyd â rhaglenni mentora priodol a phrofiad gwaith a chymhellion ariannol dethol sydd fwyaf effeithiol.

4.49 Gall dibyniaeth ariannol a diwylliannol ar fudd-daliadau anweithgar ynghyd â chred y collir y diogelwch ariannol a grëir gan y system fudd-daliadau gyfredol atal llawer o unigolion rhag chwilio am waith. Mae pwysau gan gymheiriaid o fewn cymunedau lleol ac o fewn rhai grwpiau oedran yn arwain at ddibyniaeth ar oes o fudd-daliadau a gallai ddatblygu yn ddiwylliant o fod heb waith ar draws teuluoedd, cenedlaethau a chymunedau. Mae ymyriadau prif ffrwd, er enghraifft cynlluniau peilot y Bargeinion Newydd a *Llwybrau at Waith* Llywodraeth y DU, wedi tueddu i dargedu'r llif o unigolion i mewn i ddiweithdra ac anweithgarwch hirdymor. Bu'r camau a gymerwyd i helpu'r rhai sydd eisoes yn hawlio budd-daliadau, yn arbennig y stoc o bobl economaidd anweithgar hirdymor, yn fwy cyfyngedig. Mae datblygiadau diweddar o dan ddarpariaeth y Bargeinion Newydd a *Llwybrau at Waith* wedi ymestyn cymorth i'r unigolion hynny a fu'n derbyn budd-daliadau ers dwy flynedd ond er gwaethaf hynny, mae angen rhagor o gydweithredu i ddod â phobl anweithgar hirdymor yn ôl i'r farchnad lafur. Byddai gweithgarwch yn y dyfodol yn adeiladu ar lwyddiant prosiectau megis *Yn Awyddus i Weithio*, a ddatblygwyd mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chanolfan Byd Gwaith Cymru yn rhaglenni 2000-2006 trwy ymestyn cyrhaeddiad rhaglenni prif ffrwd i'r grwpiau cleientiaid mwy difreintiedig.

4.50 Bydd cymorth parhaus i sicrhau cyflogaeth hirdymor yn hanfodol bwysig. Nid yn unig y mae angen cymryd camau i helpu rhagor o bobl i mewn i waith ond hefyd i'w helpu i aros mewn gwaith ac atal y llif yn ôl i mewn i anweithgarwch economaidd. Ar ben hynny mae angen darparu cymorth ar unwaith ar gyfer gweithwyr sydd wedi derbyn rhybudd diswyddo ffurfiol fel y cânt bob cyfle i ganfod swyddi eraill, ac osgoi llithro i mewn i ddiweithdra neu anweithgarwch hirdymor. Mae mentrau megis REACT wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymhathu unigolion mewn cyflogaeth.

4.51 Ar ôl i unigolyn fod mewn gwaith am 12 mis, mae'r tebygolrwydd y byddant yn parhau mewn gwaith hirdymor yn cynyddu'n sylweddol. Mae darparu cymorth (yn cynnwys cymorth ariannol) ar ôl iddynt gael eu recriwtio yn ystod yr ychydig wythnosau a misoedd cyntaf yn gam pwysig o ymyrraeth integredig unigol. Ar yr un pryd, yn aml nid oes fawr ddim cymhellion yn ychwanegol at y rhai rheoliadol, i gyflogwyr reoli unrhyw gyflyrau iechyd sydd gan eu cyflogeion sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn iawn. Problemau iechyd meddwl ac anhwylderau cyhyrysgerbydol yw prif achosion absenoldeb oherwydd salwch. Mae camau gweithredu i wella iechyd yn y gwaith, atal pobl rhag mynd yn sâl yn

y gwaith, a darparu ymyriadau cynnar i helpu i gadw pobl mewn cyflogaeth yn allweddol i atal y llif i mewn i ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd hirdymor. Gall ymyriadau cynnar a defnydd effeithiol o wasanaethau iechyd galwedigaethol ar gyfer cyflogeion sy'n absennol am gyfnodau hir ddwyn manteision i'r unigolyn a'r cyflogwr trwy adfer iechyd cyflogeion fel y gallant ddychwelyd i'r gwaith yn gyflymach¹⁴⁶. Gall defnyddio gwasanaethau adsefydlu yn effeithiol hefyd leihau'r posibilrwydd y bydd cyflogeion yn mynd yn sâl yn y dyfodol. Mae sefydliadau craff yn cydnabod bod ymagwedd gyfannol at reoli iechyd a lles eu cyflogeion yr un mor bwysig i lwyddiant economaidd eu busnesau â rheolaeth ariannol dda.

4.52 Gall y problemau sy'n gysylltiedig â chyfuno gwaith â bywyd teuluol a chyfrifoldebau eraill arwain at danddefnyddio sgiliau. Mae hyn yn broblem benodol i ferched, sy'n dal i dueddu i ymgymryd â'r mwyafrif o'r cyfrifoldebau gofalu gartref, yn arbennig o ran gofal plant. Er bod lefelau cyflogaeth ymhlith merched wedi bod yn codi, maent wedi bod yn codi ymhlith merched hŷn yn bennaf sy'n llai tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu am blant. Mae merched yn aml yn ei chael yn anodd i gael mynediad i raglenni hyfforddi ac mae hyn hefyd yn cyfyngu ar eu potensial economaidd.

4.53 Yn ogystal â'r manteision economaidd hyn i deuluoedd a'r rhanbarth yn gyffredinol, dangosodd gwerthusiadau yn y DU ac mewn gwledydd eraill fanteision gofal blynyddoedd cynnar o safon ar gyfer plant difreintiedig o ran canlyniadau bywyd gan gynnwys addysg, iechyd a chyflogaeth. Felly gall gofal plant o safon gyfrannu'n uniongyrchol at greu lefel uwch o sgiliau yn yr economi, yn ogystal â mwy o gydlyniant cymdeithasol.

4.54 Mae gan bartneriaid cymdeithasol rôl allweddol i'w chwarae wrth helpu i hyrwyddo integreiddio'r rhai sy'n byw gryn bellter o'r farchnad lafur neu sydd o dan gryn anfantais yn y farchnad lafur yn gynaliadwy mewn cyflogaeth. Bydd y rhaglen yn hyrwyddo mesurau i feithrin gallu partneriaid cymdeithasol, trwy hyfforddiant a rhwydweithio i ganiatáu iddynt chwarae rôl gryfach yn lleol a chynyddu'r potensial ar gyfer cydweithredu â phartneriaid allweddol eraill. Mae'r cysylltiadau rhwng afiechyd, sgiliau isel a diweithdra ac anweithgarwch economaidd bellach wedi'u hen sefydlu. Mae rhaglenni wedi'u hanelu at weithio gyda chyflogwyr i ddatblygu eu sgiliau, gwella iechyd yn y gwaith, atal pobl rhag mynd yn sâl yn y gwaith a darparu ymyriadau cynnar sy'n helpu i gadw pobl mewn cyflogaeth yn allweddol i atal y llif i mewn i ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd hirdymor.

4.55 Ar ben hynny mae cysylltiadau pwysig i'w gwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol. Ceir mwy a mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn y rhanbarth mewn sectorau sy'n dibynnu ar amgylchedd naturiol da a ffyrdd iach o fyw, megis twristiaeth a chwaraeon. Gall codi ymwybyddiaeth o faterion ac ystyriaethau amgylcheddol, a hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw, helpu i baratoi pobl anweithgar ar gyfer cyflogaeth yn y sectorau hyn sy'n tyfu, a llywio eu dealltwriaeth o sut y gallant hyrwyddo arferion amgylcheddol gwell.

¹⁴⁶ Adroddiad arolwg y CBI, 'Absence Minded: Absence and labour turnover', 2006.

Cyd-destun Polisi

Ewropeaidd

4.56 Bydd y flaenoriaeth hon yn ymdrin â'r ddau argymhelliad cyflogaeth i'r DU yn 2004 fel rhan o Strategaeth Gyflogaeth Ewrop. Mae'r rhain yn galw am weithredu i:

- sicrhau bod polisiau marchnad lafur gweithredol a systemau budd-daliadau yn atal datsgilio ac yn hyrwyddo cydraddoldeb yn y gwaith, trwy wella cymhellion i weithio a hyrwyddo integreiddio pobl anweithgar a di-waith yn gynaliadwy yn y farchnad lafur a'u cynorthwyo i wneud cynnydd ynddi; ac
- mynd i'r afael â'r nifer gynyddol o bobl sy'n hawlio budd-daliadau salwch neu anabledd, a rhoi sylw arbennig i rieni unigol a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

4.57 Mae'r flaenoriaeth hefyd yn adlewyrchu'r strategaethau a'r egwyddorion canlynol sy'n dylanwadu ar brosesau llunio a chyflawni polisiau yng Nghymru:

- Communiqué Maastricht ar atgyfnerthu cydweithredu Ewropeaidd ym meysydd Addysg Alwedigaethol a Hyfforddiant, lle y galwodd Gweinidogion Addysg ar i'r Cronfeydd Strwythurol gefnogi camau gweithredu sy'n diweddarau sgiliau poblogaeth sy'n heneiddio¹⁴⁷.
- mae gweithgareddau ym maes iechyd galwedigaethol a hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn ymateb i'r nodau a nodir yn *Strategaeth Iechyd a Diogelu Defnyddwyr 2005*¹⁴⁸, sy'n pwysleisio'r cyfraniad a wna iechyd at gynhyrchiant, cyfranogiad gweithwyr a thwf economaidd, yn arbennig yng nghyd-destun gweithlu sy'n heneiddio;
- lle y bo hynny'n briodol, dylai prosiectau a gefnogir trwy'r ail Raglen Gweithredu Cymunedol ym maes iechyd (2007–2013)¹⁴⁹ chwilio am synergeddau â'r rhai a gyflawnir o fewn y flaenoriaeth hon, yn arbennig am fod y rhaglen gweithredu iechyd yn canolbwyntio'n gryf ar 'hyrwyddo iechyd ar gyfer ffyniant a chydymddibyniad';
- mae'r Papur Gwyrdd 'Hyrwyddo dietau iach a gweithgarwch corfforol: dimensiwn Ewropeaidd ar gyfer atal afiechydon yn gysylltiedig â bod yn rhy drwm ac yn ordew ac afiechydon cronig'¹⁵⁰, a ddeilliodd o'r strategaeth (2005) yn pwysleisio costau ariannol iechyd gwael ac yn

¹⁴⁷ Communiqué Maastricht ar Flaenoriaethau Gwella Cydweithredu Ewropeaidd yn y Dyfodol yn Vocational Education and Training (VET) 14 Rhagfyr 2004:

http://www.bologna-bergen2005.no/Docs/00-Main_doc/041214_Maastricht_com_en.pdf

¹⁴⁸ Strategaeth Iechyd a Diogelu Defnyddwyr – Healthier, safer, more confident citizens: a Health and Consumer protection Strategy COM (2005) 115:

http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/com/2005/com2005_0115en01.pdf

¹⁴⁹ Testun cynnig Diwygiedig y Comisiwn yn sefydlu ail Raglen Gweithredu Cymunedol ym maes iechyd a diogelu defnyddwyr (2007–2013) COM (2006) 234:

http://ec.europa.eu/health/ph_overview/Documents/com_20060524_en.pdf

¹⁵⁰ Papur Gwyrdd ar 'Hyrwyddo dietau iach a gweithgarwch corfforol: dimensiwn Ewropeaidd ar gyfer atal clefydau yn gysylltiedig â bod yn rhy drwm, yn ordew a chlefydau cronig' COM (2005) 637:

http://ec.europa.eu/health/ph_determinants/life_style/nutrition/documents/nutrition_gp_en.pdf

nodi bod gan leoliad y gweithle botensial cryf i hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw; ac

- pwyslais cryf ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn agenda Lisboa a Göteborg, a'r angen i wella ymwybyddiaeth a sgiliau fydd eu hangen i ymateb i heriau amgylcheddol yn awr ac yn y dyfodol.

Y DU

4.58 Bydd y flaenoriaeth hon a'i themâu yn ceisio ymdrin ag amcanion a nodau'r polisïau canlynol sydd ar lefel y DU yn ogystal â'r polisïau hynny ar lefel yr UE a lefel genedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth y DU, trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn dal i fod â'r cyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu polisi cyflogaeth, ac mae'n hyrwyddo darparu ystod o fesurau marchnad lafur gweithredol. Mae rhaglenni allweddol a ddarperir gan y Ganolfan Byd Gwaith yn cynnwys y Fargen Newydd sydd wedi ymestyn cymorth, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, y tu hwnt i bobl ddi-waith gofrestredig i gynnwys y rhai a ddsbarthwyd fel pobl economaidd anweithgar, a menter '*Llwybrau at Waith*' sy'n targedu cymorth tuag at bobl sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith hefyd yn gyfrifol am ddarparu'r Gwasanaeth Ymateb Cyflym, sy'n ceisio helpu pobl yr effeithir arnynt gan ddiswyddiadau sylweddol i drosglwyddo'n llwyddiannus i mewn i swyddi o ansawdd.

4.59 O fis Hydref 1 2006, mae'r cyfreithiau newydd i ddiogelu gweithwyr rhag gwahaniaethau ar sail oedran, sef y Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gyflogwyr wahaniaethu yn erbyn cyflogaeth, hyfforddedigion neu geiswyr gwaith oherwydd eu hoedran a sicrhau bob gan bob gweithiwr, ni waeth beth fo'i oedran, yr un hawliau o ran hyfforddi a dyrchafiad.

4.60 Bydd angen i'r rhaglen ystyried datblygiadau yn y dyfodol o dan Bapur Gwyrdd DWP: "*Bargen Newydd ar gyfer Lles: Galluogi pobl i Weithio*"¹⁵¹, sy'n nodi cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio'r system fudd-daliadau yn y tymor hwy, a gweithredu i wella darpariaeth iechyd galwedigaethol.

4.61 Yn ogystal â systemau lles a'r newidiadau arfaethedig iddynt sy'n effeithio ar y flaenoriaeth hon, mae *Strategaeth Iechyd, Gwaith a Lles*¹⁵² y DU a luniwyd gan yr Adran Iechyd, DWP a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn ceisio dod â phawb sydd â rôl i'w chwarae o ran iechyd pobl o oedran gweithio at ei gilydd. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar leihau llif y bobl allan o waith ac i mewn i ddiweithdra oherwydd materion iechyd a bydd yn cyfeirio ffocws y flaenoriaeth o ran mynd i'r afael â chyflyrau sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio a chynorthwyo ymyriadau iechyd yn ymwneud â gwaith.

¹⁵¹ Papur Gwyrdd DWP: Bargen Newydd ar gyfer Lles: Galluogi pobl i Weithio: http://www.dwp.gov.uk/welfare-reform/docs/A_new_deal_for_welfare-Empowering_people_to_work-Full_Document.pdf

¹⁵² DWP, HSE a'r Adran Iechyd, Strategaeth "Iechyd, Gwaith a Lles: Gofalu am ein dyfodol": http://www.dwp.gov.uk/publications/dwp/2005/health_and_wellbeing.pdf

Cenedlaethol

4.62 Nodir agenda polisi cyffredinol Cymru trwy ddogfen strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cymru: Gwlad Well* sy'n nodi bod helpu rhagor o bobl i mewn i swyddi yn un o'i phedair blaenoriaeth allweddol. Mae'n cydnabod bod angen rhoi i bobl a'u cymunedau yr offer economaidd, sy'n cynnwys gwell mynediad i addysg a hyfforddiant o ansawdd gwell, swyddi a chyfleoedd cyflogaeth, i'w galluogi i ddianc o'r fagl dlodi a bywyd o amddifadedd.

4.63 Datblygir yr ymagwedd ymhellach gan agenda datblygu economaidd strategol Cymru a nodir yn *Cymru: Economi yn Ffynnu*, sy'n canolbwyntio sylw ar sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy a chyfleoedd i bawb. Ategir a hyrwyddir y strategaeth hon gan *Gynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*, sy'n datblygu agenda dysgu gydol oes Cymru ac yn dangos ymrwymiad Cymru i gyflawni amcanion Strategaeth Gyflogaeth Ewrop.

4.64 Datblygir amcanion polisi'r flaenoriaeth hon ymhellach yn *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith*, sy'n nodi agenda uchelgeisiol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

4.65 O gofio natur drawsbynciol yr amrywiaeth o rwystrau sy'n wynebu unigolion o ran cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy ac aros ynddi, bydd hefyd cysylltiadau cryf â nifer o strategaethau allweddol eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef *Strategaeth Pobl Hŷn Cymru*¹⁵³; *Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant*¹⁵⁴, *Cynllun Oes: Gwasanaeth Iechyd o'r Radd Flaenaf i Gymru*¹⁵⁵, *Her Iechyd Cymru*¹⁵⁶, *Lles yng Nghymru*, a *Gwell Iechyd, Gwell Cymru*. Ar ben hynny gosodir gweithredu mewn cyd-destun gofodol trwy ddefnyddio *Cynllun Gofodol Cymru*.

4.66 Nodir pwysigrwydd gwella ymwybyddiaeth o faterion datblygu cynaliadwy a sgiliau datblygu cynaliadwy yn *Strategaeth Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang* Llywodraeth Cynulliad Cymru¹⁵⁷. Mae'n ceisio integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni addysg a dysgu ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Hefyd mae canlyniadau a nodir yn *Strategaeth Amgylchedd Cymru* yn ymwneud ag unigolion yn deall eu heffaith amgylcheddol ac yn arddel cyfrifoldeb amdani a newidiadau mewn ymddygiad sy'n helpu i leihau effeithiau negyddol. Hyrwyddir y nodau a'r canlyniadau hyn trwy integreiddio amcanion cynaliadwyedd Amgylcheddol y Rhaglen Gydygyfeirio mewn rhaglenni hyfforddi ac addysg a gynorthwyr.

¹⁵³ Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/935800/?lang=cy>

¹⁵⁴ Ar gyfer Plant y Mae Gofal Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru:

[http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/Guidance and Information/childcare-strategy-w.pdf?lang=cy](http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/Guidance%20and%20Information/childcare-strategy-w.pdf?lang=cy)

¹⁵⁵ Strategaeth Iechyd Cynllun Oes

<http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/dhss/reportswelsh/designed-life-w.pdf?lang=en>

¹⁵⁶ Her Iechyd Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/health/improvement/hcw/?lang=cy>

¹⁵⁷ Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru "Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang",

http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/458586/?lang=cy

4.67 Ochr yn ochr â strategaethau a fydd yn llywio thema drawsbynciol Cynaliadwyedd Amgylcheddol, caiff y gwaith o gymhwyso thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal ei lywio gan ofyniad cyfreithiol adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i ymgorffori cyfle cyfartal, a strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru – Prif Ffrydio Cydraddoldeb.

Dangosyddion Lefel Blaenoriaeth

4.68 Defnyddir y dangosyddion canlynol, sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth, i olrhain cynnydd prosiectau a'r Rhaglen. Mae'r dangosyddion allbwn a chanlyniad yn ddangosyddion monitro, y bydd angen i brosiectau adrodd ar gynnydd yn eu herbyn tra bydd y prosiect ar waith. Mae'r dangosyddion effaith yn ddangosyddion gwerthuso a dylid eu hystyried wrth wneud gwaith gwerthuso ar lefel prosiectau ac ar lefel y Rhaglen.

4.69 Yn ogystal ag adrodd ar gynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn, bydd angen i brosiectau ddarparu gwybodaeth fonitro bellach sy'n ategu'r dangosyddion er mwyn bodloni gofynion y Comisiwn fel y nodir yn Atodiad XXIII o'r Rheoliadau Gweithredu ac i ganiatáu i WEFO asesu effeithiolrwydd y Rhaglen. Yn unol ag erthygl 66(2) o'r rheoliad cyffredinol, bydd gwybodaeth fonitro a gesglir yn caniatáu dadansoddi ystadegau yn ôl rhyw a maint yr ymgymeriadau sy'n derbyn cyllid, lle y bo hynny'n briodol.

4.70 O dan y cyfleuster hyblygrwydd y darperir ar ei gyfer gan Erth 34(2) o Reoliad (EC) 1083/2006, bydd dangosydd "mangreoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd" ERDF ar gael i ddal gweithgarwch ERDF a ariennir trwy'r Flaenoriaeth hon.

4.71 Cyflwynir targedau yn y tabl isod hefyd. Mae'n rhaid cyrraedd pob targed erbyn 2015. Cyflwynir adroddiadau ar ddangosyddion effaith y mae angen eu hasesu trwy waith gwerthuso yn flynyddol o 2009 ymlaen. Nodir y rhain yn Atodiad Ng – Dangosyddion.

Tabl 29 – Dangosyddion a Thargedau Blaenoriaeth 2

Dangosydd	Targed (2015)
Allbynnau	
Cyfanswm y cyfranogwyr	135,000
Cyfranogwyr benywaidd	51%
Cyfranogwyr – Pobl economaidd anweithgar a di-waith	110,000
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
<i>Economaidd anweithgar</i>	50%
<i>Di-waith¹⁵⁸</i>	50%
<i>Cyfranogwyr NEET</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	52%
<i>Cyfranogwyr BME</i>	-
<i>Cyfranogwyr hŷn</i>	40%
<i>Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	55%
<i>Rhieni unigol</i>	8%
Cyfranogwyr – Cyflogedig	25,000
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
<i>Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	100%
<i>Cyfranogwyr sy'n derbyn cymorth unigoledig gyda gwaith - cyflyrau iechyd neu anabledd cyfyngus</i>	4%
<i>Cyfranogwyr sy'n derbyn cymorth cyffredinol gyda gwaith - cyflyrau iechyd neu anabledd cyfyngus</i>	96%
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	47%
<i>Cyfranogwyr BME</i>	-
<i>Cyfranogwyr hŷn</i>	27%
Cyflogwyr a gynorthwyr neu sy'n derbyn cymorth ariannol	5,000
Cyfranogwyr sy'n derbyn cymorth gyda chyfrifoldebau gofalu	-
Prosiectau sy'n defnyddio systemau mesur canlyniadau meddal	50%
Prosiectau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddi	75%

¹⁵⁸ Mae'r grŵp ymyrraeth di-waith yn cynnwys unigolion sydd wedi derbyn rhybudd diswyddo ffurfiol

Dangosydd	Targed (2015)
Canlyniadau	
Cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau – Pobl economaidd anweithgar a di-waith	31,500
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
<i>Economaidd anweithgar</i>	-
<i>Di-waith</i>	-
<i>Cyfranogwyr NEET</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	-
<i>Cyfranogwyr BME</i>	-
<i>Cyfranogwyr hŷn</i>	-
<i>Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Rhiant unigol</i>	-
 <i>Lefelau cymwysterau y disgwylir iddynt eu hennill:</i>	
<i>Sgiliau sylfaenol</i>	55%
<i>ar Lefel 2</i>	30%
<i>ar Lefel 3</i>	10%
<i>Lefel 4 ac uwch</i>	5%
Cyfranogwyr sy'n ymgymryd â chyflogaeth – Pobl economaidd anweithgar a di-waith	27,500
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
<i>Economaidd anweithgar</i>	-
<i>Di-waith</i>	-
<i>Cyfranogwyr NEET</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	-
<i>Cyfranogwyr BME</i>	-
<i>Cyfranogwyr hŷn</i>	-
<i>Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Rhieni unigol</i>	-

Dangosydd	Targed (2015)
Cyfranogwyr sy'n ymgymryd â dysgu pellach – Pobl economaidd anweithgar a di-waith	36,700
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
<i>Economaidd anweithgar</i>	-
<i>Di-waith</i>	-
<i>Cyfranogwyr NEET</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	-
<i>Cyfranogwyr BME</i>	-
<i>Cyfranogwyr hŷn</i>	-
<i>Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Rhieni unigol</i>	-
Cyfranogwyr sy'n cael canlyniadau cadarnhaol eraill ¹⁵⁹ – Pobl economaidd anweithgar neu ddi-waith	36,700
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
<i>Economaidd anweithgar</i>	-
<i>Di-waith</i>	-
<i>Cyfranogwyr NEET</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	-
<i>Cyfranogwyr BME</i>	-
<i>Cyfranogwyr hŷn</i>	-
<i>Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Rhieni unigol</i>	-
Rhaglenni iechyd yn y gweithle	200
Cyflogwyr sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	50%
Effeithiau	
Cyfranogwyr mewn cyflogaeth ar ôl 12 mis	
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
<i>Economaidd anweithgar</i>	
<i>Di-waith</i>	-
<i>Cyflogedig¹⁶⁰</i>	-
<i>Cyfranogwyr NEET</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	-
<i>Cyfranogwyr BME</i>	-
<i>Cyfranogwyr hŷn</i>	-
<i>Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	-
<i>Rhieni unigol</i>	-
Cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau rhannol	

¹⁵⁹ Mae canlyniadau cadarnhaol yn ganlyniadau canolradd, gan gynnwys: cwblhau cyrsiau; ymgymryd â gwaith gwirfoddol; a mynychu cyfweiliadau swydd.

¹⁶⁰ Mae hyn yn cyfeirio at gyfranogwyr cyflogedig yn cael mynediad i gymorth Thema 2 i'w galluogi i aros mewn gwaith.

Strategaeth Weithredol

Thema 1 – Helpu Pobl i mewn i Gyflogaeth Gynaliadwy

4.72 Mae'r thema hon yn ceisio cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd trwy ddod â mwy o bobl i mewn i gyflogaeth. Cyflawnir hyn trwy:

- weithredu polisiau marchnad lafur gweithredol a chynorthwyo pobl i oresgyn ystod eang o rwystrau i gyflogaeth gynaliadwy; ac
- helpu i fynd i'r afael â rhwystrau penodol a wynebir gan grwpiau difreintiedig.

Gweithgareddau Dangosol

- mesurau marchnad lafur gweithredol, gan gynnwys cymorth gan gynghorwyr unigol i helpu unigolion i chwilio am waith; cyngor ar yrfaeod, cyngor ac arweiniad arall, gwybodaeth am gyfleoedd dysgu, cymhellion ariannol, profiad gwaith a lleoliadau treialu gwaith, gan gynnwys profiad a lleoliadau gwirfoddol;
- cymorth i gaffael sgiliau perthnasol i waith sydd eu hangen i gymryd cam i mewn i gyflogaeth neu hunangyflogaeth fel llwybr allan o ddiweithdra neu anweithgarwch;
- rhaglenni sy'n cynnig cymorth i ddychwelyd i waith ar gyfer y rhai a ddiswyddwyd, gan gynnwys y rhai sydd wedi derbyn rhybudd diswyddo ffurfiol;
- darparu gwasanaethau ymgysylltu a chefnogi allgymorth arbenigol ar gyfer pobl dan anfantais, gan gynnwys pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- gwella mynediad i gymorth fforddiadwy a phriodol ar gyfer pobl â chyfrifoldebau gofalu, yn arbennig gofal plant;
- datblygu ymagweddau arloesol i helpu goresgyn rhwystrau trafndiaeth, gan gynnwys gweithio gartref yn ogystal ag atebion trafndiaeth hyblyg;
- datblygu a chyflawni strategaethau ymgysylltu â chyflogwyr, gan gynnwys ymyriadau i'w hannog i ddarparu lleoedd profiad gwaith;
- cymhellion ysgogi a chymorth i gyflogwyr gyflogi unigolion hŷn;
- gweithgareddau i hyrwyddo gwaith mwy cydweithrediadol rhwng y sectorau iechyd a chyflogaeth, gan gynnwys gwaith gyda meddygon teulu a darparwyr gofal sylfaenol eraill;
- darparu cyngor a chanllawiau ar reoli cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio mewn cyflogaeth
- cymorth ar gyfer pobl a fu gynt yn anweithgar am gyfnod hir sy'n ymgymryd â chyflogaeth, a'u cyflogwyr, ynghyd â chymhellion sefydlu a chadw, i atal "cyflogaeth ddrws tro"; ac
- mesurau sy'n herio rolau cyflogaeth traddodiadol ar gyfer dynion a merched ac sy'n cynorthwyo'r ddau i ymgymryd â chyflogaeth mewn meysydd anhraddodiadol, yn arbennig lle y mae prinderau sgiliau.

4.73 Rydym yn disgwyl i'r thema hon ddefnyddio tua 92% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Thema 2 – Helpu Pobl i Barhau mewn Gwaith

4.74 Bydd y thema hon yn canolbwyntio ar gynyddu cyflogaeth trwy ddatblygu camau gweithredu cydgysylltiedig i leihau'r risg y bydd pobl yn symud allan o waith i mewn i ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd hirdymor am fod ganddynt gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio neu am eu bod yn datblygu'r cyfryw gyflwr iechyd. Cyflawnir hyn trwy helpu cyflogwyr i gadw pobl mewn cyflogaeth a gweithio gyda'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddi-waith.

Gweithgareddau Dangosol

- datblygu a chyflawni rhaglenni iechyd yn y gweithle sy'n cynorthwyo pobl i reoli problemau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn y gwaith, yn arbennig pan fyddant yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl bob yn absennol oherwydd salwch, i helpu i osgoi afiechyd yn gysylltiedig â'r gwaith, a gwella cyflwr cyffredinol eu hiechyd; ac
- darparu cyngor a chanllawiau ar reoli cyflyrau iechyd ar gyfer cyflogwyr, ac ar gyfer unigolion â chyflyrau ac anabledau corfforol a meddyliol sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

4.75 Rydym yn disgwyl i'r thema hon ddefnyddio tua 8% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Partneriaid Cymdeithasol

4.76 Mae Rheoliad UE 1081/2006 Erthygl 5 (3), yn darparu ar gyfer dyrannu cyfran briodol o ESF ar gyfer cefnogi gweithgareddau a gyflawnir ar y cyd gan y partneriaid cymdeithasol.

4.77 O dan y Flaenoriaeth hon, neilltuir tua 0.5% o ddyraniad y flaenoriaeth ar gyfer hyrwyddo gweithredu gyda phartneriaid cymdeithasol. Bydd gweithgareddau y bwriedir eu hariannu yn cynnwys y rhai sy'n hyrwyddo ymgysylltu rhwng cyflogwyr a grwpiau gwirfoddol a chymunedol i sicrhau y gall pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar symud ymlaen i mewn i gyflogaeth gynaliadwy. Bydd gweithgareddau enghreifftiol yn cynnwys:

- trefniadau partneriaeth â chyflogwyr i ddarparu profiad gwaith a neu leoliadau gwirfoddol;
- cynorthwyo cyflogwyr i helpu pobl a fu'n ddi-waith ac yn economaidd anweithgar ers amser hir i aros mewn gwaith; ac
- mentora a chymorth ar gyfer unigolion trwy gydol yr ymyriad a phan fyddant yn dechrau gweithio.

Gwerth Ychwanegol

4.78 Bydd y Flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar ychwanegu gwerth at raglenni cyflogaeth Llywodraeth y DU trwy ymestyn ystod y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gynlluniau'r Bargeinion Newydd a Llwybrau at Waith i'r rhai sydd bellaf i

ffwrdd o'r farchnad lafur a lleiaf abl i gael mynediad i'r gweithgareddau a'r ymyriadau cysylltiedig â gwaith a ddarperir o dan y cyfryw raglenni.

4.79 Bydd ymyriadau a chymorth sydd ar gael trwy'r rhaglen hon yn ceisio dod â phobl a fu'n anweithgar ers amser hir yn agosach at y farchnad lafur a darparu system ar gyfer goresgyn ystod fwy sefydledig o rwystrau unigol i gyflogaeth. Bydd yn gwneud hynny trwy gynyddu'r ystod o gymwysterau, ymyriadau, a chanlyniadau, a chynyddu cyfranogiad buddiolwyr yn y rhaglenni prif ffrwd, a chynaliadwyedd tra eu bod yn cymryd rhan yn y rhaglenni.

4.80 Bydd y rhaglen yn adeiladu ar gamau a gymerwyd eisoes trwy raglenni Llywodraeth y DU yn hytrach na'u hailadrodd. Bydd yn ymestyn gweithgarwch allgymorth i mewn i gymunedau lleol, ee - gan weithio trwy amrywiaeth o grwpiau cymunedol a gwirfoddol lleol, i ymgysylltu â grwpiau mwy difreintiedig; cynyddu graddfa, dyfnder a hyd ymyriadau ar gyfer cyfranogwyr, ee gan gynnwys gwell ymyriadau ar reoli cyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio; datblygu ymagweddau arloesol newydd at ennill a gwella sgiliau cyflogadwyedd ac, fel rhan o lwybr mwy cynlluniedig i mewn i gyflogaeth, darparu cyfleoedd helaethach ar gyfer gwirfoddoli a chyfranogi mewn treialon lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith.

4.81 Ar ben hynny canolbwyntir yn fwy ar fynd i'r afael â rhwystrau o ran cyfle cyfartal a mynd i'r afael â materion ôl-creiwio a wynebir gan bobl a fu'n ddi-waith/economaidd anweithgar ers amser hir sy'n ymgymryd â chyflogaeth. Bydd rhai o'r cyfranogwyr hyn yn ymgymryd â gwaith am y tro cyntaf a cholli'r budd cost sy'n deillio o helpu pobl i gael swyddi heb y cymorth a'r ôl-ofal priodol, ar ffurf cyngor, canllawiau a mentora, ar gyfer y cyflogai a'r cyflogwr.

Buddiolwyr

4.82 Gall y rhain gynnwys Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol, gwasanaethau cyflogaeth cyhoeddus, sefydliadau sector gwirfoddol a chymunedol, sefydliadau hyfforddi, Sefydliadau Addysg Uwch a Phellach, sefydliadau sector preifat, mentrau cymdeithasol a phartneriaid cymdeithasol, a sefydliadau sector gofal iechyd sylfaenol.

Hyblygrwydd

4.83 Mae Rheoliad UE 1083/2006, Erthygl 34 (2), yn darparu i ESF ariannu ymyriadau sy'n dod o fewn cwmpas ERDF (ac fel arall), ar yr amod bod angen y cyfryw ymyriadau er mwyn rhoi gweithrediad ar waith yn llwyddiannus a bod cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt â'r gweithrediad hwnnw. Er mwyn hyrwyddo gweithredu camau yn gydlynol o dan y Flaenoriaeth hon, gellir defnyddio hyd at 10% o gyfraniad yr UE at y Flaenoriaeth i ariannu'r cyfryw fuddsoddiadau cydategol. Darperir cyfiawnhad dros ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn ar lefel y gweithrediad/prosiect a nodir yr adnoddau a ddefnyddir fel hyn ar wahân mewn ceisiadau am brosiectau a'r gwariant a ddatgenir.

4.84 Mae enghreifftiau o feysydd lle y gallai croesgyllido o dan y Flaenoriaeth hon hyrwyddo gweithredu cydlynol yn cynnwys:

- Costau cyfalaf ar raddfa fach ar gyfer gwella cyfleusterau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymyriadau ESF i gynorthwyo pobl i mewn i waith; ac
- Costau cyfalaf ar raddfa fach ar gyfer ymyriadau peilot neu ymyriadau blaenllaw sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynlluniau i gadw pobl mewn gwaith.

Grantiau Cyffredinol

4.85 Nid ydym yn rhagweld y defnyddir Grantiau Cyffredinol fel y'u diffinnir gan Reoliad UE [1083/2006], Erthygl 42.

Blaenoriaeth Esf 3: Gwella Lefelau Sgiliau A Gallu'r Gweithlu I Ymaddasu

Amcan

4.86 Hyrwyddo cynhyrchiant a dilyniant o ran cyflogaeth trwy godi lefelau sgiliau ar lefelau sgiliau sylfaenol, canolradd ac uwch, i fynd i'r afael â bylchau a phrinderau sgiliau, a hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth.

Grŵp Targed

4.87 Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar godi lefelau sgiliau cyflogeion a helpu cyflogwyr a mentrau i ymaddasu i newid a chynyddu cynhyrchiant. Bydd grwpiau targed yn cynnwys cyflogeion o bob oedran. Bydd y flaenoriaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar godi lefelau sgiliau'r rhai â lefelau sgiliau islaw lefel 2, yn arbennig cyflogeion heb sgiliau rhifedd, llythrennedd a TGCh sylfaenol, i'w codi i lefel 2 ac yn uwch. Ail ffocws fydd cynyddu'r gallu i ymaddasu a chodi sgiliau yn y pen uchaf (hyd at lefel 4) i hyrwyddo'r economi wybodaeth trwy weithio gyda chyflogeion sgil uwch mewn sectorau lle y nodwyd bod bylchau neu brinderau sgiliau neu sectorau sy'n wynebu newid strwythurol. Caiff cyflogeion sy'n wynebu rhwystrau penodol i gael mynediad i hyfforddiant, gan gynnwys merched - yn arbennig merched sy'n gweithio'n rhan amser, pobl ag anableddau, a phobl o gefndiroedd duon a lleiafrifoedd ethnig eu targedu gan ddefnyddio ymyriadau a luniwyd yn benodol ar eu cyfer.

Rhesymeg

4.88 Mae buddsoddi mewn dysgu yn fwy hanfodol nag erioed yng nghydestun yr economi fodern yn seiliedig ar wybodaeth. Mae cyflymder newid economaidd a chymdeithasol yn cynyddu'n gyson. Er bod llawer o weithwyr mewn sefyllfa i newid eu swyddi yn aml, mae pobl heb unrhyw gymwysterau a phobl â lefelau sgiliau isel neu sgiliau wedi dyddio mewn perygl o beidio â gwneud cynnydd mewn cyflogaeth neu o golli eu swyddi. Darperir mwy o fanylion yn y dadansoddiad ond un o nodweddion allweddol y rhanbarth yw'r hanes hir amlwg o sgiliau isel o gymharu â rhannau eraill o'r DU a'r UE. Mae strategaeth sgiliau sylfaenol Llywodraeth Cynulliad Cymru *Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri*¹⁶¹ yn pennu'r targed i sicrhau bod gan 80% o'r oedolion o oedran gweithio yng Nghymru o leiaf sgiliau llythrennedd Sylfaenol / Lefel 1 ac y dylai fod sgiliau rhifedd Sylfaenol / Lefel 1 gan 55% erbyn 2010 o gymharu â 75% a 47% yn y drefn honno. Mae hyfedredd mewn darllen, ysgrifennu, cyfathrebu ar lafar a defnyddio rhifau yn hanfodol i gael a chadw cyflogaeth, ac mae'n floc adeiladu sylfaenol i lefelau sgiliau canolradd ac uwch.

4.89 Bydd y Rhaglen yn ceisio codi lefelau sgiliau sylfaenol y gweithlu a chynorthwyo unigolion i wneud cynnydd mewn cyflogaeth i Lefel 2 trwy hyrwyddo ymyriadau sy'n sicrhau bod darpariaeth ddysgu sy'n seiliedig ar waith yn diwallu anghenion cyflogwyr a gweithwyr unigol yn fwy effeithiol. Ar ben hynny, hyrwyddir ymyriadau wedi'u targedu a arweinir gan y galw i Lefelau 3 a 4, a rhoddir sylw penodol i gynorthwyo gweithwyr ymfudol i integreiddio'n fwy

¹⁶¹ Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri Llywodraeth Cynulliad Cymru: <http://www.basic-skills-wales.org/bsastrategy/resources/Words%20Talk%20Numbers%20Count%20PDF.pdf>

llwyddiannus yn yr economi a'r gymdeithas leol. Efallai y bydd gan undebau llafur rôl allweddol i'w chwarae hefyd o ran hyrwyddo dysgu ar gyfer cyflogeion i gwrdd â'u dyheadau unigol yn ogystal â diwallu anghenion penodol cyflogwyr.

4.90 Mae nifer fwy o bobl hyfedr a graddedigion mewn rhanbarth yn gwella atyniad yr ardal honno ar gyfer cyflogwyr sgil uchel. Ar ben hynny, mae trosglwyddo syniadau a thechnolegau o addysg uwch i gwmnïau yn cael cryn effaith ar y lefel o ymchwil a datblygu ac arloesi mewn rhanbarth. Felly mae'n hanfodol bwysig hyrwyddo cynnydd at sgiliau lefel uwch ac annog graddedigion i astudio ac aros yn y rhanbarth. Ar lefel bersonol mae caffael cymwysterau a sgiliau lefel sylfaenol, canolradd ac uwch / sgiliau graddedigion yn ystod bywyd unigolyn, yn un o'r ffactorau allweddol ar gyfer sicrhau llwybr i gyflogaeth gynaliadwy a'i chynnal.

4.91 Mae newid bellach yn nodwedd gyson o fywyd economaidd. Caiff globaleiddio, technolegau newydd a heneiddio demograffig effaith gynyddol ar farchnadoedd llafur ledled Ewrop, ac mae angen helpu gweithwyr a mentrau i ymaddasu i'r newidiadau hyn. Ar ben hynny, mae cyfraddau cyflogaeth a chynhyrchiant uwch, gwell cystadleurwydd, gwell cyflogau ac amodau gwaith yn dibynnu'n uniongyrchol ar allu mentrau a gweithwyr i arloesi ac ymaddasu i newid. Erbyn hyn nid oes a wnelo ailstrwythuro â newid mewn diwydiannau traddodiadol yn unig; mae'n cynnwys pob sector. Yng nghyd-destun datblygiadau arloesol technolegol a globaleiddio sy'n cyflymu, mae angen i fentrau a gweithwyr ymaddasu i ffyrdd newydd o weithio ac mae angen iddynt allu ymateb i newidiadau yn y galw am nwyddau a gwasanaethau. Oherwydd newidiadau demograffig bydd angen newid y modd y mae gweithluoedd yn cael eu cynllunio, am fod y gweithlu'n heneiddio ac am fod llai o recriwtiaid ifanc.

4.92 Bydd llwyddiant yn dibynnu i raddau helaeth ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu presennol, y bydd 80% ohonynt yn dal i fod mewn gwaith ymhenn 10 mlynedd. Mae sgiliau yn hanfodol i lwyddiant busnes, ond mewn rhai sectorau, neu yn achos rhai cwmnïau, mae prinder ymgeiswyr â'r cymwysterau priodol. Dengys ymchwil mai'r sectorau cynhyrchu, adeiladu, cyfanwerthu/manwerthu a gwestai/arlwyo yw'r sectorau sy'n wynebu'r problemau mwyaf o ran y cyflenwad o sgiliau. Y sgiliau mwyaf diffygiol yw datrys problemau, trafod cwsmeriaid a sgiliau technegol ac ymarferol eraill megis TGCh. Mae cyflogwyr nad ydynt yn mynd i'r afael â'u prinderau sgiliau yn cyfyngu ar eu twf a'u gallu i ymaddasu. Mae pwysleisio'r effaith gadarnhaol y gall hyfforddi rhai grwpiau o gyflogeion, yn arbennig cyflogeion sgil isel, ei chael ar gynhyrchiant yn dwyn manteision i unigolion a'r cwmnïau.

4.93 Bydd cynorthwyo cyflogwyr a'u gweithluoedd i gynyddu buddsoddi a chyfranogiad mewn hyfforddiant, yn arbennig cyfranogiad gweithwyr hŷn, yn cynyddu eu gallu i ymaddasu ac ymateb yn adeiladol i'r economi wybodaeth, ac yn achos gweithwyr hŷn ymestyn eu bywyd gwaith. Bydd hyrwyddo patrymau gwaith mwy hyblyg, gan gynnwys gwaith rhan amser ac ymestyn darpariaeth gweithio cartref yn sicrhau gwell cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, a darparu lefel fwy ystyrlon o gymorth ar gyfer nifer gynyddol o oedolion o oedran gweithio, yn arbennig merched, sy'n ysgwyddo'r mwyafrif o'r cyfrifoldebau gofalu. Felly bydd y Flaenoriaeth hon yn ceisio hyrwyddo gweithgareddau sy'n ceisio ymdrin ag Argymhelliad 3 ymateb Strategaeth Gyflogaeth yr UE dyddiedig 2004 i sicrhau

bod gofal plant a gofal ar gyfer dibynyddion eraill yn fwy hygyrch a fforddiadwy, cynyddu mynediad i hyfforddiant ar gyfer merched mewn gwaith rhan amser sy'n ennill cyflog isel, a chymryd camau brys i fynd i'r afael ag achosion y bwloch cyflog rhwng y rhywiau.

4.94 Mae angen gweithredu hefyd i fynd i'r afael â rhwystrau a wynebir gan unigolion o ran manteisio ar y cyfryw gyfleoedd, ac mae angen rhoi sylw arbennig i bobl anabl, gweithwyr hŷn, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a merched. Trwy wella cyfleoedd gyrfa, a chynyddu'r potensial i unigolion wneud mwy o gynnydd o fewn y gweithlu, bydd gweithlu mwy hyfedr a mwy cynhyrchiol sy'n ennill cyflogau uwch yn datblygu.

4.95 Er gwaethaf y cynnydd a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf, erys cryn dipyn o anghydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, o ran gweithgarwch economaidd, swyddi a thâl. Mae cymysgedd cymhleth o resymau, sy'n destun cryn ddadlau yn aml, dros y bwloch cyflog cyfredol rhwng y rhywiau yng Nghymru ac er y gall y dewis o yrfa a chyfalaf dynol fod yn ffactorau, mae rhai ymchwilyr yn credu hyd yn oed ar ôl cymryd pob ffactor esboniadol i ystyriaeth y gall fod bwloch heb ei esbonio o tua 10%. Gallai merched fod yn gwneud cyfraniad mwy sylweddol at fynd i'r afael â'r prinderau sgiliau mewn diwydiannau megis adeiladu a pheirianeg, ac mewn crefftau, er enghraifft, trydanwyr a phlymeriaid. Efallai y bydd mynd i'r afael â stereoteipiau rhywiol o fewn lleoliad yr ysgol hefyd yn helpu llawer o ddisgyblion lesbiaid, hoyw a deurywiol ymdopi â'r anawsterau a wynebant mewn addysg brif ffrwd¹⁶².

4.96 Ar ben hynny, bydd gwell ymwybyddiaeth amgylcheddol a gwell sgiliau amgylcheddol yn gyffredinol yn dod yn fwyfwy pwysig yn wyneb effeithiau cynyddol newid hinsawdd ac i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan ein hamgylchedd naturiol. Gellir gwneud hyn trwy integreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni addysg a hyfforddi. Bydd sgiliau sy'n gwella effeithlonrwydd adnoddau yn helpu i leihau gollyngiadau carbon a chostau hefyd gan wella cystadleurwydd. Mae sgiliau arbenigol sydd eu hangen yn cynnwys rheoli adnoddau daearol a dyfrol naturiol yn gynaliadwy, safonau uchel o ran perfformiad amgylcheddol ar gyfer adeiladau, rheoli amgylcheddol ar gyfer busnesau a datblygu'r sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol.

Cyd-destun Polisi

Ewropeaidd

4.97 Bydd y flaenoriaeth hon yn ymdrin â'r argymhelliad cyflogaeth i'r DU yn 2004 o dan Strategaeth Gyflogaeth Ewrop trwy hyrwyddo gweithredu i:

- roi strategaethau sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol ar waith i ddarparu gwell cymhellion ar gyfer dysgu gydol oes gan gynyddu cynhyrchiant ac ansawdd yn y gwaith; rhoi pwyslais penodol ar wella llythrennedd a rhifedd y gweithlu, cyfranogiad a chyrhaeddiad gweithwyr sgil isel, yn arbennig y rhai mewn swyddi cyflog isel; ac

¹⁶² The Bullying of Sexual Minorities at School: It's nature and long term correlates, Rivers I 2001: *Educational and Child Psychology*. 18 (1). pp. 33-46

- ‘sichrau bod gofal plant a gofal ar gyfer dibynyddion eraill yn fwy hygyrch a fforddiadwy, cynyddu mynediad i hyfforddiant ar gyfer merched mewn gwaith rhan amser sy’n ennill cyflog isel, a chymryd camau brys i fynd i’r afael ag achosion y bwch cyflog rhwng y rhywiau’¹⁶³.

4.98 Mae’r flaenoriaeth hefyd yn adlewyrchu’r strategaethau a’r egwyddorion canlynol sy’n dylanwadu ar brosesau llunio a chyflawni polisi yng Nghymru:

- mae gwella lefelau sgiliau yn ganolog i agenda Lisboa, Strategaeth Gyflogaeth Ewrop (yn arbennig Canllawiau 23 a 24), y Canllawiau Integredig ar gyfer Swyddi a Thwf, Addysg a Hyfforddiant 2010¹⁶⁴;
- Rhaglen Dysgu Gydol Oes 2007–2013, sy’n ceisio hyrwyddo caffael a datblygu gwybodaeth, cymwysterau a sgiliau i hyrwyddo cyflogadwyedd a chyfranogiad ym marchnad lafur Ewrop¹⁶⁵;
- mae’r pwyslais ar gamau gweithredu wedi’u targedu ar gyfer gweithwyr hŷn yn unol â’r Papur Gwyrdd ar Ddemograffeg a gyhoeddwyd yn 2005¹⁶⁶;
- astudiaeth ddiweddar sy’n awgrymu er bod cyfraddau elw ar gyfer buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant at ei gilydd yn uchel, uwchlaw 7%, fod y gyfradd elw ar gyfer buddsoddi mewn sgiliau technoleg, yn ogystal â mathemateg a gwyddoniaeth, yn arbennig o uchel¹⁶⁷;
- y Rhaglen Dysgu Gydol Oes¹⁶⁸;
- mae Communiqué Bergen¹⁶⁹, a fabwysiadwyd gan Weinidogion Ewropeaidd â chyfrifoldeb dros AU, yn pwysleisio bod angen sichrau bod pawb yn cael yr un mynediad i addysg uwch o safon;
- yn unol â Chanllawiau Strategaeth Gyflogaeth Ewrop 18, 19 ac 21¹⁷⁰, bydd camau a gymerir o dan y thema hon yn hyrwyddo cadw mwy o

¹⁶³ Argymhellid y Cyngor dyddiedig 14 Hydref 2004 ar weithredu polisiau cyflogaeth Aelod-wladwriaethau: http://europa.eu/eur-lex/pri/en/oj/dat/2004/l_326/l_32620041029en00470063.pdf

¹⁶⁴ Mae Adroddiad Cydweithredu diweddaraf y Cyngor a’r UE dyddiedig 2006 ar y cynnydd a wnaed o dan raglen Addysg a Hyfforddiant 2010, yn pwysleisio bod unigolion yn caffael ac yn diweddarau eu sgiliau trwy gydol eu bywyd gwaith, yn ganolog i sichrau bod Ewrop yn datblygu’n gymdeithas fwy cystadleuol a deinamig.

¹⁶⁵ Bydd camau gweithredu sy’n darparu hyfforddiant i wella lefelau sgil oedolion yng Nghymru yn helpu’r UE i gyflawni ei nod o sichrau bod 12% o oedolion yn cyfranogi mewn dysgu gydol oes bob blwyddyn. Yn ôl Dogfen ddiweddaraf Comisiwn yr UE ar Staff yn Gweithio - cynnydd tuag at amcanion Lisboa mewn addysg a hyfforddiant, 16/05/2006, er mwyn cyrraedd y targed mae angen i bedair miliwn arall o oedolion ledled yr UE gyfranogi mewn dysgu gydol oes.

¹⁶⁶ Cyfathrebiad o Bapur Gwyrdd y Comisiwn ‘Confronting demographic change, a new solidarity between the generations’ COM(2005) 94

http://ec.europa.eu/comm/employment_social/news/2005/mar/comm2005-94_en.pdf

¹⁶⁷ Astudiaeth ar ‘Returns to various types of investment in education and training’ Rhagfyr 2005

¹⁶⁸ Cynnig gan y Comisiwn ar gyfer rhaglen dysgu gydol oes integredig newydd COM (2006) 236 addasiad o gynnis cynharach COM (2004) 474 yn dilyn y cytundeb dyddiedig 17 Mai 2006 ar Bersbectif Ariannol, mae’r testun yn dal i gael ei drafod mewn Sefydliadau ac nis mabwysiadwyd eto.

http://ec.europa.eu/education/policies/2010/studies/invest05_en.pdf

¹⁶⁹ Ardal Addysg Uwch Ewrop - Cyflawni Communiqué Nodau’r Gynhadledd o Weinidogion Ewropeaidd â Chyfrifoldeb dros Addysg Uwch, Bergen, 19-20 Mai 2005:

http://www.bologna-bergen2005.no/Docs/00-Main_doc/050520_Bergen_Communique.pdf

¹⁷⁰ PENDERFYNIAD Y CYNGOR dyddiedig 12 Gorffennaf 2005 ar Ganllawiau ar gyfer polisiau cyflogaeth Aelod-wladwriaethau (2005/600/EC):

http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/oj/2005/l_205/l_20520050806en00210027.pdf

bobl mewn cyflogaeth, gan gynnwys trwy gynyddu gallu gweithwyr a mentrau i ymaddasu;

- mae thema hyblygrwydd hefyd yn ganolog i thema 'flexicurity', sy'n flaenoriaeth bolisi Ewropeaidd allweddol ar hyn o bryd fel y nodir yn Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2006, 'Moving Up a Gear'¹⁷¹;
- Pecyn Rhywiau Ewrop, a fabwysiadwyd gan Benaethiaid Gwladwriaethau yng Nghyngor Gwanwyn 2006¹⁷²;
- Map Ffyrdd y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Cydraddoldeb rhwng Merched a Dynion 2006-2010¹⁷³, sy'n adeiladu ar brofiad y Strategaeth Fframwaith ar gyfer Cydraddoldeb rhwng Merched a dynion ar gyfer y cyfnod 2001- 2005. Mae'n cyfuno lansio camau gweithredu newydd ac atgyfnerthu gweithgareddau llwyddiannus cyfredol. Mae'n ailddatgan yr ymagwedd ddeuol o gydraddoldeb rhywiol yn seiliedig ar brif ffrydio rhywiol (hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol trwy brif ffrydio a mesurau penodol); ac
- y pwyslais cryf ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn agenda Lisboa a Göteborg, a'r angen i wella ymwybyddiaeth a sgiliau fydd eu hangen i ymateb i heriau amgylcheddol yn awr, ac yn y dyfodol.

Y DU

4.99 Mae'n rhaid i'r cyflenwad dysgu gyd-fynd yn well ag anghenion cyflogwyr a chyfleoedd yn y farchnad lafur, a dylid pwysleisio sgiliau a chymwysterau sy'n economaidd werthfawr. Cyhoeddwyd adolygiad mawr o lefelau sgiliau'r DU a'i hanghenion yn y dyfodol ym mis Rhagfyr 2006. Cyhoeddodd yr Arglwydd Sandy Leitch ei adroddiad terfynol ar sgiliau'r DU, "*Prosperity for all in the global economy - World class skills*", sy'n cynnwys nifer o argymhellion ar sut y gellir bwrw ymlaen â gwreiddu'r weledigaeth o ddatblygu'r DU fel ceffyl blaen ledled y byd o ran sgiliau erbyn 2020. Croesawodd llywodraeth ganolog y DU adroddiad Leitch, a derbyniodd y cynnig i sefydlu Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau newydd. Cyhoeddir ymateb ffurfiol Llywodraeth y DU yn Haf 2007, yn dilyn yr Adolygiad Gwario Cynhwysfawr.

4.100 Croesawodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r adroddiad a chyfeirir at nifer o fentrau yn yr adroddiad e.e. Addewid Sgiliau'r Cyflogwr i godi safonau llythrennedd a rhifedd gweithwyr, a gwasanaethau cyngor gyrfaedd i bob oedran sy'n cysylltu cyngor â chyfleoedd cyflogaeth go iawn. Mae llawer o'r gweithgarwch a argymhellwyd gan yr Arglwydd Leitch yn cael ei weithredu gan ddefnyddio *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*. Bydd y rhwydwaith o Gynghorau Sgiliau Sector sy'n cwmpasu'r DU gyfan yn chwarae rôl werthfawr yma yng Nghymru, o ran cyflawni'r agenda hon, a defnyddio system y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, sy'n darparu cymwysterau yn seiliedig ar gymhwysedd sy'n seiliedig ar safonau galwedigaethol a luniwyd gan gyflogwyr.

¹⁷¹ 'Time to Move Up A Gear' Adroddiad Cynnydd Blynyddol y Comisiwn Ewropeaidd ar Dwf a Swyddi 2006, 25 Ionawr 2006: http://ec.europa.eu/growthandjobs/annual-report_en.htm

¹⁷² Casgliadau'r Cyngor Gwanwyn 2006 (Paragraff 40 ac Atodiad II): http://ue.eu.int/ueDocs/cms_Data/docs/pressData/en/ec/89013.pdf

¹⁷³ Map ffyrdd ar gyfer cydraddoldeb rhwng dynion a merched COM (2006) 92: http://ec.europa.eu/employment_social/publications/2006/ke7205596_en.pdf

4.101 Bydd newidiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mai 2006 yn oedran pensiwn y wladwriaeth yn ei Phapur Gwyn – *Sicrwydd mewn Ymddeoliad*¹⁷⁴, hefyd yn annog pobl i weithio'n hirach, ac felly bydd yn effeithio ar y galw a'r angen am ailsgilio gweithwyr hŷn a darparu cyfleoedd addysg neu hyfforddiant newydd ar eu cyfer.

Cenedlaethol

4.102 Prif nodau *Cymru: Gwlad Well* yw: hyrwyddo economi amrywiol, cystadleuol a gwerth ychwanegol uchel a chanddi sgiliau ac addysg o safon; a chamau gweithredu i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol trwy alluogi pobl a'u cymunedau i'w helpu eu hunain, a dianc o fagl tlodi. Mae'n cydnabod na all Cymru gystadlu ar gostau llafur rhatach ac na ddylai geisio gwneud hynny; yn wir, mae sgiliau ac arloesi yn hanfodol er mwyn i Gymru gystadlu o ran ychwanegu gwerth a gwella ar ffigurau CMC cymharol mewn economi fyd-eang fodern.

4.103 Mae gweledigaeth *W:AVE* o economi Gymreig ffyniannus yn canolbwyntio ar sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy, gan greu cyfleoedd i bawb, a helpu i gynyddu enillion ar gyfer y rhai mewn gwaith. Datblygir amcanion polisi'r flaenoriaeth hon ymhellach yn *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith* sy'n nodi agenda uchelgeisiol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'r flaenoriaeth yn ceisio adeiladu ar nifer o elfennau allweddol o'r agenda hon gan roi mwy o bwyslais ar godi cyrhaeddiad addysgol a chefnogi datblygu sgiliau i hyrwyddo'r economi wybodaeth.

4.104 Mae *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth Cymru 2005* yn nodi agenda fanwl i gynyddu lefelau cyflogaeth greffus yng Nghymru, ac mae'n cynnwys adran ar weithio gyda chyflogwyr a chyflogeion i wella sgiliau. Mae hefyd yn cydnabod bod mwy o ferched yn wynebu rhwystrau na dynion, yn arbennig cyfrifoldebau gofalu, a bod datblygu polisiau i alluogi pobl i ganfod cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd, hefyd yn chwarae rôl allweddol wrth godi cyfraddau gweithgarwch economaidd.

4.105 Ochr yn ochr â'r cynllun hwn ceir *Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri*, sy'n ceisio gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yng Nghymru, a'r Cynllun Gwella Dysgu seiliedig ar Waith, a fydd yn cyflawni rhaglen o welliannau i ansawdd dysgu sy'n seiliedig ar waith a dysgu galwedigaethol. Caiff y Strategaeth i Bobl Hŷn ddylanwad hefyd.

4.106 Mae agenda *Ymgeisio'n Uwch* ar gyfer addysg lefel uwch i raddedigion, yn adeiladu ar fframwaith *Y Wlad sy'n Dysgu 2: Gweledigaeth ar Waith* i ysbrydoli a galluogi unigolion i ddatblygu eu galluoedd i'r lefelau uchaf trwy gydol eu bywyd, cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a hyrwyddo eu defnyddio er lles y gymdeithas yn gyffredinol, a diwallu anghenion economi hyblyg, cynaliadwy a seiliedig ar wybodaeth. Dylanwedir arni hefyd mewn nifer o feysydd allweddol

¹⁷⁴ Papur Gwyn DWP Sicrwydd mewn Ymddeoliad, Tuag ag system bensiynau newydd, <http://www.dwp.gov.uk/pensionsreform/whitepaper.asp>

gan y Strategaeth Wyddoniaeth sydd newydd ei chyhoeddi¹⁷⁵, *Polisi Gwyddoniaeth i Gymru* – gweledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y gwyddorau, peirianeg a thechnoleg, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2006. Mae polisi newydd ar gyfer e-ddysgu a defnyddio TGCh yn effeithiol ar draws economi Cymru hefyd yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Lanswyd “*Tuag at e-Gymru: Ymgynghoriad ynghylch defnyddio grym TGCh yng Nghymru*”¹⁷⁶ at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd ym mis Gorffennaf 2006.

4.107 Mae *Strategaeth Datblygu Rheolwyr Cymru* yn ceisio ennyn, cymell ac ysgogi newid yn y modd y canfyddir, y darperir ac yr ariennir rhaglenni datblygu rheolwyr ac arweinyddiaeth yng Nghymru a sicrhau bod mwy o bobl yn manteisio arnynt. Bydd y strategaeth yn ceisio darbwylo pob rheolwr o fanteision datblygu ei sgiliau a'i alluoedd; nodi trwy ymchwil anghenion datblygu go iawn rheolwyr yng Nghymru; sicrhau y gall rheolwyr gael gafael ar raglenni hyfforddi a datblygu hyblyg o safon; rhannu arfer rheoli gorau'r DU ac arfer rheoli gorau rhyngwladol ymhlith pob busnes yng Nghymru a mesur cynnydd yn erbyn meincnodau credadwy¹⁷⁷.

4.108 Nodir pwysigrwydd gwella ymwybyddiaeth o faterion datblygu cynaliadwy a sgiliau datblygu cynaliadwy yn *Strategaeth Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n ceisio integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni addysg a dysgu ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Hefyd mae angen sicrhau bod digon o allu yn y rhanbarth ar gyfer y sgiliau arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau a nodir yn *Strategaeth Amgylchedd Cymru*. Hyrwyddir y nodau a'r canlyniadau hyn trwy integreiddio amcanion cynaliadwyedd y Rhaglen Gydgyfeirio mewn rhaglenni hyfforddi ac addysg a gynorthwyir.

4.109 Mae hyrwyddo economi gynaliadwy, arloesol a gwerth uchel i Gymru hefyd yn rhan allweddol o'r gwaith o weithredu *Cynllun Gofodol Cymru*. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer mynd i'r afael ag ystod eang o faterion datblygu, gan gynnwys sgiliau, yng ngwahanol ranbarthau Cymru a bydd yn llywio gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda phartneriaid.

4.110 Mae hyrwyddo cyfle cyfartal yn un o themâu trawsbynciol pwysig Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i hadlewyrchir yn ei hagenda strategol, *Cymru: Gwlad Well*. Mae hyrwyddo cydraddoldeb hefyd wedi'i ymgorffori yn Neddff Llywodraeth Cymru 1998 a strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru - Prif Ffrydio Cydraddoldeb.

4.111 Mae polisiâu eraill, er enghraifft hyrwyddo safon *Buddsoddwyr mewn Pobl* y DU a chngor gyrfa trwy Gyrfa Cymru, yn ceisio effeithio ar ddilyniant mewn hyfforddiant a gyrfaedd ar gyfer merched. Cynhwysir y mathau hyn o

¹⁷⁵ Polisi Gwyddoniaeth Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006, <http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/science-policy-2006?lang=cy>

¹⁷⁶ Tuag at e-Gymru, dogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru <http://wales.gov.uk/consultations/closed/busandeconclocons/con-bus-ewales/?lang=cy>

¹⁷⁷ Cngor Rheolwyr Cymru. - <http://www.crc-wmc.org.uk/>

ymagweddau polisi yn yr Adolygiad Cymharol, '*Reconciliation of work and family life*' a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2005¹⁷⁸.

Dangosyddion Lefel Blaenoriaeth

4.112 Defnyddir y dangosyddion canlynol, sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth, i olrhain cynnydd prosiectau a'r Rhaglen. Mae'r dangosyddion allbwn a chanlyniad yn ddangosyddion monitro, y bydd angen i brosiectau adrodd ar gynnydd yn eu herbyn tra bydd y prosiect ar waith. Mae'r dangosyddion effaith yn ddangosyddion gwerthuso a dylid eu hystyried wrth wneud gwaith gwerthuso ar lefel prosiectau ac ar lefel y Rhaglen.

4.113 Yn ogystal ag adrodd ar gynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn, bydd angen i brosiectau ddarparu gwybodaeth fonitro bellach sy'n ategu'r dangosyddion er mwyn bodloni gofynion y Comisiwn fel y nodir yn Atodiad XXIII o'r Rheoliadau Gweithredu ac i ganiatáu i WFO asesu effeithiolrwydd y Rhaglen. Yn unol ag erthygl 66(2) o'r rheoliad cyffredinol, bydd gwybodaeth fonitro a gesglir yn caniatáu dadansoddi ystadegau yn ôl rhyw a maint yr ymgymeriadau sy'n derbyn cyllid, lle y bo hynny'n briodol.

4.114 O dan y cyfleuster hyblygrwydd y darperir ar ei gyfer gan Erth 34(2) o Reoliad (EC) 1083/2006, bydd dangosydd "mangreoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd" ERDF ar gael i ddal gweithgarwch ERDF a ariennir trwy'r Flaenoriaeth hon.

4.115 Cyflwynir targedau yn y tabl isod hefyd. Mae'n rhaid cyrraedd pob targed erbyn 2015. Cyflwynir adroddiadau ar ddangosyddion effaith y mae angen eu hasesu trwy waith gwerthuso yn flynyddol o 2009 ymlaen. Nodir y rhain yn Atodiad Ng – Dangosyddion.

¹⁷⁸ Reconciliation of work and private life, Adolygiad cymharol o ddeg gwlad Ewropeaidd ar hugain:
http://bookshop.europa.eu/eubookshop/FileCache/PUBPDF/KE6905828ENC/KE6905828ENC_002.pdf

Tabl 30: Dangosyddion a Thargedau Blaenoriaeth 3

Dangosydd	Targed (2015)
Allbynnau	
Cyfanswm y cyfranogwyr – (Cyflogedig)	90,000
Cyfranogwyr benywaidd	66%
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
	<i>Cyfranogwyr hŷn</i> 30%
	<i>Cyfranogwyr BME</i> -
<i>Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio</i>	13%
<i>Cyfranogwyr sy'n cael mynediad i gymwysterau sgiliau sylfaenol</i>	45%
<i>Cyfranogwyr sy'n cael mynediad i hyfforddiant Lefel 2</i>	30%
<i>Cyfranogwyr sy'n cael mynediad i hyfforddiant Lefel 3</i>	15%
<i>Cyfranogwyr sy'n cael mynediad i hyfforddiant Lefel 4 ac uwch</i>	10%
<i>Cyfranogwyr benywaidd sy'n gweithio yn rhan amser</i>	29%
Cyflogwyr a gynorthwyr neu sy'n derbyn cymorth ariannol	15,000
Astudiaethau ymchwil	-
Strategaethau dysgu a datblygu	-
Prosiectau sy'n darparu hyfforddiant arbenigol ym maes datblygu cynaliadwy	10%

Dangosydd	Targed (2015)
Canlyniadau	
Cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau – Pobl Gyflogedig <i>Lefelau cymwysterau y disgwylir iddynt eu hennill:</i>	37,530
<i>Sgiliau sylfaenol</i>	54%
-Benywaidd	-
-Cyfranogwyr hŷn	-
-Cyfranogwyr BME	-
Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	-
Cyfranogwyr benywaidd sy'n gweithio'n rhan amser	-
<i>Lefel 2</i>	29%
-Benywaidd	-
-Cyfranogwyr hŷn	-
-Cyfranogwyr BME	-
Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	-
Cyfranogwyr benywaidd sy'n gweithio'n rhan amser	-
<i>Lefel 3</i>	11%
-Benywaidd	-
-Cyfranogwyr hŷn	-
-Cyfranogwyr BME	-
Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	-
Cyfranogwyr benywaidd sy'n gweithio'n rhan amser	-
<i>Lefel 4 ac uwch</i>	6%
-Benywaidd	-
-Cyfranogwyr hŷn	-
-Cyfranogwyr BME	-
-Cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio	-
-Cyfranogwyr benywaidd sy'n gweithio yn rhan amser	-
Cyfranogwyr yn ymgymryd â dysgu pellach <i>Grŵp ymyrraeth allweddol:</i> <i>Pobl gyflogedig</i> <i>Cyfranogwyr BME</i>	
Cynlluniau dilyniant ar gyfer merched	-
Cyflogwyr sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	50%
Effeithiau	
Lefel sgiliau cyflogaeth	-
Lefel cyflog swyddi	-
Merched mewn swyddi rheoli	-
Cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau rhannol	-

Strategaeth Weithredol

Thema 1: Codi sylfaen sgiliau'r gweithlu a hyrwyddo dilyniant mewn cyflogaeth trwy sgiliau lefel sylfaenol a chanolradd.

4.116 Mae'r thema hon yn ceisio gwella lefelau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, a sgiliau TGCh hefyd, sgiliau generig a sgiliau galwedigaethol eraill o fewn y gweithlu a hyrwyddo dilyniant i Lefel 2, a dilyniant a arweinir gan y galw hyd at ac yn cynnwys Lefel 3. Gwneir hyn trwy:

- godi lefelau llythrennedd a rhifedd sylfaenol yn y gweithlu;
- hyrwyddo caffael sgiliau TGCh, sgiliau generig a sgiliau galwedigaethol o fewn y gweithlu;
- hyrwyddo dilyniant mewn cyflogaeth trwy ddarpariaeth hyfforddi a dysgu hyblyg; ac
- helpu gweithwyr sgil isel i ennill y sgiliau a'r cymwysterau ychwanegol sydd eu hangen i gynnal eu cyflogaeth, gwella cynhyrchiant a chynyddu enillion trwy ddilyniant.

Gweithgareddau Dangosol

- ymyriadau wedi'u targedu i wella mynediad i ddarpariaeth sgiliau sylfaenol a gweithredol (rhifedd a llythrennedd) ar gyfer cyflogaeth yn y gweithle a'r tu allan iddo;
- darparu cymwysterau academaidd a sgiliau galwedigaethol hyd at Lefel 2 ar gyfer gweithwyr sgil isel, e.e. sgiliau TGCh, a sgiliau gwaith generig megis gweithio mewn tîm, datrys problemau a sgiliau trafod cwsmeriaid;
- hyrwyddo dilyniant a arweinir gan y galw hyd at Lefel 3 trwy ddarpariaeth ddysgu hyblyg ar gyfer unigolion, gan gynnwys prentisiaethau;
- cydweithredu ag undebau llafur a phartneriaid cymdeithasol i hyrwyddo hyfforddiant ar gyfer y rhai nad yw'r Gymraeg neu Saesneg yn famiaith iddynt, pan fyddai hynny'n gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y farchnad lafur leol;
- cydweithredu i alluogi gweithwyr ymfudol i ddilysu cymwysterau a enillwyd yn eu gwlad enedigol i gynyddu eu mynediad i gyflogaeth lefel uwch a gwneud gwell defnydd o'u sgiliau; ac
- ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â rhwystrau i gyfle cyfartal i ddiwallu anghenion pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl eraill sy'n wynebu anfantais.

4.117 Rydym yn disgwyl i'r thema hon ddefnyddio tua 60% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Thema 2 - Sgiliau ar gyfer yr Economi Wybodaeth: sgiliau lefel uwch a systemau ar gyfer datblygu gweithluoedd

4.118 Mae'r thema hon yn ceisio hyrwyddo darparu sgiliau lefel uwch, gan gynnwys sgiliau graddedig ac ôl-raddedig, i hyrwyddo'r economi wybodaeth, gwella systemau i nodi anghenion o ran sgiliau, helpu cyflogwyr i nodi eu hanghenion o ran sgiliau, rhagweld bylchau neu brinderau posibl, a helpu pobl i

ymaddasu i bwysau economaidd sy'n newid sy'n effeithio ar fusnesau a sefydliadau. Gwneir hyn trwy:

- hyrwyddo'r economi wybodaeth, gan gynnwys datblygu sgiliau lefel uwch a sgiliau graddedig ac ôl-raddedig;
- gwella ymchwil i anghenion sgiliau a systemau ar gyfer sicrhau bod y cyflenwad dysgu yn cyd-fynd â'r galw gan gyflogwyr ac unigolion;
- cynorthwyo cyflogwyr i nodi anghenion sgiliau eu sectorau ar bob lefel a mynd i'r afael â hwy, gan gynnwys sgiliau rheoli, technegol a chrefft;
- sicrhau bod darpariaeth ddysgu yn cyd-fynd â'r galw gan gyflogwyr ac unigolion a'i gwella fel ei bod yn diwallu anghenion y farchnad lafur yn well, gan leihau bylchau a phrinderau sgiliau; ac
- helpu gweithwyr a mentrau i ymaddasu i ffurfiau newydd o drefniadaeth gwaith a thechnolegau newydd.

Gweithgareddau Dangosol

- darparu sgiliau lefel uwch yn ôl y galw, hyd at lefel 4, trwy fesurau wedi'u targedu;
- cydweithredu rhwng cyflogwyr, darparwyr dysgu a Chynghorau Sgiliau Sector i gynyddu'r cyflenwad o unigolion â sgiliau lefel uwch sydd eu hangen mewn sectorau allweddol, e.e. gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth, hyrwyddo mynediad i gyrsiau perthnasol, datblygu graddau sylfaen a rhaglenni dysgu sector-benodol, cynlluniau ennill a dysgu, Datblygiad Proffesiynol Parhaus, neu sgiliau penodol megis ymchwil;
- mesurau wedi'u targedu i gadw rhagor o raddedigion a phobl eraill â chymwysterau lefel uwch yn y rhanbarth e.e. defnyddio swyddi preswyl gyda busnesau, a gwell cymorth ar gyfer cynllunio gyrfaedd a dilyniant gyrfaedd;
- gwella'r sylfaen ymchwil a thystiolaeth ar gyfer anghenion sgiliau yn awr ac yn y dyfodol, gweithio gyda chyflogwyr a Chynghorau Sgiliau Sector i fynd i'r afael â'r cyfryw heriau;
- cynorthwyo cyflogwyr i ddatblygu eu gweithluoedd, yn arbennig mentrau bach a chanolig eu maint a'r rhai a allai gynyddu eu cyfraniad at Gynnyrch Mewnwladol Crynswth;
- gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar gyfer cyflogeion, cyflogwyr a darparwyr dysgu ar gyfleoedd dysgu sydd ar gael a lefelau galw, lle y dangoswyd bod bwlch;
- hyrwyddo rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a rheolwyr i gynyddu gallu cwmnïau i ymaddasu, a darparu rhaglenni megis rhwydweithio a mentora;
- datblygu cymwysterau hyblyg yn seiliedig ar gredydau a rhaglenni dysgu anffurfiol, gan gynnwys cefnogi eu cydnabod;
- datblygu a defnyddio pecynnau cymorth arloesol sy'n defnyddio technoleg newydd i hyrwyddo gwahanol arddulliau dysgu a chyfoethogi arferion addysgu;
- cynorthwyo'r gweithwyr hynny i ddatblygu setiau sgiliau newydd ar gyfer cyflogaeth barhaol;
- mesurau gweithredu cadarnhaol sy'n cynorthwyo pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl i ennill sgiliau lefel uwch;

- mesurau gweithredu cadarnhaol sy'n cynorthwyo merched i ennill sgiliau lefel uwch mewn meysydd anhraddodiadol megis gwyddoniaeth a pheirianneg, adeiladu a TGCh; ac
- addasu rhaglenni hyfforddi a rhaglenni sgiliau sy'n bodoli eisoes i integreiddio datblygu cynaliadwy, gan fynd i'r afael â heriau amgylcheddol cyfredol a heriau amgylcheddol yn y dyfodol, yn arbennig newid hinsawdd.

4.119 Rydym yn disgwyl i'r thema hon ddefnyddio tua 35% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Thema 3 – Hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth

4.120 Mae'r thema hon yn ceisio hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth a datblygiad gyrfa, yn arbennig gan fynd i'r afael ag achosion y bwlbh cyflog rhwng y rhywiau. Gwneir hyn trwy:

- codi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr ac mewn mannau eraill o'r anfantais rywiol yn y gweithlu; ac
- chodi lefelau cyfranogiad mewn galwedigaethau a sectorau lle nad oes gan ddynion a merched ddigon o gynrychiolaeth ar hyn o bryd.

Gweithgareddau Dangosol

- datblygu camau gweithredu gyda phartneriaid i ddileu rhwystrau i gyfranogiad llawn mewn cyfleoedd dysgu a chyfleoedd cyflogaeth;
- cynorthwyo cyflogwyr, darparwyr dysgu ac eraill i hyrwyddo amrywiaeth a herio diwylliannau, amgylcheddau ac agweddau a gysylltir yn bennaf â naill ai dynion neu ferched e.e. dynion ym meysydd dysgu a nyrsio, merched yn y sector adeiladu ac mewn proffesiynau gwyddonol;
- datblygu camau gweithredu gyda Chynghorau Sgiliau Sector a phartneriaid i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw mewn rhaglenni dysgu sy'n seiliedig ar waith, rhaglenni hyfforddiant galwedigaethol a rhaglenni prentisiaeth; ac
- gweithgareddau a arweinir gan bartneriaid cymdeithasol sy'n ceisio hyrwyddo gwell cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, a chyflogi a chadw cyflogaion benywaidd o ganlyniad.

4.121 Rydym yn disgwyl i'r thema hon ddefnyddio tua 5% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Partneriaid Cymdeithasol

4.122 Mae Rheoliad UE [1081/2006] Erthygl 5(3) yn darparu ar gyfer dyrannu cyfran briodol o gyllid ESF ar gyfer cefnogi gweithgareddau a gyflawnir ar y cyd gan y partneriaid cymdeithasol.

4.123 O dan y Flaenoriaeth hon, neilltuir tua 1.0% o ddyraniad y flaenoriaeth ar gyfer hyrwyddo gweithredu gyda phartneriaid cymdeithasol. Bydd gweithgareddau y bwriedir eu hariannu yn cynnwys y rhai sy'n cynorthwyo

cyflogwyr i nodi galwadau ar eu gweithlu yn y dyfodol. Bydd gweithgareddau enghreifftiol yn cynnwys:

- Gweithgarwch i helpu grwpiau difreintiedig i oresgyn rhwystrau i ennill sgiliau lefel uwch;
- Helpu cyflogwyr i nodi anghenion dysgu eu gweithlu a mynd i'r afael â hwy;
- Cyngor a chymorth i unigolion i'w galluogi i ennill sgiliau lefel uwch o fewn y gweithlu, neu ailhyfforddi i ymateb i newidiadau mewn gofynion swydd neu ymaddasu i dechnoleg newydd;
- Gweithgareddau sy'n hyrwyddo ac yn dathlu rhagoriaeth o ran datblygu rheolwyr; ac
- Gweithgareddau sy'n ceisio gwella ymwybyddiaeth amgylcheddol a gweithgarwch rheoli amgylcheddol.

Gwerth Ychwanegol

4.124 Bydd adnoddau ESF yn ychwanegu gwerth at y strategaethau a'r cyllidebau domestig i godi lefelau sgiliau yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan sicrhau gweithlu hyfedr a all ymateb i anghenion newidiol economi sy'n seiliedig ar wybodaeth. Fe'i defnyddir i alluogi mwy o gyfranogiad mewn hyfforddiant ac yn benodol ar gynyddu cyfranogiad mewn Prentisiaethau Modern lle y disgwylir i'r cynnydd fod tua 50% tra bydd y rhaglen ar waith. Bydd hefyd yn caniatáu i ystod ehangach o gyfranogwyr gael mynediad i ddarpariaeth trwy hyrwyddo camau gweithredu penodol o ran cyfle cyfartal, o ran grwpiau difreintiedig, a mynd i'r afael â rhwystrau yn gysylltiedig â rhyw.

4.125 Ar ben hynny, bydd arian ESF hefyd yn caniatáu gwella ansawdd darpariaeth a'r cynnyrch yn gyflymach fel y dangosir gan y galw cynyddol am ddatblygu sgiliau a hyfforddiant, a lefelau cyfranogi uwch, cyfraddau cyrhaeddiad uwch a chyfraddau dilyniant uwch. Bydd hynny yn ei dro yn cynyddu'r duedd hirdymor i ddysgu ymhlith unigolion, a'r gwerth y mae cyflogwyr yn ei roi ar ddatblygu yn y gweithle, a fydd yn amlygu ei hun mewn mwy o ymrwymiad personol a mwy o ymrwymiad gan gyflogwyr i hyfforddiant a sgiliau.

Buddiolwyr

4.126 Gall y rhain gynnwys gwasanaethau cyflogaeth cyhoeddus, Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sefydliadau hyfforddi, Sefydliadau Addysg Uwch a Phellach, Cynghorau Sgiliau Sector, Llywodraeth Leol a sefydliadau Anllywodraethol (NGOS), sefydliadau gwirfoddol a chymunedol a phartneriaid cymdeithasol.

Cyfleuster Hyblygrwydd

4.127 Mae Rheoliad UE [1083/2006], Erthygl 34 (2), yn darparu i ESF ariannu ymyriadau sy'n dod o fewn cwmpas ERDF (ac fel arall), ar yr amod bod angen y cyfryw ymyriadau er mwyn rhoi gweithrediad ar waith yn llwyddiannus a bod cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt â'r gweithrediad hwnnw. Er mwyn hyrwyddo gweithredu camau yn gydlynol o dan y Flaenoriaeth hon, gellir defnyddio hyd at 10% o gyfraniad yr UE at y Flaenoriaeth i ariannu'r cyfryw fuddsoddiadau

cydategol. Darperir cyfiawnhad dros ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn ar lefel y gweithrediad/prosiect a nodir yr adnoddau a ddefnyddir fel hyn ar wahân mewn ceisiadau am brosiectau a'r gwariant a ddatgenir.

4.128 Mae enghreifftiau o feysydd lle y gallai croesgyllido o dan y Flaenoriaeth hon hyrwyddo gweithredu cydlynol yn cynnwys:

- Costau cyfalaf ar raddfa fach sy'n ymwneud ag offer i wella'r modd y darperir darpariaeth dysgu a gefnogir gan ESF a mynediad cyfartal i ddysgu;
- Addasu neu wella cyfleusterau sy'n bodoli eisoes i hyrwyddo gweithredu camau a ariennir gan ESF yn llwyddiannus;
- Costau cyfalaf ar raddfa fach sy'n gysylltiedig â datblygu systemau dysgu galwedigaethol; ac
- Costau cyfalaf ar raddfa fach i greu technolegau dysgu a'u hintegreiddio mewn prosesau llunio a darparu rhaglenni.

Grantiau Cyffredinol

4.129 Nid ydym yn rhagweld y defnyddir Grantiau Cyffredinol fel y'u diffinnir gan Reoliad UE [1083/2006], Erthygl 42.

Blaenoriaeth 4: Moderneiddio A Gwella Ansawdd Ein Gwasanaethau Cyhoeddus (Creu'r Cysylltiadau)

Amcan

4.130 Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth.

Grŵp targed

4.131 Llywodraeth ganolog a lleol, asiantaethau cyhoeddus, asiantaethau arbenigol, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, darparwyr addysg a hyfforddiant, gwasanaethau lleol eraill a phartneriaid cymdeithasol.

Rhesymeg

4.132 Mae darparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol ac yn effeithlon yn chwarae rôl bwysig yn natblygiad economaidd a chymdeithasol unrhyw ranbarth. Mae sicrhau'r safonau uchaf mewn gwasanaethau cyhoeddus yn arbennig o bwysig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wrth fynd i'r afael â'r lefelau o amddifadedd cymdeithasol, perifferoldeb a'r diffyg crynhoad, treftadaeth diwydiannau sy'n dirywio, a'r lefel o gystadleuaeth a wynebir gan economi'r rhanbarth yn gofyn am gryn dipyn o ymyrraeth gan y sector cyhoeddus – fel y tystia'r ffaith bod y rhanbarth yn gymwys i dderbyn cyllid trwy'r Rhaglen Gydgyfeirio hon.

4.133 Mae'r Blaenoriaethau blaenorol yn y Rhaglen hon yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol o unigolion i'w galluogi i gyfrannu at economi'r rhanbarth tra bod Rhaglen gyfochrog ERDR yn mynd i'r afael â'r rhwystrau strwythurol a wynebir gan y rhanbarth. Diben y Flaenoriaeth hon yw meithrin gallu gweinyddiaethau a gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth i sicrhau eu bod yn gymwys i chwarae eu rôl a diwallu anghenion pob un o'u defnyddwyr, unigolion, busnesau a chymunedau.

4.134 Er y bydd y Flaenoriaeth hon yn defnyddio cyfran fach o'r arian Ewropeaidd sydd ar gael trwy'r Rhaglen, bydd yn gwneud cyfraniad pwysig at sicrhau y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon trwy ddatblygu gallu rheolwyr a gweithluoedd gwasanaethau cyhoeddus. Bydd yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus, trwy fod yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol a thrwy ganolbwyntio'n fwy ar gwsmeriaid, mewn gwell sefyllfa i hyrwyddo amcanion ehangach y rhaglen. Bydd cydweithredu i leihau anweithgarwch economaidd, gan arwain a rheoli gweithgarwch adfywio ar sail amlddisgyblaeth, a chodi lefelau sgiliau wrth wraidd yr agenda economaidd ehangach ar gyfer twf a swyddi.

4.135 Darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd trwy economi gymysg. Llywodraeth ganolog a lleol sy'n gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus ac fe'u darperir trwy amrywiaeth o gyrff sector cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a thrydydd sector. Felly mae angen canolbwyntio ar bob elfen a hefyd y rhyngweithio rhyngddynt er mwyn gwella safonau perfformiad mewn gwasanaethau cyhoeddus.

4.136 Nid yn unig y mae'r galwadau ar wasanaethau cyhoeddus yn wahanol ar gyfer gwahanol gymunedau ond o fewn gwasanaethau cyhoeddus eu hunain, ceir materion gallu a waethygir gan fylchau sgiliau mewn rhai meysydd oherwydd y camgymhariad rhwng proffil sgiliau'r rhanbarth a gofynion y sector cyhoeddus. Mae angen mynd i'r afael â'r rhain, yn arbennig am fod gweithgarwch darparu gwasanaethau cyhoeddus modern a deinamig yn tynnu fwyfwy ar gymwysiadau mwy soffistigedig a thechnegol ddatblygedig. Ar yr un pryd, mae lefelau disgwyliad cwsmeriaid yn codi am fod dinasyddion a busnesau yn disgwyl atebion cyflym, sy'n sensitif i'w hamgylchiadau penodol. Yn gyffredinol, disgwylir i wasanaethau gael eu darparu ar sail gyfartal ac nid ystyrir bod mynediad na lleoliad yn rhesymau dilys bellach dros gyfyngu ar ddewis, nac ansawdd darpariaeth. Un ffordd bosibl o fynd i'r afael â'r cyfryw brinderau sgiliau fyddai creu canolfan ragoriaeth mewn arfer gweinyddol gorau, a fyddai'n alinio â'r mathau o weithgareddau a gynigir o dan Flaenoriaeth ERDF 3 – Datblygu seilwaith strategol ar gyfer economi fodern.

Cyd-destun Polisi

Ewropeaidd

4.137 Mae Rheoliad Cronfa Gymdeithasol Ewrop [1081/2006], ar gyfer y cyfnod rhaglennu 2007-2013 yn cyflwyno blaenoriaeth newydd sy'n cynnig cymorth i atgyfnerthu gallu sefydliadol a gweinyddol mewn rhanbarthau Cydgyfeirio fel elfen allweddol ar gyfer hyrwyddo newidiadau strwythurol, twf a swyddi, yn ogystal â datblygiad economaidd. Mae Canllawiau Strategol y Gymuned hefyd yn nodi bod gallu gweinyddol a sefydliadol a llywodraethu da yn flaenoriaethau ar gyfer 2007 - 2013. Y rhesymeg dros gyflwyno'r flaenoriaeth hon yw creu effeithlonrwydd mewn gwasanaethau cyhoeddus; creu sefydliadau a gweinyddiaethau cyhoeddus sy'n gweithio'n dda; a chyfrannu at dwf a chyflogaeth. Mae gallu sefydliadol a gweinyddol effeithiol yn allweddol i lywodraethu da - un o elfennau hanfodol agenda Lisboa. Nodweddir y gwaith o weithredu'r flaenoriaeth newydd gan ymagwedd fwy strategol a ddylai arwain at adolygu neu foderneiddio'r gweinyddiaethau cyhoeddus a'r gwasanaethau cyhoeddus perthnasol yn gynhwysfawr.

4.138 Mae'r pwyslais ar wella gwasanaethau cyhoeddus a'u gwneud yn fwy cost-effeithiol a hygyrch trwy gynyddu hyd yr eithaf ar y defnydd a wneir o TGCh yn un o'r prif nodau a nodir yn strategaeth i2010 '*Cymdeithas Wybodaeth Ewropeaidd ar gyfer twf a chyflogaeth*'. Mae'r cynllun gweithredu e-lywodraeth, sy'n deillio o'r strategaeth hon, yn amcangyfrif y gellid arbed cannoedd o biliynau o Ewros ar gyfer trethdalwyr Ewrop bob blwyddyn trwy fentrau megis caffael cyhoeddus electronig a lleihau beichiau gweinyddol ar gyfer dinasyddion a busnesau. Bydd y camau gweithredu a nodir yn y flaenoriaeth hon yn helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfrannu at yr elfen e-lywodraeth o strategaeth i2010 a chwarae ei rhan wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus ar-lein yn yr UE yn parhau i ddatblygu fel sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hyd fis Ebrill 2006¹⁷⁹.

¹⁷⁹ Online availability of public services: how is Europe progressing?, Mehefin 2006: http://europa.eu.int/information_society/eeurope/i2010/docs/benchmarking/online_availability_2006.pdf

4.139 Yn fwy cyffredinol, mae gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithlon ac ymatebol hefyd yn rhan o agenda Gwell Rheoleiddio'r UE sy'n tanlinellu pwysigrwydd lleihau'r baich gweinyddol ar gyfer cwmnïau i'w gwneud yn fwy cystadleuol, ac sy'n amcangyfrif y byddai lleihad o 25% ym maich gweinyddol yr Aelod-wladwriaethau yn arwain at gynyddu CMC go iawn o 1% i 1.4%.

Y DU

4.140 Mae'r thema hon hefyd yn adlewyrchu'r strategaethau a'r egwyddorion canlynol sy'n dylanwadu ar brosesau llunio a chyflawni polisi yng Nghymru:

- cynigion penodol i sicrhau effeithlonrwydd fel y nodir yn Adroddiad Gershon sy'n cwmpasu'r DU¹⁸⁰; ac
- chynlluniau ar gyfer trawsnewid y modd y darperir gwasanaethau ar gyfer dinasyddion a busnesau fel y nodir yn adroddiad Varney¹⁸¹.

Cenedlaethol

4.141 *Creu'r Cysylltiadau* yw rhaglen diwygio gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru i ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn mynd i'r afael â'r amrywiaeth eang o heriau y maent yn eu hwynebu yn awr ac ar gyfer y dyfodol. Mae'n adlewyrchu ymagwedd unigryw y bwriedir iddi ymdrin ag amgylchiadau Cymru yn sgîl datganoli. Mae'n ymdrin â darparwyr gwasanaethau statudol, y sectorau gwirfoddol a phreifat. Mae'n pennu targedau effeithlonrwydd ac yn nodi blaenoriaethau ar gyfer cynllunio a datblygu gweithluoedd, yn ogystal â phwysleisio ei hymrwymiad i gyfiawnder a chydaddoldeb cymdeithasol wrth ddatblygu'r agenda hon.

4.142 Nod y polisi yw sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn fwy ymatebol i ddinasyddion a'u bod yn fwy integredig, effeithiol ac effeithlon, gan gynnwys y targed y dylai pob corff cyhoeddus gynyddu ei effeithlonrwydd o tua 1% flwyddyn wrth flwyddyn yn ystod y rhaglen bum mlynedd gan arwain at sicrhau gwelliannau gwerth am arian yn cyfateb i £600 miliwn erbyn 2010. Ers hynny bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu ar y polisi hwn trwy ei chynllun gweithredu *Cyflawni'r Cysylltiadau* (2005–2010), sydd â chyllideb o £14 y flwyddyn, ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf, (2007 – 2010), sef y gorwel cyllideb cyffredol.

4.143 Mae *Cyflawni'r Cysylltiadau* yn nodi rhaglen weithredu fanwl sy'n cynnwys pedair ffrwd waith:

- gwella gwasanaethau cwsmeriaid a chynyddu cyfranogiad dinasyddion mewn prosesau llunio a chyflawni gwasanaethau;

¹⁸⁰ Releasing Resources to the Front line – adroddiad annibynnol gan Syr Peter Gershon, Gorffennaf 2004 http://www.hm-treasury.gov.uk/spending_review/spend_sr04/associated_documents/spending_sr04_efficiency.cfm

¹⁸¹ Service transformation: A better service for citizens and businesses, a better deal for the taxpayer – Syr David Varney, Rhagfyr 2006 http://www.hm-treasury.gov.uk/media/4/F/pbr06_varney_review.pdf

- cydweithredu i wella'r modd y darperir gwasanaethau;
- effeithlonrwydd; ac
- datblygu gweithluoedd.

4.144 Crynhoir meysydd gweithredu allweddol fel:-

- Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chynnwys Cwsmeriaid – gwell gwasanaethau cwsmeriaid, cyfranogiad y cyhoedd a thrawsnewid mynediad i wasanaethau (gan gynnwys TGCh);
- Integreiddio a Chydweithredu - swyddogaethau llywodraeth ganolog sydd wedi'u hintegreiddio'n well, cydweithredu cryfach yn rhanbarthol ac yn lleol a llywodraethu symlach;
- Effeithlonrwydd - enillion effeithlonrwydd o £600m, swyddogaethau eilaidd a rhannu swyddogaethau, gweithgarwch caffael cynaliadwy a rheoli cyfalaf callach; ac
- Datblygu Gweithluoedd – cynllunio gweithluoedd ac adnoddau dynol, datblygu arweinwyr ar bob lefel, a rheoli newid.

4.145 Er mwyn hyrwyddo'r camau gweithredu hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu *Gwerth Cymru* i ddarparu arweiniad ac arbenigedd ar gyfer cyrff gwasanaethau cyhoeddus ar effeithlonrwydd a gwella prosesau busnes, a *Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru* i hyrwyddo rheoli gwasanaethau cyhoeddus a datblygu gweithluoedd. Ar ben hynny, mae rhaglen Creu'r Cysylltiadau yn darpau cymorth ariannol i ysgogi prosiectau arloesol mewn cydweithrediad sy'n ymwneud â chydweithredu a darparu gwasanaethau ar draws y gwasanaeth cyhoeddus. Fe fydd unrhyw gyllido ESF ar gyfer y math yma o weithgaredd yn destun i'r rheoliadau cymhwyster normal.

4.146 Ailystyriwyd rhaglen Creu'r Cysylltiadau yn hydref 2006 yn dilyn adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a edrychodd ar ba faterion pellach yr oedd angen mynd i'r afael â hwy i wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cymeradwyodd yr adroddiad *Ar Draws Ffiniau: Yr Adolygiad o Ddarpariaeth Gwasanaethau Lleol yng Nghymru (Ebrill 2006)* raglen *Creu'r Cysylltiadau* fel yr ymagwedd gywir at ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer Cymru ond dywed fod yn rhaid ei datblygu ymhellach ac yn gyflymach.

4.147 O ganlyniad i hynny cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau*, ym mis Tachwedd 2006, sy'n ehangu'r cynllun gweithredu presennol. Ymrwymiad newydd allweddol yw creu Byrddau Gwasanaethau Lleol, a fydd yn dod ag arweinwyr o lywodraeth leol, y sectorau datblygu economaidd, addysg, iechyd a pholisi, y trydydd sector a sectorau eraill at ei gilydd i wella darpariaeth a pherfformiad gwasanaethau cyhoeddus yn lleol, a gweithio'n fwy effeithiol fel tîm i fynd i'r afael ag anghenion dinasyddion lleol. Unwaith y byddant wedi'u sefydlu, bydd y Byrddau hyn yn datblygu Cytundebau Gwasanaeth Lleol â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4.148 Nodir pwysigrwydd gwella ymwybyddiaeth o faterion datblygu cynaliadwy a sgiliau datblygu cynaliadwy yn *Strategaeth Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang* Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n ceisio integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni addysg a dysgu ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Hefyd mae angen digon o allu yn y rhanbarth ar gyfer y sgiliau arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau a nodir yn *Strategaeth Amgylchedd Cymru*. Hyrwyddir y nodau a'r canlyniadau hyn trwy integreiddio amcanion cynaliadwyedd y Rhaglen Gydgyfeirio mewn rhaglenni hyfforddi ac addysg a gynorthwyr.

4.149 Ochr yn ochr â strategaethau a fydd yn llywio thema drawsbynciol Cynaliadwyedd Amgylcheddol, caiff y gwaith o gymhwyso thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal ei lywio gan ofyniad cyfreithiol adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, i ymgorffori cyfle cyfartal, a strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru – Prif Ffrydio Cydraddoldeb.

Dangosyddion Lefel Blaenoriaeth

4.150 Defnyddir y dangosyddion canlynol, sy'n berthnasol i'r Flaenoriaeth, i olrhain cynnydd prosiectau a'r Rhaglen. Mae'r dangosyddion allbwn a chanlyniad yn ddangosyddion monitro, y bydd angen i brosiectau adrodd ar gynnydd yn eu herbyn tra bydd y prosiect ar waith. Mae'r dangosyddion effaith yn ddangosyddion gwerthuso a dylid eu hystyried wrth wneud gwaith gwerthuso ar lefel prosiectau ac ar lefel y Rhaglen.

4.151 Yn ogystal ag adrodd ar gynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn, bydd angen i brosiectau ddarparu gwybodaeth fonitro bellach sy'n ategu'r dangosyddion er mwyn bodloni gofynion y Comisiwn fel y nodir yn Atodiad XXIII o'r Rheoliadau Gweithredu ac i ganiatáu i WEFO asesu effeithiolrwydd y Rhaglen. Yn unol ag erthygl 66(2) o'r rheoliad cyffredinol, bydd gwybodaeth fonitro a gesglir yn caniatáu dadansoddi ystadegau yn ôl rhyw a maint yr ymgymeriadau sy'n derbyn cyllid, lle y bo hynny'n briodol.

4.152 O dan y cyfleuster hyblygrwydd y darperir ar ei gyfer gan Erth 34(2) o Reoliad (EC) 1083/2006, bydd dangosydd "mangreoedd a grëwyd neu a adnewyddwyd" ERDF ar gael i ddal gweithgarwch ERDF a ariennir trwy'r Flaenoriaeth hon.

4.153 Cyflwynir targedau yn y tabl isod hefyd. Mae'n rhaid cyrraedd pob targed erbyn 2015. Am fod hwn yn faes gweithgarwch newydd caiff y Flaenoriaeth hon ei gwerthuso mewn dau gam. Felly caiff y flaenoriaeth hon ei gwerthuso yn 2010 a 2012. Gweler Atodiad Ng – Dangosyddion.

Tabl 31: Dangosyddion a Thargedau Blaenoriaeth 4

Dangosydd	Targed (2015)
Allbynnau	
Cyfanswm y cyfranogwyr (cyflogedig)	7,500
Cyfranogwyr benywaidd	52%
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
<i>Rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus</i>	60%
<i>Gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus</i>	40%
Mentrau lledaenu	70
Cyflogwyr a gynorthwyr neu sy'n derbyn cymorth ariannol	60
Mentrau i hyrwyddo datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol	15
Prosiectau sy'n darparu hyfforddiant arbenigol mewn datblygu cynaliadwy	10%
Canlyniadau	
Cytundebau cydweithrediadol rhwng cyrff gwasanaethau cyhoeddus	20
Strategaethau cynllunio a datblygu gweithluoedd isranbarthol	3
Strategaethau dysgu a datblygu sefydliadol	25
Cyfranogwyr sy'n cwblhau cyrsiau - Cyflogedig	6,750
<i>Grwpiau ymyrraeth allweddol:</i>	
<i>Rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus</i>	-
<i>Gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus</i>	-
<i>Cyfranogwyr benywaidd</i>	-
Lleoliadau secondio	700
Cyflogwyr sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	50%
Cyflogwyr sy'n mabwysiadu neu'n gwella Systemau Rheoli Amgylcheddol	75%
Effeithiau	
Gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus	-
Cynyddu effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys costau is darparu gwasanaethau)	-
Bodddhad dinasyddion â gwasanaethau cyhoeddus	-

Strategaeth weithredol.

4.154 Cyflawnir y Flaenoriaeth hon trwy ddwy thema gydgyssylltiol. O dan Thema 1, caiff ymyriadau eu targedu at brosiectau i alluogi cyrff gwasanaethau cyhoeddus (NGOs, y sector cyhoeddus ac eraill) i drawsnewid eu prosesau, eu systemau a'u gweithrediadau busnes trwy gydweithio'n fwy effeithiol â'i gilydd a rhannu adnoddau. Fel arfer bydd hyn yn gofyn am rywfaint o arian sefydlu cychwynnol i ddatblygu'r gallu a'r arbenigedd o fewn gweithlu'r sector gwasanaethau cyhoeddus. Bydd Thema 2 yn canolbwyntio ar feithrin gallu,

datblygu sgiliau arwain a rheoli yn fwy cyffredinol o fewn cyrff gwasanaethau cyhoeddus i gynnal y newid yn y modd y darperir gwasanaethau yn y tymor hwy.

4.155 Canolbwyntir ymyriadau ar weithgarwch gan bartneriaethau rhanbarthol ac isranbarthol a Byrddau Gwasanaethau Lleol a chânt eu cydlynu a'u hyrwyddo trwy raglen *Creu'r Cysylltiadau*, gan gynnwys *Rheoli yng Ngwasanaethau Cyhoeddus Cymru*, *Gwerth Cymru* a chyrrff ymbarél cenedlaethol. Bydd ymyriadau yn cynnwys datblygu gallu sefydliadau anllywodraethol a thrydydd sector gan hyrwyddo eu cyfraniad fel rhan o economi gymysg a chynyddu eu gallu i ddarparu ymagweddau arloesol at ddarparu gwasanaethau, gan alluogi cyrff sector gwasanaethau cyhoeddus i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r gwahanol gymunedau a wasanaethir ganddynt.

Thema 1: Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus trwy gydweithredu mwy effeithiol.

4.156 Bydd y thema hon yn canolbwyntio ar weithredu newidiadau mewn prosesau cynllunio a darparu gwasanaethau trwy ailgynllunio ac ail-lunio gwasanaethau, systemau a phrosesau yn gydweithrediadol i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithlon, integredig ac ymatebol i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Bydd yn adeiladu ar gynlluniau peilot, astudiaethau dichonoldeb a gwaith sylfaen arall cyfredol ac arfaethedig a alluogir trwy Raglen *Creu'r Cysylltiadau* yn ogystal ag ysgogi arloesi. Yn ogystal ag adlewyrchu ymrwymadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i gydraddoldeb a datblygu cynaliadwy, bydd y gweithgarwch yn seiliedig ar ymrwymiad i gynnwys y cyhoedd a phartneriaid mewn prosesau llunio a darparu gwasanaethau. Gwneir hyn trwy:

- wella'r modd y darperir gwasanaethau lleol trwy gydweithio ar draws sectorau a sefydliadau a arweinir gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol i sicrhau gwell canlyniadau (e.e. lleihau anweithgarwch economaidd, galluogi adfywio a gwella safonau iechyd);
- sefydlu trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau a rennir yn rhanbarthol ac yn isranbarthol ar gyfer gwasanaethau y gellir eu gwella trwy rannu arbenigedd, sicrhau arbedion maint neu na ellir eu cynnal yn economaidd neu'n effeithiol gan gorff unigol;
- gwella hygyrchedd gwasanaethau i'r cyhoedd trwy ddefnyddio sianeli ar y we, cyd-systemau cysylltu gwasanaeth cwsmeriaid a sianeli cyfathrebu eraill; ac
- hyrwyddo gweithredu trefniadau caffael cydweithrediadol a threfniadau ar gyfer gwasanaethau a rennir er mwyn sicrhau mwy o effeithlonrwydd, datblygu prosesau caffael electronig strategol, hyrwyddo cyfle cyfartal a gweithredu arfer caffael cynaliadwy.

4.157 Rydym yn disgwyl i'r thema hon ddefnyddio tua 40% o'r amcan hwn.

Gweithgareddau Dangosol

4.158 Bydd y rhain yn cynnwys:

- mentrau i hyrwyddo datblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol fel sail i hyrwyddo cydweithio ar draws sectorau;
- hyrwyddo gweithredu prosiectau i integreiddio darpariaeth gwasanaethau lleol ar draws pob sector gwasanaeth cyhoeddus gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol, gan gynnwys partneriaid cymdeithasol byrddau gwasanaethau lleol ac adnoddau NGOs yn seiliedig ar gytundebau cydweithrediadol;
- ehangu a chynyddu gallu cyrff gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo a chyflawni newidiadau mewn prosesau busnes, gan gynnwys trwy fentrau lledaenu a mentrau datblygu sefydliadol;
- hyrwyddo prosiectau gan bartneriaethau rhanbarthol ac isranbarthol i weithredu a gwella trefniadau darparu ar y cyd, gan gynnwys ymagweddau a rennir i wella cyflawni gweithgarwch caffael a/neu effeithlonrwydd gweithgarwch caffael, swyddogaethau corfforaethol, gwaith rheoli amgylcheddol a gwasanaeth cwsmeriaid;
- ehangu ac ymestyn mynediad cyhoeddus i wasanaethau cyhoeddus trwy ddefnyddio canolfannau cyswllt a rennir, pwyntiau cyswllt ag un rhif ffôn, systemau gwybodaeth a rennir ac allgymorth wedi'i dargedu ar gyfer y grwpiau hynny sy'n wynebu anawsterau penodol yn gysylltiedig â hygyrchedd; ac
- chynyddu'r wybodaeth a'r sgiliau yn ymwneud â gwella effeithlonrwydd adnoddau gan gynnwys defnyddio systemau rheoli amgylcheddol i wella perfformiad amgylcheddol gwasanaethau cyhoeddus.

Thema 2: Meithrin Gallu Sectorau Gwasanaethau Cyhoeddus i Ddarparu Gwasanaethau o Safon Uwch.

4.159 Mae'r thema hon yn ceisio datblygu sgiliau a gallu gweithlu a sefydliadau'r gwasanaethau cyhoeddus i ymroi i'r agenda ddiwygio, ei chyflawni a'i chynnal. Mae hyn yn cynnwys helpu arweinwyr a rheolwyr i feithrin eu gallu i arwain y gweithlu trwy newid, gan sicrhau ymagwedd fwy strategol at reoli adnoddau dynol a mynd i'r afael â bylchau sgiliau penodol yn y gweithlu ac atgyfnerthu gallu partneriaid cymdeithasol. Bydd y thema hon yn hyrwyddo cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol trwy'r mathau o weithgarwch a gefnogir, fel rhan o'r gofyniad i fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol. Gwneir hyn trwy:

- datblygu amrywiaeth o ymyriadau a rhwydweithiau dysgu i alluogi rheolwyr ac arweinwyr i feithrin sgiliau a gwybodaeth graidd (er enghraifft rheoli prosiectau, gwasanaeth cwsmeriaid, rheoli partneriaethau) i fynd i'r afael â her gwella gwasanaethau, gan gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer datblygu'r gweithlu a sicrhau strategaethau olynny;
- meithrin gallu ymhlith partneriaid cymdeithasol a NGOs i gyfrannu yn effeithiol at brosesau darparu, datblygu ac ailgynllunio gwasanaethau, yn arbennig i sicrhau y canolbwyntir ar bersbectif defnyddiwr y gwasanaeth; ac
- nodi ymagweddau arloesol ac arferion arwain a rheoli llwyddiannus mewn cyd-destun trawswladol.

4.160 Rydym yn disgwyl i'r thema hon ddefnyddio tua 60% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Gweithgareddau Dangosol

4.161 Bydd y rhain yn cynnwys:

- sefydlu a gweithredu strategaethau cynllunio a datblygu gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus isranbarthol (yn ôl pob tebyg Cymoedd De Cymru, De-orllewin a Gogledd-orllewin Cymru) ar draws yr ystod lawn o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i geisio atgyfnerthu sylfaen sgiliau gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus mewn meysydd allweddol, gan gynnwys arweinyddiaeth gydweithrediadol, rheoli newid, datblygu cynaliadwy, adfywio, cydraddoldeb ac amrywiaeth, gwasanaeth cwsmeriaid ac ymgysylltu â'r cyhoedd;
- ymyriadau, gan weithio gyda sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid cymdeithasol, i sicrhau bod y gweithlu wedi derbyn hyfforddiant o ran y broses o drawsnewid gwasanaethau a'i fod yn cymryd rhan yn y broses honno, gan roi sylw i dechnolegau newydd a gyflwynir, yr agenda gydweithrediadol, y model gwasanaeth dinasyddion a chwsmeriaid, y pwyslais ar sgiliau cyflawni gan gynnwys rheoli prosiectau a natur amrywiol y farchnad lafur Gymreig;
- rhaglen i atgyfnerthu gallu NGOs a phartneriaid cymdeithasol i gyfrannu at gynllunio, moderneiddio a darparu gwasanaethau cyhoeddus;
- darparu porth dysgu a datblygu, yn seiliedig ar gynlluniau gweithredu unigoliedig i wella sgiliau staff a ddadleolwyd a throsglwyddo eu harbenigedd i agweddau eraill ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus;
- rhaglenni secondio, sy'n adeiladu ar raglen *Cyfnewid Pobl Cymru* i hyrwyddo trosglwyddo sgiliau ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth a datblygu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio trawswladol â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus partner mewn mannau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd, i hyrwyddo a lledaenu arfer gorau; ac
- chynorthwyo rheolwyr i ddatblygu a chyflawni gwell gweithgareddau datblygu rheolwyr, sy'n cynnwys strategaethau ar gyfer cyfle cyfartal.

Gwerth Ychwanegol

4.162 Daw'r arian cyfatebol disgwylidig ar gyfer y Flaenoriaeth o gyllideb diwygio gwasanaethau cyhoeddus rhaglen *Creu'r Cysylltiadau* Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef £14 miliwn y flwyddyn ar hyn o bryd dros y 3 blynedd 2007-10, a daw'r gweddill o ffynonellau eraill gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff iechyd a chyrrff darparu gwasanaethau cyhoeddus eraill, cyrff gwirfoddol a chymunedol.

4.163 Bydd y Flaenoriaeth yn galluogi gwneud cynnydd cyflymach a mwy o gynnydd o ran yr agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus a nodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan *Creu'r Cysylltiadau*, gan gynyddu o 50% o leiaf yr arian a'r gweithgarwch sydd wedi'i dargedu ar y rhanbarth Cydgyfeirio y gall rhaglen ddiwygio graidd *Creu'r Cysylltiadau* ei gyflawni. Caiff y gwerth ychwanegol hwn ei olrhain trwy'r dangosydd a nodwyd ar gyfer y Flaenoriaeth a'r gwerthusad a nodir ym mharagraff 4.153.

Partneriaid Cymdeithasol

4.164 Mae Rheoliad UE [1081/2006], Erthygl 5 (3), yn darparu ar gyfer dyrannu cyfran briodol o gyllid ESF ar gyfer cefnogi gweithgareddau a gyflawnir ar y cyd gan y partneriaid cymdeithasol. Ni fwriedir dyrannu arian i bartneriaid cymdeithasol o fewn y flaenoriaeth hon.

Buddiolwyr

4.165 Gall y rhain gynnwys cyrff sector cyhoeddus gan gynnwys Awdurdodau Lleol, y sector gwirfoddol a chymunedol, a phartneriaid cymdeithasol.

Cyfleuster hyblygrwydd

4.166 Mae Rheoliad UE [1083/2006], Erthygl 34(2), yn darparu i ESF ariannu ymyriadau sy'n dod o fewn cwmpas ERDF (ac fel arall), ar yr amod bod angen y cyfryw ymyriadau er mwyn rhoi gweithrediad ar waith yn llwyddiannus a bod cysylltiad uniongyrchol rhyngddynt â'r gweithrediad hwnnw. Mae'n bosibl y defnyddir y cyfleuster hwn o ran y Flaenoriaeth hon ar gyfer peth gwariant cyfalaf ar raddfa fach i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi a datblygu'r arweinwyr a'r cyflogeion yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Grantiau Cyffredinol

4.167 Nid ydym yn rhagweld y defnyddir Grantiau Cyffredinol fel y'u diffinnir gan Reoliad UE [1083/2006], Erthygl 42.

Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol

Amcan

4.168 Sicrhau bod y Rhaglen yn cael ei rheoli yn effeithlon ac yn effeithiol.

Rhesymeg

4.169 Mae Cymorth Technegol (CT) yn adnodd hanfodol i hyrwyddo cyflawni'r Rhaglen yn effeithiol. Bydd angen systemau gweinyddu cadarn a gefnogir yn dda sy'n adeiladu ar y systemau hynny a ddefnyddiwyd ar gyfer Rhaglenni blaenorol i sicrhau bod y Rhaglenni newydd yn gweithio'n llyfn ac yn effeithiol. Defnyddir CT ochr yn ochr ag adnoddau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid a bydd yn canolbwyntio ar hyrwyddo rhannau allweddol o'r broses weithredu.

4.170 Defnyddir cymorth technegol i hyrwyddo datblygu gallu ar lefel Ardaloedd y Cynllun Gofodol i ymgysylltu ag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid lleol i ddatblygu a hyrwyddo'r broses o weithredu Fframweithiau Strategol perthnasol.

4.171 Mae Rheoliad UE 1083/2006, Erthygl 46, yn caniatáu defnyddio cymorth technegol i ariannu gweithgareddau paratoi, rheoli, monitro, gwerthuso, gwybodaeth a rheoli rhaglenni gweithredol ynghyd â gweithgareddau i atgyfnerthu gallu gweinyddol ar gyfer rhoi'r cronfeydd ar waith.

4.172 Gan adeiladu ar brofiad a gafwyd yn ystod y cyfnod 2000 - 2006 mae'r Awdurdod Rheoli yn bwriadu defnyddio CT i wella'r modd y gweithredir y rhaglen (gan atgyfnerthu llywodraethu a chydymffurfiaeth) a'i gwneud yn fwy effeithiol o ran creu swyddi a thwf (gan ddatblygu ein gallu cyflawni i gynyddu'r effaith). Er mwyn bwrw ymlaen â hyn, mae'r Awdurdod Rheoli yn bwriadu defnyddio CT i hyrwyddo ystod o weithgareddau cymwys a gyflawnir gan sefydliadau partner a'r Awdurdod Rheoli ei hun, fel y nodir yn Erthygl 46.

Rheoli

4.173 Bydd y gweithgareddau dangosol canlynol yn gwella gweithredu strategol ac yn atgyfnerthu'r gwaith o hyrwyddo a datblygu'r rhaglen:

Gweithgareddau Dangosol

- hyrwyddo a hwyluso prosiectau ac ymagweddau cydweithrediadol a meithrin gallu, gan gynnwys cymorth i ddatblygu a gweithredu Fframweithiau Strategol;
- atgyfnerthu systemau cydlynu a chysylltu â phartneriaid a hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth;
- cyngor a chymorth ar gyfer prosiectau sy'n ymgorffori gweithgarwch yn ymwneud ag arloesi, cydweithredu trawswladol, rhannu arfer da a phrif ffrydio;

- gwella arbenigedd a chynghor technegol allanol;
- datblygu a gwella systemau TG pwrpasol;
- cynghori a chynorthwyo prosiectau o ran integreiddio themâu trawsbynciol; ac
- hyfforddiant ar gyfer rheolwyr prosiectau a chymorth ar gyfer rhwydweithiau.

Monitro

4.174 Sefydlir un Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMRh) i oruchwylio effeithiolrwydd ac ansawdd y rhaglenni. Hyrwyddir ei waith gan y gwelliant mewn gwybodaeth monitro a rheoli a fydd yn deillio o'r buddsoddiad mewn TG a nodwyd uchod. Defnyddir cymorth technegol i hyrwyddo dyletswyddau'r PMRh, fel y nodir yn Rheoliad UE 1083/2006, Erthyglau 65 a 66, a'i is-bwyllgorau ac, yn y mwyafrif o achosion, rhennir y costau rhwng y ddwy raglen Gydygyfeirio a'r ddwy raglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth ranbarthol yn gymesur (h.y. ar sail pro-rata).

4.175 Telir arbenigwyr a benodir i'r PMRh yn seiliedig ar haeddiant yn unol ag arfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac fe'u telir o ffynonellau ariannu domestig ac nid o Gronfeydd Cymorth Technegol na'r Cronfeydd Strwythurol.

Gweithgareddau Dangosol

- gwariant ar gyfarfodydd monitro a chyfarfodydd is-bwyllgorau, gan gynnwys treuliau; ac
- atgyfnerthu'n sylweddol agweddau ar swyddogaeth Rheoli'r Rhaglen WEFO. Bydd hyn yn cynnwys nifer o swyddogaethau technegol ac arbenigol yn ogystal â sicrhau y rheolir y rhaglen yn fwy effeithiol yn fewnol, darparu gwell cymorth rheoli i'r PMRh a gwella prosesau adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Ymchwil a Gwerthuso

4.176 Yn ystod y cyfnod rhaglennu 2000-2006, chwaraeodd ymchwil a datblygu rôl ganolog wrth helpu WEFO i reoli rhaglenni'n effeithiol. Sefydlodd WEFO dîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso (YMG) arbenigol i lunio, cyflawni neu reoli gwerthusiadau ar lefel rhaglenni.

4.177 Defnyddir Cymorth Technegol i fodloni'r gofynion ar gyfer gwerthuso fel y'u nodir yn Rheoliad UE [1083/2006], Erthyglau 47 ac 48.

Gweithgareddau Dangosol

- ymchwil a gwerthuso ar lefel rhaglenni, gan gynnwys ymchwil i'r Themâu Trawsbynciol;
- ymchwil a gwerthuso yn ymwneud â Fframweithiau Strategol;
- darparu cyngor a chanllawiau ar werthuso ar gyfer sefydliadau noddi;
- lledaenu canlyniadau ymchwil a gwerthuso a digwyddiadau gweithdy; ac
- rheoli ymarferion ymchwil a gwerthuso, er enghraifft trwy'r Grŵp Cyngori ar Werthuso.

4.178 Ceir rhagor o fanylion am y gweithgareddau arfaethedig hyn ym Mhennod 6 – Gweithredu Darpariaethau.

Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd

4.179 Mae llwyddiant y rhaglen yn dibynnu i raddau helaeth ar sicrhau dealltwriaeth eang ymhlith y noddwyr a'r partneriaid o'i chynnwys, ei rheoliadau llywodraethu a'i nodau a'i hamcanion. Mae'n rhaid cymryd camau i sicrhau bod noddwyr a gweinyddwyr posibl y rhaglen yn ymwybodol o'r modd y mae'r rhaglen yn gweithio ac o'r cyfleoedd ariannu sydd ar gael. Mae hefyd yn hanfodol y cyhoeddir manteision a llwyddiannau'r rhaglenni yn eang i bwysleisio'r gwerth a ychwanegir gan yr UE yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid.

Gweithgareddau Dangosol

- lledaenu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a chyfathrebu gan gynnwys canllawiau ar gyfer partneriaid a noddwyr; seminarau/gweithdai;
- datblygu a chynnal gwefan WEFO;
- mentrau amrywiaeth a hygyrchedd; ac
- gweithredu Llinell Gymorth.

Gweithgareddau Rheoli ac Atgyfnerthu Gallu Gweinyddol

4.180 Datblygodd a gwellodd yr Awdurdod Rheoli ei systemau rheoli yn ystod cyfnod rhaglenni 2000-06. Mae am adeiladu ar hyn er mwyn iddo ddatblygu'n esiampl ar gyfer cronfeydd strwythurol ar draws ystod ei swyddogaethau.

Gweithgareddau dangosol

- gwell trefniadau archwilio i sicrhau bod y trefniadau hyn, gan gynnwys y rhai a ddisgrifir o dan Erthygl 17 o'r Rheoliadau Gweithredu¹⁸², yn gweithio'n effeithiol, gan wella ansawdd a llinellau amser;
- gwella gweithgarwch monitro a chofnodi afreoleidd-dra; ac
- sefydlu uned ganllawiau o fewn yr Awdurdod Rheoli sy'n datblygu ac yn darparu cyngor parhaol a chyson ar gyfer noddwyr a phartneriaid.

Buddiolwyr

4.181 Bydd y rhain yn cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.

¹⁸² Rheoliad y Comisiwn (EC) rhif 1828/2006 dyddiedig 8 Rhagfyr 2006 sy'n nodi rheolau ar gyfer gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol.

Pennod 5: Themâu Trawsbynciol

5.1 Yn unol ag Erthyglau 16 a 17 o reoliad (CE) Rhif 1083/2006 ac Erthygl 6 o reoliad (CE) Rhif 1083/2006, ac Erthygl 6 o reoliad (CE) Rhif 1081/2006, ymgorfforir themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol yn rhaglen Gydgyfeirio ESF. Y nod yw adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed o ran integreiddio'r themâu trawsbynciol hyn yn y gwaith o gyflawni rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop 2000–2006.

5.2 Mae'r bennod hon yn nodi'r rhesymeg a'r cyd-destun polisi cyfredol ac yn diffinio'r strategaeth weithredol ar gyfer y ddwy thema. Ymdrinnir â'r ffyrdd y caiff y themâu eu gweithredu, eu monitro a'u gwerthuso ym Mhennod 6, ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd o raglen gyfredol 2000-2006 yn Atodiad H.

Cyfle Cyfartal A Chydraddoldeb Rhywiol Ar Gyfer Merched A Dynion

Rhesymeg

5.3 Mae egwyddorion sicrhau cyfle cyfartal i bob dinesydd a sicrhau na chaiff unrhyw grŵp ei allgáu'n gymdeithasol yn ganolog i bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU, yn arbennig o ran y farchnad lafur. Mae integreiddio cyfle cyfartal yn y Cronfeydd Strwythurol yn bwysig nid yn unig am resymau cyfreithiol, ond hefyd am fod goresgyn anghydraddoldebau rhwng dynion a merched yn cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Gwneir ymrwymiad i drin cyfle cyfartal fel un o'r ddwy thema drawsbynciol o fewn rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn y DU yn y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (NSRF) 2006.

5.4 Y nod yw hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb yng nghyd-destun y cyfleoedd a gynigir gan y rhaglen Gydgyfeirio ac atal unrhyw wahaniaethu ar sail rhyw, anabled, tarddiad ethnig, crefydd neu gred, oedran, cyfeiriadedd rhywiol ac o ran natur ddwyieithog llawer o gymunedau'r rhanbarth.

5.5 Bydd hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb yn cyfrannu at amcanion y rhaglen trwy:

- leihau anghyfiawnder ac felly hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a dwyn amrywiaeth eang o fanteision megis gwell amgylchedd ar gyfer datblygiad economaidd;
- ceisio sicrhau bob pawb sy'n byw yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael cyfle i wneud y defnydd gorau o'u sgiliau a'u galluoedd; a
- codi lefelau CMC y pen a mynd i'r afael â'r anghydbwysedd yn enillion merched a dynion.

5.6 Mae'r rhain yn heriau allweddol, ac mae'r dadansoddiad ym Mhennod 2 ac Atodiadau Ch a H yn darparu tystiolaeth ategol o sefyllfa gymharol ddifreintiedig merched, pobl anabl, pobl hŷn a phobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig, a amlygir mewn mesurau o anweithgarwch economaidd.

Cyd-destun Polisi

5.7 Mae gan y Gymuned Ewropeaidd ymrwymiad hirsefydlog i gyfle cyfartal, a sicrhau bod dynion a merched yn cael eu trin yn gyfartal, a'i nod yw dileu pob math o wahaniaethu trwy amrywiaeth o ddulliau; datganiadau ar y cyd, penderfyniadau, cyfarwydddebau a rhaglenni gweithredu. Mae integreiddio cyfle cyfartal yn y Cronfeydd Strwythurol yn helpu i oresgyn anghydraddoldebau rhwng dynion a merched yn y farchnad lafur.

5.8 Mae'r Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi yn pwysleisio pa mor bwysig yw cyfle cyfartal a mynd i'r afael â gwahaniaethu. Mae Cyfathrebiad y Comisiwn Ewropeaidd ar "*Gweithio Gyda'n Gilydd i Sicrhau Twf a Swyddi*"¹⁸³ yn nodi y bydd yn anodd cyflawni amcanion strategol uchelgeisiol Lisboa os na all grwpiau mawr o boblogaeth yr UE gael mynediad i swyddi, hyfforddiant a chyfleoedd eraill.

5.9 Yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb a ymgorfforir yng Nghytundeb Amsterdam, mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cynulliad Cymru hyrwyddo cyfle cyfartal, fel y nodir o dan Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998: '*Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda golwg ar sicrhau y cyflawnir ei swyddogaethau gan roi sylw priodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb.*

5.10 Atgyfnerthwyd yr ymrwymiad i gyfle cyfartal hefyd mewn nifer o ddogfennau strategaeth allweddol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gan gynnwys *Cymru: Economi yn Ffynnu*. Un o'i phedair blaenoriaeth allweddol yw cynyddu cyflogaeth, hyrwyddo creu swyddi a helpu unigolion i fynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad yn y farchnad lafur a byd gwaith.

5.11 Mae *Cynllun Gofodol Cymru* yn datblygu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i deilwra ei pholisïau i wahanol anghenion gwahanol rannau o Gymru, lle y bydd cydraddoldeb yn rhan annatod o'r gwaith o sicrhau dyfodol cynaliadwy.

5.12 Mae Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004–2007, Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005, Creu'r Cysylltiadau a strategaethau megis, Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14–19 i gyd yn pwysleisio pwysigrwydd cydraddoldeb yn ei ymagwedd at gyflawni polisi.

5.13 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i brif ffrydio'r iaith Gymraeg. Tynnodd yr ail Adroddiad Blynyddol ar iaith Pawb (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog) a'r Cynllun Iaith Gymraeg¹⁸⁴ sylw at y cynnydd da a wnaed yn ystod 2004–2005, ond cydnabu fod angen gwneud mwy i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio ymhlith pob prosiect a menter newydd.

¹⁸³ COM (2005)24 Working Together for Growth and Jobs

¹⁸⁴ Y Cynllun Iaith Gymraeg:

http://new.wales.gov.uk/topics/welsh_language/WLS-CIG/1249162/?lang=cy

Y Fframwaith Deddfwriaethol Presennol ac ar gyfer y Dyfodol

5.14 Mae ystod o ddeddfwriaeth¹⁸⁵ sydd wrth wraidd yr agenda gydraddoldeb. Ar ben hynny mae nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth newydd yn cael eu datblygu. Bydd y Mesur Cydraddoldeb a deddfwriaeth gysylltiedig yn helpu i sicrhau bod pob agwedd ar gydraddoldeb yn cael ei thrin yn fwy cyfartal a'i gwneud yn haws i brif ffrydio cydraddoldeb yn gyffredinol ym musnes y Llywodraeth. Mae'r Mesur yn nodi cynlluniau i sefydlu corff newydd ym mis Hydref 2007, a elwir yn Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR). Bydd gan y corff bwerau eang eu cwmplas i fynd i'r afael â gwahaniaethu a rhagfarn, a hyrwyddo cydraddoldeb.

5.15 Bydd y CEHR yn dwyn at ei gilydd, mewn un corff, waith y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE), y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal (EOC). Bwriedir sefydlu'r CEHR ym mis Hydref 2007. Bydd y CEHR hefyd yn gyfrifol am feysydd cydraddoldeb newydd oedran, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol, a bydd yn gweithio i hyrwyddo Hawliau Dynol.

5.16 Mae'r Mesur Cydraddoldeb hefyd yn cynnwys pwerau newydd i wahardd gwahaniaethu ar sail crefydd a chred o ran nwyddau a gwasanaethau, ac mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched a gwahardd gwahaniaethu ar sail rhyw wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Bydd y Mesur hefyd yn hyrwyddo cyflwyno rheolau i wahardd gwahaniaethu o ran nwyddau a gwasanaethau ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

5.17 Mae Adolygiad Cydraddoldebau a'r Adolygiad o'r Ddeddf Gwahaniaethu wrthi'n cael eu cynnal, gyda golwg ar gyflwyno Mesur Cydraddoldeb Unigol cyn gynted ag y bo modd.

Amcanion

5.18 Nodir y pedwar amcan cyfle cyfartal trawsbynciol ar gyfer y rhaglen Gydgyfeirio isod. Datblygwyd yr amcanion hyn gan ddefnyddio tystiolaeth o'r Dadansoddiad ym Mhennod 2 ac Atodiadau Ch a H. Ceir crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd o weithredu'r themâu trawsbynciol yn Rhaglenni 2000-2006 yn Atodiad H. Gwnaed dadansoddiad hefyd o effaith bosibl gweithgareddau a gefnogir ar

¹⁸⁵ Deddfau Cydraddoldeb – Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976/Cysylltiadau Hiliol (Deddf Ddiwygio)

2000 <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/20000034.htm>

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:

http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1993/UKpga_19930038_en_1.htm#con

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw (Ailgyfeirio Rhyw) 1999:

<http://www.opsi.gov.uk/si/si1999/19991102.htm>

Deddf Cydnabod Rhyw 2004: <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/20040007.htm>

Deddf Partneriaeth Sifil 2005: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/ukpga_20040033_en_1

Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003:

http://www.opsi.gov.uk/si/si2003/uksi_20031661_en.pdf

Deddf Cyflog Cyfartal 1970: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1970/PDF/ukpga_19700041_en.pdf

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1985: <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2005/20050013.htm>

Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd a Chred) 2003:

http://www.opsi.gov.uk/si/si2003/uksi_20032828_en.pdf

Y Ddeddf Hawliau Dynol: <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980042.htm>

amcanion cyfle cyfartal y Rhaglen. Dangosir hyn ar ffurf Dadansoddiad a Matrics ac fe'i ceir yn Atodiad Ch.

5.19 Bydd y pedwar amcan cyfle cyfartal canlynol yn llywio'r gwaith o weithredu pob un o'r Blaenoriaethau ym Mhennod 4 yng nghyd-destun y gweithgareddau a ariennir.

Amcan 1: Cynyddu nifer yr unigolion ag anfanteision lluosog sy'n cael mynediad i gyflogaeth a hunangyflogaeth.

5.20 Mae'n hanfodol bwysig creu'r cyfleoedd a'r cymorth cywir ar gyfer unigolion er mwyn iddynt chwarae rôl weithredol yn y farchnad lafur. Mae angen cymryd camau gweithredu cadarnhaol, cymysgedd o gamau gweithredu mewn llawer o achosion, i sicrhau y gall grwpiau penodol fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sy'n cynnwys ymagwedd amlasiantaeth. Ble bynnag y bo modd, dylai'r rhai sydd wedi'u targedu ar gyfer camau gweithredu cadarnhaol gael cyfle i ddylanwadu gynllun gweithgareddau arfaethedig. Ar ben hynny dylid darparu mynediad i'r farchnad lafur, hyfforddiant galwedigaethol ac addysg er mwyn ailintegreiddio dioddefwyr yn dilyn Cynllun Gweithredu'r UE ar Fasnachu mewn Bodau Dynol¹⁸⁶.

Amcan 2: Cynyddu nifer y merched, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl, sy'n cael hyfforddiant a chyflogaeth mewn sectorau cyflog uwch a sgil uwch a hunangyflogaeth.

5.21 Dim ond os bydd grwpiau a fu gynt wedi'u hallgáu yn sicrhau mynediad i hyfforddiant lefel uwch ac yn y pen draw swyddi lefel uwch y gellir sicrhau datblygiadau economaidd parhaol. Gellir cyflawni hyn yn rhannol trwy sicrhau mynediad cyfartal i fesurau cynorthwyo busnesau, mynediad i arian a chyingor, strategaethau sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd gan gyflogwyr, hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer darparwyr ac amgylchedd ffisegol cefnogol sy'n cynnig mynediad hwylus, diogelwch a gofal plant. Er mwyn i aelodau o grwpiau sydd wedi'u hallgáu fanteisio'n llawn ar y mynediad cynyddol a gynigir gan y rhaglen bydd yn bwysig i sefydliadau busnes a hyfforddi ystyried eu hanghenion, ac yn ei dro caniatáu iddynt wneud y cyfraniad llawnaf posibl at economi'r rhanbarth.

Amcan 3: Herio arwahanu galwedigaethol trwy gynyddu nifer y merched a'r dynion sy'n hyfforddi neu'n ailhyfforddi mewn meysydd anhraddodiadol, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle y ceir prinderâu sgiliau.

5.22 Mae merched yn dal i wynebu arwahanu llorweddol a fertigol. Canolbwyntir ar fynd i'r afael â stereoteipiau rhyw o oedran cynnar, gan ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer athrawon a myfyrwyr, ac annog merched a dynion ifanc i edrych ar lwybrau addysgol anhraddodiadol. Mae hyrwyddo mynediad merched i sectorau anhraddodiadol yr un mor bwysig â hyrwyddo presenoldeb dynion mewn sectorau lle y mae merched yn gweithio yn

¹⁸⁶ Cynllun Gweithredu'r UE ar Fasnachu mewn Bodau Dynol:

http://www.eu2006.fi/news_and_documents/other_documents/vko47/en_GB/1164354364442/

draddodiadol. Dylid rhoi sylw arbennig i hyrwyddo mynediad merched i'r sectorau gwyddoniaeth, peirianeg, adeiladu, TGCh a Rheoli.

Amcan 4: Cynyddu nifer y cyflogwyr a'r sefydliadau hyfforddi i ddatblygu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys systemau a dulliau monitro ar gyfer ymgorffori gwelliannau.

5.23 Dengys tystiolaeth ar draws Ewrop fod grwpiau o bobl sy'n dioddef gwahaniaethu amlaf yn debygol o wynebu'r anawsterau mwyaf o ran cael mynediad i'r farchnad lafur¹⁸⁷. Bydd datblygu strwythurau ac arferion cydraddoldeb da yn cynyddu'r gallu i harneisio a datblygu sgiliau a doniau pawb a all gynyddu cyfoeth economaidd y rhanbarth. Er enghraifft, dylai cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac addysg, a chynghorwyr busnes ddatblygu eu strategaethau a'u hyfforddiant amrywiaeth eu hunain sy'n cydnabod bod angen datblygu dulliau hyblyg o weithio a darparu hyfforddiant, cymorth gofal plant a'r henoed, ac amgylcheddau hyblyg. Bydd hefyd yn bwysig mynd ati i sicrhau bod pobl yn deall bod sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd yr un mor berthnasol i ddynion ag i ferched. Mae'n hanfodol bwysig monitro strategaethau cyfle cyfartal ac amrywiaeth, a mabwysiadu system ffurfiol ar gyfer ymgorffori gwelliannau. Bydd mynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu yn hyrwyddo cyfranogiad cymdeithasol ehangach, yn arbennig cyflogadwyedd.

Strategaeth Weithredol

5.24 Mae'r Awdurdod Rheoli wedi ymrwymo i sicrhau yr hyrwyddir cydraddoldeb rhywiol a chyfle cyfartal wrth lunio, gweithredu, monitro a gwerthuso'r Rhaglen Weithredol. Yn yr un modd, bydd yr Awdurdod Rheoli yn ymdrechu i sicrhau cyfranogiad cytbwys gan ferched a dynion yn y gwaith o reoli a gweithredu'r rhaglen weithredol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Hyrwyddir prif ffrydio rhyw a chydraddoldeb h.y. sicrhau y caiff y persbectif rhywiol ei integreiddio ym mhob cam ochr yn ochr â champau gweithredu penodol ar gyfer merched a grwpiau eraill. Ystyrir hygyrchedd ar gyfer pobl anabl wrth ddiffinio'r gweithrediadau a gefnogir gan y Cronfeydd ac yng ngwahanol gamau'r broses weithredu.

5.25 Disgwylir i bob prosiect a gefnogir o dan y rhaglen gyfrannu at yr amcanion cyfle cyfartal perthnasol a mabwysiadu dangosyddion perthnasol cyfle cyfartal a nodir yn y tablau dangosyddion ar gyfer Pennod 4 o ran pob Blaenoriaeth. Bydd gweithgareddau penodol i hyrwyddo gweithredu thema Cyfle Cyfartal yn cynnwys:

- bydd cyngor arbenigol, gan gynnwys asesiadau cyfle cyfartal, ar gael yn gynnar i sicrhau y caiff amcanion cyfle cyfartal eu hintegreiddio yn eu cynlluniau prosiect;
- darperir cyngor arbenigol ar gyfer prosiectau ar faterion yn ymwneud â phrif ffrydio cyfle cyfartal, yn ystod camau cynnar a champau parhaus yn y broses;

¹⁸⁷ Comisiwn y Cymunedau Ewropeaidd 1999/564

- canllawiau lefel gweithgaredd ynghyd ag enghreifftiau astudiaethau achos arfer gorau a fydd yn darparu gwybodaeth benodol am sut y gall noddwyr ymdrin â chyfle cyfartal yn eu cynlluniau prosiect;
- targedau cyfle cyfartal wedi'u hintegreiddio mewn blaenoriaethau sy'n ffactor pwysig i annog prosiectau i gyfrannu. Gweler Pennod 4 ar gyfer targedau blaenoriaeth penodol;
- monitro cynnydd yn rheolaidd, sy'n darparu ar gyfer ymyrryd yn gynnar os oes angen (gweler Pennod 6);
- adroddiadau diweddar i'r PMRh a rhanddeiliaid eraill;
- cyfranogiad parhaol y Grŵp Themâu Trawsbynciol allanol; a
- WEFO yn annog sefydliadau cydraddoldeb allweddol i gymryd rhan yn y gwaith o hyrwyddo rhwydwaith effeithiol o gymorth arbenigol.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Rhesymeg

5.26 Bydd cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol fel thema drawsbynciol yn helpu i sicrhau na fydd datblygu economaidd yn amharu ar yr amgylchedd. Ar ben hynny bydd yn hyrwyddo potensial yr amgylchedd fel sbardun economaidd. Nodir hyn yn y *Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi*, yn arbennig o ran defnyddio adnoddau yn gynaliadwy.

5.27 Mae amgylchedd iach yn hanfodol ar gyfer ansawdd bywyd pobl Cymru, ac economi iach. Bydd amgylchedd deniadol o ansawdd uchel yn chwarae rôl allweddol wrth ddenu pobl i fyw a gweithio yng Nghymru a'u cadw. Mae'n sail i ddiwydiant twristiaeth Cymru sydd â throsiant o £2.3 biliwn, a'r 117,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru sy'n gysylltiedig â defnyddio, rheoli a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol¹⁸⁸. Effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol gyflogaeth hon a swyddi deilliedig eraill yw creu nwyddau a gwasanaethau gwerth £8.8 biliwn i Gymru bob blwyddyn a 9% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru¹⁸⁹. Mae cyswllt anorfod rhwng yr amgylchedd ac iechyd economaidd Cymru.

5.28 Y materion amgylcheddol allweddol sy'n effeithio ar y rhanbarth yw:

- newid hinsawdd a achosir yn bennaf trwy losgi tanwydd ffosil a fydd yn cynyddu lefelau môr ac yn cynyddu nifer y digwyddiadau tywydd eithafol;
- seilwaith trafnidiaeth cymharol wael a dibyniaeth gyfatebol ar gerbydau preifat;

¹⁸⁸ RSPB, Valuing our Environment – The Economic Impact of Wales 2001:

<http://www.rspb.org.uk/ourwork/policy/economicdevelopment/greeneconomy/regionalreports/wales.asp>

¹⁸⁹ Ibid.

- dibyniaeth fawr ar danwydd ffosil fel ffynhonnell ynni a lefel isel o ynni adnewyddadwy;
- cyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff isel a seilwaith rheoli gwastraff annigonol;
- diffygion posibl mewn rhai parthau cyflenwi dŵr;
- llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth, dyddodiad asid a ffynonellau eraill;
- bygythiadau i bysgodfeydd yn gysylltiedig â llygredd ac arferion pysgota anghynladwy;
- tirwedd o ansawdd uchel er bod rhai ardaloedd wedi'u handwyo gan ddiwydiant hanesyddol;
- ardaloedd helaeth a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur er bod bioamrywiaeth a chynefinoedd dan fygythiad o ganlyniad i amrywiaeth o achosion; ac
- amgylchedd hanesyddol cyfoethog.

Cyd-destun Polisi

5.29 Mae *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru* yn nodi ei chynigion ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy trwy ei holl swyddogaethau.

5.30 Mae *Strategaeth Amgylchedd Cymru* yn elfen allweddol o'r gwaith o gyflawni dyletswydd datblygu cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n nodi sut yr eir i'r afael â'r heriau penodol yn gysylltiedig ag 'elfen' amgylcheddol datblygu cynaliadwy (cymdeithasol ac economaidd yw'r elfennau eraill).

5.31 Mae sicrhau bod rhaglenni a pholisïau yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn rhan allweddol o *Cymru: Economi yn Ffynnu*. Pwysleisir defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon, ynghyd â hyrwyddo arloesi a datblygu technolegol sy'n hanfodol bwysig wrth lywio dyfodol cynaliadwy. Mae defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon, lleihau risgiau amgylcheddol a hyrwyddo caffael cynaliadwy yn elfennau allweddol o *Creu'r Cysylltiadau*, sy'n ceisio darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

5.32 Nodir pwysigrwydd gwella ymwybyddiaeth a sgiliau yn ymwneud â datblygu cynaliadwy yn *Strategaeth Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang Llywodraeth Cynulliad Cymru*. Mae'n ceisio integreiddio datblygu cynaliadwy yn addysg plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn un o dair colofn Cynaliadwyedd Amgylcheddol. Felly mae'n briodol hyrwyddo thema drawsbynciol cynaliadwyedd amgylcheddol yng nghysyniad ehangach datblygu cynaliadwy yn y prosiectau addysg, hyfforddiant a sgiliau a gefnogir gan raglen Gydgyfeirio ESF. Mae datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau yn hanfodol er mwyn i bobl ddeall yn iawn yr hyn y mae'n rhaid ei wneud i leihau effeithiau amgylcheddol a chynnal yr amgylchedd ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod.

5.33 Mae 6ed Raglen Gweithredu Amgylcheddol yr UE 2002–2012 yn nodi'r amcanion a'r blaenoriaethau amgylcheddol sy'n rhan annatod o strategaeth y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer datblygu cynaliadwy. Diffinnir amcanion y rhaglen ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, diogelu bioamrywiaeth,

hyrwyddo'r amgylchedd ac iechyd, defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a rheoli gwastraff. Mae rhaglen weithredu'r UE yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a chyfarwyddbau'r UE sy'n ceisio gwella'r amgylchedd.

Amcanion Cynaliadwyedd Amgylcheddol ar gyfer y Rhaglenni Cydgyfeirio

5.34 Mae cyfle pendant i'r Rhaglenni Cydgyfeirio wneud cryn gyfraniad at y canlyniadau a nodir yn strategaethau amgylcheddol Cymru ac Ewrop. Gellir cyflawni hyn o fewn fframwaith cyffredinol agenda Lisboa a Göteborg oherwydd y cysylltiad clir rhwng amgylchedd iach, lles cymdeithasol ac economi sy'n ffynnu.

5.35 Nodir nod ac amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol cyffredinol y Rhaglenni Cydgyfeirio isod. Mae'r rhain yn cyd-fynd â themâu a'r canlyniadau amgylcheddol a nodir yn *Strategaeth Amgylchedd Cymru*. Maent hefyd yn cyd-fynd â'r:

- gwersi a ddysgwyd o raglenni Cronfeydd Strwythurol cyfredol 2000–2006;
- ymyriadau a gefnogir gan y rhaglen; ac
- amcanion a nodir yn 6ed raglen Gweithredu Amgylcheddol y Gymuned Ewropeaidd.

5.36 Y nod cyffredinol yw gwella'r asedau amgylcheddol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, tra'n hyrwyddo defnyddio'r amgylchedd yn gynaliadwy er budd cymdeithasol ac economaidd. Hyrwyddir yr amcanion a nodir isod mewn dwy ffordd gan brosiectau a gefnogir gan ESF. Yn gyntaf, trwy sicrhau bod y prosiect yn canolbwyntio ar yr amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol neu'n eu hintegreiddio mewn pecynnau addysg a hyfforddiant, ac yn ail, trwy gymryd camau uniongyrchol o ran y modd y gweithredir y prosiect i leihau effeithiau uniongyrchol ar yr amgylchedd megis trwy wella effeithlonrwydd adnoddau a hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy.

(1) *Lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr i helpu i gyfyngu ar y newid yn yr hinsawdd a helpu i ymaddasu i'w effeithiau*

5.37 Dylai rhaglenni hyfforddiant ac addysg godi ymwybyddiaeth o achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, sut y gellir lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr a sut i ymaddasu i ganlyniadau newid yn yr hinsawdd. Gellid cyfeirio hyfforddiant sgiliau arbenigol at faterion newid hinsawdd penodol.

(2) *Hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy*

5.38 Dylid cymryd camau uniongyrchol i hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy trwy systemau cyflawni prosiectau sy'n lleihau'r angen i deithio neu'n hyrwyddo mathau cynaliadwy o drafnidiaeth. Dylid hyrwyddo effeithiau trafndiaeth ar yr amgylchedd ac iechyd dynol ac egwyddorion trafndiaeth gynaliadwy trwy raglenni addysg a hyfforddiant. Gellid llunio hyfforddiant arbenigol i fynd i'r afael â materion trafndiaeth penodol sy'n ceisio lleihau ei heffaith megis gollyngiadau i'r awyr a thagfeydd trafndiaeth.

(3) *Hyrwyddo defnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon*

5.39 Hyrwyddir rheoli adnoddau naturiol yn y rhanbarth yn gynaliadwy er budd cymdeithasol ac economaidd. Dylai rhaglenni addysg a hyfforddiant hyrwyddo rheoli gwastraff yn gynaliadwy o fewn egwyddorion lleihau hyd yr eithaf ar wastraff, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff, a chael gwared ar wastraff yn ddiogel. Dylid datblygu sgiliau arbenigol i ymdrin â materion penodol yn ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau.

(4) *Hyrwyddo rheoli'r tir, y môr a dyfroedd mewndirol yn gynaliadwy*

5.40 Darperir lefel uchel o ddiogelwch ar gyfer ardaloedd cadwraeth dynodedig a gwneir ymrwymiad ffurfiol na niweidir unrhyw safleoedd a ddiogelir o dan Natura 2000 gan brosiectau a ariennir o dan y Rhaglenni Cydgyfeirio. Dylid hyrwyddo hyfforddiant arbenigol i wella sgiliau ar gyfer rheoli'r amgylchedd naturiol yn gynaliadwy. Integreiddio'r amcan hwn mewn rhaglenni hyfforddiant ac addysg mwy cyffredinol i helpu pobl i ddeall yr amgylchedd naturiol a sut y dylid ei reoli'n gynaliadwy.

(5) *Gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig a chyfleoedd i gael mynediad i fannau gwyrdd*

5.41 Hyrwyddir safonau uchel o ran perfformiad amgylcheddol safleoedd ac adeiladau trwy hyfforddiant sgiliau arbenigol yn ymwneud â chynllunio a rheoli adeiladau. Gall addysg a hyfforddiant hefyd helpu unigolion i ddeall sut y gall eu gweithredoedd gyfrannu at effeithlonrwydd ynni a lleihau'r defnydd o adnoddau materol. Dylid hyrwyddo'r manteision o ran iechyd a hamdden sy'n deillio o fynediad i fannau gwyrdd a bioamrywiaeth.

(6) *Lleihau hyd yr eithaf ar y risg o lygredd a pheryglon amgylcheddol eraill a thrwy wneud hynny diogelu iechyd cymunedau a'r amgylchedd*

5.42 Dylid hyrwyddo lleihau hyd yr eithaf ar y risg o lygredd a pheryglon amgylcheddol eraill trwy hyfforddiant arbenigol a thrwy wneud pobl yn ymwybodol o'r camau y gallant eu cymryd i leihau risgiau a diogelu iechyd y gymuned.

Strategaeth Weithredol

5.43 Mae'n rhaid i bob prosiect a gefnogir gan y rhaglen gyfrannu at yr amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol perthnasol. Bydd y targedau cynaliadwyedd amgylcheddol a integreiddiwyd yn y Blaenoriaethau (Pennod 4) yn gyfrwng cryf i annog prosiectau i gyfrannu ar yr amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd gweithgareddau penodol i hyrwyddo gweithredu thema cynaliadwyedd amgylcheddol yn cynnwys:

- bydd cyngor arbenigol ar gael yn gynnar i sicrhau y caiff y cyfleoedd i gyfrannu at yr amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol eu hintegreiddio yn y cynlluniau prosiect;

- bydd canllawiau ar gael i ddangos i noddwyr prosiectau sut y gallant integreiddio'r gweithgareddau priodol yn eu cynlluniau prosiect; Byddai'r gweithgareddau hyn yn cynnwys integreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol mewn rhaglenni sgiliau prif ffrwd a darparu hyfforddiant sgiliau arbenigol sy'n ceisio hyrwyddo twf economaidd yn y sector amgylcheddol;
- darperir cymorth ar gyfer noddwyr prosiectau gan y cynghorwyr cynaliadwyedd amgylcheddol o fewn WEFO a bydd yr awdurdodau amgylcheddol cymwys (Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru) yn cyfranogi o fewn partneriaethau; ac
- monitro dangosyddion a thargedau cynaliadwyedd amgylcheddol a darparu adroddiadau blynyddol i'r PMRh ar gynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol.

5.44 Dadansoddwyd effaith arfaethedig gweithgareddau a gefnogir ar amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol y Rhaglen. Dangosir y dadansoddiad ar ffurf matrices sydd ar gael yn Atodiad D.

5.45 Mae'r dangosyddion ar gyfer thema drawsbynciol Cynaliadwyedd Amgylcheddol wedi'u cynnwys yn y prif dablau Dangosyddion a Thablau, ym mhob un o'r Blaenoriaethau ym Mhennod 4.

Pennod 6: Darpariaethau Gweithredu

Cyflwyniad

6.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r darpariaethau gweithredu ar gyfer Rhaglen Weithredol ESF ar gyfer Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rhoddir gwybodaeth yn unol â Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 a wnaed ar 11 Gorffennaf 2006, sy'n cyflwyno'r darpariaethau cyffredinol ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a'r Gronfa Cydlyniant. Rhoddir gwybodaeth bellach yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 1081/2006 am ESF, Rheoliad (CE) Rhif 1080/2006 am ERDF a Rheoliad (CE) Rhif 1828/2006 sy'n nodi'r rheolau gweithredu.

6.2 Nid yw'r testun canlynol yn disodli Rheoliadau'r Cyngor 1083/2006, 1080/2006, 1081/2006 na Rheoliad y Comisiwn 1828/2006 ac mewn achosion lle ceir ansicrwydd neu wrthdaro, rhoddir blaenoriaeth i'r Rheoliadau Cyngor hyn dros y darpariaethau Gweithredu. Caiff y darpariaethau hyn eu hategu gan unrhyw benderfyniadau, rheol a chanllawiau a fabwysiadwyd yn unol â Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006¹⁹⁰

Dynodi Awdurdodau

6.3 Rheolir y rhaglen yn unol ag egwyddor rheolaeth ariannol gadarn. Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cynulliad Cymru am reoli'r rhaglen yn cydnabod yr egwyddor hon yn llawn ynghyd â'r angen i wahanu swyddogaethau yn briodol. Yn benodol:

- gwahanu swyddogaethau'r Awdurdod Rheoli, yr Awdurdod Ardystio a'r Awdurdod Archwilio yn briodol yn unol ag Erthygl 58 o Reoliad y Cyngor 1083/2006; a
- gwahanu'r swyddogaethau gwirio a nodwyd yn Erthygl 13 o Reoliad y Comisiwn 1828/2006 a Llywodraeth Cynulliad Cymru fel buddiolwr o dan y Rhaglen yn briodol.

6.4 Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac, fel yr Awdurdod Rheoli, mae ganddo'r cyfrifoldeb cydlynu dros faterion rheoli ar gyfer rhaglenni 2007-2013 yr UE. Mae Cyfarwyddwr WEFO yn adrodd drwy Gyfarwyddwr yr Adran Drafnidiaeth ac Economi (DE&T) i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Awdurdod Ardystio yn adrodd drwy linell annibynnol drwy'r Gwasanaeth Ardystio Mewnol i Gyfarwyddwr Cyllid WEFO. Er mwyn ymateb i unrhyw wrthdaro yn arwain o'r ffaith fod Cyfarwyddwr WEFO yn adrodd i Gyfarwyddwr adran o Lywodraeth y Cynulliad sydd yn hefyd yn cael budd o'r Cronfeydd Strwythurol (h.y. DE&T) fe gytunwyd y byddai Cyfarwyddwr WEFO yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Parhaol ar faterion lle bydd angen cymodi. Mae'r organogram yn Atodiad Dd yn rhoi

¹⁹⁰ Mae pob Erthygl y cyfeirir ati yn ymwneud â Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 dyddiedig 11 Gorffennaf 2006 – Darpariaethau Cyffredinol ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Gronfa Gydlyniant, ac eithrio pan nodir fel arall. O ran sail gyfreithiol, nid yw'r testun hwn yn disodli'r rheoliad uchod.

darlun cyffredinol o'r cyfrifoldebau a'r llinellau atebolrwydd allweddol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Awdurdod Rheoli

6.5 Gweinidogion Cymru fydd yr Awdurdod Rheoli ar gyfer rhaglen Gydgyfeirio ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rhagwelir y caiff swyddogaethau rheoli'r Awdurdod Rheoli eu cyflawni gan staff WEFO o dan awdurdod y Gweinidog Cymreig perthnasol).

6.6 Caiff swyddogaethau eu gwahanu'n glir o fewn WEFO a cheir siartiau sefydliadol ar wefan WEFO¹⁹¹. O fewn deuddeg mis i gymeradwyo'r Rhaglen Weithredol caiff disgrifiad o systemau, trefniant a gweithdrefnau'r Awdurdod Rheoli eu cynhyrchu yn unol ag Erthygl 71.

6.7 Yn unol ag Erthygl 60, ac egwyddorion rheolaeth ariannol gadarn, bydd yr Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am:

- sicrhau y caiff gweithrediadau eu dewis ar gyfer arian yn unol â'r meini prawf sy'n gymwys i'r rhaglen weithredol a'u bod yn cydymffurfio â rheolau cymwys y Gymuned a rheolau cenedlaethol ar gyfer eu cyfnod gweithredu cyfan;
- sicrhau, at ddiben y gwaith o ddewis a chymeradwyo gweithrediadau o dan Erthygl 60 (a), y caiff buddiolwyr eu hysbysu o'r amodau penodol sy'n ymwneud â'r cynnyrch neu'r gwasanaethau i'w darparu o dan y gweithrediad, y cynllun ariannu, y terfyn amser ar gyfer gweithredu, a'r wybodaeth ariannol ac unrhyw wybodaeth arall i'w chadw a'i chyfleu. Bydd yn sicrhau bod y buddiolwr â'r gallu i fodloni'r amodau hyn cyn gwneud y penderfyniad cymeradwyo;
- cynnal gwiriadau o dan Erthygl 60(b), i gwmpasu agweddau gweinyddol, ariannol, technegol a ffisegol ar weithrediadau, fel y bo'n briodol. Bydd gwiriadau yn sicrhau bod y gwariant a ddatgenir yn wirioneddol, bod y cynnyrch neu'r gwasanaethau wedi'u darparu yn unol â'r penderfyniad cymeradwyo, bod y ceisiadau am ad-daliad gan y buddiolwr yn gywir a bod y gweithrediadau a'r gwariant yn cydymffurfio â rheolau'r Gymuned a rheolau cenedlaethol. Byddant yn cynnwys gweithdrefnau i osgoi ariannu dwbl gyda chynlluniau eraill y Gymuned neu gynlluniau cenedlaethol eraill a gyda chyfnodau rhaglennu eraill. Bydd y gwiriadau yn cynnwys y gweithdrefnau canlynol:
 - gwiriadau gweinyddol mewn perthynas â phob cais am ad-daliad gan fuddiolwyr; ac
 - gwiriadau yn y fan a'r lle mewn perthynas â gweithrediadau unigol.
- sicrhau y caiff gwiriadau yn y fan a'r lle eu cynnal ar sail sampl ar gyfer Rhaglen Weithredol. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn cadw cofnodion sy'n disgrifio ac yn cyfiawnhau'r dull samplu ac yn nodi'r gweithrediadau neu'r

¹⁹¹ Dolen i siartiau sefydliadol: <http://www.wefo.wales.gov.uk/resource/ANNEX%20K%20-%20WAG%20Organogram1820.pdf>

trafodion a ddewiswyd i'w gwirio. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn penderfynu ar faint y sampl er mwyn cael sicrwydd rhesymol o ran cyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r trafodion sylfaenol, gan ystyried lefel y risg a nodwyd gan yr Awdurdod Rheoli ar gyfer y math o fuddiolwyr a gweithrediadau dan sylw. Bydd yn adolygu'r dull samplu bob blwyddyn;

- sefydlu safonau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer y gwiriadau a gynhelir a chadw cofnodion ar gyfer pob gwiriad, gan nodi'r gwaith a wnaed, dyddiad a chanlyniadau'r gwiriad, a'r mesurau a gymerwyd mewn perthynas â'r afreoleidd-dra a ganfuwyd;
- sicrhau y caiff swyddogaethau eu gwahanu'n ddigonol yn unol ag Erthygl 58 (b) o ran trefniadau ar gyfer y gwiriadau, lle y mae'r corff a ddynodir fel Awdurdod Rheoli hefyd yn fuddiolwr o dan y Rhaglen Weithredol;
- sicrhau bod system gyfrifiadurol ar gyfer cofnodi a storio cofnodion cyfrifyddu cyfrifiadurol ar gyfer pob gweithrediad o dan y Rhaglen Weithredol a bod y data ar weithredu sy'n angenrheidiol ar gyfer rheolaeth ariannol, monitro, gwiriadau, archwiliadau a gwerthuso yn cael ei gasglu;
- sicrhau bod buddiolwyr a chyrrff eraill sy'n gysylltiedig â chynnal gweithrediadau yn cadw naill ai system gyfrifyddu ar wahân neu god cyfrifyddu digonol ar gyfer pob trafodyn sy'n ymwneud â'r gweithrediad heb fynd yn groes i reolau cyfrifyddu cenedlaethol;
- sicrhau y cynhelir gwerthusiadau o'r Rhaglen Weithredol yn unol ag Erthygl 47;
- sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod pob dogfen sy'n ymwneud â'r gwariant a'r archwiliadau sy'n ofynnol i sicrhau llwybr archwilio digonol yn cael ei chadw yn unol â gofynion Erthygl 90;
- sicrhau bod llwybrau archwilio yn ddigonol yn unol â'r Rheoliad Gweithredu. At ddiben Erthygl 60 (f), ystyrir bod llwybr archwilio yn ddigonol lle, ar gyfer y Rhaglen Weithredol dan sylw, y bydd yn cydymffurfio â'r meini prawf canlynol:
 - mae'n caniatáu i'r symiau cyfun a ardystiwyd i'r Comisiwn gael eu cysoni â'r cofnodion cyfrifyddu manwl a'r dogfennau ategol a ddelir gan yr Awdurdod Ardystio, yr Awdurdod Rheoli a'r buddiolwyr o ran gweithrediadau a gyd-ariennir o dan y Rhaglen Weithredol;
 - mae'n caniatáu i'r cyfraniad cyhoeddus a delir i'r buddiolwr gael ei wirio;
 - mae'n caniatáu i'r modd y cymhwysir y meini prawf ar gyfer dethol a sefydlwyd gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar gyfer y Rhaglen Weithredol gael ei wirio;
 - mewn perthynas â phob gweithrediad, fel sy'n briodol, mae'n cynnwys y manylebau technegol a'r cynllun ariannu, dogfennau sy'n ymwneud â chymeradwyo grant, dogfennau sy'n ymwneud â gweithdrefnau caffael cyhoeddus, adroddiadau cynnydd ac adroddiadau ar wiriadau ac archwiliadau a gynhaliwyd;

- sicrhau bod yr Awdurdod Ardystio yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol am y gweithdrefnau a'r gwiriadau a wnaed mewn perthynas â gwariant at ddiben ardystio;
- y weithdrefn cofnodi a monitro afreoleidd-dra ac adennill symiau a dalwyd yn ddiangen yn unol ag Erthygl 58 o Reoliad (CE) 1083/2006. Bydd hyn yn sicrhau y diogelir buddiannau ariannol y Gymuned Ewropeaidd (Rheoliadau (CE) Rhifau 2988/95 a 2185/96);
- arwain gwaith y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a rhoi'r dogfennau sydd eu hangen arno er mwyn i ansawdd y broses o weithredu'r rhaglen weithredol gael ei fonitro yn sgîl ei nodau penodol;
- llunio'r adroddiadau gweithredu blynyddol a therfynol, ac ar ôl cael cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, eu cyflwyno i'r Comisiwn;
- sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion gwybodaeth a chyhoeddusrwydd a nodir yn Erthygl 69; ac
- rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn i'w alluogi i arfarnu prosiectau mawr.

Awdurdod Ardystio

6.8 Gweinidogion Cymru fydd yr Awdurdod Ardystio ar gyfer rhaglen Gydgyfeirio ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rhagwelir y caiff swyddogaethau rheoli'r Awdurdod Ardystio eu cyflawni gan staff Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) o dan awdurdod y Gweinidog Cymreig perthnasol.

6.9 Caiff swyddogaethau eu gwahanu'n glir o fewn WEFO. O fewn WEFO, bydd swyddogaethau'r Awdurdod Rheoli a'r Awdurdod Ardystio ar wahân, a chaiff cyfrifoldebau a threfniadau rheoli eu rhannu'n glir. Ceir siart sefydliadol ar wefan WEFO¹⁹². O fewn deuddeg mis i gymeradwyo'r Rhaglen Weithredol caiff disgrifiad o systemau, trefniant a gweithdrefnau'r Awdurdod Ardystio eu cynhyrchu yn unol ag Erthygl 71.

6.10 Yn unol ag Erthygl 61 bydd yr Awdurdod Ardystio yn gyfrifol am:

- lunio datganiadau ardystiedig o wariant a cheisiadau am daliad a'u cyflwyno i'r Comisiwn;
- ardystio bod:
 - y datganiad o wariant yn gywir, ei fod yn deillio o systemau cyfrifyddu dibynadwy a'i fod yn seiliedig ar ddogfennau ategol gwiriadwy;
 - y gwariant a ddatganwyd yn cydymffurfio â rheolau cymwys y Gymuned a rheolau cenedlaethol ac yr aed iddo mewn perthynas â gweithrediadau a ddewiswyd ar gyfer arian yn unol â'r meini prawf sy'n gymwys i'r rhaglen a'i fod yn cydymffurfio â rheolau'r Gymuned a rheolau cenedlaethol;

¹⁹² Dolen i siartiau sefydliadol: <http://www.wefo.wales.gov.uk/resource/ANNEX%20K%20-%20WAG%20Organogram1820.pdf>

- sicrhau, at ddiben ardystio, ei fod wedi cael gwybodaeth ddigonol gan yr Awdurdod Rheoli am y gweithdrefnau a'r gwiriadau a gynhaliwyd mewn perthynas â gwariant a gynhwyswyd mewn datganiadau o wariant;
- ystyried, at ddiben ardystio, ganlyniadau'r holl archwiliadau a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Archwilio neu o dan ei gyfrifoldeb;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cyfrifiadurol o'r gwariant a ddatganwyd i'r Comisiwn;
- cadw cofnod o'r symiau y gellir eu hadennill a'r symiau a dynnwyd yn ôl yn dilyn canslo cyfraniad cyfan ar gyfer gweithrediad neu ran ohono. Caiff y symiau a adenillir eu had-dalu i gyllideb gyffredinol yr Undeb Ewropeaidd, cyn cau'r Rhaglen Weithredol drwy eu didynnu o'r datganiad gwariant nesaf;
- anfon datganiad i'r Comisiwn erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn o 2008 ymlaen, yn y fformat yn Atodiad XI o'r Rheoliad Gweithredu, yn nodi, ar gyfer pob echel blaenoriaeth yn y Rhaglen Weithredol, y manylion canlynol:
 - y symiau a dynnwyd yn ôl o ddatganiadau o wariant a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn dilyn canslo'r cyfraniad cyhoeddus cyfan ar gyfer gweithrediad neu ran ohono;
 - y symiau a adenillwyd a diddynwyd o'r datganiadau hyn o wariant; ac
 - datganiad o'r symiau i'w hadennill ar 31 Rhagfyr y flwyddyn fflaenorol, wedi'u dosbarthu yn ôl y flwyddyn y rhoddwyd y gorchmynion adennill.

Awdurdod Archwilio

6.11 Gweinidogion Cymru fydd yr Awdurdod Archwilio ar gyfer rhaglen Gydgyfeirio ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rhagwelir y caiff swyddogaethau rheoli'r Awdurdod Archwilio eu cyflawni gan staff y Gwasanaethau Archwilio Mewnol o dan awdurdod y Gweinidog Cymreig perthnasol.

6.12 Mae'r IAS yn annibynnol ar yr WEFO a bydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y system reoli yn gweithio'n effeithiol. Bydd yr IAS yn cynnig barn ar y systemau rheoli. Mae staff yr IAS yn gweithio yn ôl safonau archwilio rhyngwladol ac maent yn cynnwys archwilwyr neu gyfrifyddion cymwys neu rannol gymwys yn bennaf. O fewn deuddeg mis i gymeradwyo'r Rhaglen Weithredol caiff disgrifiad o systemau, trefniant a gweithdrefnau'r Awdurdod Rheoli eu cynhyrchu yn unol ag Erthygl 71.

6.13 Yn unol ag Erthygl 62, bydd yr Awdurdod Archwilio yn gyfrifol am:

- sicrhau y cynhelir archwiliadau i gadarnhau bod systemau rheoli'r Rhaglen Weithredol yn gweithredu'n effeithiol;
- sicrhau y cynhelir archwiliadau o weithrediadau ar sail sampl briodol er mwyn cadarnhau'r gwariant a ddatganwyd;
- cyflwyno strategaeth archwilio i'r Comisiwn o fewn naw mis i gymeradwyo'r Rhaglen sy'n cwmpasu: y cyrff a fydd yn cynnal yr archwiliadau y

cyfeiriwyd atynt yn y ddau bwynt bwled uchod; y dulliau a gaiff eu defnyddio; y dull samplu ar gyfer archwiliadau o weithrediadau; a'r dull dangosol o gynllunio archwiliadau i sicrhau y caiff y prif gyrrff eu harchwilio ac y caiff archwiliadau eu gwasgaru'n gyfartal ar hyd y cyfnod rhaglennu;

- erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn o 2008 i 2015:
 - cyflwyno adroddiad rheolaeth blynyddol i'r Comisiwn yn nodi canfyddiadau archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod 12 mis blaenorol yn gorffen ar 30 Mehefin yn ystod y flwyddyn dan sylw yn unol â strategaeth archwilio'r rhaglen weithredol a chyflwyno adroddiad ar unrhyw ddiffygion a welwyd yn y systemau ar gyfer rheoli'r rhaglen. Bydd yr adroddiad cyntaf i'w chyflwyno erbyn 31 Rhagfyr 2008 yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ionawr 2007 i 30 Mehefin 2008. Caiff y wybodaeth sy'n ymwneud â'r archwiliadau a gynhaliwyd ar ôl 1 Gorffennaf 2015 ei chynnwys yn yr adroddiad rheolaeth terfynol sy'n ategu'r datganiad ynglŷn â chau;
 - rhoi barn, ar sail y rheolaethau a'r archwiliadau a gyflawnwyd o dan gyfrifoldeb yr Awdurdod Archwilio, ar b'un a yw'r system reoli yn gweithio'n effeithiol, er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau o wariant a gyflwynwyd i'r Comisiwn yn gywir, ac o ganlyniad, sicrwydd rhesymol bod y trafodion sylfaenol yn gyfreithiol ac yn rheolaidd;
 - cyflwyno, lle y bo'n gymwys, ddatganiad ar gyfer cau yn rhannol, gan asesu cyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r gwariant dan sylw;
- cyflwyno i'r Comisiwn, erbyn 31 Mawrth 2017 fan bellaf, ddatganiad cau yn asesu dilysrwydd y cais am dalu'r balans terfynol a chyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r trafodion sylfaenol a gwmpaswyd gan y datganiad terfynol o wariant, a gaiff ei ategu gan adroddiad rheolaeth terfynol; ac
- sicrhau bod y gwaith archwilio yn ystyried safonau rhyngwladol.

Cyrrff Cyfryngol

6.14 Bydd yr Awdurdodau Rheoli ac Ardystio yn cyflawni'r holl dasgau fel yr amlinellir yn yr adrannau uchod ac ni chaiff unrhyw Gyrrff Cyfryngol eu cyflogi fel y disgrifir yn Erthygl 59(2).

Partneriaeth

6.15 Mae sicrhau atebion cynaliadwy ac effeithiol i'r heriau sy'n wynebu Cymru yn dibynnu'n gynyddol ar gyfranogiad uniongyrchol a gweithredol pob rhanddeiliad yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae'r Awdurdod Rheoli yn ymrwymedig i weithio drwy bartneriaethau a rhwydweithiau o ansawdd da er mwyn annog rhanddeiliaid allweddol i gefnogi agenda ddiwygio Lisboa fel bod adnoddau yn cael eu cyfeirio'n wirioneddol at dwf a swyddi.

6.16 Yn unol ag Erthygl 11, bydd yr Awdurdod Rheoli yn cydweithio'n agos â'r Comisiwn a phartneriaid cynrychioliadol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, gan gynnwys cynrychiolwyr yn y meysydd economaidd, cymdeithasol ac

amgylcheddol. Bydd y gwaith partneriaeth hwn yn cwmpasu'r broses o baratoi, gweithredu, monitro a gwerthuso'r Rhaglen Weithredol.

(a) Paratoi'r Rhaglen Weithredol

6.17 Datblygwyd pennod Cymru o'r Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (NRSF) a'r Rhaglen Weithredol hon mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ar draws pob sector perthnasol yn cynnwys partneriaid cymdeithasol, cyrff cydraddoldeb, y sector addysg uwch ac addysg bellach, asiantaethau'r amgylchedd, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a chymunedol, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Cafwyd y prif gyfraniad partneriaeth gynrychioliadol gan y Grŵp Rhanddeiliaid Allanol Ôl-2006. Fforwm partneriaeth â sylfaen eang yw hwn, sy'n dod â chynrychiolwyr o blith yr holl rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd.

6.18 Cafwyd cyfraniad arbenigol hefyd gan bum grŵp ffrwd gwaith sy'n cynnwys partneriaid o ystod eang o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Yn arbennig, rhoddodd Grŵp y Rhaglen Weithredol gyngor ar y broses o baratoi'r rhaglen a chyfrannodd at y gwaith o'i drafftio; rhoddodd y ffrwd gwaith Monitro a Gwerthuso gyngor ar ddatblygu'r systemau monitro a gwerthuso, yn cynnwys dangosyddion rhaglen a blaenoriaeth, a goruchwyliodd y rhag-werthusiad; a rhoddodd Ffrwd Gwaith Rheoli'r Rhaglen gymorth i ddatblygu'r strategaeth weithredu, yn cynnwys y trefniadau ar gyfer Fframweithiau Strategol. Yn unol ag egwyddor tryloywder, cyhoeddwyd nodiadau cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid Allanol Ôl-2006 a'r grwpiau ffrwd gwaith amrywiol ar wefan WEFO¹⁹³.

6.19 Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y rhaglen Gydgyfeirio yn ystod y cyfnod o fis Gorffennaf i fis Hydref 2006, ac fe'i hategwyd gan ddigwyddiadau rhanbarthol. Ceir rhestr lawn o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn Atodiad A. Darperir crynodeb byr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fel rhan o'r bennod ar y Strategaeth (Pennod 3) ac mae dadansoddiad manylach a baratowyd gan CRG Research Ltd wedi'i gyhoeddi, ochr yn ochr ag ymatebion unigol i'r ymgynghoriad, ar wefan WEFO.

(b) Rhoi'r Rhaglen Weithredol ar Waith


6.20 Mae cyfranogiad gweithredol partneriaid yn y broses o roi'r Rhaglen Weithredol ar waith yn gonglfaen i'r strategaeth weithredu gyffredinol. Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni (gweler paragraffau 6.26 – 6.31 a 6.34 – 6.38) yn gweithio gyda'r Awdurdod Rheoli i sicrhau effeithiolrwydd ac ansawdd y broses o roi'r Rhaglen Weithredol ar waith. Yn unol ag Erthygl 11, caiff y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ei benodi gan yr Awdurdod Rheoli a bydd yn cynnwys partneriaid cynrychioliadol ac arbenigol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol yn y meysydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac mewn meysydd eraill.

6.21 Bydd ffocws i'r broses fanwl o gynllunio gweithrediadau ar gyfer y Rhaglen hon drwy gyfrwng nifer o "Fframweithiau Strategol" (gweler paragraffau 6.39 - 6.48). Strategaethau gweithredol ar gyfer cyflawni'r themâu amrywiol o

¹⁹³ Yn <http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?action=page&ID=1586>

fewn y Rhaglen Weithredol yw'r fframweithiau hyn. Cânt eu defnyddio, ynghyd ag unrhyw feini prawf eraill ar gyfer dethol a blaenoriaethu a bennwyd gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn unol ag Erthygl 65(a), i arwain yr Awdurdod Rheoli yn y gwaith o ddedol prosiectau. Bydd pob fframwaith yn cwmpasu'r agweddau gofodol ar y broses ddarparu a chaiff nifer ohonynt eu llywio gan agweddau gofodol, sy'n gysylltiedig â meysydd *Cynllun Gofodol Cymru* ac fe'u datblygir drwy bartneriaethau lleol ac isranbarthol. Caiff y grwpiau hyn eu cadeirio gan Weinidog o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac maent yn cynnwys arweinwyr o awdurdodau lleol, cynrychiolwyr busnes, undebau llafur, sefydliadau cydraddoldeb, y sector gwirfoddol, sefydliadau amgylcheddol, Addysg Uwch a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Ffigur 26. Strwythurau Cydweithredu a Gweithredu Cynllun Gofodol Cymru



6.22 Caiff y Fframweithiau Strategol a gaiff eu llywio gan themâu eu datblygu a'u gweithredu drwy ymgysylltiad â phartneriaethau sy'n berthnasol i'r themâu a gwmpesir ganddynt. Bydd llawer o'r rhain yn bartneriaethau sefydledig sy'n bodoli eisoes (e.e. Panel Cynghori ar Gyflogaeth Cymru, Grŵp Llywio Dyfodol Sgiliau Cymru, y Rhwydwaith Sgiliau i Fusnes ac ati). Bydd angen sefydlu trefniadau pwrpasol newydd ar gyfer rhai fframweithiau. Bydd y trefniadau ar gyfer ymgysylltu â phartneriaethau yn rhoi dull agored, effeithlon ac effeithiol o gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid ar y gwaith o ddatblygu a mireinio Fframweithiau Strategol yn y dyfodol ynghyd â'u cyfraniad at y gwaith hwnnw. Bydd y trefniadau hyn hefyd yn hwyluso her adeiladol wirioneddol.

6.23 Caiff y Fframweithiau Strategol eu rhoi ar wefan WEFO ar ffurf ddrafft er mwyn cael sylwadau arnynt cyn cytuno arnynt, gan sicrhau'r ymgysylltiad

ehangaf posibl ag unigolion a sefydliadau ar bob lefel. Bydd y wefan hefyd yn rhoi lle i ddarpar noddwyr prosiectau gynnwys manylion cryno ynghylch eu syniadau prosiect gyda'r nod o annog gwaith partneriaeth a chydweithrediad ar lefel prosiect.

6.24 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau y caiff pob Fframwaith Strategol ei ddatblygu a'i adolygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol. Bydd y trefniadau partneriaeth ar gyfer pob fframwaith yn gofyn am gytundeb yr Awdurdod Rheoli a chânt eu disgrifio'n glir o fewn y dogfennau fframwaith er gwybodaeth i bob rhanddeiliad.


6.25 Yn unol ag Erthygl 5 o Reoliad ESF [1081/2006], bydd yr Awdurdod Rheoli yn hyrwyddo rheolaeth a phartneriaeth dda, gan gynnwys trwy annog partneriaid cymdeithasol i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r rhaglen. Mae hyn yn cynnwys dyrannu cyfran briodol o adnoddau ESF ar gyfer camau gweithredu i feithrin gallu fel y nodir yn Erthygl 5(3). Bydd yr Awdurdod Rheoli hefyd yn hyrwyddo cyfranogiad a mynediad gan sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, yn arbennig mewn prosiectau sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cydraddoldeb rhywiol a chyfle cyfartal.

(c) Monitro'r Rhaglen Weithredol

6.26 Yn unol â darpariaethau Erthygl 63, caiff un Pwyllgor Monitro Rhaglenni ei sefydlu ar gyfer y ddwy raglen Gydgyfeirio (ERDF ac ESF) a'r ddwy raglen Cystadleurwydd Rhanbarthol (ERDF ac ESF) yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau'r synergeddau mwyaf posibl rhwng y priod raglenni a hyrwyddo camau gweithredu cydategol ar draws ffiniau rhaglenni. Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn ategu'r gwaith o drosglwyddo arfer gorau a'r gwersi a ddysgwyd yn effeithiol ac yn hwyluso dull cydlynol o weithredu yng Nghymru gyfan mewn perthynas â materion fel gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, ymchwil a gwerthuso, themâu trawsbynciol, cydweithredu tiriogaethol a hyrwyddo arloesedd. Wrth geisio sicrhau'r cyfryw integreiddio mae'r Awdurdod Rheoli yn cydnabod y bydd angen bod trefniadau cadarn ar waith er mwyn sicrhau y caiff pob un o'r pedair Rhaglen ei monitro'n effeithiol. Bwriedir sefydlu dau is-bwyllgor sefydlog a fydd yn gyfrifol am fonitro a rhoi cyngor i'r prif Bwyllgor Monitro Rhaglenni ar berfformiad y rhaglen ERDF a'r rhaglen ESF. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Monitro Rhaglenni llawn fydd penderfynu ac ymhelaethu ar y tasgau manwl y bydd yr is-bwyllgorau hyn yn eu cyflawni, ynghyd â'u haelodaeth, o fewn y rheolau trefn.

6.27 Gwahoddir y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, yn ei gyfarfod cyntaf, i drafod aelodaeth a swyddogaethau'r ddau bwyllgor sefydlog a chytuno arnynt a phenderfynu ar y lefel y caiff ei gyfrifoldebau eu cyflawni ganddynt yn unol â'r Rheoliadau Ewropeaidd. Yn ystod cyfnod rhaglennu 2007-2013, efallai y bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn penderfynu sefydlu is-grwpiau eraill, naill ai grwpiau gorchwyl a gorffen neu ar sail fwy parhaol. Lle y bo angen efallai y bydd y Pwyllgor yn cynnig i'r Awdurdod Rheoli bod arbenigwyr neu grwpiau rhanddeiliaid eraill yn cael eu penodi i roi cyngor i is-bwyllgorau o'r fath. Nodir y model arfaethedig yn Ffigur 27:

Ffigur 27. Strwythur Arfaethedig y Pwyllgorau



6.28 Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn cynnwys 24 o Aelodau yn ogystal â Chadeirydd. Bydd Cadeiryddion y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i bwyllgorau sefydlog yn gynrychiolwyr yr Awdurdod Rheoli. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd, staff WEFO a, lle y bo'n briodol, yr EIB a'r EIF yn rhoi cyngor i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i bwyllgorau.

6.29 Yn unol â darpariaethau Erthygl 11, daw'r mwyafrif o'r aelodau o brif bartneriaid rhanbarthol a chyrrff statudol fel a ganlyn:

Tabl 32 Aelodaeth Gynrychioliadol y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn ôl Sefydliad Sector

Sefydliad Sector	Aelodau
Llywodraeth Leol (1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd; 1 Dwyrain Cymru)	2
Llywodraeth Cynulliad Cymru: Menter, Arloesi a Rhwydweithiau	1
Llywodraeth Cynulliad Cymru: Addysg a Dysgu Gydol Oes	1
Llywodraeth Cynulliad Cymru: Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad	1
Addysg Uwch	1
Addysg Bellach	1
Y Ganolfan Byd Gwaith	1
Undebau Llafur	1
Sector Preifat – Busnes	1
Y Sector Gwirfoddol	1
Economi Gymdeithasol	1
Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyngor Cefn Gwlad Cymru	1
Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb	1
Cyfanswm	14

6.30 Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni hefyd yn cynnwys 10 arbenigwr a ddewisir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn cystadleuaeth agored sy'n destun craffu annibynnol. Daw'r arbenigwyr hyn ag ystod o alluoedd, profiadau a chymwysterau i swyddogaethau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a fydd yn ategu

rhinweddau cynrychiolwyr partneriaeth. Caiff yr arbenigwyr hyn eu talu yn unol ag arfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac fe'u telir o ffynonellau ariannu domestig ac nid o'r Cronfeydd Strwythurol.

6.31 Rydym yn cynnig isafswm targed o 40% o ddynion a 40% o ferched ar Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru gyfan, gyda hyblygrwydd ynghylch yr 20% sy'n weddill. Rydym yn gobeithio y bydd sefydliadau partner yn cefnogi'r targed hwn. Rhoddir gweithdrefnau priodol ar waith hefyd i sicrhau bod y rhaglenni ESF ac ERDF yn ategu ei gilydd, ynghyd â'r rhaglenni RDP ac EFF.

(ch) Gwerthusiad o'r Rhaglen Weithredol

6.32 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn adeiladu ar arfer da Rhaglen 2000-06 drwy sefydlu Grŵp Cynghori ar Werthusiadau (EAG). Caiff yr EAG ei gadeirio gan uwch swyddog o'r Awdurdod Rheoli. Bydd yr aelodau yn cynnwys arbenigwyr o sefydliadau partner yn cynnwys y Comisiwn Ewropeaidd a rhanddeiliaid eraill. Bydd y grŵp hefyd yn cynnwys arbenigwyr technegol o Swyddfa'r Prif Ymchwilydd Cymdeithasol, yr Is-adran Cyngor Economaidd a'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

6.33 Bydd yr EAG yn rhoi cyngor a chymorth i gynllunio'r Cynllun Monitro a Gwerthuso; cytuno ar gynlluniau ymchwil; rheoli ansawdd adroddiadau terfynol; a sicrhau bod y canfyddiadau'n cael eu dosbarthu'n eang. Bydd yr EAG yn gyfrifol am gyflogi arbenigwyr technegol pan fydd eu hangen er mwyn cynorthwyo â'i waith.

Dyletswyddau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni

6.34 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn darparu'r swyddogaeth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i gyfarfodydd. Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn llunio ei reolau trefn ei hun ac yn cytuno arnynt gyda'r Awdurdod Rheoli. Diffinnir dyletswyddau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn Erthyglau 65 a 66 o Reoliad (CE) 1083/2006.

6.35 Yn unol â Rheoliad UE [1083/2006] Erthygl 63(2), yn ei gyfarfod cyntaf, bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn llunio ac yn cymeradwyo darpariaethau manwl ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau a bennwyd iddo mewn modd priodol ac effeithlon, yn cynnwys pa mor aml y bydd yn cynnal cyfarfodydd (gofyniad i gynnal o leiaf ddau gyfarfod y flwyddyn) ac aelodaeth a swyddogaethau'r ddau is-bwyllgor sefydlog arfaethedig.

6.36 Yn unol â Rheoliad UE [1083/2006] erthygl 65, bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i is-bwyllgorau, fel y bo'n briodol, yn bodloni eu hunain o ran effeithiolrwydd ac ansawdd y broses o roi'r Rhaglen Weithredol ar waith. Bydd y tasgau a gyflawnir ganddo yn cynnwys:

- y meini prawf ar gyfer dewis y gweithrediadau i'w hariannu ac unrhyw achos o ddiwygio'r meini prawf hynny yn unol ag anghenion rhaglennu;

- trefniadau ar gyfer adolygu cynnydd tuag at gyflawni amcanion a thargedau penodol y Rhaglen Weithredol ar sail y dogfennau a gyflwynir gan yr Awdurdod Rheoli.

6.37 At y diben hwn, ac yn ychwanegol at y swyddogaethau uchod, bydd yn:

- monitro cynnydd tuag at gyflawni'r dangosyddion a'r targedau ffisegol ac ariannol a bennwyd ar gyfer y Rhaglen Weithredol a phob echel Blaenoriaeth ac archwilio'r gwerthusiadau y cyfeirir atynt yn Erthygl 48(3).
- ystyried a chymeradwyo'r adroddiadau gweithredu blynyddol a therfynol y cyfeirir atynt yn Erthygl 67 cyn i'r adroddiadau hyn gael eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd;
- cael ei hysbysu ynghylch yr adroddiadau rheolaeth blynyddol ac unrhyw sylwadau y gall y Comisiwn eu gwneud ar ôl archwilio'r adroddiadau hyn neu mewn perthynas â'r adroddiadau hyn;
- gofyn i'r Awdurdod Rheoli ddiwygio neu archwilio'r Rhaglenni Gweithredol er mwyn gwella'r modd y maent yn cael eu rheoli, yn cynnwys rheoli ariannol; ac
- ystyried a chymeradwyo unrhyw gynigion i ddiwygio cynnwys y Rhaglenni Gweithredol cymeradwy.

6.38 Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i is-bwyllgorau lle y bo'n briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel y nodwyd uchod bydd yr Awdurdod Rheoli hefyd yn sicrhau bod y Pwyllgor:

- yn cael gwybodaeth am ymrwymadau, gwariant a chynnyrch (arfaethedig ac a wireddwyd) ar gyfer pob thema a Blaenoriaethau unigol, o leiaf bob blwyddyn;
- yn cytuno ar y defnydd o Fframweithiau Strategol gan yr Awdurdod Rheoli fel rhan o'r meini prawf ar gyfer dewis gweithrediadau. Yn rhoi cyngor ar alinio Fframweithiau Strategol unigol ag amcanion a thargedau yn y Rhaglen Weithredol, yn cynnwys unrhyw addasiadau dilynol, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Rheoli;
- yn ystyried Cynllun Monitro a Gwerthuso'r Awdurdod Rheoli, ac unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso, fel y cyfeirir atynt yn Erthygl 48(1);
- yn cyfrannu at y Strategaeth Camau Arloesol; ac
- yn cael adroddiadau blynyddol ar gynnydd y Themâu Trawsbynciol.

Trefniadau Gweithredu A Chyflawni

Cynllunio

6.39 Mae gwerthusiadau o raglenni wedi nodi y gellir gwella effaith gyffredinol drwy sicrhau dulliau mwy 'cydgysylltiedig' o ymgymryd â gweithgaredd prosiect ac aliniad cryfach â phrif amcanion rhaglenni. Awgrymwyd hefyd yr angen i roi

pwyslais cryfach ar gydweithredu isranbarthol a symleiddio strwythurau rhaglenni a threfniadau gweithredu. At hynny, yn yr ymgynghoriad ar y rhaglen Ôl-2006, cafwyd cytundeb eang ar yr angen i fabwysiadu dull gweithredu mwy strategol yn y dyfodol o ran y defnydd o gronfeydd Strwythurol.

6.40 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn hyrwyddo dulliau mwy strategol o weithredu, yn cynnwys cyflwyno **Fframweithiau Strategol**. Strategaethau Gweithredol fydd y fframweithiau hyn sy'n defnyddio'r Blaenoriaethau a'r themâu yn y Rhaglen Weithredol fel eu man cychwyn. Byddant yn helpu i sicrhau'r ffocws a'r ymdrech sydd eu hangen i wneud y defnydd gorau posibl o'r cronfeydd strwythurol; byddant yn hyrwyddo gwaith partneriaeth a chydweithredu ac yn helpu i sefydlu cysylltiadau gweithredol a chydweithredu rhwng prosiectau.

6.41 Diffinnir Fframwaith Strategol fel:

Cynllun i gyflawni diben strategol penodol drwy nifer o ymyriadau prosiect sydd wedi'u cysylltu'n strategol.

6.42 Bydd y Fframweithiau yn ddogfennau cynllunio ac nid yn offerynnau ariannol. Y prosiectau fydd y "cyfrwng" yn y Rhaglen Weithredol a'r Awdurdod Rheoli fydd yn gyfrifol am ddewis prosiectau, eu blaenoriaethu a'u cymeradwyo. Llunnir Fframweithiau yn unol â'r canllawiau a roddwyd gan yr Awdurdod Rheoli ac fe'u defnyddir wrth ddewis a blaenoriaethu prosiectau.

6.43 Bydd y Fframweithiau yn darparu trosolwg strategol clir a chanllawiau ar feysydd Ymyrraeth a'r mathau o brosiectau a threfniadau cyflawni a fydd yn cyflawni'r Thema a'r Flaenoriaeth berthnasol yn y ffordd orau. Byddant yn nodi cysylltiadau strategol pwysig â Fframweithiau eraill a, lle y ceir posibilrwydd o "orgyffwrdd" canfyddedig, byddant yn rhoi esboniad clir, er budd darpar noddwyr, o'r mathau o brosiectau a gaiff eu cwmpasu gan Fframweithiau penodol. Byddant hefyd yn nodi'r cwmpas o fewn eu maes am Gamau Arloesol a Chydweithredu Trawswladol (gweler paragraff 6.53). Ceir rhestr ddangosol o'r Fframweithiau Strategol ar gyfer y Rhaglenni Cydgyfeirio yn Atodiad E.

6.44 Caiff y gwaith o ddatblygu Fframweithiau Strategol ei gydgyssylltu gan Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a Grwpiau Ardal Cynllun Gofodol Cymru. Byddant yn sicrhau aliniad da rhwng polisïau'r UE ar gyfer Twf a Swyddi a pholisïau a strategaethau Cenedlaethol perthnasol yn cynnwys Cynllun Gofodol Cymru.

6.45 Caiff Timau Ewropeaidd Gofodol Penodedig eu sefydlu i ategu gwaith Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol i gydgyssylltu'r Fframweithiau Strategol a lywir gan elfennau gofodol. Byddant hefyd yn cynorthwyo cydgysylltwyr Fframweithiau Strategol thematig i ymgysylltu â phartneriaid yn lleol ac yn isranbarthol. Bydd gan gydgyssylltwyr Fframweithiau Strategol rôl i'w chwarae hefyd, ochr yn ochr â Thimau Ewropeaidd Gofodol ac eraill sy'n gysylltiedig â chefnogi darpar noddwyr, i drafod syniadau cynnar gyda darpar ymgeiswyr prosiect a rhoi barn "ddiduedd" iddynt ar eu rhan debygol o fewn fframwaith. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn ceisio barn Cydgysylltwyr Fframweithiau, ynghyd ag arbenigwyr eraill, yn ôl yr angen yn ystod y broses o ystyried y cyflwyniadau prosiect; ond bydd yr Awdurdod Rheoli


yn gwneud penderfyniadau ar brosiectau yn annibynnol ar sail cynnwys cyhoeddedig y Fframweithiau a meini prawf eraill o ran dethol a blaenoriaethu a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

6.46 Wrth gytuno ar y Fframweithiau Strategol, bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau bod y trefniadau partneriaeth a nodir ynddynt yn darparu ar gyfer cryn dipyn o "herio" gan bartneriaid a rhanddeiliaid sy'n ymwneud â datblygu'r fframweithiau. Wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, efallai y bydd canlyniadau gwaith monitro a gwerthuso yn amlygu'r angen i addasu strategaethau'r fframweithiau; felly bydd angen adolygu, addasu a mireinio eu cynnwys o bryd i'w gilydd gan ymgynghori â'r partneriaethau perthnasol. Bydd Cydgysylltwyr Fframweithiau yn gyfrifol am gydgyssylltu'r gwaith parhaus hwn o gynnal y Fframweithiau ar hyd oes y rhaglen, a byddant yn parhau i wneud hynny drwy ymgysylltu â'u partneriaethau. Nodir cyfrifoldebau Cydgysylltwyr Fframweithiau yn Atodiad F.

6.47 Unwaith y bydd y Cydgysylltydd a'r Awdurdod Rheoli yn tybio bod Fframwaith yn addas i'w ddefnyddio, fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Yn amodol ar gyngor y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar ei aliniad â'r Rhaglen Weithredol a'i gytundeb ei fod yn addas i'w ddefnyddio fel un o'r meini prawf o ran dethol a blaenoriaethu prosiectau, bydd yr Awdurdod Rheoli yn cytuno ar y Fframwaith. Bydd addasrwydd prosiect ar gyfer y Fframwaith yn un o'r meini prawf o ran dethol a blaenoriaethu prosiectau; caiff meini prawf eraill eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ynghyd â'r meini prawf cymhwyster cyffredinol sy'n berthnasol i bob prosiect. Mae Ffigur 28 a 29 yn dangos rôl y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn hyn o beth a'r ffordd y caiff yr holl feini prawf eu cymhwyso i'r broses o ddethol a blaenoriaethu prosiectau er mwyn cymeradwyo grant.

Ffigur 28. Pennu meini prawf dethol a blaenoriaethu

Sut y gosodir meini prawf dethol a blaenoriaethu



Ffigur 29. Cymhwyso meini prawf dethol a blaenoriaethu



6.48 Unwaith y bydd yr Awdurdod Rheoli wedi cytuno arno, rhoddir Fframwaith ar y wefan, ac fe'i nodir fel "CYTUNWYD", er gwybodaeth ac arweiniad i ddarpar noddwyr a rhanddeiliaid eraill. Fe'i defnyddir hefyd gan Swyddogion Datblygu Prosiect a Rheolwyr Blaenoriaeth yr Awdurdod Rheoli wrth iddynt ystyried ceisiadau Datganiadau o Ddiddordeb (EOI) ac yn y broses ddilynol o ddethol a blaenoriaethu prosiectau.

Trefniadau ar gyfer ymdrin â phrosiectau, eu dethol a'u blaenoriaethu


6.49 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau bod sefydliadau sydd am fanteisio ar arian drwy'r Rhaglen Weithredol yn deall natur y rhaglen a'r llwybr y mae angen iddynt ei ddilyn er mwyn sicrhau grant. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn darparu cyfleusterau gwefan rhyngweithiol er mwyn gwella ymgysylltu â rhanddeiliaid a darpar noddwyr ac er mwyn galluogi noddwyr i gyflwyno eu cynigion prosiect a'u ceisiadau yn electronig.

6.50 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn cynnal Llinell Gymorth i ymdrin ag ymholiadau gan ddarpar noddwyr a rhanddeiliaid eraill ac i roi gwybodaeth, cyngor a chyfeiriadau cychwynnol. Bydd hyn yn welliant pwysig ar drefniadau blaenorol a bydd yn sicrhau gwasanaeth cwsmeriaid o safon dda ar gyfer darpar noddwyr a rhanddeiliaid eraill.

6.51 Bydd y trefniadau ar gyfer darparu'r Rhaglen Weithredol yn syml. Bydd Fframweithiau Strategol yn darparu Strategaethau Gweithredol i arwain natur yr ymyriadau, a gaiff eu darparu drwy brosiectau. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn cymeradwyo'r prosiectau hynny yn uniongyrchol ac nid yw'n rhagweld defnyddio Grantiau Cyffredinol fel y'u diffinnir gan Erthygl 42 o Reoliad (CE) [1083/2006].

6.52 Yn ogystal â'r meini prawf cymhwyster sylfaenol o dan y rheolau a'r meini prawf o ran bod yn addas ar gyfer y Fframwaith, caiff y meini prawf ar gyfer dethol a blaenoriaethu prosiectau, sy'n cwmpasu agweddau pwysig ar fudd a risg, eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Mae Ffigur 30 yn dangos y llwybr y bydd darpar noddwr prosiect yn ei ddilyn i sicrhau grant Cronfa Strwythurol:

Ffigur 30. Cyfeirio at gymhwyster ac addasrwydd ar gyfer y Fframwaith



6.53 Caiff prosiectau camau arloesol a phrosiectau sy'n cynnig gweithredu trawswladol neu ryngranbarthol eu nodi'n benodol gan yr Awdurdod Rheoli ar adeg cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb a rhoddir cyngor a chanllawiau penodol i noddwyr mewn perthynas â'u gweithredu, eu gwerthuso a'u dosbarthu. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn monitro'r prosiectau hyn ar wahân ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Bydd rheolau cymhwyster cenedlaethol yn gymwys i bob prosiect o'r fath. Yn achos pob prosiect a gymeradwyir, bydd y noddwr yn gyfrifol am ddarparu a gwario yn erbyn y proffil er mwyn sicrhau'r allbynnau a'r canlyniadau a ragamcenir.

6.54 Os ceir ar unrhyw adeg bod prosiect o unrhyw fath wedi torri unrhyw un o'r amodau canlynol, a restrir isod, gall yr Awdurdod Rheoli adfachu arian gan noddwr y prosiect hwnnw a bydd prosiectau sy'n isgcontractio rhan o'u

gweithgaredd cyflawni neu'r cyfan ohono yn atebol os ceir bod unrhyw un o'i isgcontractwyr wedi torri cytundeb, neu ei fod yn gyfrifol am afreoleidd-dra. Bydd gofynion caffael Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran gweithgarwch a isgcontractiwyd yn berthnasol i bob prosiect:

- Rheoliadau'r UE
- y rheolau Cenedlaethol a bennwyd i reoli'r broses o gyflawni'r Rhaglen Weithredol;
- Rheolau Cymorth Gwladwriaethol; ac
- y telerau a'r amodau penodol a gymhwyswyd i'r prosiect gan yr Awdurdod Rheoli yn ei lythyr yn cynnig grant.

6.55 Sefydlodd Adran *Gwerth Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru ddwy wefan bwysig - *PrynwchiGymru* <http://www.buy4wales.co.uk> a *GwerthwchiGymru* <http://www.sell2wales.co.uk> – i sicrhau dull caffael eang, agored a thryloyw ar gyfer contractau sector cyhoeddus. Yn ogystal â hysbysebu cyfleoedd tendro, mae gwefan *GwerthwchiGymru* yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i sefydliadau sy'n dymuno tendro am gontractau. Yn dilyn trafodaethau gyda *Gwerth Cymru* mae'r Awdurdod Rheoli wedi trefnu i bob prosiect a ariennir gan yr UE (ni waeth pa sector y mae'r sefydliad noddi yn perthyn iddo) gyhoeddi eu gweithgareddau caffael trwy'r gwefannau hyn. Bydd hyn yn sicrhau mynediad eang, agored a gynorthwyir i gyfleoedd ar gyfer cyflawni prosiectau a gymeradwyir o dan raglen Gydgyfeirio ESF a phob rhaglen arall ar gyfer y cyfnod 2007-13.

Gweithredu'r Themâu Trawsbynciol

6.56 Mae'r Themâu Trawsbynciol yn rhan annatod o'r broses o reoli'r Rhaglen Weithredol a phrosiectau. Bydd pob Blaenoriaeth o fewn y rhaglen yn defnyddio amcanion y themâu trawsbynciol yng nghyd-destun y gweithgarwch sydd i'w ariannu. Caiff canllawiau ar gyfer gweithgareddau eu paratoi ynghyd ag enghreifftiau astudiaethau achos arferion gorau a fydd yn rhoi gwybodaeth benodol ar gam cynnar am sut y gall noddwyr prosiectau ymdrin â chynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal o fewn eu cynlluniau prosiect. Mae cynghorwyr arbenigol ym maes Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Chyfle Cyfartal yn gweithio o fewn WFO a byddant yn rhoi cymorth i gydgyfylltwyr fframweithiau, noddwyr prosiectau a phartneriaethau. Bydd cyngor arbenigol ar gael hefyd drwy gyfraniad sefydliadau allweddol yn y rhanbarth yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Un o'r amcanion allweddol fydd darparu'r cyfraniad arbenigol ar gam cynnar yn y broses er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hyrwyddo'r themâu.

6.57 Mae targedau'r themâu trawsbynciol a bennir ar lefel y gweithgareddau i'w cefnogi gan y Rhaglen Gydgyfeirio yn ffactor pwysig wrth annog prosiectau i ymdrin ag amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal y Rhaglen. Ystyrir bod integreiddio'r ddwy thema yn llorweddol yn weithgarwch sy'n gymwys i gael cymorth ariannol fel y gall wrthbwysio unrhyw effeithiau negyddol posibl (er enghraifft ffactorau allanol amgylcheddol negyddol) neu sicrhau'r cyfleoedd

mwyaf posibl ar gyfer integreiddio (er enghraifft mewn gweithlu mwy amrywiol). Paratowyd matricesau sy'n dangos y gweithgareddau manwl a gaiff eu cefnogi o dan y Blaenoriaethau a'r Themâu er mwyn cyflawni integreiddiad llorweddol (gweler Atodiadau Ch a D).

Cydraddoldeb Rhywiol a Chyfle Cyfartal

6.58 Yn unol â Rheoliad UE [1083/2006] Erthygl 16, a Rheoliad UE [1081/2006], Erthygl 6, hyrwyddir cydraddoldeb rhywiol a chyfle cyfartal ac amddiffyn pob person rhag gwahaniaethu wrth baratoi, gweithredu, monitro a gwerthuso Rhaglen Weithredol Gydyfeirio ESF.

6.59 Datblygwyd y rhaglen mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a phartion â diddordeb, yn cynnwys y cyrff cydraddoldeb statudol a chynrychioliadol, trwy Grŵp Rhanddeiliaid Allanol a phum grŵp ffrwd gwaith arbenigol yn seiliedig ar bartneriaeth. Mae Cynghorwr Cydraddoldeb WEFO wedi bod yn gynrychiolydd sefydlog i bob un o'r pum grŵp ffrwd gwaith. [Ffrwd Gwaith y Rhaglen Weithredol, Ffrwd Gwaith Rheoli a Gweithredu'r Rhaglen, y Ffrwd Gwaith Gwerthuso a Monitro, y Ffrwd Gwaith Cydweithredu Tiriogaethol a'r Ffrwd Gwaith Llywodraethu a Chydymffurfiaeth]. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod materion cydraddoldeb yn bendant ar yr agenda o'r cychwyn yn hytrach na chael eu hychwanegu yn ddiweddarach. Mae'r Cynghorwr Cydraddoldeb hefyd wedi darparu mewnbyn arbenigol i drafodaethau ar y dangosyddion cydraddoldeb a awgrymwyd ar gyfer y rhaglen newydd.

6.60 Yn ogystal â digwyddiadau a drefnwyd gan bartneriaid, mae WEFO hefyd wedi cynnal pedwar digwyddiad ymgynghori ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac mae pob un o'r rhain wedi cynnwys gweithdy ar integreiddio cydraddoldeb rhywiol a chyfle cyfartal. Dengys yr adborth o'r digwyddiadau hyn a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol fod cefnogaeth eang i gadw ffocws penodol ar gydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth yn y rhaglen ESF newydd [a gynhwyswyd fel rhan o Flaenoriaeth ESF 3] ac integreiddio cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar y rhaglen trwy ei gymhwysu fel thema drawsbynciol.

6.61 Mae'n rhaid i bob gweithrediad a gydariennir gan y Cronfeydd Strwythurol gydymffurfio â pholisi a deddfwriaeth y Gymuned ar gydraddoldeb rhywiol a chyfle cyfartal a, lle y bo hynny'n briodol, gyfrannu atynt. Mae'r Awdurdod Rheoli wedi ymrwymo i sicrhau y caiff cydraddoldeb rhywiol a chyfle cyfartal eu hyrwyddo wrth baratoi, gweithredu, monitro a gwerthuso'r Rhaglen Weithredol. Yn yr un modd, bydd yr Awdurdod Rheoli yn ymdrechu i sicrhau cyfranogiad cytbwys gan ferched a dynion yn y gwaith o reoli a gweithredu'r rhaglen weithredol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Hyrwyddir prif ffrydio rhyw a chydraddoldeb h.y. sicrhau y caiff y persbectif rhywiol ei integreiddio ym mhob cam ochr yn ochr â chymau gweithredu penodol ar gyfer merched a grwpiau eraill. Ystyrir hygyrchedd ar gyfer pobl anabl wrth ddiffinio'r gweithrediadau a gefnogir gan y Cronfeydd ac yng ngwahanol gamau'r broses weithredu.

6.62 Disgwylir i bob prosiect a gefnogir o dan y rhaglen gyfrannu at yr amcanion cyfle cyfartal perthnasol a mabwysiadu dangosyddion perthnasol cyfle

cyfartal a nodir ym Mhennod 4 o ran pob blaenoriaeth. Bydd gweithgareddau penodol i hyrwyddo gweithredu thema Cyfle Cyfartal yn cynnwys:

- Bydd cyngor arbenigol, gan gynnwys asesiadau cyfle cyfartal, ar gael yn gynnar i sicrhau y caiff cyfle cyfartal ei integreiddio mewn cynlluniau prosiect;
- Darperir cyngor arbenigol ar gyfer prosiectau ar faterion yn ymwneud â phrif ffrydio cyfle cyfartal, yn ystod camau cynnar a chamau parhaus yn y broses;
- Canllawiau lefel gweithgaredd ynghyd ag enghreifftiau astudiaethau achos arfer gorau a fydd yn darparu gwybodaeth benodol am sut y gall noddwyr ymdrin â chydaddoldeb rhywiol a chyfle cyfartal yn eu cynlluniau prosiect;
- Targedau cyfle cyfartal wedi'u hintegreiddio mewn blaenoriaethau sy'n ffactor pwysig i annog prosiectau i gyfrannu. Gweler Pennod 4 ar gyfer targedau blaenoriaeth penodol;
- Monitro cynnydd yn rheolaidd, sy'n darparu ar gyfer ymyrryd yn gynnar os oes angen;
- Adroddiadau diweddarau i'r PMRh a rhanddeiliaid eraill;
- Cyfranogiad parhaol y Grŵp Themâu Trawsbynciol allanol; ac
- WEFO yn annog sefydliadau cydraddoldeb allweddol i gymryd rhan yn y gwaith o hyrwyddo rhwydwaith effeithiol o gymorth arbenigol.

Cyrff Talu

Taliadau gan y Comisiwn

6.63 Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael taliadau Cronfeydd Strwythurol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Gwneir taliadau i'r cyfrif banc a enwebwyd a gaiff ei reoli gan Is-adran Cyllid, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd WEFO yn cysylltu â'r Is-adran Cyllid i sicrhau y rhoddir cyfrif cywir am daliadau Cronfeydd Strwythurol o'r Comisiwn Ewropeaidd ac y gellir eu nodi ar wahân.

6.64 Yn fuan ar ôl etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2007 caiff swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a elwir gyda'i gilydd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru). Ar yr adeg hon, bydd Is-adran Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru yn cael taliadau gan y Comisiwn.

Taliadau i Fuddiolwyr

6.65 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn talu'r buddiolwyr (prosiectau) ar ôl derbyn ceisiadau dilys yn unol ag Erthygl 80. Bydd WEFO yn gyfrifol am wneud taliadau i

fuddiolwyr. Bydd Cangen Taliadau WEFO yn gweithio mewn partneriaeth â Swyddogion Datblygu Prosiectau yn yr Is-adran Rheoli Rhaglenni ar faterion monitro prosiectau ond byddant yn gwbl gyfrifol am awdurdodi taliadau, gan sicrhau bod dyletswyddau'r rhai sy'n cymeradwyo a'r rhai sy'n talu yn gwbl ar wahân. Bydd y gangen hefyd ar wahân i'r Awdurdod Ardystio a fydd yn gyfrifol am wneud datganiadau gwariant i'r CE. Mae siart strwythur ar gyfer WEFO ar gael ar wefan WEFO¹⁹⁴.

6.66 Disgwylir i fuddiolwyr gyflwyno ceisiadau yn rheolaidd er mwyn cyflwyno adroddiad ar wariant gwirioneddol a gweithgarwch prosiect. Disgwylir i geisiadau cael eu cyflwyno naill ai'n fisol neu'n chwarterol, er mwyn i brosiectau allu cael eu monitro'n ofalus yn erbyn gweithgarwch cymeradwy. Bydd y broses ceisiadau yn galluogi noddwyr i gyflwyno adroddiad ar gynnydd prosiectau a darparu cynlluniau gwariant diwygiedig a fydd yn hanfodol er mwyn monitro prosiectau a rhaglenni at ddibenion N+2.

6.67 Yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn gwneud cais ar-lein drwy gronfa ddata System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS) WEFO y bwriedir ei chyflwyno yn ystod 2007 a 2008. Bydd y system awtomataidd hon yn gwahodd ceisiadau ac yn eu dilysu cyn eu cyflwyno. Bydd y system hefyd yn sicrhau bod pob maes ar y ffurflen gais wedi'i gwblhau a bydd yn gwneud cyfrifiadau rhifyddol. Bydd hefyd yn nodi ac yn ceisio esboniadau am unrhyw achosion o dorri'r rheolau lle nad yw prosiectau'n cael eu cyflawni fel y cymeradwywyd. Bydd hyn nid yn unig yn gwella ansawdd ceisiadau a gyflwynir, gan arwain at leihad yn y nifer y mae'n rhaid eu dychwelyd, ond bydd hefyd yn sicrhau y caiff prosiectau eu monitro'n agos gan hysbysu WEFO a buddiolwyr o unrhyw broblemau wrth iddynt godi. Bydd ffurflenni cais papur a argraffwyd ymlaen llawn ar gael i'r noddwyr hynny na allant wneud eu trafodion ar-lein. Caiff y rhain eu dilysu yn yr un modd ar yr adeg y cânt eu mewnbynnu i PPIMS gan staff WEFO.

6.68 Caiff y mwyafrif o fuddiolwyr eu talu mewn ôl-daliadau (byddant yn hawlio gwariant a dalwyd yn ystod y mis/chwarter blaenorol), yn erbyn cyfradd ymyrraeth grant safonol a gymeradwywyd ar gyfer y prosiect. Fodd bynnag, er mwyn goresgyn problemau llif arian a wynebir yn aml gan sefydliadau dielw gwirfoddol neu breifat, bydd WEFO yn darparu'r opsiwn o dalu'r sefydliadau hyn ymlaen llaw. Ar ben hynny bydd gan fuddiolwyr yr opsiwn (pan fo hynny'n briodol ym marn WEFO) o hawlio ar sail angen (h.y. y gwahaniaeth rhwng gwariant ac incwm dros unrhyw gyfnod penodol).

6.69 Bydd pob prosiect yn ddarostyngedig i reolau cadw grant (10% fel arfer) yn amodol ar gyflwyno cais terfynol a thystysgrif archwiliad allanol yn foddhaol.

Cymhwyster Gwariant

6.70 Bydd yr Awdurdod Rheoli ar gyfer y Rhaglen Weithredol yn llunio rheolau ar gymhwyster gwariant yn unol ag Erthygl 56(4). Bydd y rheolau hyn yn ystyried y darpariaethau a'r eithriadau fel y'u nodir yn Rheoliad ESF (CE) 1081/2006, Rheoliad Cyffredinol (CE) 1083/2006, Rheoliad Gweithredu (CE) 1828/2006,

¹⁹⁴ Dolen i siartiau sefydliadol: <http://www.wefo.wales.gov.uk/resource/ANNEX%20K%20-%20WAG%20Organogram1820.pdf>

Rheoliad ERDF (CE) 1083/2006, canllawiau a llawlyfrau gweithredol presennol (ac a ddiweddarwyd) a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoli.

6.71 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn am y rheolau cymhwyster cenedlaethol a sefydlwyd ac sy'n gymwys i'r Rhaglen Weithredol erbyn dyddiad cyflwyno'r disgrifiad o'r systemau rheoli a'r adroddiad ar gydymffurfiaeth y systemau fan bellaf, yn unol ag Erthygl 71 o Reoliad (CE) [1083/2006].

Llog A Gynhyrchwyd

6.72 Caiff unrhyw log a gynhyrchir gan daliadau o'r Rhaglen Weithredol hon i gronfeydd fel y'i diffinnir yn Erthygl 44 ei ddefnyddio yn unol â darpariaethau Erthygl 78(7). Er enghraifft, caiff llog a gynhyrchir o daliadau i offerynnau peirianeg ariannol ei ail-fuddsoddi er budd mentrau bach a chanolig eu maint.

6.73 Yn unol ag Erthygl 83, caiff unrhyw log a gynhyrchir gan y broses ragariannu ei drosglwyddo i'r Rhaglen Weithredol dan sylw, a'i ystyried fel adnodd ar gyfer yr Aelod-Wladwriaeth ar ffurf cyfraniad cyhoeddus cenedlaethol, ac fe'i datgenir i'r Comisiwn ar adeg cau'r Rhaglen Weithredol yn derfynol.

Trefniadau Archwilio

6.74 Mae'n ofynnol i noddwyr prosiectau ddarparu tystysgrifau archwilio a wiriwyd yn annibynnol fel rhan o'u proses rheoli prosiect eu hunain ac er mwyn ategu ceisiadau am daliadau i WEFO. Bydd angen darparu'r tystysgrifau hyn bob 12 mis yn ystod oes y prosiect a hefyd ar ddiwedd y prosiect. Cynhelir yr archwiliadau hyn gan archwilydd cymwys allanol i'r sefydliad sy'n gwneud cais am y grant.

6.75 Bydd pob tystysgrif archwilio yn cwmpasu'r cyfnod ers yr archwiliad diwethaf (neu o ddechrau'r prosiect), hyd at ddyddiad y cais diwethaf.

6.76 Ymchwilir i bob mater archwilio a chaiff penderfyniadau eu dogfennu'n llawn. Rhagdybir na chaiff unrhyw symiau sy'n ddarostyngedig i amodau archwilio eu talu hyd nes bod y mater wedi'i ddatrys. Os codir materion archwilio bydd WEFO yn ceisio sicrwydd gan noddwyr ac archwilwyr o ran ceisiadau yn y dyfodol, bod unrhyw symiau nas caniatwyd heb eu cynnwys mewn ceisiadau dilynol. Caiff pob mater archwilio ei gofnodi ar PPIMS fel y gellir nodi materion cyffredin ac ymchwilio iddynt.

6.77 Mae WEFO yn bwriadu comisiynu cwmni/cwmnïau archwilio allanol yn uniongyrchol i archwilio prosiectau ar gyfer Rhaglen 2007-2013. Bydd hyn yn sicrhau gwell rheolaeth a sicrwydd a bydd yn darparu dull gweithredu cyson ar draws pob prosiect a chronfa.

Defnyddio'r Ewro

6.78 Yn unol ag Erthygl 81, caiff datganiadau gwariant ardystiedig, ceisiadau am daliadau a gwariant yn yr adroddiadau blynyddol a therfynol eu nodi mewn ewro. Caiff y symiau sterling eu trosi i'r ewro gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid

gyfrifyddu fisol y Comisiwn yn ystod y mis y cofrestrwyd y gwariant yng nghyfrifon yr Awdurdod Ardystio.

Cymorth Gwladwriaethol

6.79 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol y CE sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus. Yr Aelod-Wladwriaeth, ac yn enwedig yr Awdurdod Rheoli ac Ardystio sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob gweithrediad Cronfeydd Strwythurol yn y rhaglen yn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol.

6.80 Wrth gynllunio ar gyfer y rhaglen newydd, rhoddir ystyriaeth, i ddechrau, i sicrhau bod unrhyw gymorth a ddyfernir yn cael y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Comisiwn Ewropeaidd, naill ai drwy sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â chynllun cymeradwy sy'n bodoli eisoes neu esemptiad bloc neu drwy roi gwybod am y cymorth ar wahân. Wrth ddatblygu Fframweithiau Strategol, bydd angen i'r prif sefydliadau nodi'r gymeradwyaeth berthnasol o ran Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer y gweithgareddau a gynllunnir, gan sicrhau bod asesiad trwyadl o faterion Cymorth Gwladwriaethol yn cael ei gynnal wrth ddechrau datblygu, gan leihau'r perygl o gael problemau wrth eu gweithredu.

6.81 Bydd WEFO, fel yr Awdurdod Rheoli ac Ardystio, yn cydweithio'n agos ag Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac â'r prif sefydliadau i fynd i'r afael â materion Cymorth Gwladwriaethol a nodir mewn perthynas â'r Fframweithiau Strategol, gan sicrhau bod y gymeradwyaeth briodol yn ei lle ar gyfer y gwahanol weithgareddau a gynigir o dan y Fframwaith Strategol. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi sicrwydd cadarn i WEFO y cydymffurfir â'r rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol. Gan adeiladu ar y profiad a gafwyd yn ystod y rhaglen bresennol, bydd WEFO yn sicrhau bod systemau a gweithdrefnau priodol yn cael eu sefydlu i ddelio â materion Cymorth Gwladwriaethol. Bydd y rhain yn cynnwys:

- rhoi canllawiau clir i bartneriaid, ymgeiswyr a staff;
- cymorth a chanllawiau penodol yn ystod camau datblygu prosiectau o dan Fframwaith Strategol;
- methodoleg gadarn ar gyfer asesu Cymorth Gwladwriaethol mewn perthynas â phrosiectau unigol a chynigion a gomisiynir; ac
- gweithdrefnau ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â Chymorth Gwladwriaethol wrth gofnodi a monitro.

6.82 I gydnabod y gwaith cyfredol o ddiwygio'r rheolau Cymorth Gwladwriaethol, bydd WEFO yn cydgysylltu'n agos ag Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael eu cynnwys wrth gyflwyno Rhaglen Weithredol y Cronfeydd Strwythurol, tra'n sicrhau bod yr holl reolau yn cael eu cymhwysu i ategu'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd.

Gweithdrefn ar Gyfer Llifau Ariannol

6.83 Bydd yr Awdurdod Ardystio yn gwneud pob cais am daliad i'r Comisiwn Ewropeaidd. Bydd ceisiadau dros dro a cheisiadau terfynol yn deillio o ddatganiadau o wariant a gyflwynwyd gan fuddiolwyr. Ceir diagram sy'n dangos y llifau ariannol hyn a'r rheolaethau ariannol cysylltiedig yn Atodiad Ff.

6.84 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn cynnal systemau i nodi pob derbynneb gan y Comisiwn a thaliadau unigol i fuddiolwyr. Bydd gweithdrefnau ar waith i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau'r UE ar daliadau prydlon. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod gan y systemau talu a ddefnyddir reolaethau ariannol cadarn. Caiff safonau uniondeb a phriodoldeb sy'n gyson â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer gwariant Llywodraeth y DU eu cymhwyso at y broses o reoli cronfeydd y Gymuned. Fel sy'n ofynnol yn Erthygl 37(1)(g)(iv), sicheir tryloywder yn y broses o symud a dosbarthu llifau ariannol drwy ddiffinio'r gweithdrefnau a ddefnyddir. Mae amlinelliad o lif cronfeydd y Gymuned fel a ganlyn:

- Yr Awdurdod Rheoli yn rhoi mewnbwn i system gweinyddu grantiau WEFO, y System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS), y gwariant ar geisiadau dros dro a ddatganwyd gan y buddiolwyr;
- Yr Awdurdod Ardystio yn cyflwyno ceisiadau am daliadau i'r Comisiwn ar lefel rhaglenni;
- Y Comisiwn yn gwneud taliadau i gyfrif yr Awdurdod Rheoli;
- Yr Awdurdod Rheoli yn ardystio ac yn awdurdodi taliadau i fuddiolwyr ac yn cymryd unrhyw gamau adennill fel y bo angen;
- Yr Awdurdod Rheoli yn gwneud taliadau i fuddiolwyr drwy ei gyfrif BACS; ac
- Phan fydd y Comisiwn Ewropeaidd yn gofyn am ad-daliad, bydd yr Awdurdod Rheoli yn gwneud y taliadau angenrheidiol.

6.85 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw afreoleidd-dra a gwneud cywiriadau ariannol fel y bo'n ofynnol. O fewn dau fis yn dilyn diwedd pob chwarter, bydd yr Awdurdod Rheoli yn hysbysu'r Comisiwn o unrhyw afreoleidd-dra a fu'n destun canfyddiad gweinyddol neu farnwrol sylfaenol, a chan gyfeirio at unrhyw afreoleidd-dra a nodwyd yn flaenorol, unrhyw newidiadau sylweddol.

System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS)

6.86 Mae prosiect Grantiau WEFO yn datblygu ffyrdd newydd o weithio drwy gyfrwng system integredig ar y we i gydymffurfio'n llawn â gofynion

cydymffurfiaeth y Comisiwn, ac i alluogi buddiolwyr i gynnal eu busnes â WEFO yn well.

6.87 Gelwir y system y gellir ei gweithredu ar y we yn PPIMS (System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau). Darperir y swyddogaeth ar-lein drwy gyfrwng Porth y Llywodraeth, a ddefnyddir ar draws y llywodraeth i ddarparu gwasanaethau ar-lein.

6.88 Mae'r system yn cynnig dull syml a diogel o edrych ar ddogfennau allweddol ynghyd â dull o rannu gwybodaeth ar draws holl swyddfeydd WEFO mewn ffordd effeithlon a chost-effeithlon. O fewn PPIMS cedwir yr holl ddata mewn un man sy'n golygu ei bod yn haws edrych ar wybodaeth am bob prosiect drwy'r system hon nag ydyw drwy systemau cyfredol.

6.89 Gall noddwyr eu hunain ryngweithio â WEFO ar-lein ar nifer o gamau yn ystod oes y prosiect. Bydd angen i bob noddwr gofrestru â Phorth y Llywodraeth a chaiff enw defnyddiwr a chyfrinair unigryw i'w defnyddio pan fydd angen mynediad ar-lein arnynt. Bydd noddwyr wedyn yn gallu rhyngweithio â WEFO ar-lein er mwyn gwneud nifer o bethau, er enghraifft:

- llenwi ffurflenni Datganiad o Ddiddordeb;
- llenwi ffurflenni cais sydd wedi'u cwblhau ymlaen llaw;
- edrych ar y Cynllun Busnes diweddaraf ar gyfer eu prosiect;
- cyflwyno dogfennau ategol; ac
- edrych ar unrhyw adroddiadau Erthygl¹⁹⁵ 13 neu 17.

6.90 Ymhlith y manteision i noddwyr prosiect mae:

- y defnydd o ffurflenni/dogfennau safonol ar gyfer pob Rhaglen;
- ffurflen gais ar-lein a fydd yn cynnwys data ymlaen llaw;
- cael eu hysbysu drwy gyfrwng e-bost os bydd unrhyw wybodaeth ar y wefan y bydd angen tynnu eu sylw ati neu y bydd angen iddynt weithredu yn ei chylch;
- cael yr holl wybodaeth am y prosiect mewn un man; ac
- defnydd o Borth y Llywodraeth, sy'n rhoi cryn ddiogelwch; caiff pob noddwr ei wirio yn erbyn 'ffeithiau hysbys' a ddelir gan WEFO.

6.91 Cesglir data monitro ar adeg cyflwyno'r ffurflenni cais sydd wedi'u cwblhau ymlaen llaw. Mae'r data hwn yn faes gorfodol yn y cais. Felly, bydd angen darparu data monitro fel rhan o'r cais er mwyn iddo gael ei dderbyn gan

¹⁹⁵ Yn cyfeirio at y Rheoliad Gweithredu (CE) 1828/2006

PPIMS fel cais dilys. Mae gan yr Awdurdod Rheoli y gallu hefyd i oedi cyn talu'r buddiolwyr hynny nad ydynt wedi darparu data monitro.

6.92 Yn ogystal, bydd WEFO yn gallu cael gafael ar wybodaeth reoli er mwyn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'r Comisiwn yn haws, gyda llwybr archwilio clir wedi'i gynnal mewn un lle. Bydd y prosesau sy'n cael eu cynllunio yn cydymffurfio â gofynion yr UE a chânt eu hategu gan system TG a fydd hefyd yn cydymffurfio â'r un gofynion hyn.

Cyfnewid Data Yn Gyfrifiadurol

6.93 Bydd y Comisiwn yn sefydlu system gyfrifiadurol fel y gellir cyfnewid data yn ddiogel rhwng y Comisiwn a WEFO. Bydd WEFO yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r system gyfrifiadurol honno, ac unrhyw waith ailddatblygu mawr. Defnyddir y system gyfrifiadurol i gyfnewid gwybodaeth am y Rhaglen Weithredol fel y nodir yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn ac yn Erthygl 37(1)(g)(vi).

6.94 Bydd y Comisiwn a WEFO yn sicrhau y cydymffurfir â darpariaethau'r Gymuned a darpariaethau cenedlaethol ar ddiogelu data personol. Bydd unrhyw wybodaeth a gyfnewidir yn gyfrinachol a chaiff ei diogelu yn yr un modd ag y caiff gwybodaeth debyg ei diogelu gan ddeddfwriaeth genedlaethol y Deyrnas Unedig.

6.95 Yn ogystal, ni ellir defnyddio gwybodaeth at unrhyw ddiben ar wahân i'r un y cytunir arno rhwng WEFO a'r Comisiwn, oni bai bod WEFO wedi rhoi ei chaniatâd penodol, ac ar yr amod nad yw'r darpariaethau sydd mewn grym yng Nghymru yn gwahardd defnydd o'r fath.

6.96 Bydd y system gyfrifiadurol yn cynnwys gwybodaeth sydd o ddiddordeb cyffredin i'r Comisiwn a WEFO. Manylir ar gynnwys y system gyfrifiadurol ar gyfer cyfnewid data yn Erthygl 40 o Reoliad Gweithredu (CE) 1828/2006 a chaiff ei drosglwyddo yn y fformat a roddir yn atodiadau'r Rheoliad Gweithredu. Bydd hyn yn hwyluso trafodion ariannol ac yn galluogi gwaith monitro.

6.97 Caiff data a gyfnewidir a thrafodion eu llofnodi'n electronig yn unol ag Erthygl 37(1)(g)(vi) a'r Rheoliad Gweithredu. Bydd y Comisiwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer defnyddio llofnodion electronig.

6.98 Ystyrir bod dogfen wedi'i hanfon i'r Comisiwn unwaith y bydd wedi cael ei llofnodi gan WEFO yn y system gyfrifiadurol. Mae'r Comisiwn yn cydnabod mai'r dyddiad derbyn gan y Comisiwn fydd y dyddiad y bydd WEFO yn anfon y dogfennau.

6.99 Mewn achosion o *force majeure*, yn enwedig methiant y system gyfrifiadurol neu gyswllt parhaus, efallai y bydd WEFO yn anfon gwybodaeth a dogfennau i'r Comisiwn ar ffurf copi caled.

6.100 Bydd y Comisiwn yn darparu'r manylebau technegol ar gyfer cyfnewid data a bydd WEFO yn datblygu ei systemau cyfrifiadurol i fodloni'r manylebau hynny.

6.101 Bydd WEFO yn datblygu ei systemau cyfrifiadurol i gadw'r data sy'n ofynnol er mwyn cynnal archwiliad o'i chyfrifon. Bydd WEFO yn sefydlu systemau cyfrifiadurol dibynadwy ar gyfer cyfrifyddu, monitro a chyflwyno adroddiadau ariannol yn unol ag egwyddorion cyffredinol y systemau rheoli yn Erthygl 58.

6.102 Mae WEFO wedi datblygu system gyfrifiadurol newydd, PPIMS (System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau) a bydd hon yn cynnwys yr holl ddata sy'n ymwneud â'r trafodion ariannol a gwybodaeth fonitro.

6.103 Drwy dynnu data o'r system PPIMS bydd WEFO yn gallu cyfnewid data â'r Comisiwn gan fodloni Erthygl 66(3) ac Erthygl 37(1)(g)(vi). Bydd WEFO yn defnyddio'r Rhaglen We safonol a ddarperir gan y system SFC2007 sydd newydd ei datblygu gan y Comisiwn. Gellir mynd i wefan y Comisiwn drwy'r Rhynggrwyd (<https>) gan ddefnyddio Internet Explorer ac edrych ar y data drwy'r opsiynau a'r sgriniau yn y ddewislen.

Monitro A Gwerthuso

Cynllun Monitro a Gwerthuso

6.104 Caiff y cynlluniau manwl ar gyfer monitro a gwerthuso eu nodi mewn Cynllun Monitro a Gwerthuso, fel y nodir yn Erthygl 48(1). Caiff y cynllun ei gyhoeddi ar wefan WEFO a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Ceir crynodeb o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso ym mharagraffau 6.105 – 6.129, ac yn Atodiad G – Crynodeb o'r cynllun monitro a gwerthuso.

Monitro

6.105 Mae Erthygl 66 yn datgan y bydd yr Awdurdod Rheoli a'r Pwyllgor Monitro yn gwneud y gwaith monitro drwy gyfeirio at y dangosyddion ariannol a'r dangosyddion y cyfeirir atynt yn Erthygl 37(1)(c), ac a nodir yn y Rhaglen Weithredol o dan y Blaenoriaethau (Pennod 4).

6.106 Mae'r Rhaglen Weithredol yn cynnwys dangosyddion olrhain lefel uchel (y cyfeirir atynt hefyd fel dangosyddion cyd-destun) a dangosyddion rhaglen (ar lefel Blaenoriaeth ac wedi'u cyfuno â lefel rhaglen).

6.107 Daw'r dangosyddion olrhain lefel uchel o Ddangosyddion Strwythurol Lisboa sydd ar y rhestr fer a strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymru: Economi yn Ffynnu (gweler Strategaeth - Pennod 3). Fe'u defnyddir i fonitro newidiadau yng nghyd-destun economaidd-gymdeithasol y rhaglen ac fe'u diweddarir lle y bo'n briodol yn yr Adroddiad Gweithredu Blynyddol.

6.108 Mae dangosyddion rhaglenni yn ymwneud ag effeithiau'r ymyriad. Maent yn perthyn i dri chategori: cynnyrch (gweithgarwch); canlyniad; ac effaith, ac fe'u cysylltir â'i gilydd mewn cadwyn resymegol. Pennir y dangosyddion hyn ar lefel Blaenoriaeth ac fe'u dewiswyd yn ofalus i adlewyrchu cwmpas blaenoriaethau unigol, tra'n canolbwyntio ar yr amcanion blaenoriaeth allweddol a'r themâu trawsbynciol. Drwy fonitro yn erbyn y dangosyddion hyn, gellir asesu cynnydd y Rhaglen, gan gynorthwyo felly â'r gwaith o reoli'r Rhaglen. Pennwyd targedau yn

erbyn y dangosyddion lefel Blaenoriaeth lle y gellir pennu targedau ystyrion. Os caiff unrhyw ddangosyddion ESF i'r DU gyfan eu datblygu cyn gweithredu'r Rhaglen Weithredol, neu tra bydd yn cael ei gweithredu, mae WEFO yn ymrwymo i ymgorffori'r dangosyddion hyn yn Rhaglen Weithredol Gyddyfeirio ESF. Mae WEFO yn cynnig asesu priodoledd y targedau ar gyfer cynnyrchion a chanlyniadau ar bwynt yng nghanol gweithredu'r Rhaglen a chynnig newidiadau lle nad yw'r targedau bellach yn rhesymol.

6.109 Bydd yn ofynnol i brosiectau gyflwyno adroddiad yn erbyn yr holl ddangosyddion perthnasol a, lle y bo'n berthnasol, roi gwybodaeth lefel cyfranogwyr sy'n ofynnol o dan Erthygl 66(2) o Reoliad Cyffredinol [1083/2006] ac Atodiad XXIII o Reoliad Gweithredu [1082/2006]. Bydd prosiectau yn cytuno â'r Awdurdod Rheoli ar yr amserlenni ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y data monitro pan fydd y prosiect yn cael ei ddatblygu.

Cyflwyno Adroddiadau

6.110 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn casglu data ar gynnyrch a chanlyniadau yn rheolaidd gan reolwyr prosiect drwy ddefnyddio ei system gweinyddu grantiau, PPIMS, er mwyn rhoi darlun cyfredol o gyflawniadau a ragwelir a chyflawniadau gwirioneddol. Caiff y data hwn ei ddadansoddi'n rheolaidd gan yr Awdurdod Rheoli a chyflwynir adroddiad arno, fel y bo'n briodol, i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Bydd y dadansoddiadau hyn yn ategu'r angen, pe bai'n codi, i gynnal gwerthusiad o dan Erthygl 48(3) - gweler 6.120. Caiff y cynnydd o ran y dangosyddion effaith ei asesu drwy werthusiadau ac fe'i llywir gan y data ar gynnyrch a chanlyniadau.

6.111 Mae Erthygl 9(3) yn pennu targedau ar gyfer gwariant ar gyfer blaenoriaethau penodedig. Mae Atodiad IV, i Reoliad Cyffredinol (CE) [1083/2006], yn cynnwys categorïau o wariant i helpu i sicrhau gwariant tuag at y targedau hynny. Defnyddir y categorïau hyn i gyflwyno adroddiad ar y modd y mae'r rhaglen yn targedu cymorth tuag at flaenoriaethau'r UE o ran creu swyddi, yn cynnwys cyflawni amcanion y *Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi (2005 i 2008)*.

6.112 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau bod adroddiadau ar gael i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni er mwyn iddo allu bodloni ei hun ynghylch effeithiolrwydd ac ansawdd y broses o roi'r Rhaglen Weithredol gyfan ar waith.

Adroddiadau Gweithredu Blynyddol

6.113 Yn unol ag Erthygl 67, bydd yr Awdurdod Rheoli yn anfon Adroddiad Gweithredu Blynyddol yn electronig i'r Comisiwn o fewn chwe mis i ddiwedd pob blwyddyn galendr lawn o weithredu. Caiff yr Adroddiad ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i is-bwyllgorau lle y bo'n briodol; yn unol ag Erthygl 65(d). Disgwylir yr adroddiad cyntaf erbyn 30 Mehefin 2008.

6.114 Mae'r Adroddiad Gweithredu Blynyddol yn hanfodol er mwyn adolygu cynnydd y Rhaglen. Yn unol ag Erthygl 67 bydd yn cynnwys manylion ynghylch:

- y cynnydd wrth roi'r Rhaglen Weithredol a'i Blaenoriaethau ar waith ynghyd â meintoliad o'r dangosyddion y cyfeirir atynt yn Erthygl 37(1)(c) ar lefel Blaenoriaeth;
- y broses o roi'r Rhaglen Weithredol ar waith o safbwynt ariannol, ynghyd â'r manylion canlynol ar gyfer pob Blaenoriaeth:
 - y gwariant a dalwyd gan y buddiolwyr a gynhwyswyd mewn ceisiadau am daliadau a anfonwyd i'r Awdurdod Rheoli a chyfraniad cyfatebol y cyhoedd;
 - cyfanswm y taliadau a dderbyniwyd gan y Comisiwn a meintoliad o'r dangosyddion ariannol y cyfeirir atynt yn Erthygl 66(2);
 - y gwariant a dalwyd gan y corff sy'n gyfrifol am wneud taliadau i'r buddiolwyr;
- er gwybodaeth yn unig, y dadansoddiad dangosol o'r dyraniad o Gronfeydd fesul categori, yn unol â'r rheolau gweithredu a fabwysiadwyd gan y Comisiwn y cyfeirir atynt yn Erthygl 103(3);
- y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod Rheoli a'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni i sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd y broses weithredu. Mae hyn yn cynnwys monitro a gwerthuso, a threfniadau i gasglu data, manylion unrhyw broblemau mawr a gafwyd wrth roi'r Rhaglen Weithredol ar waith a'r camau a gymerwyd mewn ymateb a'r defnydd a wnaed o Gymorth Technegol;
- y mesurau a gymerwyd i roi gwybodaeth am y Rhaglen Weithredol ac i roi cyhoeddusrwydd iddi;
- manylion unrhyw broblemau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfraith y Gymuned a gafwyd wrth roi'r Rhaglen Weithredol ar waith a'r mesurau a gymerwyd i ddelio â hwy;
- gwybodaeth am y cyfraniad at y fenter Rhanbarthau dros Newid Economaidd;
- y defnydd a wnaed o Gymorth Technegol;
- y defnydd a wnaed o gymorth a roddwyd yn dilyn y cywiriadau ariannol a oedd yn ofynnol mewn cysylltiad ag achosion unigol o afreoleidd-dra neu afreoleidd-dra systemig wrth roi'r Rhaglen ar waith, yn unol ag Erthygl 98(2); ac
- achosion lle y canfuwyd addasiad sylweddol o dan Erthygl 57.

Adolygiad Blynyddol

6.115 Ar ôl derbyn Adroddiad Gweithredu Blynyddol fel y nodir uchod, bydd y Comisiwn a'r Awdurdod Rheoli yn archwilio'r cynnydd a wnaed wrth roi'r Rhaglen

Weithredol ar waith gan gynnwys y prif ganlyniadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, gweithrediad ariannol, ac unrhyw faterion eraill.

6.116 Efallai y bydd y Comisiwn am roi sylwadau ar y broses o roi'r Rhaglen ar waith i'r Awdurdod Rheoli, a fydd yn hysbysu'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i is-bwyllgorau o'r sylwadau lle y bo'n briodol, ac yn rhoi ymateb a fydd yn cynnwys y camau a gymerir mewn ymateb.

Adroddiad Gweithredu Terfynol

6.117 Caiff Adroddiad Gweithredu Terfynol, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 67(1), ei gyflwyno i'r Comisiwn erbyn 31 Mawrth 2017. Mae'r un cynnwys a gweithdrefn (yr Awdurdod Rheoli yn cyflwyno'r adroddiad i'r Comisiwn ar ôl i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ei ystyried a'i gymeradwyo) yn berthnasol i'r adroddiad terfynol hwn ag sy'n berthnasol i'r Adroddiadau Gweithredu Blynyddol. Fodd bynnag, ar gyfer yr Adroddiad Gweithredu Terfynol ar Raglen Weithredol, y terfyn amser fydd uchafswm o bum mis i'r dyddiad y derbyniwyd adroddiad derbyniol. Os na fydd y Comisiwn yn ymateb o fewn y terfyn amser, tybir nad yw'r adroddiad wedi'i dderbyn.

Gwerthuso

6.118 Mae tri maes allweddol ar gyfer gwerthuso'r Rhaglen Weithredol, sef: lefel Rhaglen; fframwaith strategol; a lefel prosiect.

Gwerthusiad ar lefel Rhaglenni

6.119 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau (Erthyglau 47 a 48) y caiff gwerthusiadau o'r Rhaglen Weithredol eu cynnal drwy gyfres o 'werthusiadau parhaus', gan ymateb i anghenion polisi a rhaglennu. Bydd y gwerthusiadau hyn yn gysylltiedig â gwaith monitro rhaglenni, yn enwedig lle y bydd y gwaith monitro hwnnw'n datgelu gwriad sylweddol oddi wrth y nodau cychwynnol. Cynhelir gwerthusiad hefyd lle y bwriedir newid cynllun rhaglen yn sylweddol neu lle y mae unrhyw newidiadau amlwg yn yr amgylchedd allanol.

6.120 Bydd gwerthusiadau ar lefel raglenni yn ystyried y materion canlynol: Perthnasedd; Effeithiolrwydd; Effeithlonrwydd; Defnyddioldeb; Cynaliadwyedd; a Synergedd. Yn unol ag Erthygl 48(3) caiff canlyniadau'r gwerthusiadau hyn eu hanfon i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'r Comisiwn. Mae Atodiad G yn cynnwys crynodeb o'r gwerthusiadau dangosol ar lefel Rhaglenni.

6.121 Cynhaliwyd y Rhagwerthusiadau (Erthygl 48) ar gyfer y Rhaglenni Cydgyfeirio (ERDF ac ESF) i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu yn y ffordd orau bosibl ac i sicrhau ansawdd cynlluniau ar gyfer gweithredu'r rhaglen. Proses ryngweithiol ydoedd, gyda'r ymgynghorwyr (a benodwyd yn unol â gofynion caffael y sector cyhoeddus) yn rhoi sylwadau ar ddrafftiau cynnar o ddogfennau'r rhaglen a diwygiadau'n cael eu gwneud yn sgîl y sylwadau hyn.

6.122 Caiff yr Ôl-werthusiad, Erthygl 49(3), ei gynnal gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn cydweithrediad agos â'r Awdurdod Rheoli.

Gwerthusiad ar Lefel Fframwaith Strategol a Lefel Prosiectau

6.123 Caiff y gweithgarwch gwerthuso ar lefel rhaglenni ei ategu gan werthusiad ar lefel Fframwaith Strategol a lefel prosiectau. Mae cyflwyno adroddiadau yn erbyn y dangosyddion monitro yn rhan o'r gwaith o asesu cynnydd ac effaith prosiectau. Am y rheswm hwn, bydd yn ofynnol i holl noddwyr prosiectau gynnal neu gomisiynu gwerthusiadau o'u prosiectau. Bydd graddau'r gweithgarwch gwerthuso yn gymesur â maint neu risg y prosiect a chytunir arno gyda'r prosiect yn ystod y cam datblygu. Tybir bod costau sy'n gysylltiedig â chynnal y gwerthusiad yn gostau cymwys. Bydd yn ofynnol i'r holl noddwyr prosiect y dyfarnir grant o £2 filiwn neu fwy iddynt (ESF neu ERDF) ar gyfer un prosiect a phob prosiect sy'n ymwneud â gweithredu camau arloesol, fel y'u diffinnir yn Erthygl 6 o Reoliad (CE) 1081/2006, sicrhau bod eu prosiectau'n cael eu gwerthuso'n allanol gan gontractwyr annibynnol.

6.124 Bydd gwerthuso effeithiolrwydd strategaethau Fframwaith Strategol yn hanfodol i lywio unrhyw adolygiadau fframwaith a wneir yn ystod cyfnod y rhaglen.

6.125 O ganlyniad i'r gofynion ychwanegol hyn, datblygir canllawiau i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gwerthuso a dewis dulliau gwerthuso priodol yn ystod cam datblygu'r prosiect. Drwy gydol y cyfnod rhaglennu bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau bod ansawdd sampl o werthusiadau ar lefel prosiectau yn cael ei asesu er mwyn sicrhau bod gwerthusiadau o ansawdd cadarn addas.

Rheoli Dulliau Monitro a Gwerthuso

6.126 Cynhelir gwerthusiadau allanol gan arbenigwyr neu gyrrff, rhai mewnol (er enghraifft Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol, yr Is-adran Cyngor Economaidd neu'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol) neu allanol, sy'n annibynnol ar yr Awdurdodau Rheoli, Ardystio ac Archwilio.

6.127 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn bennaf gyfrifol am fonitro a gwerthuso ar lefel rhaglenni ac am sicrhau y rhoddir cyngor a chanllawiau ar fonitro a gwerthuso Fframweithiau Strategol a phrosiectau.

6.128 Cynhelir y gwerthusiadau mewn partneriaeth felly caiff y gwaith ei oruchwylio gan Grŵp Cynghori ar Werthusiadau (gweler 6.32 – 6.33 – Gwerthusiad o'r Rhaglen Weithredol).

6.129 Caiff y Cynllun Monitro a Gwerthuso ei gyflwyno i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni er mwyn iddynt ei ystyried. Caiff adroddiadau terfynol ar yr holl waith ymchwil a wnaed ac a gomisiynwyd i fodloni gofynion y cynllun eu cyflwyno i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i is-bwyllgorau lle y bo'n briodol, ac i'r Comisiwn.

Cyhoeddusrwydd a Gwybodaeth

6.130 Bydd mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd i'w cymryd gan yr Aelod-Wladwriaethau a'r Awdurdodau Rheoli ynglŷn â chymorth gan y Cronfeydd

Strwythurol yn cydymffurfio â darpariaethau Erthygl 69 ac unrhyw reolau a fabwysiadwyd oddi tani, a Phennod II o'r Rheoliadau Gweithredu.

6.131 Mae'r Rheoliadau Gweithredu yn cyflwyno methodoleg a dull gweithredu cyffredin i'r sawl sy'n gyfrifol am gymryd mesurau gwybodaeth a chyhoedduswydd, sy'n ystyried sefyllfa benodol pob Aelod-Wladwriaeth. Bydd yr Awdurdod Rheoli sy'n gyfrifol am roi'r rhaglen ar waith yn gyfrifol am gyhoedduswydd yn y fan a'r lle. Cynhelir ymgyrchoedd cyhoedduswydd ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd, a gaiff ei hysbysu o'r mesurau a gymerir at y diben hwn.

6.132 Caiff y mesurau gwybodaeth a chyhoedduswydd a roddir ar waith eu cyflwyno ar ffurf strwythuredig ('Cynllun Cyfathrebu'), a byddant yn nodi'n glir y nodau cyffredinol a'r grwpiau targed; rhaglen o weithgarwch gwybodaeth a chyhoedduswydd; cyllideb ddangosol a dulliau cyflwyno; y cyfrifoldeb am ddarparu'r gweithgaredd a ffyrdd y caiff y gweithgarwch ei fonitro a'i werthuso. Cyhoeddir y Cynllun Cyfathrebu ar wefan yr Awdurdod Rheoli (WEFO) ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd asesu'r Cynllun. Cyflwynir y Cynllun Cyfathrebu i'r Comisiwn er mwyn iddo ei ystyried o fewn pedwar mis i fabwysiadu'r Rhaglen Weithredol.

6.133 Bydd gweithgarwch cyfathrebu yn egluro'r cyfleoedd ariannu a gynigir gan y Rhaglen Weithredol, a bydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r modd y byddant yn sicrhau manteision a gwerth ychwanegol i Orllewin Cymru a'r Cymoedd, a rôl yr UE yn y broses datblygu rhanbarthol yng Nghymru. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau tryloywder yn y cymorth a ddarperir gan y cronfeydd yn ei weithgarwch cyfathrebu.

6.134 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau bod canllawiau cyhoedduswydd digonol ar gael ar gyfer noddwyr prosiectau a bod noddwyr prosiectau yn bodloni'r gofynion a roddir arnynt gan Reolau'r Comisiwn (Erthygl 69(1) a'r Rheoliadau Gweithredu) i roi cyhoedduswydd i'r arian a dderbynnir gan y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol.

6.135 Caiff y symiau a neilltuir i gefnogi gwaith yr Awdurdod Rheoli i ledaenu gwybodaeth, cyhoedduswydd a dulliau cyfathrebu o ran gwybodaeth a chyhoedduswydd eu nodi yn y Flaenoriaeth Cymorth Technegol.

6.136 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn penodi un neu fwy o bobl i fod yn gyfrifol am weithredu mesurau gwybodaeth a chyhoedduswydd, a bydd yn hysbysu'r Comisiwn o'r rhai a gaiff eu penodi.

Pennod 7: Dyraniadau Ariannol

Cyflwyniad

7.1 Mae'r adran hon yn esbonio sut y dyrennir adnoddau i weithredu'r strategaeth a'r Blaenoriaethau a nodir ym Mhennod 4. Yn ogystal â darparu'r rhesymeg dros ddyraniadau ariannol lefel blaenoriaeth a chyfraddau ymyrryd arfaethedig, mae hefyd yn cynnwys y tablau ariannol manwl sydd eu hangen o dan Erthygl 37(e) o Reoliad Cyffredinol UE [1083/2006]. Mae'r tablau hyn yn darparu dadansoddiad o gyfanswm y dyraniad ariannol yn ôl y flwyddyn a dadansoddiad o gyfraniad y Gymuned a'r cyfraniad cenedlaethol yn ôl y Flaenoriaeth.

Ariannu Rhaglenni

7.2 Bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn derbyn cyfanswm o €2.08 biliwn o gyllid gan y Gymuned Ewropeaidd i hyrwyddo rhaglenni Cydgyfeirio gwerth dros €4.19 biliwn. Bydd rhaglen Gydgyfeirio ESF yn derbyn €833 miliwn o gyllid gan y Gymuned Ewropeaidd (40% o'r cyfanswm). Pan gyfunir y cyllid hwn â chyllid cyhoeddus a phreifat cenedlaethol, bydd y rhaglen yn darparu €1.50 biliwn i hybu twf a swyddi yn ystod y cyfnod 2007-2013.

7.3 Mae'r dadansoddiad sy'n sail i'r rhaglenni Cydgyfeirio yn cyfeirio at ddwy her allweddol sy'n wynebu Gorllewin Cymru a'r Cymoedd; cynyddu nifer y bobl mewn gwaith a chynyddu allbwn cyfartalog neu werth ychwanegol fesul swydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn mae angen buddsoddiad sylweddol yn sgiliau a swyddi pobl y rhanbarth i hyrwyddo datblygu economi gref yn seiliedig ar wybodaeth a meithrin twf economaidd cynaliadwy. Yn erbyn y cefndir hwn nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod yn bwriadu adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma trwy Amcan 1 trwy gynyddu'r gyfran o holl adnoddau'r Cronfeydd Strwythurol sydd wedi'u cyfeirio tuag at ymyriadau yn ymwneud â phobl a ariennir gan ESF o 35% i 40%. Cafodd y cynnig gefnogaeth eang gan bartneriaid ar draws pob sector yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y rhaglenni newydd.

7.4 Mae adroddiad cynnydd blynyddol y Comisiwn i Gyngor Ewropeaidd Gwanwyn 2007 ar *Weithredu Strategaeth Lisboa ar gyfer Twf a Swyddi* yn pwysleisio ymhellach pa mor bwysig yw buddsoddi mewn sgiliau a darparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pawb. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod cryn gynnydd yn cael ei wneud yn y DU ond mae'n pwysleisio bod angen cymryd camau pellach i integreiddio grwpiau sy'n agored i niwed yn y farchnad lafur, gan gynnwys y rhai sy'n hawlio budd-dal analluogrwydd, pobl anabl, rhai grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd ethnig, pobl hŷn a'r bobl hynny o ardaloedd o amddifadedd mawr. Mae hefyd yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng gwella sgiliau'r gweithlu a chynyddu cynhyrchiant. Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, mae'r Cyngor Ewropeaidd yn mabwysiadu argymhelliad i'r DU ym mis Mawrth 2007 fel rhan o'i adolygiad o'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r *Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol* ar gyfer twf a swyddi. Argymhellodd y Cyngor y dylai'r DU "gynyddu sgiliau sylfaenol a chanolradd, er mwyn cynyddu cynhyrchiant, a gwella ymhellach ragolygon ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig".

Ariannu Blaenoriaethau

7.5 Mae'r *Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi* yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio gwariant ar feysydd a fydd yn hyrwyddo economi gystadleuol sy'n seiliedig ar wybodaeth. Yn erbyn y cefndir hwn, mae *Canllawiau Strategol y Gymuned* yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio adnoddau yn thematig ac yn ddaearyddol ar y buddsoddiadau sy'n hanfodol ar gyfer cynyddu cystadleurwydd hirdymor, creu swyddi a datblygu cynaliadwy. Wrth benderfynu sut orau i ddyrannu adnoddau i hyrwyddo Blaenoriaethau Cydgyfeirio ESF ystyriwyd amrywiaeth o faterion. Ymhlith y rhain mae:

- sut orau y gall y Cronfeydd Strwythurol gyfrannu at fynd i'r afael â'r blaenoriaethau mewn ffyrdd sy'n ychwanegu gwerth at strategaethau a chamau gweithredu cyfredol;
- y gofyniad i 'glustnodi' adnoddau yn erbyn blaenoriaethau sy'n hyrwyddo strategaeth Lisboa. Mae polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu economaidd fel y'u nodir yn *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn cydfynd yn agos ag agenda Lisboa. Mae'r polisiau hyn yn galw am gynnydd mewn adnoddau mewn meysydd megis sgiliau a chyflogaeth. Bydd 94% o adnoddau ESF o dan y Rhaglen hon yn cyfrannu at dargedau clustnodi Lisboa;
- gwersi a ddysgwyd o'r profiad o effeithiolrwydd Rhaglen Amcan 1 2000 - 2006, gan gynnwys yr angen am strwythurau rhaglenni a threfniadau gweithredu symlach i hwyluso prosesau cyflawni mwy "cydgysylltiedig";
- yr ymatebion o'r ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y rhaglen ddrafft;
- y gallu i ddefnyddio adnoddau sydd ar gael o fewn yr amserlen N+2 sy'n ofynnol o dan y rheoliadau;
- argaeledd arian cyfatebol;
- gofynion cymorth gwladwriaethol; ac
- y rhyngwyneb â rhaglenni Ewropeaidd eraill megis Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF).

Blaenoriaeth 1

7.6 Mae'r Flaenoriaeth hon yn ceisio sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen, gan gynnwys sgiliau lefel uwch, i drosglwyddo'n llwyddiannus i gyflogaeth. Dengys y dadansoddiad yn y Rhaglen fod lefelau cyrhaeddiad yn gwella ond mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dal i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer Dwyrain Cymru a Chymru yn gyffredinol. Mae gan y rhanbarth gyfran lai o bobl ifanc sy'n ennill TGAU graddau A*-G neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol ynghyd â lefelau cyrhaeddiad lefel U/UA is. Mae cyfran y bobl ifanc 19-21 oed heb unrhyw gymwysterau ffurfiol yn uwch ac mae cyfran y bobl ifanc 19-21 oed sydd â sgiliau lefel uwch yn is na chyfartaledd y DU. Amcangyfrifwyd mai 13% oedd canran y bobl ifanc 16-18 oed a oedd wedi'u dosbarthu fel rhai nad oeddynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) yn 2003-2004 a'r nod yw lleihau'r ganran honno i 7% erbyn 2010. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r

Rhaglen yn cyflwyno Blaenoriaeth ar wahân sy'n canolbwyntio'n benodol ar anghenion pobl ifanc. Pobl ifanc 11 i 19 blwydd oed sydd mewn perygl o dangyflawni yw'r grŵp targed. Dyma'r tro cyntaf i'r cyfryw Flaenoriaeth gael ei chyflwyno, er bod agweddau ar yr agenda hon wedi'u datblygu trwy amrywiaeth o gamau gweithredu o dan raglen Amcan 1. Mae'r Rhaglen yn bwriadu dyrannu tua 20% o'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â materion tangyflawni a chodi dyheadau trwy ychwanegu gwerth at bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys Llwybrau Dysgu 14-19 ac Ymgeisio'n Uwch.

Blaenoriaeth 2

7.7 Mae'r Flaenoriaeth hon yn ceisio codi lefelau cyflogaeth, yn arbennig trwy leihau lefelau anweithgarwch economaidd. Er bod sefyllfa'r farchnad lafur wedi gwella gryn dipyn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, lle y mae lefelau cyflogaeth wedi codi a lefelau diweithdra wedi gostwng, mae lefelau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn y rhanbarth yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd y DU. Wrth i lefelau diweithdra raddol ostwng bu ffocws cryfach ar y rhai sy'n wynebu anfanteision penodol yn y farchnad lafur. Nodweddir y boblogaeth economaidd anweithgar gan lefelau uwch o iechyd gwael a phroffil sgiliau anffafriol. Bydd y Rhaglen yn dyrannu tua 34% o'r adnoddau sydd ar gael i helpu pobl i mewn i gyflogaeth gynaliadwy a lleihau'r risg y bydd rhai grwpiau (e.e. pobl â phroblemau yn ymwneud ag iechyd, neu unigolion sydd wedi derbyn rhybudd diswyddo ffurfiol) yn symud o waith i mewn i ddiweithdra ac anweithgarwch hirdymor. Bydd y pwyslais ar ddarparu mwy o gymorth i helpu grwpiau o fewn y boblogaeth economaidd anweithgar. Er bod hyn yn cynrychioli gostyngiad mewn cyllid ar gyfer mesurau marchnad lafur gweithredol o gymharu â champau gweithredu cyfatebol, fwy neu lai, o dan raglen gyfredol Amcan 1, gwrthbwysir hyn i raddau helaeth gan y penderfyniad i gyflwyno'r flaenoriaeth newydd ar gyfer pobl ifanc (Blaenoriaeth 1).

Blaenoriaeth 3

7.8 Mae'r Flaenoriaeth hon yn ceisio gwella sgiliau ar bob lefel, ond mae'n rhoi pwyslais penodol ar godi'r sylfaen sgiliau. Er bod y sefyllfa yn graddol wella, mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd broffil sgiliau anffafriol o hyd, ac mae cyfran gymharol fawr o unigolion yn y rhanbarth heb unrhyw gymwysterau ffurfiol. Mae tystiolaeth hefyd o fylchau sgiliau ar lefelau sylfaenol a chanolradd. Mae'r Flaenoriaeth hon yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth Gydgyfeirio yn gyffredinol a dyma fydd yr un fwyaf o ran cyllid, am y bydd yn defnyddio tua 40% o'r cyllid sydd ar gael. Cyfeirir tua 60% o'r cyllid hwn tuag at wella lefelau sgiliau hyd at ac yn cynnwys Lefel 3. Bydd y Flaenoriaeth hefyd yn hyrwyddo darparu'r sgiliau lefel uwch sydd eu hangen i hyrwyddo'r economi wybodaeth a helpu busnesau a gweithwyr i ymaddasu i amgylchiadau economaidd sy'n newid. Yn olaf bydd y Flaenoriaeth yn canolbwyntio ar hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth. Er y bydd lefel y cyllid ar gyfer ymyriadau yn ymwneud â rhyw ychydig yn llai o gymharu â rhaglen gyfredol Amcan 1, canolbwyntir ar ymyriadau wedi'u targedu'n fwy penodol sy'n ceisio mynd i'r afael ag arwahanu yn y farchnad lafur. Unwaith eto, gwrthbwysir hyn trwy godi lefelau sgiliau pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol â'r lefelau cyrhaeddiad isaf o dan Flaenoriaeth 1.

Blaenoriaeth 4

7.9 Bydd y Flaenoriaeth hon yn helpu i foderneiddio a gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus trwy fuddsoddiadau wedi'u targedu i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer a'u bod yn hyblyg, yn integredig, yn effeithlon ac yn uchelgeisiol. Mae perfformiad gwasanaethau braidd yn anghyson ar hyn o bryd ac mae'n rhy dameidiog. Mae'r Flaenoriaeth hon yn cydnabod bod gwasanaethau cyhoeddus yn ffactor economaidd pwysig, am fod ganddynt gyllideb gaffael sy'n cynrychioli 11% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru. Mae'r rhaid i'r gwaith o wella perfformiad gwasanaethau cyhoeddus fynd law yn llaw ag ymdrechion i drawsnewid economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Fel sy'n briodol ariennir y cyfrifoldeb am raglenni gwella gwasanaethau prif ffrwd trwy raglenni prif ffrwd y llywodraeth. Bydd y Flaenoriaeth hon yn defnyddio ychydig o fan 4% o holl gyllid ESF ac fe'i defnyddir i hyrwyddo buddsoddiadau wedi'u targedu i ddarparu'r sail ar gyfer trawsnewid y modd y darperir gwasanaethau trwy gydweithredu mwy effeithiol ar draws y gwasanaeth cyhoeddus a chodi lefelau sgiliau mewn meysydd hollbwysig. Bydd yn gwneud cyfraniad bach ond pwysig at y rhaglen ddiwygio gyffredinol a nodir yn *Creu'r Cysylltiadau*.

Cyfraddau ymyrryd

7.10 64.36% yw'r gyfradd ymyrryd gyfartalog a gynigiwyd ar gyfer y Rhaglen ac mae'r cyfraddau ymyrryd ar gyfer Blaenoriaethau unigol yn amrywio rhwng 55.24% a 65.80%. Mae'r cyfraddau hyn yn seiliedig yn bennaf ar ein profiad hanesyddol o raglen gyfredol Amcan 1 ac maent yn ystyried ffactorau megis terfynau cymorth gwladwriaethol ac argaeledd arian cyfatebol. Dim ond yn unol â'r amodau a nodir yn Rheoliad UE [1083/2006] Erthygl 52 y câ'r cyfraddau hyn eu diwygio.

Cyfradd Ad-dalu

7.11 Yn unol ag Erthygl 53(1) o Reoliad UE [1083/2006], cyfrifir y cyfraniad gan ESF gan gyfeirio at gyfanswm y gwariant cymwys gan gynnwys gwariant cyhoeddus a phreifat.

Tabl 33 – Rhaglen Gydyfeirio ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2007-2013

Cyfeirnod y Rhaglen Weithredu (Rhif CCI): 2007UK051PO002

Echelau blaenoriaeth yn ôl y ffynhonnell gyllido (mewn ewros)

					Er gwybodaeth				
	Cyllid y Gymuned	Cyllid Cenedlaethol Cyfatebol	Dadansoddiad dangosol o'r cyllid cenedlaethol cyfatebol		Cyfanswm y Cyllid	Cyfradd Gydygylido	Cyfraniadau EIB	Cyllid Arall	
	(a)	(b) = (c) + (ch)	Cyllid Cyhoeddus Cenedlaethol (c)	Cyllid Preifat Cenedlaethol (ch)	(d) = (a) + (ch)	(dd) = (a) / (d)			
B1	Blaenoriaeth 1 - Rhoi i bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer dysgu a chyfogaeth yn y dyfodol	€123,929,806	€65,491,185	€59,521,998	€5,969,187	€189,420,991	65.43%	0	0
B2	Blaenoriaeth 2 Cynyddu cyfogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd	€327,810,932	€187,024,438	€151,890,972	€35,133,466	€514,835,370	63.67%	0	0
B3	Blaenoriaeth 3 Gwella lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu	€331,858,760	€172,473,892	€131,221,844	€41,252,048	€504,332,652	65.80%	0	0
B4	Blaenoriaeth 4 – Gwella gwasanaethau cyhoeddus – Creu'r Cysylltiadau	€32,985,962	€22,740,417	€22,680,319	€60,098	€55,726,379	59.19%	0	0
B5	Cymorth technegol	€17,000,000	€13,776,151	€13,776,151	€0	€30,776,151	55.24%		
	CYFANSWM	€833,585,460	€461,506,083	€379,091,284	€82,414,799	€1,295,091,543	64.36%	€ 0.000	€ 0.000

TABL 34 - Rhaglen Gydyfeirio ESF Gorllewin Cymru A'r Cymoedd 2007-2013*Cyfeirnod y Rhaglen Weithredu (Rhif CCI): 2007UK051PO002*

Blwyddyn yn ôl y ffynhonnell ar gyfer y rhaglen (mewn miliynau o ewros)

	Cyllid y Gymuned
2007	112,127,211
2008	114,369,755
2009	116,657,150
2010	118,990,293
2011	121,370,099
2012	123,797,501
2013	126,273,451
Cyfanswm Terfynol 2007-2013	833,585,460

Tabl 35 – Dyraniadau dangosol yn ôl y categori o ymyrraeth¹⁹⁶

Tabl 1 CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN THEMÂU BLAENORIAETH		
Cod	Disgrifiad	Cyfanswm y Gymuned
62	Datblygu systemau a strategaethau dysgu gydol oes mewn cwmnïau; hyfforddiant a gwasanaethau i gyflogeion ...	149,136,527
64	Datblygu gwasanaethau arbennig ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant a chymorth mewn cysylltiad ag ailstrwythuro sectorau ...	26,548,701
66	Gweithredu mesurau gweithredol ac ataliol ar y farchnad lafur	215,238,994
67	Mesurau yn hyrwyddo heneiddio gweithgar ac yn ymestyn bywydau gwaith	14,340,546
69	Mesurau i wella mynediad i gyflogaeth a chynyddu cyfranogiad cynaliadwy a chynnydd merched ...	16,592,938
70	Camau gweithredu penodol i gynyddu cyfranogiad ymfudwyr mewn cyflogaeth ...	6,637,175
71	Llwybrau i integreiddio mewn cyflogaeth ac ail-gymryd â chyflogaeth ar gyfer pobl ddifreintiedig ...	114,724,373
72	Cynllunio, cyflwyno a gweithredu diwygiadau mewn systemau addysg a hyfforddiant ...	115,950,651
73	Mesurau i gynyddu cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant drwy gydol y cylch oes ...	107,436,825
74	Datblygu potensial dynol ym maes ymchwil ac arloesi, yn arbennig trwy astudiaethau ôl-raddedig ...	16,992,768
81	Systemau i wella prosesau llunio, monitro a gwerthuso polisïau a rhaglenni da ...	32,985,962
85	Paratoi, gweithredu, monitro ac archwilio	8,500,000
86	Gwerthuso ac astudiaethau; gwybodaeth a chyfathrebu	8,500,000
Cyfanswm		833,585,460
Tabl 2 CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN MATH O GYLLID		
01	Cymorth nad yw'n ad-daladwy	833,585,460
Cyfanswm		833,585,460
Tabl 3 CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN TIRIOGAETHOL		
00	Ddim yn berthnasol	833,585,460
Cyfanswm		833,585,460
Tabl 4 CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN GWEITHGARWCH ECONOMAIDD		
00	Ddim yn berthnasol	833,585,460
Cyfanswm		833,585,460
Tabl 5 CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN LLEOLIAD		
UK11	GORLLEWIN CYMRU A'R CYMOEDD	

¹⁹⁶ Mae'r categorïau hyn o wariant yn rhai dangosol ac maent er gwybodaeth yn unig

Ar gyfer ymholiadau cysylltwch â WEFO ar:

Rhif Ffôn: 0845 010 3355

WEFO Cangen Polisi
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

<http://www.wefo.cymru.gov.uk>

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.